

# Cofnod y Trafodion

## The Record of Proceedings

### 09/12/2015

Cynnwys Contents

[1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol](#)

[1. Questions to the Minister for Natural Resources](#)

[2. Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi](#)

[2. Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty](#)

[3. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21\(iv\): Y Celfyddydau ac Addysg](#)

[3. Debate by Individual Members under Standing Order 11.21\(iv\): Arts and Education](#)

[4. Dadl Plaid Cymru: S4C](#)

[4. Plaid Cymru Debate: S4C](#)

[5. Dadl Plaid Cymru: Ardoll ar Ddiodydd Llawn Siwgr](#)

[5. Plaid Cymru Debate: A Sugary Drinks Levy](#)

[6. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Addysg mewn Ysgolion](#)

[6. Welsh Liberal Democrats Debate: Education in Schools](#)

[7. Cyfnod Pleidleisio](#)

[7. Voting Time](#)

[8. Dadl Fer: Cynllun Dychwelyd Blaendal ar gyfer Cynwysyddion Diodydd: Mae'n Amser i Ystyried y Syniad Hwn Unwaith Eto](#)

[8. Short Debate: A Deposit-return Scheme for Drinks Containers: An Idea Whose Time Has Come...Again](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## 1. Questions to the Minister for Natural Resources

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The first item this afternoon are questions to the Minister for Natural Resources. Question 1 is to be answered by the Deputy Minister. I'm sorry, I'm on the next set of questions already. Question 1 is Angela Burns.

Yr eitem gyntaf y prynhawn yma yw cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol. Mae cwestiwn 1 i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog. Mae'n ddrwg gennyf, rwyf ar y gyfres nesaf o gwestiynau yn barod. Daw cwestiwn 1 gan Angela Burns.

## Cyfreithiau Cynllunio (Gorllewin Cymru)

## Planning Laws (West Wales)

13:30 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith cyfreithiau cynllunio ar faterion amaethyddol yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0388(NR)*

*1. Will the Minister make a statement on the effect of planning laws on agricultural matters in west Wales? OAQ(4)0388(NR)*

13:31 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*  
I thank the Member for her question today. The agricultural sector benefits from special consideration under the planning system, which includes a specific permitted development right.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn heddiw. Mae'r sector amaethyddol yn manteisio ar ystyriaeth arbennig o dan y system gynllunio, sy'n cynnwys hawliau datblygu penodol a ganiateir.

13:31 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Thank you for that, Minister. My concern is with the incremental development of farms that grow over time, to the point where they can be classified as superfarms. I have no problem with superfarms, and I have written to you on this issue, and I'm grateful for your reply. However, the people who live in the vicinity of these superfarms actually have pretty miserable lives, with enormous equipment going up and down small, narrow lanes, and the problems with the seed, the birds, and all the rest of it. In your reply, you said that, as long as superfarms are operating within parameters of their planning approval, and planning conditions, set out to mitigate the farm's impact, then there's nothing that can be done.

Diolch i chi, Weiniadog. Mae fy ngwestiwn yn ymwneud â datblygiad cynyddol ffermydd sy'n tyfu dros amser, hyd at y pwynt lle y gellir eu dynodi'n uwchfermydd. Nid oes gennyf broblem gydag uwchfermydd, ac rwyf wedi ysgrifennu atoch ar y mater hwn, ac rwy'n ddiolchgar am eich ateb. Fodd bynnag, mae bywydau'r bobl sy'n byw yng nghyffiniau'r uwchfermydd hyn yn ddigon diflas, gyda pheiriannau mawr yn mynd ar hyd hewlydd bychan, cul a'r problemau gyda'r hadau, yr adar, ac yn y blaen. Yn eich ateb, fe ddywedoch nad oes unrhyw beth y gellir ei wneud cyn belled â bod yr uwchfermydd yn gweithredu o fewn paramedrau eu cymeradwyaeth gynllunio a'u hamodau cynllunio, a osodir er mwyn lliniaru effaith y fferm.

My point is that, because these farms have grown incrementally over time, there are no planning conditions set, and so the farmers enjoy the ability to have what is, essentially, an industrial effort, in a very, very closed-in, agricultural area, and the people in the surrounding villages—and I'm talking about, really, the whole area around the Alltynap Road in Carmarthen—are suffering. And this is also true of people in Ludchurch; it's all over Wales, I'm sure. And I wondered, Minister, whether you would take another look at this area.

Fy mhwynt i yw nad oes unrhyw amodau cynllunio wedi'u gosod gan fod y ffermydd hyn wedi tyfu'n gynyddol dros amser, felly mae'r ffermydd yn gallu ffermio ar lefel ddiwydiannol, i bob pwrpas, mewn ardal amaethyddol gaeedig iawn ac mae'r bobl yn y pentrefi cyfagos—ac rwy'n siarad, mewn gwirionedd, am yr holl ardal o gwmpas Heol Alltynap yng Nghaerfyrddin—yn dioddef. Ac mae hyn hefyd yn wir am bobl Ludchurch; mae'n wir ledled Cymru, rwy'n siŵr. A meddyliais tybed, Weiniadog, a fydddech yn edrych eto ar hyn.

13:32 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Indeed. I'm grateful for the Member's question. I think I will look at it in more detail in regards to the application she makes reference to. I think our policy objectives that we issue—the guidance and the technical advice notes, and 'Planning Policy Wales'—do provide enough detail, in general, for development consideration, but the add-on effects are clearly having an impact on the Member's constituency. Of course, there are always the enforcement issues for local authorities to consider, but I will give that some further thought, as the Member has raised it again today.

Yn wir. Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am ei chwestiwn. Rwy'n credu yr edrychaf arno'n fwy manwl mewn perthynas â'r cais y cyfeiria ato. Credaf fod yr amcanion polisi a gyhoeddir gennym—y canllawiau a'r nodiadau cyngor technegol, a 'Polisi Cynllunio Cymru'—yn darparu digon o fanylion, yn gyffredinol, ar gyfer ystyriaethau datblygu, ond mae'r effeithiau ychwanegol yn amlwg yn effeithio ar etholaeth yr Aelod. Wrth gwrs, mae yna bob amser bethau'n ymwneud â gorfodaeth i awdurdodau lleol eu hystyried, ond byddaf yn ystyried y mater hwn ymhellach, gan fod yr Aelod wedi ei grybwyll eto heddiw.

## Y Sector Ffermio

## The Farming Sector

13:33 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*2. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella mynediad i wybodaeth gan y sector ffermio yng Nghymru? OAQ(4)0384(NR)*

*2. What plans does the Welsh Government have to improve access to information by the farming sector in Wales? OAQ(4)0384(NR)*

- 13:33 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food*
- The use of online technologies by farmers is a cornerstone of a modern and professional industry. Rural Payments Wales Online makes customer access to information and correspondence readily available. Going forward, we plan to increasingly publish key statutory and scheme information through this route, and via Gwlad online.
- Mae defnydd ffermwyr o dechnolegau ar-lein yn un o hanfodion diwydiant modern a phroffesiynol. Mae Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein yn sicrhau bod mynediad cwsmeriaid at wybodaeth a gohebiaeth ar gael yn rhwydd. Wrth symud ymlaen, bwriadwn gyhoeddi mwy a mwy o wybodaeth statudol allweddol a gwybodaeth am gynlluniau yn y modd hwn, a thrwy Gwlad ar-lein.
- 13:33 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that reply, Minister. 'Gwlad' magazine plays an important role in informing farmers of important news relating to the industry, including revelatory changes. The Welsh Government has decided that, from April 2016, 'Gwlad' magazine will only be available online. Given the poor availability of broadband in rural areas in Wales, this will hinder farmers accessing important information. Will the Minister listen to representation from the Farmers Union of Wales, and ensure 'Gwlad' magazine remains available in hard copies here in Wales? Thank you.
- Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Mae cylchgrawn 'Gwlad' yn chwarae rhan bwysig yn rhoi gwybod i ffermwyr am newyddion pwysig sy'n ymwneud â'r diwydiant, gan gynnwys dadlennu newidiadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu y bydd cylchgrawn 'Gwlad' ar gael ar-lein yn unig o fis Ebrill 2016 ymlaen. O ystyried diffyg argaeledd band eang mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru, bydd hyn yn rhwystro ffermwyr rhag dod o hyd i wybodaeth bwysig. A wnaiff y Gweinidog wrando ar sylwadau gan Undeb Amaethwyr Cymru, a sicrhau y bydd cylchgrawn 'Gwlad' yn parhau i fod ar gael ar ffurf copi caled yma yng Nghymru? Diolch.
- 13:34 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that question. You referred to the issue of broadband availability in rural Wales, but, at the moment, already, almost 80 per cent of homes and businesses in rural Wales have access to fast broadband. This certainly puts us well ahead of the European Union average, and ahead of countries such as France and Italy, for example. But we have to appreciate that communicating and doing business online is fast becoming the norm for the Welsh farming industry. Seventy-two per cent of the single application forms were submitted online in 2015, and this reduced farmer error and allowed us to pay more than half of all farmers in the first week as well. And farming is a professional business. We have a modernisation agenda, and it's difficult to imagine a modern industry of any sort that doesn't embrace online information and communication.
- Diolch am eich cwestiwn. Fe gyfeirioch at argaeledd band eang yn ardaloedd gwledig Cymru, ond ar hyn o bryd, mae gan bron i 80 y cant o gartrefi a busnesau yng nghefn gwlad Cymru fynediad at fand eang cyflym eisoes. Mae hyn yn sicr yn ein rhoi ymhell ar y blaen i gyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd, ac ar y blaen i wledydd fel Ffrainc a'r Eidal, er enghraifft. Ond mae'n rhaid i ni dderbyn bod cyfathrebu a chynnal busnes ar-lein yn prysur ddod yn norm yn niwydiant ffermio Cymru. Cyflwynwyd 72 y cant o'r ffurflenni cais sengl ar-lein yn 2015, ac mae hyn wedi lleihau nifer y camgymeriadau gan ffermwyr a hefyd wedi caniatáu i ni dalu dros hanner yr holl ffermwyr yn yr wythnos gyntaf. Ac mae ffermio yn fusnes proffesiynol. Mae gennym agenda ar gyfer moderneiddio, ac mae'n anodd dychmygu diwydiant modern o unrhyw fath nad wy'n croesawu darparu gwybodaeth a chyfathrebu ar-lein.
- 13:35 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you've already alluded to the fact that farming has to move into the modern industry and you've already said a lot about the online resources. But are you able to tell me about any other ways in which the Welsh Government is helping the farming industry to move into the modern era?
- Weinidog, rydych eisoes wedi cyfeirio at y ffaith fod yn rhaid i ffermio symud tuag at y diwydiant modern ac rydych eisoes wedi dweud llawer am yr adnoddau ar-lein. Ond a allwch ddweud wrthyf am unrhyw ffyrdd eraill y mae Llywodraeth Cymru yn helpu'r diwydiant ffermio i symud ymlaen i'r cyfnod modern?
- 13:35 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank you for that question. We've been working very closely and in partnership with the farming industry to deliver what I think are some real game-changing initiatives, such as the strategic framework for agriculture, Farming Connect, RPW Online and EID Cymru as well. All of these initiatives are designed to modernise and professionalise the industry and to encourage the greater use of online resources in what is an increasingly global marketplace.
- Diolch i chi am eich cwestiwn. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos iawn ac mewn partneriaeth â'r diwydiant ffermio i gyflwyno cynlluniau arloesol iawn, yn fy marn i, megis y fframwaith strategol ar gyfer amaethyddiaeth, Cyswllt Ffermio, Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein ac EID Cymru hefyd. Mae pob un o'r cynlluniau hyn wedi'u cynllunio i foderneiddio a phroffesiynoli'r diwydiant ac i annog mwy o ddefnydd o adnoddau ar-lein mewn marchnad sy'n gynyddol fyd-eang.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

- 13:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to questions from the party spokespeople, and first this afternoon is the Plaid Cymru spokesperson, Llyr Gruffydd.
- Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau, ac yn gyntaf y prynhawn yma, mae llefarydd Plaid Cymru, Llyr Gruffydd.
- 13:36 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch, Lywydd. Minister, some people are now saying that the Welsh Government's target of a 40 per cent reduction in emissions by 2020 is, and I quote, 'almost impossible'. Now, during your visit to Paris this week, many of us were reassured when you said that you're confident that we can still meet that target. So, could you confirm, therefore, that you are still committed to that target?
- Diolch, Lywydd. Weinidog, mae rhai pobl yn dweud bod targed Llywodraeth Cymru o ostyngiad o 40 y cant mewn allyriadau erbyn 2020—ac rwy'n dyfynnu—'bron yn amhosibl'. Nawr, yn ystod eich ymweliad â Pharis yr wythnos hon, tawelwyd meddyliau llawer ohonom pan ddywedoch eich bod yn hyderus y gallwn gyrraedd y targed hwnnw o hyd. Felly, a allwch gadarnhau, felly, eich bod yn dal i fod yn ymrwymedig i'r targed hwnnw?
- 13:36 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes.
- Ydw.
- 13:36 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I thank you for that straight answer. But, unfortunately, Minister, your actions don't match your words, because when Plaid Cymru put forward an amendment to include that particular target as one of the interim targets in the Environment (Wales) Bill, you argued against and your party members voted against. Now, the Bill already includes targets for 2030 and 2040, and given your confidence that the 2020 target can be achieved, will you now commit to supporting it as an interim target at Stage 3 in the Bill?
- Wel, diolch am ateb ar ei ben. Ond yn anffodus, Weinidog, nid yw eich gweithredoedd yn cyd-fynd â'ch geiriau, oherwydd pan gyflwynodd Plaid Cymru welliant i gynnwys y targed penodol hwnnw fel un o dargedau interim Bil yr Amgylchedd (Cymru), fe ddadleuoch yn ei erbyn a phleidleisiodd aelodau eich plaid yn ei erbyn. Nawr, mae'r Bil eisoes yn cynnwys targedau ar gyfer 2030 a 2040, ac o ystyried eich hyder y gellir cyrraedd y targed ar gyfer 2020, a fyddwch yn awr yn ymrwymo i'w gefnogi fel targed interim Cyfnod 3 yn y Bil?
- 13:36 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, it's unfortunate the Member still hasn't got his Christmas spirit yet, but I will try my best to encourage him. We are very committed to the figures that we've published in and around the environment Bill. We will not be seeking to support the amendment made by the Member, but it doesn't detract in any way from our commitment to tackle the issues of climate change.
- Wel, mae'n anffodus nad yw'r Aelod yn teimlo ysbryd y Nadolig eto, ond gwnaif fy ngorau i'w annog. Rydym yn ymrwymedig iawn i'r ffigurau a gyhoeddwyd gennym ym Mil yr amgylchedd ac mewn perthynas ag ef. Ni fwriadwn gefnogi'r gwelliant a wnaed gan yr Aelod, ond nid yw hynny'n lleihau ein hymrwymiad i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd mewn unrhyw fodd.
- 13:37 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I'm tempted to say 'bah humbug', Minister, but there we are. We all know that we need a six-fold increase in the improvement in emissions performance over the next seven years compared to the last 20 years. Now, that requires transformational change in the way that we reduce carbon emissions. So, could you tell us what transformational action, therefore, you are proposing as a Government in order to meet those obligations?
- Mae'n demtasiwn dweud 'bah humbug', Weinidog, ond dyna ni. Gwyr pawb yma ein bod angen i'r cynnydd yn y gwelliant ym mherfformiad allyriadau fod chwe gwaith yn fwy dros y saith mlynedd nesaf o gymharu â'r 20 mlynedd diwethaf. Nawr, mae hynny'n gofyn am newid trawsnewidiol yn y ffordd yr awn ati i leihau allyriadau carbon. Felly, a allwch ddweud wrthym pa gamau trawsnewidiol rydych yn eu cynnig fel Llywodraeth er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau hynny?

13:37

**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for the question and it's a very serious one the Member raises. I was in Paris for the last week and we have been talking about international agreements and other issues around states and regions and the issues that they can bring to the table to make clear changes. We are leading the way in terms of our objectives in our legislation. We are introducing carbon budgeting for this Government, a first, we believe, in terms of legislating, certainly in the UK. We have the green growth strategy, where we've just invested £10 million in pipeline projects for bringing forward the market for green growth. There is around £9 trillion-worth of economic green growth across the world. Wales can be a part of that and we recognise that some mitigation and adaptation along the journey to 2020, and 2050 for the 80 per cent target, are things that we need to do, and we're working very closely with all sectors to develop that programme.

Diolch am eich cwestiwn, ac mae'r Aelod yn gofyn cwestiwn difrifol iawn. Roeddwn ym Mharis dros yr wythnos ddiwethaf, ac fe fuom yn siarad am gytundebau rhyngwladol a materion eraill ynglŷn â gwladwriaethau a rhanbarthau a'r pethau y gallant eu cyflwyno er mwyn gwneud newidiadau clir. Rydym yn arwain y ffordd gydag amcanion ein deddfwriaeth. Rydym yn cyflwyno cyllidebu carbon ar gyfer y Llywodraeth hon, yr enghraifft gyntaf o hyn, rydym yn credu, o ran deddfu, yn sicr yn y DU. Mae gennym y strategaeth twf gwyrdd lle rydym newydd fuddsoddi £10 miliwn mewn prosiectau piblinell er mwyn hybu'r farchnad ar gyfer twf gwyrdd. Ceir gwerth tua £9 triliwn o dwf gwyrdd economaidd ledled y byd. Gall Cymru fod yn rhan o hynny, ac rydym yn cydnabod bod peth lliniaru ac addasu ar hyd y daith at 2020, a 2050 ar gyfer y targed o 80 y cant, yn bethau sydd angen i ni eu gwneud, ac rydym yn gweithio'n agos iawn gyda phob sector i ddatblygu'r rhaglen honno.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the Welsh Liberal Democrats spokesperson, William Powell.

Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, William Powell.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

**William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd. Deputy Minister, there are few sectors that are more vulnerable to climate change than agriculture. In the coming years, Wales is predicted to experience warmer winters and summers with an increase in winter rainfall but a decrease, crucially, in spring and summer rainfall, with a potentially serious impact on harvests. And these weather events are key: the unprecedented levels of rain caused by storm Desmond that have fallen in the last few days causing flooding across large swathes of mid and north Wales and, indeed, the Royal Welsh Winter Fair as some of us experienced at first hand. In recent weeks, we've also been reminded of the unprecedented sheep mortality in Montgomeryshire in the spring of 2013. With numerous other market pressures making survival increasingly difficult for our farmers, Deputy Minister, do you agree with me that the Welsh Government must be more proactive in supporting farmers through these extreme changing weather patterns? Specifically, what can the rural development plan do to serve supporting farmers to become more resilient to the effects of climate change?

Diolch, Lywydd. Ddirprwy Weinidog, ni cheir llawer o sectorau sy'n fwy agored i newid yn yr hinsawdd nag amaethyddiaeth. Yn y blynyddoedd a ddaw, rhagwelir y bydd gaeafau a hafau cynhesach yng Nghymru, gyda rhagor o law yn y gaeaf, ond yn allweddol, llai o law yn ystod y gwanwyn a'r haf, a allai gael effaith ddifrifol ar y cynaeafau. Ac mae'r digwyddiadau tywydd hyn yn allweddol: y lefelau digynsail o law yn sgil storm Desmond a ddisgynnodd yn ystod y dyddiau diwethaf, gan achosi llifogydd ar draws rhannau helaeth o ganolbarth a gogledd Cymru, ac yn wir, yn Ffair Aeaf Frenhinol Cymru fel y gwelodd rhai ohonom â'n llygaid ein hunain. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, cawsom ein hatgoffa hefyd o'r marwolaethau defaid yn Sir Drefaldwyn yng ngwanwyn 2013 na welwyd mo'u tebyg o'r blaen. Gyda'r nifer o ffactorau eraill sy'n creu pwysau ar y farchnad yn ei gwneud hi'n gynyddol anodd i'n ffermwyr oroesi, Ddirprwy Weinidog, a ydych yn cytuno bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gefnogi ffermwyr yn fwy rhagweithiol drwy'r newidiadau eithafol hyn ym mhattrwm y tywydd? Yn benodol, beth all y cynllun datblygu gwledig ei wneud i gynorthwyo ffermwyr i ddod i allu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd yn well?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:39

**Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that question. One of the key priority action areas within the RDP is promoting resource efficiency and supporting the shift towards a low-carbon and climate resilient economy in the agriculture, food and forestry sectors. So, that's very much front and centre in terms of what we're trying to achieve through the RDP. Through that, we've tried to integrate climate action, supporting our agriculture industry to develop more profitable farming systems and to diversify, thereby taking advantage of the opportunities that are available in terms of on-farm renewable energy.

Diolch am eich cwestiwn. Un o'r prif feysydd gweithredu allweddol yn y Cynllun Datblygu Gwledig yw hybu defnydd effeithlon o adnoddau a chefnogi'r newid tuag at economi carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd yn y sectorau amaeth, bwyd a choedwigaeth. Felly, mae hynny'n un o'r prif bethau rydym yn ceisio'u cyflawni drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig. Drwyddo, rydym wedi ceisio integreiddio camau gweithredu ar newid yn yr hinsawdd, a chefnogi ein diwydiant amaethyddol i ddatblygu systemau ffermio mwy proffidiol ac i arallgyfeirio, gan fanteisio drwy hynny ar y cyfleoedd sydd ar gael o ran ynni adnewyddadwy ar y fferm.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The sustainable production grant, for example, is particularly well suited for that, and there are many opportunities under that to apply for funding, for example, for small-scale wind turbines, solar panels, heat pumps, solar water heating, anaerobic digestion equipment and so on, and I'd be happy to write to the Member with a full list of the opportunities that are under the sustainable production grant for the farming industry in Wales.

Mae'r grant cynhyrchu cynaliadwy, er enghraifft, yn arbennig o addas ar gyfer hynny, ac yn cynnig llawer o gyfleoedd i wneud cais am arian, er enghraifft, ar gyfer tyrbinau gwynt ar raddfa fach, paneli solar, pypmiau gwres, gwresogi dŵr drwy ynni solar, offer treulio anaerobig ac yn y blaen, a byddwn yn hapus i ysgrifennu at yr Aelod gyda rhestr gyflawn o'r cyfleoedd sydd ar gael drwy'r grant cynhyrchu cynaliadwy ar gyfer y diwydiant ffermio yng Nghymru.

13:40 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Minister, for that response. As you understand, agriculture is uniquely well placed to play a role in mitigating the effects of climate change, notably flooding, as I referred to earlier, and the scheme that you mentioned is, obviously, key. Cranfield University has recently revealed the potential benefits of upland planting in terms of avoidance of flood risk and the Pontbren scheme in my own region of Mid and West Wales is a particularly good example of what can be achieved. What more can the Welsh Government do, through the RDP or other mechanisms, to mainstream the good practice and the potential benefits of schemes such as Pontbren?

Diolch am eich ymateb, Ddirprwy Weinidog. Fel y gwyddoch, mae amaethyddiaeth mewn sefyllfa unigryw i chwarae rôl yn lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd, yn enwedig llifogydd fel y nodais yn gynharach, ac mae'n amlwg fod y cynllun a grybwyllwyd gennych yn allweddol. Yn ddiweddar, mae Prifysgol Cranfield wedi datgelu manteision posibl plannu ar yr ucheldir er mwyn osgoi perygl llifogydd ac mae cynllun Pontbren yn fy rhanbarth i, Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn enghraifft arbennig o dda o'r hyn y gellir ei gyflawni. Beth arall y gall Llywodraeth Cymru ei wneud, drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig neu fecanweithiau eraill, i brif ffrydio arferion da a manteision posibl cynlluniau fel cynllun Pontbren?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:41 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that question. You're absolutely right in saying that the uplands particularly play a huge role in terms of the agriculture industry as a whole in Wales, but particularly in terms of holding water up in the hills, as that has a knock-on beneficial effect then in terms of protecting our lowland farmers. So, we have to see the whole of the farming industry as a complete supply chain, if you like, in ecological and environmental terms as well.

Diolch am eich cwestiwn. Rydych yn hollol gywir i ddweud bod yr ucheldir yn chwarae rhan enfawr o ran y diwydiant amaethyddol yn ei gyfanrwydd yng Nghymru, ond yn enwedig o ran cadw dŵr yn y bryniau, am fod i hynny sgil-effeithiau buddiol ar gyfer diogelu ein ffermwyr llawr gwlad. Felly, mae'n rhaid i ni edrych ar yr holl ddiwydiant ffermio fel cadwyn gyflenwi gyflawn, os mynnwch chi, mewn termau ecolegol ac amgylcheddol hefyd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Schemes such as the Pumlumon project, which has been funded by the Welsh Government, is a perfect example in terms of peatland management and holding water in peatland and the benefits that that offers to farms further down the hill, if you like. So, there are plenty of examples of good work that we are doing under the nature fund. Again, there'll be further opportunities for that through the RDP in future.

Mae cynlluniau fel prosiect Pumlumon, a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru, yn enghraifft berffaith o ran rheoli mawndiroedd a chadw dŵr mewn mawndiroedd, a manteision hynny i ffermydd ymhellach i lawr y bryn, os mynnwch. Felly, mae digon o enghreifftiau o'r gwaith da rydym yn ei wneud drwy'r gronfa natur. Unwaith eto, bydd cyfleoedd pellach i wneud hynny drwy'r CDG yn y dyfodol.

13:42 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, again, Deputy Minister, for enumerating those opportunities. If uniquely placed to help to mitigate the effects of climate change, agriculture is also, I would argue, uniquely well placed to help to tackle it directly, particularly in terms of reduction of emissions levels produced from current farming practices. A recent report, commissioned by the International Fund for Agricultural Development—IFAD—showed that, with the right investment, particularly smallholder farmers, can play a key role in helping to deal with climate change. Given the significant number of smaller farms that exist here in Wales, there appears to me to be real opportunity for us to make progress in that area. What more can the Welsh Government undertake, particularly to aid our smaller and medium-sized farms, to address climate change as well as to mitigate its effects?

Diolch i chi unwaith eto, Ddirprwy Weinidog, am restru'r cyfleoedd hynny. Os yw amaethyddiaeth mewn sefyllfa unigryw i helpu i lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd, byddwn yn dadlau ei bod hefyd mewn sefyllfa unigryw i helpu i wrthsefyll newid hinsawdd yn uniongyrchol, yn enwedig o ran lleihau allyriadau o arferion ffermio presennol. Dangosodd adroddiad diweddar, a gomisiynwyd gan y Gronfa Ryngwladol ar gyfer Datblygu Amaethyddol—IFAD—y gall ffermwyr tyddynnod yn enwedig, gyda'r buddsoddiad cywir, chwarae rhan allweddol yn helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. O ystyried y nifer sylweddol o ffermydd llai eu maint yma yng Nghymru, mae'n ymddangos i mi fod cyfle go iawn i ni wneud cynnydd yn hynny o beth. Beth arall y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gynorthwyo ein ffermydd llai a chanolig eu maint, yn enwedig, i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd yn ogystal â lliniaru ei effeithiau?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

**Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. You're right to say that we must address climate change on farms because, actually, as well as being well placed to help us meet our emissions targets and so on, agriculture is a serious contributor to those emissions in the first place, so the two things do very much go hand in hand. This is why, under our new RDP scheme, and particularly the sustainable production grant, we've been keen to ensure that, for example, where there is an uncapped slurry pit, then capping the slurry pit is part of that particular project. When that's not a feasible or possible opportunity on the farm, then farmers have to demonstrate other ways in which they would be enabling the Welsh Government to start working towards meeting those environmental climate change targets. Climate change, and addressing and mitigating it, is all very much at the centre of the package of support that we're offering through the rural development programme.

Diolch. Rydych yn iawn i ddweud bod yn rhaid i ni fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ar ffermydd gan fod amaethyddiaeth, mewn gwirionedd, yn ogystal â bod mewn sefyllfa dda i'n helpu i gyrraedd ein targedau allyriadau ac yn y blaen, yn cyfrannu'n helaeth i'r allyriadau hynny yn y lle cyntaf, felly mae'r ddau beth yn mynd law yn llaw. Dyma pam, o dan ein cynllun CDG newydd, ac yn enwedig y grant cynhyrchu cynaliadwy, ein bod yn awyddus i sicrhau, er enghraifft, pan fo pwll slyri heb ei gapio, fod capio'r pwll slyri yn rhan o'r prosiect penodol hwnnw. Pan nad yw hynny'n ymarferol neu'n bosibl ar y fferm, mae'n rhaid i ffermwyr ddangos ffyrdd eraill y byddent yn galluogi i Lywodraeth Cymru ddechrau gweithio tuag at gyrraedd y targedau amgylcheddol hynny ar newid yn yr hinsawdd. Mae newid yn yr hinsawdd, a'i wrthsefyll a'i liniaru yn ganolog i'r pecyn cymorth rydym yn ei gynnig drwy'r rhaglen datblygu gwledig.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

And we now move to the Welsh Conservative spokesperson, Russell George.

Symudwn yn awr at lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Russell George.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

**Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. Deputy Minister, yesterday, your Welsh Government announced yet another blow to Welsh farmers and food producers by announcing a further £3.7 million revenue cut to the agriculture and food budget. This follows last year's cut of 18 per cent to the agriculture and food budget—the largest of any other Government department. That is a decision taken here. At a time when farmers in Wales are already exposed to the market changes, you should be working to extend greater support to those in the Welsh agriculture sector and not taking resources away from them. Isn't this yet another example of agriculture missing out as a result of you not having a seat at the Cabinet table?

Diolch i chi, Lywydd. Ddirprwy Weinidog, cyhoeddodd eich Llywodraeth ergyd arall ddoe i ffermwyr a chynhyrchwyr bwyd Cymru drwy gyhoeddi toriad refeniw pellach o £3.7 miliwn i'r gyllideb amaethyddiaeth a bwyd. Daw hyn yn sgil toriad o 18 y cant y llynedd i'r gyllideb amaethyddiaeth a bwyd—y fwyaf ymhlith holl adrannau'r Llywodraeth. Dyna benderfyniad a wnaed yma. Mewn cyfnod pan fo ffermwyr Cymru eisoes yn agored i'r newidiadau yn y farchnad, dylech fod yn gweithio i estyn rhagor o gymorth i'r rheini yn sector amaethyddiaeth Cymru yn hytrach na chymryd adnoddau oddi wrthynt. Onid yw hon yn enghraifft arall o amaethyddiaeth ar ei cholled am nad oes gennych sedd wrth fwrdd y Cabinet?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

**Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Government invests heavily in the agricultural industry through specific projects such as EIDCymru, Rural Payments Wales online—which is working extremely well for Welsh farmers as compared to other models elsewhere—and, of course, we have £400 million of Welsh Government funding in the rural development programme. So, I think that it's ridiculous to suggest that the Welsh Government isn't investing in the agriculture industry in Wales as we're doing so through specific projects. We're investing heavily, for example, in the skills and knowledge and innovation in Welsh farming as well, through Farming Connect, which is a major offer that we have under the RDP for farming. So, if your Government wants to give the Welsh Government a fairer, larger slice of the cake, then we will apportion it appropriately.

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi'n sylweddol yn y diwydiant amaethyddol drwy brosiectau penodol megis EIDCymru, Taliadau Gwledig Cymru ar-lein—sy'n gweithio'n arbennig o dda i ffermwyr Cymru o gymharu â modelau eraill mewn mannau eraill—ac wrth gwrs, mae gennym £400 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru yn y rhaglen datblygu gwledig. Felly, credaf ei bod yn hurt awgrymu nad yw Llywodraeth Cymru yn buddsoddi yn y diwydiant amaethyddol yng Nghymru gan ein bod yn gwneud hynny drwy brosiectau penodol. Rydym yn buddsoddi'n sylweddol, er enghraifft, mewn sgiliau, gwybodaeth ac arloesi yn y byd ffermio yng Nghymru drwy Cyswllt Ffermio hefyd, sy'n gynnig pwysig sydd gennym o dan y Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer ffermio. Felly, os yw eich Llywodraeth yn awyddus i roi darn tecach, a mwy o faint o'r gacen i Lywodraeth Cymru, yna byddwn yn ei ddosrannu'n briodol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:45	<b>Russell George</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Well, of course, the UK Government could do that but it's your decision on where that money falls in each department, Minister. Last year, this department—your department—had the largest cut of any other department at all. I would like to turn to your decision to commission an independent review on the important animal welfare issues of wild animals in circuses. I'm pleased that you appear to be taking limited action following proposals from the Welsh Conservatives—[Interruption.]	Wel, wrth gwrs, gallai Llywodraeth y DU wneud hynny, ond eich penderfyniad chi yw lle y bydd yr arian hwnnw'n mynd ym mhob adran, Weinidog. Y llynedd, yr adran hon—eich adran chi—a welodd y toriad mwyaf o unrhyw adran. Hoffwn droi at eich penderfyniad i gomisiynu adolygiad annibynnol ar y materion pwysig sy'n ymwneud â lles anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau. Rwy'n falch eich bod i weld yn cymryd camau cyfyngedig yn dilyn cynigion gan y Ceidwadwyr Cymreig—[Torri ar draws.]	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:46	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	I'm sorry, I'm struggling to hear what Russell George is saying. Will you give the questioner some peace, please?	Mae'n ddrwg gennyf, rwy'n ei chael hi'n anodd clywed beth mae Russell George yn ei ddweud. A wnewch chi roi rhywfaint o dawelwch i'r holwr, os gwelwch yn dda?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:46	<b>Russell George</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Thank you, Presiding Officer. Our position on wild animals in circuses is clear: we would seek an immediate ban on the practice as soon as possible. Can I ask you, will you commit to using the powers at your disposal to implement this ban immediately?	Diolch, Lywydd. Mae ein safbwynt ar anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yn glir: rydym yn dymuno gwahardd yr arfer cyn gynted ag y bo modd. A gaf fi ofyn i chi, a wnewch chi ymrwymo i ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael i chi i weithredu'r gwaharddiad hwn ar unwaith?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:46	<b>Rebecca Evans</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Well, I thank you for that question. As a responsible Government, we have to make legislation that is evidence based, and we need the evidence to underpin any proposals that might come forward. You'll be aware of course of the Radford report of 2006, which suggested that there weren't serious animal welfare implications in the use of wild animals in circuses. So, since 2006, we know that 17 countries have moved on to ban the use of wild animals in circuses, so we're looking at the evidence base that underpins that legislation, particularly within the European Community. I'm struggling to hear, Presiding Officer.	Wel, diolch i chi am y cwestiwn. Fel Llywodraeth gyfrifol, mae'n rhaid i ni lunio deddfwriaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac mae angen i'r dystiolaeth fod yn sail i unrhyw gynigion a allai ddod gerbron. Fe fyddwch yn gwybod, wrth gwrs, am adroddiad Radford yn 2006, a awgrymai nad oedd goblygiadau difrifol i les anifeiliaid yn y defnydd o anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau. Felly, ers 2006, gwyddom fod 17 o wledydd wedi gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau, felly rydym yn edrych ar y dystiolaeth sy'n sail i'r ddeddfwriaeth honno, yn enwedig o fewn y Gymuned Ewropeaidd. Rwy'n ei chael yn anodd clywed, Lywydd.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:47	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	You're struggling to hear? Thank you, I thought it was just me. Please, will you stop having this banter across the Chamber, from the back bench, Nick Ramsay, to the front bench, Carl Sargeant? [Assembly Members: 'Hear, hear'].	Rydych chi'n ei chael yn anodd clywed? Diolch, roeddwn i'n meddwl mai fi oedd yr unig un. Os gwelwch yn dda, a wnewch chi roi'r gorau i'r cellwair ar draws y Siambr, o'r fainc gefn, Nick Ramsay, i'r fainc flaen, Carl Sargeant? [Aelodau'r Cynulliad: 'Clywch, clywch'].	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:47	<b>Rebecca Evans</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Thank you. I look forward to your support—	Diolch. Edrychaf ymlaen at eich cefnogaeth—	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:47	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	And Andrew R.T. Davies.	Ac Andrew R.T. Davies.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:47	<b>Rebecca Evans</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	[Continues.]—for the Welsh Government's proposals, because we do see no place for wild animals in circuses. So, actually, I think we are on the same page on this one.	[Yn parhau.]—i gynigion Llywodraeth Cymru, gan nad ydym yn gweld unrhyw le i anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau. Felly, mewn gwirionedd, credaf ein bod yn cytuno ar y mater hwn.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>



13:47

**Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for your answer, Minister, and it's welcome to know that you are on the same page as the Welsh Conservatives. I would also like to move on to, you have published recently the 'Code of best practice on the use of snares in fox control'. I should say, Minister, this is very welcome indeed. It's supported by us with regard to improvement to animal welfare. One thing I would say is that although this code of practice in itself is very welcome—it's a very glossy document—it's not going to be enough in itself to deal with the issue. I do have concern that there is a low take-up of the code-compliant snares that are mentioned within the code. So, what I would like to know is what you've done to promote the use of compliant snares with suppliers and wholesalers of farming products. Do you also feel that there is a role for Farming Connect in promoting best practice on training with regard to the use of snares?

Diolch chi am eich ateb, Weinidog, ac mae'n braf gwybod eich bod yn cytuno â'r Ceidwadwyr Cymreig. Hoffwn symud ymlaen hefyd: yn ddiweddar rydych wedi cyhoeddi'r 'Cod ymarfer ar y defnydd o faglau wrth reoli llwynogod'. Dylwn ddweud, Weinidog, fod hwn i'w groesawu'n fawr iawn. Rydym yn ei gefnogi mewn perthynas â gwelliannau i les anifeiliaid. Un peth y byddwn yn ei ddweud, er bod croeso i'r cod ymarfer hwn ynddo'i hun—mae'n ddogfen sgleiniog iawn—yw na fydd yn ddigon ynddo'i hun i fynd i'r afael â'r mater hwn. Rwy'n bryderus mai nifer isel o'r maglau sy'n cydymffurfio â'r cod, y cyfeirir atynt yn y cod, sy'n cael eu defnyddio. Felly, yr hyn yr hoffwn ei wybod yw beth rydych wedi'i wneud i hyrwyddo'r defnydd o faglau sy'n cydymffurfio â'r cod ymhlith cyflenwyr a chyfanwerthwyr cynhyrchion ffermio? A ydych hefyd yn teimlo bod rôl i Cyswllt Ffermio yn y gwaith o hyrwyddo arferion gorau o ran hyfforddiant ar y defnydd o faglau?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

**Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I'm very glad that the Conservative Member is on the same page as the Welsh Government on this particular issue. You'll be aware that we've been waiting for the Law Commission's review of wildlife law more generally, but that includes the law relating to snares. We have received that published report towards the end of last month, so we're considering what that might mean for the next steps in terms of what Welsh Government can do to increase welfare when the use of snares takes place. Obviously, there are strict laws already. Snares have to be free-running, for example, and anybody selling or buying snares should obviously avail themselves of the information that's already out there in terms of what is legal and what isn't legal.

Wel, rwy'n falch iawn fod yr Aelod Ceidwadol yn cytuno â Llywodraeth Cymru ar y mater penodol hwn. Fe fyddwch yn ymwybodol ein bod wedi bod yn aros am adolygiad Comisiwn y Gyfraith o gyfraith bywyd gwyllt yn fwy cyffredinol, ond mae hynny'n cynnwys y gyfraith mewn perthynas â maglau. Daeth yr adroddiad cyhoeddedig hwnnw i law tua diwedd y mis diwethaf, felly rydym yn ystyried beth y gallai hynny ei olygu ar gyfer y camau nesaf o ran yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gynyddu lles pan fo maglau'n cael eu defnyddio. Yn amlwg, ceir deddfau llym yn barod. Mae'n rhaid i faglau fod yn rhai dirwyn, er enghraifft, a dylai unrhyw un sy'n gwerthu neu brynu maglau fanteisio ar y wybodaeth sydd eisoes ar gael o ran yr hyn sy'n gyfreithiol a'r hyn nad yw'n gyfreithlon.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. We now move back to questions on the paper. It's question 3 and now, Nick Ramsay, you can speak. Nick Ramsay.

Diolch. Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar y papur yn awr. Dyma gwestiwn 3 ac yn awr, Nick Ramsay, fe gewch siarad. Nick Ramsay.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Alpacaod**

**Alpacas**

13:49

**Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am les alpacaod yng Nghymru?* OAQ(4)0386(NR)

3. *Will the Deputy Minister make a statement on the welfare of alpacas in Wales?* OAQ(4)0386(NR)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

**Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The welfare of all animals is a priority for Welsh Government and the Wales animal health and welfare framework group. Provisions contained within the Animal Welfare Act 2006 and the Welfare of Farmed Animals (Wales) Regulations 2007 set out animal welfare standards and protection for alpacas reared and kept in Wales.

Mae lles pob anifail yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a grŵp fframwaith iechyd a lles anifeiliaid Cymru. Mae darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Lles Anifeiliaid 2006 a Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn nodi safonau lles a diogelwch anifeiliaid ar gyfer alpacaod a fegir ac a gedwir yng Nghymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:50 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Amazing Alpacas have been breeding and selling alpacas as pets since 2004 from just outside Usk in my constituency. Two of their animals were tested for TB. They passed one and failed one blood test and were put down after a 15-month delay, during which time they were in perfect health. They were subsequently found to be free of the disease. This was clearly a distressing episode for the families who had bought them. There is a third blood test available in England, Enferplex, which is seen as far more reliable than the intradermal skin test for alpacas. Will you look at the potential benefits of Enferplex in Wales for alpacas?

Mae cwmni Amazing Alpacas ger Brynbuga yn fy etholaeth wedi bod yn bridio ac yn gwerthu alpacaod fel anifeiliaid anwes ers 2004. Gwnaed profion TB ar ddau o'u hanifeiliaid. Pasiodd un prawf gwaed arnynt a methodd un arall, a chawsant eu difa ar ôl cyfnod o 15 mis o fod yn berffaith iach. Darganfuwyd yn ddiweddarach eu bod yn rhydd o'r clefyd. Roedd hwn yn amlwg yn gyfnod anodd i'r teuluoedd a oedd wedi'u prynu. Mae trydydd prawf gwaed ar gael yn Lloegr, Enferplex, a ystyrir yn llawer mwy dibynadwy na'r prawf croen mewngroenol ar gyfer alpacaod. A wnewch chi edrych ar fanteision posibl Enferplex yng Nghymru ar gyfer alpacaod?

13:50 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Thank you for the question. The responsibility for the operational delivery of the TB eradication programme with regard to testing alpacas rests with the Animal and Plant Health Agency, which will follow its usual protocols in deciding when a TB test is necessary, including where a TB breakdown has occurred on a contiguous premises as well. But, in terms of the testing, there are two types, as you say, that we use. We use a skin test and an antibody blood test as well, but I'd be more than happy to look at what evidence is used elsewhere and to consider whether that might be appropriate for use in Wales.

Diolch am eich cwestiwn. Cyfrifoldeb yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yw gweithredu'r rhaglen i ddileu TB mewn perthynas â phrofi alpacaod, a bydd yr asiantaeth yn dilyn ei phrotocolau arferol wrth benderfynu pa bryd y bydd angen rhoi prawf TB, gan gynnwys pan fo achos o TB wedi bod ar eiddo cyffiniol hefyd. Ond o ran y profion, fel y dywedwch, rydym yn defnyddio dau fath. Rydym yn defnyddio prawf croen a phrawf gwaed gwrthgyrff yn ogystal, ond byddwn yn fwy na pharod i edrych ar y dystiolaeth a ddefnyddir mewn mannau eraill ac i ystyried a allai fod yn briodol ei ddefnyddio yng Nghymru.

## Cadwraeth Cregyn Bylchog

## Scallop Conservation

13:51 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gadwraeth cregyn bylchog ym Mae Ceredigion? OAQ(4)0387(NR)[W]*

*4. Will the Minister make a statement on scallop conservation in Cardigan Bay? OAQ(4)0387(NR)[W]*

13:51 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for his question. Current scallop fisheries in Cardigan bay are managed through restricted legislation to ensure sustainability of the stock. New proposals to improve the management of this fishery, which are currently subject to consultation, include proposed controls on catch and effort limits to underpin sustainability and safeguard important marine species and habitats.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Ar hyn o bryd, rheolir pysgodfeydd cregyn bylchog bae Ceredigion drwy ddeddfwriaeth gyfyngedig er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y stoc. Mae cynigion newydd i wella rheolaeth y bysgodfa hon, sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, yn cynnwys mesurau rheoli arfaethedig ar gyfyngiadau dal a rhyddhau er mwyn cynnal cynaliadwyedd a diogelu rhywogaethau a chynefinoedd morol pwysig.

13:51 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Weinidog, am yr ateb. Wrth gwrs, mae nifer yn poeni am gadwraeth yn gyffredinol ym mae Ceredigion, ac am gregyn bylchog yn arbennig, ac y byddai pysgota cregyn bylchog, pe byddai'n digwydd eto yn yr ardaloedd cadwraeth arbennig, yn effeithio'n ehangach ar yr ardaloedd hynny. Rwy'n gweld o'r ohebiaeth rwyf wedi ei chael gan Gymdeithas Pysgotwyr Cymru, er enghraifft, fod yna gynnig i ddefnyddio llusgrwydo o fath gwahanol, a gwneud hynny mewn ffordd mwy cynaliadwy ac osgo'r problemau a gafwyd yn y gorffennol pan fu'n rhaid i Elin Jones weithredu ar y mater yma. Pa rymoedd sydd gan y Llywodraeth i sicrhau os bydd llusgrwydo mwy cynaliadwy yn cael ei ddodi yn ei le gan bysgotwyr o Gymru, fod yr un dulliau yn cael eu defnyddio gan bysgotwyr o unrhyw wlad arall, gan nad oes modd i ni stopio pysgotwyr rhag dod i mewn i'r ardal gadwraeth, wrth gwrs?

Thank you for that response, Minister. Of course, many people are concerned about conservation in general in Cardigan bay and are particularly concerned about scallops, and that scallop fishing, were it to happen again in the conservation areas, would have a broader effect on those areas. I see from the correspondence that I've received from the Welsh Fishermen's Association, for example, that there is a proposal to use a different kind of dredging and to do that in a more sustainable way and to avoid the problems that we've had in the past when Elin Jones had to take action on this issue. So, what powers does the Government have to ensure that, if there is more sustainable dredging put in place by fishermen from Wales, the same methods are adopted by fishermen from any other country, because we can't prevent fishermen coming into the conservation area, of course?

13:52

**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Indeed, and the Member raises a very important issue. It is important to me and my team to make sure that we make the right decisions based on the evidence. We've already started some work, as the Member will be aware, on the back of an extensive programme of research undertaken by Bangor University. We will continue to proceed with the consultation as we have responded to a technical issue that appeared on the website, which was purely technical. On the basis of the controversy around that, we've restarted the consultation. I think that was the right thing to do. We will look at the evidence proposed from that to make sure that we can provide long-term, sustainable fishing grounds. All of these issues have to be considered around controls on catch and effort limited, with the spatial issues, minimum size limits and how we can ensure that all fishing that takes place in a protected area under the habitats regulations assessment is fully managed by the agencies that work alongside Welsh Government.

Yn wir, ac mae'r Aelod yn crybwyll mater pwysig iawn. Mae'n bwysig i mi a fy nhim ein bod yn sicrhau ein bod yn gwneud y penderfyniadau cywir ar sail y dystiolaeth. Rydym eisoes wedi dechrau peth gwaith, fel y gwyr yr Aelod, yn sgil rhaglen ymchwil eang a wnaed gan Brifysgol Bangor. Byddwn yn parhau i fwrw ymlaen â'r ymgynghoriad gan ein bod wedi mynd i'r afael â mater technegol a ymddangosodd ar y wefan, a oedd yn gwbl dechnegol. Ar sail y ddadl ynghylch hynny, rydym wedi ailgychwyn yr ymgynghoriad. Credaf mai dyna oedd y peth iawn i'w wneud. Byddwn yn edrych ar y dystiolaeth a gynigiwyd o ganlyniad i hynny er mwyn sicrhau y gallwn ddarparu pysgodfeydd cynaliadwy a hirdymor. Mae'n rhaid ystyried pob un o'r materion hyn mewn perthynas â rheolaethau i gyfyngu ar ddal a rhyddhau, gyda'r materion gofodol, terfynau meintiau lleiaf a sut y gallwn sicrhau bod yr holl bysgota sy'n digwydd mewn ardal warchoddedig o dan yr asesiad rheoliadau cynefinoedd yn cael ei reoli gan yr asiantaethau sy'n gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:54

**Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I recall, as Elin Jones will, when this site had to be closed to dredging, and it was as a consequence of misuse of dredging equipment. It completely and utterly destroyed the beds underneath it. I've had concerns, masses of them, in my inbox about the nature of the consultation, and you've just addressed that in your reply to Simon Thomas. I don't know, Minister, whether you're aware that there is a petition running with over 12,000 signatures so far in the Tywyn, Cardigan bay area, where the concern is very real that any action here doesn't have a negative impact elsewhere, particularly on the whales and dolphins and the tourism therein, as well as the conservation. What sort of assurances can you give, if any, at this stage, to those people who clearly are frightfully concerned that we don't end up back where we started when this bed was closed?

Weinidog, rwy'n cofio, fel y bydd Elin Jones, pan fu'n rhaid cau safle i'w garthu, a hynny o ganlyniad i gamddefnyddio offer carthu. Dinistriodd y gwelyau oddi tano yn gyfan gwbl. Rwyf wedi derbyn lluo o bryderon yn fy mewnflwch am natur yr ymgynghoriad, ac rydych newydd ymdrin â hynny yn eich ateb i Simon Thomas. Nid wyf yn gwybod, Weinidog, a ydych yn ymwybodol fod yna ddeiseb ar waith gyda thros 12,000 o lofnodion arni hyd yn hyn yn ardal Tywyn, bae Ceredigion, lle y ceir pryder gwirioneddol y byddai unrhyw gamau gweithredu yma yn cael effaith negyddol mewn mannau eraill, yn enwedig ar y morfilod a'r dolffiniaid a'r dwristiaeth gysylltiedig, yn ogystal â chadwraeth. Pa fath o sicrwydd y gallwch ei roi ar hyn o bryd, os o gwbl, i'r bobl hynny sy'n amlwg yn bryderus iawn y byddwn, yn y pen draw, yn ôl lle roeddem pan gawyd y gwely hwn?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:55

**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, it's absolutely right that members of the public and stakeholders get engaged in the consultation. I think there was rather an exciting journalist who wrote an article that was factually incorrect in terms of his reporting that I am, I think it was quoted as, 'a dolphin murderer'. I can assure the Chamber I've never murdered a dolphin in my life, but the reality is here: we've got a professional, full consultation taking place, we have to take notice of the consultation, and I value the contribution by your constituents and many people who're engaged in this process, but we have to be basing our decision on the evidence that we receive back.

Wel, mae'n gwbl iawn i aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Credaf fod newyddiadurwr a oedd wedi cynhyrfu braidd wedi ysgrifennu erthygl a oedd yn ffeithiol anghywir wrth ngalw yn, credaf mai'r dyfyniad oedd, 'llofrudd dolffiniaid'. Gallaf sicrhau'r Siambr nad wyf erioed wedi llofruddio dolffin yn fy mywyd, ond dyma'r gwir amdani: mae ymgynghoriad proffesiynol llawn yn cael ei gynnal, mae'n rhaid i ni roi sylw i'r ymgynghoriad, ac rwy'n gwerthfawrogi cyfraniad eich etholwyr a'r nifer o bobl sy'n rhan o'r broses hon, ond mae'n rhaid i ni seilio ein penderfyniad ar y dystiolaeth a ddaw i law.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:56

**Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, balancing a profitable fishing industry that also protects our local marine habitats is no easy task, and I welcome the opportunity for those with views on this issue to feed into the Welsh Government's consultation. But, in light of this consultation and, of course, the seriousness of the issue, can you tell us what additional stakeholder activity will the Welsh Government be undertaking to ensure that the process engages with as many stakeholders as possible?

Weinidog, nid yw cydbwysu diwydiant pysgota proffidiol sydd hefyd yn diogelu ein cynefinoedd morol lleol yn dasg hawdd, a chroesawaf y cyfle i'r rhai sydd â barn ar y mater gyfrannu at ymgynghoriad Llywodraeth Cymru. Ond yng ngoleuni'r ymgynghoriad hwn, a difrifoldeb y mater wrth gwrs, a allwch ddweud wrthym pa weithgaredd ychwanegol i rhanddeiliaid y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gyflawni er mwyn sicrhau bod y broses yn ymgysylltu â chynifer o rhanddeiliaid â phosibl?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:56

**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, this process has been, I suppose, by virtue of the interest of some reporters and the reporting of that, it has raised the stakes in terms of more people knowing about that consultation than you would probably know. We focus very much on the basis of local concerns, and Members in this Chamber have written to me on several occasions about their particular issues, but we're receiving correspondence from right across the world on this particular issue, around dredging in this particular area. I can assure you that even the people who responded originally to the consultation during the technical fault period with the website, we've gone back out to them again to ask, 'Are the responses that you gave to that consultation then and currently the same?' ensuring that we can have a full and accurate reflection of the opinion of stakeholders. It is important to us.

Wel, rwy'n tybio bod y broses hon, yn rhinwedd diddordeb rhai gohebwyr a'r adroddiadau ar hynny, wedi codi'r bar o ran bod mwy o bobl yn gwybod am yr ymgynghoriad nag y byddech wedi'i ddisgwyl. Rydym yn canolbwyntio'n fawr iawn ar sail pryderon lleol, ac mae Aelodau o'r Siambr hon wedi ysgrifennu ataf droeon ynglŷn â'u problemau penodol, ond rydym yn derbyn gohebiaeth o bob rhan o'r byd ar y mater penodol hwn, ynghylch carthu yn yr ardal hon. Gallaf eich sicrhau ein bod hyd yn oed wedi dychwelyd at y bobl a ymatebodd yn wreiddiol i'r ymgynghoriad, yn ystod y cyfnod y bu nam technegol ar y wefan, i holi, 'A yw'r ymatebion a roesoch i'r ymgynghoriad hwnnw bryd hynny yr un fath â'ch atebion erbyn hyn?' er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cael adlewyrchiad cyflawn a chywir o farn y rhanddeiliaid. Mae hynny'n bwysig i ni.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:57

**Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n datgan fy niddordeb ym Mhrifysgol Bangor ac yn ei hysgol eigioneg ragorol, sydd wedi cynhyrchu adroddiad gwyddonol cytbwys ar y mater hwn. A wnaiff y Gweinidog sicrhau y bydd unrhyw benderfyniad a wneir gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â physgota cregyn bylchog cynaliadwy ym mae Ceredigion, ac mewn ardaloedd eraill cylchynol, yn benderfyniad gwyddonol cywir a diogel?

I declare an interest due to my contact with Bangor University and the school of oceanography, which is excellent and produced a balanced report on this issue. Will the Minister ensure that any decision taken by the Welsh Government on sustainable scallop fishing in Cardigan bay and in other surrounding areas will be a scientifically correct and safe decision?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:58

**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm very grateful for the work that Bangor University has undertaken on our behalf in terms of that. It is critical to have that scientific base in order to make those decisions. The consultation, alongside the extensive programme of research undertaken, will be a factor in determining the outcome for these fisheries.

Rwy'n ddiolchgar iawn am y gwaith y mae Prifysgol Bangor wedi'i gyflawni ar ein rhan yn y cyswllt hwnnw. Mae cael y sylfaen wyddonol honno'n hanfodol er mwyn gwneud y penderfyniadau hynny. Bydd yr ymgynghoriad, ochr yn ochr â'r rhaglen ymchwil eang, yn ffactor wrth benderfynu ar y canlyniad i'r pysgodfeydd hyn.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

**Marchnadoedd yr Undeb Ewropeaidd**

**European Union Markets**

13:58

**William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before asking my question, I place on record my declaration of interest with regard to our family farm.

Cyn gofyn fy nghwestiwn, hoffwn gofnodi fy mod yn datgan buddiant o ran ein fferm deuluol.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

*5. Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith y newidiadau ym marchnadoedd yr Undeb Ewropeaidd ar y diwydiant ffermio yng Nghymru? OAQ(4)0394(NR)*

*5. What assessment has the Welsh Government made of the impact of changes in EU markets on the farming industry in Wales? OAQ(4)0394(NR)*

13:58

**Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I continue to work closely with the EU on issues affecting the agriculture industry in Wales. The current discussions on a trade deal with New Zealand are critical and I will ensure that the needs of Welsh farmers are represented on the EU reflection group on sheep meat.

Rwy'n parhau i weithio'n agos gyda'r UE ar faterion sy'n effeithio ar ddiwydiant amaethyddol Cymru. Mae'r trafodaethau cyfredol ar gytundeb masnach gyda Seland Newydd yn hollbwysig a byddaf yn sicrhau bod anghenion ffermwyr Cymru yn cael eu cynrychioli yng ngrŵp yr UE ar gyfer ystyried cig oen.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:59

**William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Deputy Minister, for that response. According to a 2015 study by Agra Europe, the combined impact of EU import tariffs, the abolition of agricultural support through the CAP and market liberalisation that will accompany any potential Brexit, could result in up to 90 per cent of UK farmers going out of business, and the FUW predicts that the impact on Welsh farmers could be disproportionately high. Deputy Minister, will you heed the calls of the FUW, which, incidentally, celebrated its sixtieth birthday yesterday, that we should undertake more detailed work to quantify the impact of any changes to EU markets in order both to inform the national conversation ahead of any EU in-out referendum, but also to inform contingency plans, should such an exit prove inevitable?

Diolch yn fawr iawn am eich ymateb, Ddirprwy Weinidog. Yn ôl astudiaeth yn 2015 gan Agra Europe, gallai effaith gyfunol tariffau mewnfario'r UE, diddymu cymorth amaethyddol drwy'r PAC a rhyddfrydoli'r farchnad pe bai Prydain yn gadael yr UE, arwain at hyd at 90 y cant o ffermwyr y DU yn mynd i'r wal, ac mae'r FUW yn rhagweld y gallai'r effaith ar ffermwyr Cymru fod yn anghymesur o fawr. Ddirprwy Weinidog, a wnewch chi wrando ar alwadau'r FUW, a ddatlodd ei ben-blwydd yn drigain oed ddoe gyda llaw, y dylem gyflawni gwaith manylach i fesur effaith unrhyw newidiadau i farchnadoedd yr UE er mwyn llywio'r drafodaeth genedlaethol cyn unrhyw refferendwm ar adael yr UE, ond hefyd er mwyn llywio cynlluniau wrth gefn, pe bai'n anochel ein bod yn gadael yr UE?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

**Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank you for the question and join you in wishing the FUW a happy sixtieth birthday. With regard to the EU referendum, actually, that's not the only challenge that's facing Welsh farmers. There's probably a more pressing and current challenge, and that would be the TPP, the trans-Pacific partnership, conversations that are going on at the moment. They account for around 40 per cent of the whole world economy. So, the Welsh farming industry within that is just, you know, a tiny, tiny fraction. However, I am really, really keen that the Welsh farmer's voice is very much heard on that, and that the impact assessment that will be undertaken will take into account the needs of the Welsh agriculture industry as well. How will we do that? Well, Welsh Government has a role, as I say, on the sheep meat reflection group, and I'll be asking Hybu Cig Cymru, at their next meeting, which will be looking at the international trade and supply issues, to raise the specific issue of imports and the New Zealand lamb issue and how that might impact on Welsh lamb as well. That's probably one of the most pressing issues and current issues with regard to the EU at the moment.

Diolch i chi am eich cwestiwn, a hoffwn ymuno â chi i ddymuno pen-blwydd hapus i'r FUW yn drigain oed. O ran refferendwm yr UE, nid dyna'r unig her sy'n wynebu ffermwyr Cymru mewn gwirionedd. Mae yna her sydd fwy na thebyg yn bwysicach ac yn fwy cyfredol, sef trafodaethau'r bartneriaeth draws-lwerydd sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Maent yn ymdrin ag oddeutu 40 y cant o economi'r byd. Felly, rhan eithriadol o fach o hynny yw diwydiant ffermio Cymru. Fodd bynnag, rwy'n awyddus tu hwnt i lais ffermwyr Cymru gael ei glywed yn hynny o beth, ac y bydd yr asesiad effaith a gynhelir yn ystyried anghenion diwydiant amaethyddol Cymru hefyd. Sut y gwnawn hynny? Wel, fel y dywedais, mae gan Lywodraeth Cymru rôl yn y grŵp sy'n ystyried cig oen, a byddaf yn gofyn i Hybu Cig Cymru, yn eu cyfarfod nesaf, a fydd yn edrych ar faterion masnach a chyflenwi rhyngwladol, dynnu sylw at fater penodol mewnfornion a mater cig oen o Seland Newydd, a sut y gallai hynny effeithio ar gig oen Cymru hefyd. Mae'n rhaid mai dyna un o'r materion pwysicaf a mwyaf cyfredol o ran yr UE ar hyn o bryd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

**Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, there is a view that the end of the system of milk quotas could result in a significant expansion of the Welsh dairy industry. What is the Welsh Government's view on the suggestion put forward by my Conservative colleagues in the European Parliament that there ought to be an EU intervention price that is more reflective of production costs?

Ddirprwy Weinidog, mae rhai o'r farn y gallai diwedd y system cwtâu llaeth olygu y bydd diwydiant llaeth Cymru yn ehangu'n sylweddol. Beth yw barn Llywodraeth Cymru ar yr awgrym a gyflwynwyd gan fy nghydweithwyr Ceidwadol yn Senedd Ewrop y dylid cael pris myrraeth UE sy'n adlewyrchu'r costau cynhyrchu yn well?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

**Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, we have considered intervention rates, alongside my colleagues, in the meetings that we have ahead of European Council meetings in Brussels. The UK, as a member state, is opposed to changing intervention rates at the moment, because that will just head off and store up problems for the long term. Actually, I believe it would have a disproportionate impact, assisting farmers elsewhere in Europe long before it assists Welsh farmers. From my perspective, supporting Welsh farmers and our Welsh dairy industry has to be the priority, particularly at this current difficult time. I'm not opposed to, you know, considering and looking at the intervention rates, but my own view is that a change to them would probably do more harm to Welsh agriculture than good.

Wel, rydym wedi ystyried cyfraddau ymyrraeth, ochr yn ochr â fy nghydweithwyr, yn y cyfarfodydd rydym yn eu cynnal cyn cyfarfodydd y Cyngor Ewropeaidd ym Mrwsel. Mae'r DU, fel aelod-wladwriaeth, yn gwrthwynebu newid cyfraddau ymyrraeth ar hyn o bryd, gan mai gohirio problemau'n unig a wnaiff hynny a'u crynhoi ar gyfer y tymor hir. A dweud y gwir, credaf y byddai hynny'n cael effaith anghymesur, ac yn cynorthwyo ffermwyr mewn rhannau eraill o Ewrop ymhell cyn y bydd yn cynorthwyo ffermwyr Cymru. Yn fy marn i, rhaid rhoi'r flaenoriaeth i gefnogi ffermwyr Cymru a'n diwydiant llaeth yng Nghymru, yn enwedig yn ystod y cyfnod anodd hwn. Wyddoch chi, nid wyf yn gwrthwynebu ystyried ac edrych ar y cyfraddau ymyrraeth, ond yn fy marn i, yn ôl pob tebyg byddai newid y cyfraddau yn gwneud mwy o niwed nag o les i amaethyddiaeth Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:02

**Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Has the Welsh Government carried out an assessment, or have you carried out an assessment, of the impact that withdrawal from the EU would have on agriculture and on farming? Will you be in a position, at some stage, to publish that evaluation, that assessment, if one is carried out?

A yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad, neu a ydych chi wedi cynnal asesiad, o'r effaith y byddai gadael yr UE yn ei chael ar amaethyddiaeth ac ar ffermio? A fyddwch, ar ryw adeg, mewn sefyllfa i gyhoeddi'r gwerthusiad, yr asesiad hwnnw, pe bai un yn cael ei gynnal?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:02

**Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Leaving the EU would be catastrophic, I think, for farming in Wales. EU membership provides us with around £200 million of direct payments straight to Welsh farmers every year. Suggestions that the UK Government would make up that payment to the same level are just farcical, given the many pressures on public finance at the moment anyway. Additional funding is also available under pillar 2, and membership of the EU gives our Welsh producers unrestricted access to a market of 0.5 billion potential customers, and our food and drink exports are worth over £270 million. So, that would all, obviously, be put at risk. If we were to be outside Europe, but still wanted to trade with them, we'd still have to adhere to the same high standards and the same kind of regulation in order to trade, but we'd have no opportunity to influence those rules. So, Members will know that I'm very active in terms of fighting the corner of Welsh agriculture in Brussels, and I'll continue to do so.

Diolch. Credaf y byddai gadael yr UE yn drychinebus i ffermio yng Nghymru. Mae ein haelodaeth o'r UE yn darparu tua £200 miliwn o daliadau uniongyrchol i ffermwyr Cymru bob blwyddyn. Mae awgrymiadau y byddai Llywodraeth y DU yn sicrhau bod y taliad yn cyrraedd yr un lefel yn chwethinlyd, o ystyried y pwysau ar arian cyhoeddus yn barod. Mae cyllid ychwanegol ar gael hefyd o dan golofn 2, ac mae aelodaeth o'r UE yn golygu mynediad digyfyngiad i gynhyrchwyr Cymru at farchnad o 0.5 biliwn o gwsmeriaid posibl, ac mae gwerth ein hallforion bwyd a diod yn fwy na £270 miliwn. Felly, byddai hynny oll, yn amlwg, yn cael ei roi mewn perygl. Pe na baem yn rhan o Ewrop, ond yn dal yn awyddus i fasnachu â hwy, byddai'n rhaid i ni gadw at yr un safonau uchel a'r un math o reoleiddio er mwyn masnachu, ond ni fyddai gennym unrhyw gyfle i ddylanwadu ar y rheolau hynny. Felly, bydd yr Aelodau'n ymwybodol fy mod yn weithgar iawn yn ymladd dros amaethyddiaeth Cymru ym Mrwsel, a byddaf yn parhau i wneud hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:03

**Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yn sgil y problemau sy'n bodoli ym marchnadoedd Ewrop, mae'n bwysig iawn bod taliadau polisi amaethyddol cyffredin yn mynd allan i ffermwyr cyn gynted â phosib. A wnaiff y Dirprwy Weinidog, felly, roi diweddariad ynglŷn â faint o ffermwyr sydd wedi derbyn eu taliadau hyd yn hyn, a phryd ydych chi'n credu y bydd y gweddill yn derbyn eu taliadau hwy?

Given the problems that exist in European markets, it's very important that common agricultural policy payments are made to farmers as soon as possible. Will the Deputy Minister therefore give us an update on how many farmers have received their payments to date, and when do you expect the rest to receive their payments?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:03	<b>Rebecca Evans</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>Thank you. I can advise you that 8,991 customers have been processed for payment and that is around 57.6 per cent of our farmers. So, I think that we've overperformed, really, in terms of what we were expecting to be able to deliver. I did promise at the HCC breakfast at the winter fair that we would pay more than half of our farmers within the first week of the opening of the window, and we were able to do that. Of course, farmers are only having part-payments of around the value of 80 per cent, because of the fact that this is a new system and a new period of CAP reform. We should pay the—. Well, we'll continue making payments throughout December and then we aim to pay the vast majority by early next year.</p>	<p>Diolch. Gallaf eich hysbysu bod taliadau wedi'u prosesu i'w talu i 8,991 o gwsmeriaid ac mae hynny'n cyfateb i oddeutu 57.6 y cant o'n ffermwyr. Felly, credaf ein bod, mewn gwirionedd, wedi perfformio'n well na'r hyn y disgwyliem allu ei gyflawni. Fe wnes addewid ym mrecwast HCC yn y ffair aeaf y byddem yn talu dros hanner ein ffermwyr yn ystod yr wythnos gyntaf wedi i'r cyfnod talu ddechrau, a gallasom wneud hynny. Wrth gwrs, rhandaliadau o oddeutu 80 y cant yn unig y mae ffermwyr yn eu cael, gan fod hon yn system newydd ac yn gyfnod newydd o ddiwygio'r PAC. Dylem dalu'r—. Wel, byddwn yn parhau i wneud taliadau drwy gydol mis Rhagfyr, ac yna anelwn i dalu'r mwyafrif helaeth erbyn dechrau'r flwyddyn nesaf.</p>
	<b>Stoc Drig</b>	<b>Fallen Stock</b>
14:04	<b>William Powell</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>6. <i>A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am reoli stoc drig yng Nghymru?</i> OAQ(4)0395(NR)</p>	<p>6. <i>Will the Minister make a statement on the management of fallen stock in Wales?</i> OAQ(4)0395(NR)</p>
14:04	<b>Rebecca Evans</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>It's the responsibility of the individual farmer to ensure that appropriate and timely arrangements are in place for the collection and disposal of fallen stock. The rules surrounding fallen stock are provided by the Animal By-Products (Enforcement) (Wales) Regulations 2014 to protect animal and public health.</p>	<p>Cyfrifoldeb y ffermwr unigol yw sicrhau bod trefniadau priodol ac amserol ar waith ar gyfer casglu a chael gwared ar stoc drig. Darperir y rheolau sy'n ymwneud â stoc drig gan y Rheoliadau Sgîl-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014 er mwyn diogelu iechyd anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd.</p>
14:05	<b>William Powell</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>Thank you very much, Deputy Minister, for that response. There's some very interesting research currently being undertaken at Harper Adams University, and also Bangor University, looking into the potential for anaerobic bioreduction of animal carcasses. Initial findings suggest that significant levels of biogas can be produced from porcine carcase material, and this potentially could offer livestock farmers a sustainable, practical and cost-effective means of producing renewable energy while also driving down biosecurity risks. Further work is needed to determine whether this should go forward to the European Commission for approval, but will the Deputy Minister please make an undertaking to keep a close eye on this research and to provide any necessary support to enable it to go forward?</p>	<p>Diolch yn fawr iawn am eich ymateb, Ddirprwy Weinidog. Mae ymchwil diddorol iawn ar y gweill ar hyn o bryd ym Mhrifysgol Harper Adams, ac ym Mhrifysgol Bangor hefyd, sy'n archwilio'r posibilrwydd o fiododdi carcasau anifeiliaid yn anaerobig. Mae canfyddiadau cychwynnol yn awgrymu y gellid cynhyrchu lefelau sylweddol o fio-nwy o ddeunydd carcas mochyn, a gallai hyn o bosibl fod yn ffordd gynaliadwy, ymarferol a chosteffeithiol i ffermwyr da byw gynhyrchu ynni adnewyddadwy gan leihau risgiau bioddiogelwch ar yr un pryd. Mae angen gwaith pellach i benderfynu a ddyliid cyflwyno hyn i'r Comisiwn Ewropeaidd am gymeradwyaeth, ond a wnaiff y Dirprwy Weinidog ymrwymo i gadw llygad barcud ar y gwaith ymchwil hwn ac i ddarparu unrhyw gymorth angenrheidiol i'w alluogi i symud ymlaen?</p>
14:05	<b>Rebecca Evans</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>Yes, I'd be very keen to learn more about that particular piece of research. I visited Harper Adams University very recently, in the last month or so, and was very impressed by the research that is being undertaken there in all kinds of fields—crop management, dairy and so on—and so I'd be very keen to find out more about this particular piece of research and how it might influence the way that we dispose of fallen stock in Wales in the future.</p>	<p>Byddwn yn awyddus iawn i ddysgu mwy am y gwaith ymchwil penodol hwn. Ymwelais â Phrifysgol Harper Adams yn ddiweddar iawn, yn ystod y mis diwethaf, a gwnaeth yr ymchwil a wneir yno mewn sawl maes—rheoli cynydu, llaeth ac yn y blaen— argraff fawr iawn arnaf ac felly byddwn yn awyddus iawn i ddod i wybod mwy am y gwaith ymchwil penodol hwn a sut y gallai ddyllanwadu ar y ffordd y cawn wared ar stoc drig yng Nghymru yn y dyfodol.</p>

14:06

**Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, few can forget the devastating effects of the snow in 2013 that saw many drifts and blizzards that actually saw hundreds of livestock fallen, as well as half of the feral Carneddau ponies. There was huge chaos and a lack of meaningful support coming from the Assembly Minister at that time. What actions have been learnt from that? What actions have actually been learnt from that, and what efforts now will you make should we—? We're going to be facing another hard winter, and I never ever want to see—you know, where farmers actually didn't know whether they were allowed to bury their stock or not. We had lorries not being able to go in and collect the stock, and livestock were falling like flies. I don't want to see that again, and neither do the farmers. What actions have you got in place now to ensure that that doesn't happen again?

Weinidog, ychydig ohonom a all anghofio effeithiau dinistriol yr eira yn 2013 a achosodd nifer o luwchfeydd a stormydd eira, gan arwain at golli cannoedd o dda byw, yn ogystal â hanner merlod gwyllt y Carneddau. Roedd hi'n anhrefn llwyr a phrin oedd y gefnogaeth ystyrion a gafwyd gan y Gweinidog Cynulliad ar y pryd. Pa wersi a ddysgwyd o ganlyniad i hynny? Pa gamau gweithredu sydd wedi'u dysgu o ganlyniad i hynny mewn gwirionedd, a pha ymdrechion y byddwch yn eu gwneud yn awr pe bai—? Rydym yn mynd i wynebu gaeaf caled arall, ac nid wyf byth bythoedd eisiau gweld—wyddoch chi, pan nad oedd ffermwyr yn gwybod a oeddent yn cael claddu eu stoc ai peidio. Nid oedd loriau'n gallu mynd i gasglu'r stoc, ac roedd anifeiliaid yn cwympo fel pryfed. Nid wyf yn dymuno gweld hynny eto, na'r ffermwyr chwaith. Pa gamau sydd gennych ar waith yn awr i sicrhau na fydd hynny'n digwydd eto?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:07

**Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, the Welsh Government has instigated a contingency management plan, as recommended in the review carried out by Kevin Roberts on the resilience in Welsh farming. This will be in place to monitor situations should we see another severe winter again this year. The information that comes forward from that contingency plan will be vital then in enabling me to make timely decisions in terms of how we can support farmers. But, as you'll be aware, there are a number of derogations available, one of which permits the disposal of animal carcasses by burial, burning, or other means where access is difficult due to geography or climate or natural disaster, and those were the derogations used during the severe winter of 2013. But I'll be more than happy to write to the Member on the full range of derogations that would be available to Welsh Government, if that would be helpful.

Wel, mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau cynllun rheoli wrth gefn, fel yr argymhellwyd yn adolygiad Kevin Roberts ar gydnerthedd ffermio yng Nghymru. Bydd hwn ar waith i fonitro sefyllfaoedd pe baem yn dioddef gaeaf caled arall eleni. Bydd y wybodaeth a ddaw o'r cynllun wrth gefn hwnnw'n hanfodol wedyn i fy ngalluogi i wneud penderfyniadau amserol ynglŷn â pha gymorth y gallwn ei roi i ffermwyr. Ond fel y gwyddoch, mae nifer o randdirymiadau ar gael, gydag un ohonynt yn caniatáu cael gwared ar garcasau anifeiliaid drwy eu claddu, eu llosgi, neu drwy ddulliau eraill pan fo mynediad yn anodd oherwydd daearyddiaeth neu hinsawdd neu drychineb naturiol, a dyna'r rhanddirymiadau a ddefnyddiwyd yn ystod gaeaf caled 2013. Ond rwy'n fwy na pharod i ysgrifennu at yr Aelod gyda'r ystod lawn o randdirymiadau a fyddai ar gael i Lywodraeth Cymru, os byddai hynny o gymorth.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

## Hyrwyddo Bwyd

## Promoting Food

14:08

**Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo bwyd o Gymru ymhlith pobl ifanc? OAQ(4)0392(NR)[W]*

*7. Will the Minister make a statement on promoting food from Wales to young people? OAQ(4)0392(NR)[W]*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:08

**Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Government is keen to improve access to Welsh food and drink for people of all ages, including young people. Through our new public procurement arrangements, we will ensure that quality Welsh food can be locally sourced by schools and other establishments in Wales.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i wella argaeledd bwyd a diod o Gymru i bobl o bob oed, gan gynnwys pobl ifanc. Drwy ein trefniadau caffael cyhoeddus newydd, byddwn yn sicrhau bod modd caffael bwyd o ansawdd o Gymru yn lleol ar gyfer ysgolion a sefydliadau eraill yng Nghymru.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)



- 14:08 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch yn fawr iawn. Rwyf wedi bod yn arwain trafodaethau yn fy etholaeth ynglŷn â phrinder staff cegin a chogyddion ac ati i weithio yn y diwydiant arlwy o lletygarwch yn lleol. Un broblem a wnaethom ni ei hadnabod ydy diffyg ymwybyddiaeth o'r cyfleon sydd ar gael, ond hefyd diffyg ymwybyddiaeth cyffredinol ynglŷn â bwyd a chadwynau cyflenwi bwyd lleol ac ati. Wel, mi fuaswn i'n dymuno trefnu math o 'roadshow' o gwmpas ysgolion yn codi ymwybyddiaeth yn y maes yma. Tybed a all y Dirprwy Weinidog roi cefnogaeth mewn egwyddor i drefniant o'r fath, neu, yn well fyth, gefnogaeth ymarferol.
- Thank you very much. I've been leading negotiations in my constituency on the shortage of kitchen staff, chefs and so on to work in the local catering and hospitality industry. One problem that we identified was a lack of awareness of the opportunities available, but also a general lack of awareness of food and local supply chains and so on. I would like to organise some kind of roadshow around schools, raising awareness in this area. I wonder whether the Deputy Minister could support, in principle, such a move or even better, provide practical support.
- 14:09 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you. Addressing the skills gap in the food industry is something that Welsh Government's particularly keen to do. We've outlined how we'll go about doing that in our food and drink action plan. One of the actions in there relates to careers and so on. So, working in partnership with Food and Drink Wales and Careers Wales, we've just launched the National Skills Academy for Food & Drink and launched what's called Tasty Careers Wales, which is an initiative to promote jobs and careers in the food and drink industry to young people in Wales. That brings together career information, but also live industry vacancies to make them instantly accessible to young people and help secure the next generation of food and drink manufacturing talent. If you'd like to find our more information, it's at [www.tastycareers.org.uk](http://www.tastycareers.org.uk), but, if you'd like to write to me, we could potentially have a meeting to discuss your ideas further.
- Diolch. Mae mynd i'r afael â'r bwlch sgiliau yn y diwydiant bwyd yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru yn awyddus iawn i'w wneud. Rydym wedi amlinellu sut y byddwn yn mynd ati i wneud hynny yn ein cynllun gweithredu ar gyfer bwyd a diod. Mae un o'r camau gweithredu ynddo yn ymwneud â gyrfaeodd ac yn y blaen. Felly, gan weithio mewn partneriaeth â Bwyd a Diod i Gymru a Gyrfa Cymru, rydym newydd lansio'r Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Bwyd a Diod a lansio'r hyn a elwir yn Gyrfaeodd Blasus Cymru, sef menter i hyrwyddo swyddi a gyrfaeodd yn y diwydiant bwyd a diod i bobl ifanc Cymru. Mae'n crynhoi gwybodaeth am yrfaeodd, yn ogystal ag am swyddi gwag cyfredol yn y diwydiant i'w gwneud yn hygyrch i bobl ifanc ac i helpu i sicrhau'r genhedlaeth nesaf o dalent ym maes cynhyrchu bwyd a diod. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar [cy.tastycareerswales.org.uk](http://cy.tastycareerswales.org.uk), ond os carech ysgrifennu ataf, mae'n bosibl y gallem gyfarfod i drafod eich syniadau ymhellach.
- 14:10 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- When promoting food from Wales to young people, perhaps you could tell them why 200 farmers clapped, at the NFU meeting in Builth Wells on 5 November, when you were told, 'Thanks for destroying the beef industry in Wales'. Having previously refused to meet representatives of the 3,000 farmers affected, have you since agreed to meet them to discuss their legitimate concerns and the real risk of bankruptcy that some state they're now facing?
- Wrth hyrwyddo bwyd o Gymru i bobl ifanc, efallai y gallech ddweud wrthynt pam roedd 200 o ffermwyr yng nghyfarfod Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn Llanfair-ym-Muallt ar 5 Tachwedd yn curo dwylo pan ddywedwyd wrthyhch, 'Diolch am ddirywio'r diwydiant cig eidion yng Nghymru'. A chithau yn y gorffennol wedi gwrthod cyfarfod â chynrychiolwyr y 3,000 o ffermwyr a effeithiwyd, a ydych wedi cytuno ers hynny i'w cyfarfod i drafod eu pryderon dilys a'r risg wirioneddol o fethdaliad y mae rhai ohonynt yn honni eu bod yn ei hwynebu yn awr?
- 14:10 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I spend a large proportion of my life meeting with farmers and their representatives, so any suggestion that I'm not extremely accessible to the farming industry and those who represent them is absolutely ridiculous. As it happens, I'm going to visit that particular farmer and meet with him to discuss his particular circumstances. At the meeting, I did suggest that he meet with my officials immediately, and he did talk to my officials at that meeting to look at what particular support we could offer him. But any suggestion that Welsh Government isn't fully engaged with the industry is just ridiculous.
- Rwy'n treulio rhan fawr o fy mywyd yn cyfarfod â ffermwyr a'u cynrychiolwyr, felly mae unrhyw awgrym na all y diwydiant ffermio a'r rhai sy'n eu cynrychioli ddod ataf yn hollol chwerthinllyd. Fel y mae'n digwydd, byddaf yn ymweld â'r ffermwr penodol hwnnw i drafod ei amgylchiadau penodol ef. Yn y cyfarfod, awgrymais ei fod yn cyfarfod â fy swyddogion ar unwaith, ac fe siaradodd â fy swyddogion yn y cyfarfod hwnnw i drafod pa gefnogaeth benodol y gallem ei chynnig iddo. Ond mae unrhyw awgrym nad yw Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n llawn â'r diwydiant yn chwerthinllyd.
- 14:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I'm not sure how that was to do with young people and food, but I'm sure it was there somewhere. Question 8, Darren Millar.
- Nid wyf yn siŵr sut roedd hynny'n ymwneud â phobl ifanc a bwyd ond rwy'n siŵr ei fod yno'n rhywle. Cwestiwn 8, Darren Millar.

## Gwrthsefyll Llifogydd

## Flood Resilience

14:11 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wrthsefyll llifogydd yn Hen Golwyn? OAQ(4)0382(NR)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*8. Will the Minister make a statement on flood resilience in Old Colwyn? OAQ(4)0382(NR)*

14:11 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
I thank the Member for Clwyd West for his question. Conwy council, as lead local flood-risk management authority, is responsible for flood resilience in Old Colwyn. I am aware of the council's proposals to strengthen the area's coastal defences and it has met infrastructure providers that benefit significantly from the defences to discuss funding contributions and is planning a further meeting.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i'r Aelod dros Orllewin Clwyd am ei gwestiwn. Cyngor Conwy, fel yr awdurdod rheoli risg llifogydd lleol arweiniol, sy'n gyfrifol am drefniadau gwrthsefyll llifogydd yn Hen Golwyn. Rwy'n ymwybodol o gynigion y cyngor i gryfhau amddiffynfeydd arfordirol yr ardal ac mae wedi cyfarfod â darparwyr seilwaith sy'n cael budd sylweddol o'r amddiffynfeydd i drafod cyfraniadau ariannol ac mae'n cynllunio cyfarfod pellach.

14:11 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Minister, thank you for that update. I'm very concerned, and have been for a number of years, at the resilience of the flood defences in Old Colwyn. As you know, they protect the vital transport infrastructure along the north Wales railway line, and indeed the A55 corridor as well. There's been very little progress in recent years. Meetings appears to be happening for meetings' sake, with very little progress arising as a result of that. I appreciate that the local authority is the lead agency, but, given the importance of that vital infrastructure for the whole of north Wales, will the Welsh Government now step up to the plate and take the leadership on this issue to ensure that these flood defences are upgraded as soon as possible, so that that part of our coast can be as resilient as it needs to be, particularly in view of the sorts of storms that we're seeing these days over the winter period, and some of the bad weather that's forecast over the winter?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, diolch i chi am y wybodaeth ddiweddaraf. Rwy'n bryderus iawn, ac wedi bod ers nifer o flynyddoedd, ynglŷn â gallu'r amddiffynfeydd i wrthsefyll llifogydd yn Hen Golwyn. Fel y gwyyddoch, maent yn gwarchod y seilwaith trafnidiaeth hanfodol ar hyd rheilffordd gogledd Cymru, a choridor yr A55, yn ogystal. Ychydig iawn o gynnydd a wnaed yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'n ymddangos bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal er mwyn eu cynnal yn unig, gyda fawr iawn o gynnydd yn deillio o hynny. Rwy'n sylweddoli mai'r awdurdod lleol yw'r asiantaeth arweiniol ond o ystyried pa mor bwysig yw'r seilwaith hanfodol i ogledd Cymru gyfan, a wnaiff Llywodraeth Cymru fachu ar y cyfle yn awr i arwain ar y mater hwn er mwyn sicrhau bod yr amddiffynfeydd hyn yn cael eu huwchraddio cyn gynted ag y bo modd, er mwyn i'r rhan honno o'n harfordir fod mor gadarn ag y mae angen iddi fod, yn enwedig o ystyried y math o stormydd rydym yn eu gweld y dyddiau hyn dros gyfnod y gaeaf a'r tywydd gwael a ragwelir y gaeaf hwn?

14:12 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Of course, I'm grateful for the Member's question, again on flood defences, just to highlight the opportunity that we can give assurances of this. Welsh Government has made significant contributions on flood defences, unlike the Westminster Government. Over recent years we've provided over £13 million for coastal risk management in the Colwyn Bay area, with additional funding for regeneration. In addition, over £2 million was provided to Conwy council to restore coastal defences in Clwyd West following the 2013-14 winter storms. It is our commitment to continue making investments in vulnerable areas. My officials have met with Network Rail to provide better engagement on flood and coastal risk management matters. It is a matter for the local authority, but I will ask my officials to encourage them to complete discussions in order for investments to be made.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Wrth gwrs, rwy'n ddiolchgar am gwestiwn yr Aelod ar amddiffynfeydd rhag llifogydd unwaith eto, er mwyn tynnu sylw at y cyfle i ni allu cynnig sicrwydd ar hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu'n sylweddol at amddiffynfeydd rhag llifogydd, yn wahanol i Lywodraeth San Steffan. Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi darparu dros £13 miliwn ar gyfer rheoli perygl arfordirol yn ardal Bae Colwyn, gydag arian ychwanegol ar gyfer adfywio. Yn ogystal, darparwyd dros £2 filiwn i Gyngor Conwy ar gyfer adfer amddiffynfeydd arfordirol yng ngorllewin Clwyd yn dilyn stormydd gaeaf 2013-14. Ein hymrwymiad yw parhau i fuddsoddi mewn ardaloedd agored i niwed. Mae fy swyddogion wedi cyfarfod â Network Rail er mwyn ymgysylltu'n well ar faterion rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd. Mater i'r awdurdod lleol ydyw ond byddaf yn gofyn i fy swyddogion i'w hannog i gwblhau trafodaethau er mwyn gallu buddsoddi.

14:13

**Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mi fyddwn innau hefyd yn ategu'r angen i sicrhau bod y buddsoddiad yn digwydd, ond wrth gwrs mae'n rhaid inni sicrhau bod y buddsoddiad yn digwydd mewn modd nad yw ond yn dod â buddiannau amgylcheddol ac amddiffyn rhag erydu'r arfordir, ond hefyd yn creu cyfleoedd economaidd. Rŷm ni wedi gweld y llwyddiant sydd wedi digwydd yn y blynyddoedd diwethaf—fel y mae gwella'r traeth, er enghraifft, ym Mae Colwyn wedi cyfrannu at dwf economaidd yn yr ardal. A allwch chi ein sicrhau ni, felly, y bydd unrhyw fuddsoddiad sy'n cael ei wneud o safbwynt amddiffynfeydd y glannau yn cael ei wneud mewn modd sydd yn ymwybodol iawn o'r potensial economaidd a chymdeithasol y gellid manteisio arny'n nhw yn ogystal?

I too would echo the need to ensure that the investment does happen, but, of course, we must ensure that the investment happens in a way that not only brings environmental benefits and benefits in terms of coastal erosion, but also creates economic activity. We've seen the success of the last few years—how improvements to the beach in Colwyn Bay, for example, have contributed to economic growth in that area. Can you give us an assurance, therefore, that any investment made in terms of coastal flood defences are made in a way that is very aware of the economic and social potential that could also benefit?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:14

**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I'm encouraged by my department, and I would hope that the future local government department, who will be covered by the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, will consider all aspects of sustainable development in their financial investments. I always look for a win-win situation when making environmental impact funding streams, and we're looking to continue to do that. There are some great examples, in fact, in Conwy, as the Member alluded to, which have already happened, but we'll have to look at this particular case, which Darren Millar has raised with us, around the area he looks at specifically.

Caf fy annog gan fy adran, a byddwn yn gobeithio y bydd yr adran llywodraeth leol yn y dyfodol, a fydd yn cael ei chynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn ystyried pob agwedd ar ddatblygu cynaliadwy yn eu buddsoddiadau ariannol. Rwyf bob amser yn edrych am sefyllfa lle y bydd pawb ar eu hennill wrth drefnu ffrydiau ariannu effeithiau amgylcheddol ac rydym yn bwriadu parhau i wneud hynny. Ceir rhai enghreifftiau gwych yng Nghonwy, fel y soniodd yr Aelod, sydd eisoes wedi digwydd, ond bydd yn rhaid i ni edrych ar yr achos penodol hwn y mae Darren Millar wedi'i ddwyn i'n sylw ynghylch yr ardal y mae'n edrych arni'n benodol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Y System Graddio mewn Lladd-dai

## The Grading System in Abattoirs

14:15

**Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y system graddio a ddefnyddir mewn lladd-dai cig eidion a chig oen? OAQ(4)0390(NR)*

*9. Will the Minister make a statement on the grading system used in lamb and beef abattoirs? OAQ(4)0390(NR)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:15

**Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The current payment system for beef and lamb carcasses is based on both carcass weight and the EUROP classification system. Hybu Cig Cymru are currently considering alternative automated approaches to carcass evaluation for lamb that would allow the development of a payment system based on meat yield.

Mae'r system dalu bresennol ar gyfer carcasau cig eidion a chig oen yn seiliedig ar bwysau'r carcass ac ar system ddsbarthu EUROP. Ar hyn o bryd, mae Hybu Cig Cymru yn ystyried dulliau awtomataidd amgen i werthuso carcasau cig oen a fyddai'n caniatáu datblygu system dalu yn seiliedig ar faint o gig a gynhyrchir.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:15

**Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Minister; I am pleased to hear that response. There have been some representatives from the industry that have criticised the subjective nature of the current classification system used in the UK for sheep and beef, which has led to mistrust from farmers, abattoirs and supermarkets. There is often a belief amongst farmers that some abattoirs change their grading pressure according to the time of year and supply-demand relationships. I appreciate you've mentioned that Hybu Cig Cymru have looked at this, but can I ask you when they will be reporting back to you? Clearly, it's good to give consideration to moving towards this yield-based approach in this regard.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Weinidog; rwy'n falch o glywed yr ymateb hwnnw. Mae rhai cynrychiolwyr o'r diwydiant wedi beirniadu natur oddrychol y system ddsbarthu bresennol a ddefnyddir yn y DU ar gyfer cig oen a chig eidion, sydd wedi arwain at ddiffyg ymddiriedaeth ymhlith ffermwyr, lladd-dai ac archfarchnadoedd. Ceir cred ymysg ffermwyr yn aml fod rhai lladd-dai'n newid eu pwysau graddio yn ôl yr adeg o'r flwyddyn a'r berthynas rhwng cyflenwad a galw. Rwy'n sylweddoli eich bod wedi sôn bod Hybu Cig Cymru wedi edrych ar hyn ond a gaf fi ofyn i chi pa bryd y byddant yn adrodd yn ôl wrthy'ch? Yn amlwg, mae'n dda rhoi ystyriaeth i symud tuag at ymagwedd sy'n seiliedig ar faint y cynnyrch yn hyn o beth.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:16

**Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. I will write to the Member with the date on which I expect to receive the results of the deliberations. I can tell you that Welsh Government representatives and representatives from across the red meat industry are also involved in that piece of work that Hybu Cig Cymru is leading, so it's very much a joint piece of work. I was also pleased to meet with the Food Standards Agency recently—they've just visited New Zealand to look at automated carcase grading systems over there—to see what we could potentially learn from them in Wales. I'm hoping to have some feedback from that particular meeting as well. So, this is an ongoing piece of work; I'd be more than happy to keep you updated.

Diolch. Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod gyda'r dyddiad rwy'n disgwyl cael canlyniadau'r trafodaethau. Gallaf ddweud wrthyfch fod cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o bob rhan o'r diwydiant cig coch hefyd yn rhan o'r gwaith y mae Hybu Cig Cymru yn ei arwain, felly mae'n sicr yn waith ar y cyd. Roeddwn yn falch hefyd o gyfarfod â'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn ddiweddar—maent newydd ymweld â Seland Newydd i edrych ar systemau graddio carcass awtomataidd yno—i weld beth y gallem ei ddysgu ganddynt yng Nghymru o bosibl. Rwy'n gobeithio cael rhywfaint o adborth o'r cyfarfod hwnnw hefyd. Felly, mae hwn yn waith parhaus; byddwn yn fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Rhandiroedd

## Allotments

14:16

**Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatganiad am ddatblygu rhandiroedd yng Nghymru? OAQ(4)0385(NR)*

*10. Will the Minister make a statement on the development of allotments in Wales? OAQ(4)0385(NR)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:16

**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for Neath for her question. New Welsh Government guidance on the provision of allotments is currently being developed and will be published before the end of the Assembly term.

Diolch i'r Aelod dros Gastell-nedd am ei chwestiwn. Mae canllawiau newydd Llywodraeth Cymru ar ddarparu rhandiroedd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd ac fe'u cyhoeddir cyn diwedd tymor y Cynulliad.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

**Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that, Minister. New allotments are taking root in my own constituency of Neath. These green shoots of development are occurring in Rhos in the community of Cilybebyll. There, the local community council and county councillor have been working hard with a group of dedicated volunteers and have formed the Cilybebyll Allotment Society to take the project forward. In this case, the allotment society have as a landlord the community council itself, which is supportive and actively involved in the development. Minister, what can the Welsh Government do to make land owned by different branches of the public sector in Wales available for the creation of allotments?

Diolch am hynny, Weinidog. Mae rhandiroedd newydd yn dechrau gwreiddio yn fy etholaeth yng Nghastell-nedd. Mae'r egin gwyrdd o ddatblygiad yn digwydd yn Rhos yng nghymuned Cilybebyll. Yno, mae'r cyngor cymuned a'r cyngorydd sir lleol wedi bod yn gweithio'n galed gyda grŵp o wirfoddolwyr ymroddedig ac wedi ffurfio Cymdeithas Rhandiroedd Cilybebyll i fwrw ymlaen â'r prosiect. Yn yr achos hwn, y cyngor cymuned ei hun yw landlord y gymdeithas rhandiroedd, ac mae'n gefnogol ac yn cymryd rhan weithredol yn y datblygiad. Weinidog, beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau bod tir sy'n eiddo i wahanol ganghennau o'r sector cyhoeddus yng Nghymru ar gael ar gyfer creu rhandiroedd?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for her question. The issue of land management, particularly of allotments, is complex. The guidance we will issue will include advice on establishing allotments and will be available to public sector bodies in addition to private landowners. Advice and support on the legal issues, land agreements and the processes of purchasing land can also be sought from the Community Land Advisory Service, which is set up.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Mae mater rheoli tir, yn enwedig rhandiroedd, yn gymhleth. Bydd y canllawiau y byddwn yn eu cyhoeddi yn cynnwys cyngor ar sefydlu rhandiroedd a bydd ar gael i gyrff y sector cyhoeddus, yn ogystal â thirfeddianwyr preifat. Hefyd, gellir gofyn am gyngor a chymorth ar faterion cyfreithiol, cytundebau tir a phrosesau prynu tir gan y Gwasanaeth Cyngori ar Dir Cymunedol, sydd wedi'i sefydlu.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:18 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, there are a number of impressive allotments in Pembrokeshire, which could play a significant role in educating young people about the local environment and how to grow their own food. In light of this, will you commit to discussing this with your colleague, the Minister for education, to ensure that the Welsh Government is doing all it can to promote the use of allotments throughout the education sector, so that young people can learn more about the benefits of healthy eating?

Weinidog, mae nifer o randiroedd trawiadol yn Sir Benfro, a allai chwarae rhan sylweddol yn addysgu pobl ifanc am yr amgylchedd lleol a sut i dyfu eu bwyd eu hunain. Yng ngoleuni hyn, a wnewch chi ymrwymo i drafod hyn gyda'ch cyd-Aelod, y Gweinidog addysg, er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth y gall i hyrwyddo'r defnydd o randiroedd ar draws y sector addysg, fel y gall pobl ifanc ddysgu mwy am fanteision bwyta'n iach?

14:18 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

I share the Member's thoughts and vision around increasing community growing. We have the great Eco-Schools programme here in Wales, which encourages green opportunities through education programmes. I will speak to my colleague to see whether there's any more we can do to help those proposals.

Rwy'n rhannu syniadau a gweledigaeth yr Aelod ynglŷn â chynyddu tyfu cymunedol. Mae gennym y rhaglen Eco-Sgolion wych yma yng Nghymru, sy'n annog cyfleoedd gwyrdd drwy raglenni addysg. Byddaf yn siarad â'm cyd-Aelod i weld a oes mwy y gallwn ei wneud i helpu gyda'r argymhellion hynny.

14:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister. Diolch yn fawr, Weinidog.

## 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## 2. Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

14:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

We now move to item 2, which is questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty. Questions 1, OAQ(4)0402(CTP), and 2, OAQ(4)0409(CTP), have been transferred for written reply from the Minister for Economy, Science and Transport, so we move to question 3. Paul Davies.

Symudwn yn awr at eitem 2, sef cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Mae cwestiwn 1, OAQ(4)0402(CTP), a chwestiwn 2, OAQ(4)0409(CTP), wedi'u trosglwyddo i'w hateb yn ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, felly symudwn at gwestiwn 3. Paul Davies.

## Y Sector Wirfoddol (Gorllewin Cymru)

## The Voluntary Sector (West Wales)

14:19 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector wirfoddol yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)398(CTP)

3. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's priorities for the voluntary sector in west Wales? OAQ(4)398(CTP)

14:19 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you. The third sector makes a vital contribution to communities across Wales. We remain committed to supporting the sector to tackle poverty and work with individuals, families and communities. I agreed over £528,000 core funding for county voluntary councils and volunteer centres in west Wales this year to sustain this work.

Diolch. Mae'r trydydd sector yn gwneud cyfraniad hanfodol i gymunedau ledled Cymru. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynorthwyo'r sector i drechu tlodi a gweithio gydag unigolion, teuluoedd a chymunedau. Cytunais i ryddhau dros £528,000 o gyllid craidd ar gyfer cynghorau gwirfoddol sirol a chanolfannau gwirfoddoli yng ngorllewin Cymru eleni er mwyn cynnal y gwaith.

- 14:19 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
 Minister, a priority for the voluntary sector in west Wales, and I would hope across all of Wales, is encouraging young people to get involved and support our local communities; that's why I think it's excellent to see the Pembrokeshire coast national park's youth rangers, who are part of the Big Lottery funded Your Park project, shortlisted for a national award. I'm sure you'll agree with me that it's great to see young people giving up countless hours of their time to make a difference. Therefore, can you tell us what the Welsh Government is doing to promote this sort of activity across the whole of Wales?  
 Weinidog, blaenoriaeth i'r sector gwirfoddol yng ngorllewin Cymru, a Chymru gyfan, rwy'n gobeithio, yw annog pobl ifanc i gymryd rhan a chefnogi ein cymunedau lleol; dyna pam rwy'n credu ei bod yn wych gweld parcmyd ifanc parc cenedlaethol arfordir Sir Benfro, sy'n rhan o brosiect Eich Parc a gaiff ei ariannu gan y Loteri Fawr, ar y rhestr fer am wobwr genedlaethol. Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno ei bod yn wych gweld pobl ifanc yn rhoi oriau maith o'u hamser i wneud gwahaniaeth. Felly, a allwch ddweud wrthym beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo'r math hwn o weithgarwch ledled Cymru?  
 Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- 14:20 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
 Thank you. Yes, it's absolutely vital we encourage young people to participate in volunteering activities right across Wales. You will be aware of the Millennium Volunteers scheme that we've had, and it's something that I do—. I know there's not just the group that you mentioned—there's also the Pembrokeshire autism-friendly youth group, which is very active in your constituency also.  
 Diolch. Ydy, mae'n hollol hanfodol ein bod yn annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol ledled Cymru. Fe fyddwch yn gwybod am ein cynllun Gwirfoddolwyr y Mileniwm, ac mae'n rhywbeth rwy'n—. Rwy'n gwybod nad y grŵp a grybwyllwyd gennych yn unig sydd i'w gael—ceir hefyd y grŵp ieuencid ystyriol o awtistiaeth yn Sir Benfro, sy'n weithgar iawn yn eich etholaeth hefyd.  
 Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (Gogledd Cymru)**  
**Vibrant and Viable Places (North Wales)**
- 14:20 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0410(CTP)[W]*  
*4. Will the Minister make a statement on the Vibrant and Viable Places scheme in north Wales? OAQ(4)0410(CTP) [W]*  
 Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- 14:20 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
 Diolch. Our Vibrant and Viable Places programme has several components, all focused on regenerating town centres. The programme encompasses capital investment of over £38 million in north Wales, leveraging in £60 million from other sources, creating 140 jobs, providing over 200 affordable housing units and ensuring energy efficiency improvements to 1,300 properties.  
 Diolch. Ceir sawl elfen i'n rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, pob un yn canolbwyntio ar adfywio canol trefi. Mae'r rhaglen yn cwmpasu buddsoddiad cyfalaf o dros £38 miliwn i ogledd Cymru, gan ddenu £60 miliwn o ffynonellau eraill, creu 140 o swyddi, darparu dros 200 o unedau tai fforddiadwy a sicrhau gwelliannau effeithlonrwydd ynni i 1,300 eiddo.  
 Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- 14:21 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
 Thank you for your answer, Minister, although I have to say there has been a theme emerging in the projects supported by the scheme in many parts of north Wales about a lack of involvement of the local community in the projects being funded. You'll be familiar, I'm sure, with the situation in Wrexham, where market traders are frustrated by the disruption caused by the building of an arts hub in the market, which is funded by the scheme. So, do you accept that regeneration schemes are unlikely to work unless the people in the areas concerned have ownership and real involvement in those schemes?  
 Diolch i chi am eich ateb, Weinidog, er bod yn rhaid i mi ddweud bod thema'n dod yn amlwg yn y prosiectau a gefnogir gan y cynllun mewn sawl rhan o ogledd Cymru o ran diffyg ymwneud y gymuned leol yn y prosiectau sy'n cael eu hariannu. Fe fyddwch yn gyfarwydd, rwy'n siŵr, â'r sefyllfa yn Wrexham, lle y mae masnachwyr marchnad yn teimlo'n rhwystredig oherwydd yr aflonyddwch a achoswyd yn sgil adeiladu canolfan gelfyddydau yn y farchnad, gwaith sy'n cael ei ariannu gan y cynllun. Felly, a ydych yn derbyn bod cynlluniau adfywio yn annhebygol o weithio oni bai bod gan y bobl yn yr ardaloedd dan sylw berchnogaeth ar y cynlluniau a rhan go iawn ynddynt?  
 Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:21	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I think it's very important and, obviously, as Wrexham's my constituency, I am very aware of the particular case that you refer to. I've made sure that my officials have made it very clear to Wrexham County Borough Council that they need to consult widely with the market traders. As you said, it's very important that they are on board.	Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ac yn amlwg, gan mai fy etholaeth i yw Wrecsam, rwy'n ymwybodol iawn o'r achos penodol rydych yn cyfeirio ato. Rwyf wedi sicrhau bod fy swyddogion wedi dweud yn glir iawn wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fod angen iddynt ymgynghori'n eang â masnachwyr y farchnad. Fel y dywedoch, mae'n bwysig iawn eu bod yn gefnogol.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:21	<b>Sandy Mewies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> As you said, Minister, this scheme has made a really good contribution, both to the environment and to businesses, in promoting regeneration. This has happened in parts of Flintshire. So, can I ask what scope there is to extending this scheme to other parts of Flintshire in the future?	Fel y dywedoch, Weinidog, mae'r cynllun wedi gwneud cyfraniad da iawn i'r amgylchedd ac i fusnesau yn hyrwyddo adfywio. Mae hyn wedi digwydd mewn rhannau o Sir y Fflint. Felly, a gaf ofyn pa gyfle sydd yna i ymestyn y cynllun i rannau eraill o Sir y Fflint yn y dyfodol?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:22	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> When the original bid was put in from Flintshire County Council, they concentrated on Deeside, as you're aware, and it has developed a number of innovative projects, such as Deeside's Green Team. I met with them—I think it was just over a year ago—and it was very good to see how young people were being engaged in regenerating their communities and also providing very valuable training opportunities at the same time. Through our support for the Flintshire towns action plan, town centre partnerships and our social housing grant programme, we are supporting the regeneration of town centres in Holywell, Flint and Mold in your constituency. But I think the work that's been undertaken at Deeside really provides a very valuable model that could be taken forward by the local authority in regenerating other communities also.	Pan gyflwynwyd y cais gwreiddiol gan Gyngor Sir y Fflint, roeddent yn canolbwyntio ar Lannau Dyfrdwy, fel rydych yn gwybod, ac mae wedi datblygu nifer o brosiectau arloesol, megis Tîm Gwyrdd Glannau Dyfrdwy. Cyfarfûm â hwy—ychydig dros flwyddyn yn ôl, rwy'n meddwl—ac roedd yn dda iawn gweld sut oedd yn cynnwys pobl ifanc yn y gwaith o adfywio eu cymunedau a hefyd yn darparu cyfleoedd hyfforddi gwerthfawr iawn ar yr un pryd. Drwy ein cefnogaeth i gynllun gweithredu trefi Sir y Fflint, partneriaethau canol y dref a'n rhaglen grant tai cymdeithasol, rydym yn cefnogi adfywio canol trefi yn Nhreffynnon, y Fflint a'r Wyddgrug yn eich etholaeth. Fodd bynnag, rwy'n meddwl bod y gwaith a wneir yng Nglannau Dyfrdwy yn darparu model gwerthfawr iawn y gellid ei ddatblygu gan yr awdurdod lleol wrth fynd ati i adfywio cymunedau eraill hefyd.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:23	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Mark Isherwood.	Mark Isherwood.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:23	<b>Mark Isherwood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Which number, sorry?	Mae'n ddrwg gennyf, pa rif?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:23	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Well, you have to keep up. We're on number 4; I don't know what number you're on. We'll move to Aled Roberts.	Wel, mae'n rhaid i chi ddal i fyny. Rydym ar rif 4; nid wyf yn gwybod pa rif rydych chi arno. Symudwn at Aled Roberts.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:23	<b>Aled Roberts</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Rydych wedi dweud eich bod wedi bod yn trafod â chyngor Wrecsam ynglŷn â'r cynllun yma. A gaf i ofyn, felly, a ydych chi'n ymwybodol o unrhyw bryderon ac a gafodd asesiad ei wneud o fusnesau eraill yn Wrecsam sydd, erbyn hyn, yn gweld cystadleuaeth gan feithrinfa sydd wedi cael ei chreu gan y cyngor, lle mae staff o fewn y cyngor yn cael eu trosglwyddo ac yn creu sefyllfa lle nad yw busnesau yn gallu cystadlu efo'r feithrinfa sy'n cael ei rhedeg gan y cyngor?	You say that you've been discussing this scheme with Wrexham council. Can I ask you, therefore, if you're aware of any concerns and whether an assessment made of other businesses in Wrexham who now see competition from a nursery created by the council, where staff from within the council are being transferred, creating a situation where businesses can't compete with the council-run nursery?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

14:23	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Well, when the local authority submitted the bid for VVP funding, one of the things they brought forward was to have a nursery, and that was because the childcare sufficiency assessment highlighted a gap in provision for working parents, especially those on low incomes and those who also work unsociable hours, for instance at weekends. There was definitely a gap in Wrexham in relation to that. So, through the affordable childcare project, the nursery came forward, and that was looking to address the issue through the creation of additional childcare places, with flexible opening hours and pricing structures, and linked to the provision of training opportunities for local people. I know it's doing very well.</p>	<p>Wel, pan gyflwynodd yr awdurdod lleol y cais am gyllid Lleuedd Llewyrchus Llawn Addewid, un o'r pethau a roesant sylw iddo oedd cael meithrinfa, a hynny oherwydd bod yr asesiad digonolrwydd gofal plant wedi amlygu bwlbwlb yn y ddarpariaeth ar gyfer rhieni sy'n gweithio, yn enwedig y rhai ar incwm isel a'r rhai sydd hefyd yn gweithio oriau anghymdeithasol, er enghraifft ar benwythnosau. Roedd yna fwch yn bendant yn Wrecsam mewn perthynas â hynny. Felly, drwy'r prosiect gofal plant fforddiadwy, cyflwynwyd y feithrinfa, i geisio mynd i'r afael â'r mater drwy greu lleuedd gofal plant ychwanegol, gydag oriau agor a strwythurau prisio hyblyg, ac yn gysylltiedig â darparu cyfleoedd hyfforddi i bobl lleol. Rwy'n gwybod ei bod yn gwneud yn dda iawn.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:24	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Mark Isherwood.</p>	<p>Mark Isherwood.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:24	<p><b>Mark Isherwood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>On Vibrant and Viable Places.</p>	<p>Ar Lleuedd Llewyrchus Llawn Addewid.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:24	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Okay.</p>	<p>lawn.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:24	<p><b>Mark Isherwood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>When the Welsh Government, last year, made a statement on Vibrant and Viable Places, it announced additional money for Flintshire to deliver the Welsh housing quality standard plus—with the added issues around environment, jobs, training and community engagement. How are you monitoring that to ensure that this is based upon community engagement, with the community deciding, and community empowerment, rather than being a local authority scheme?</p>	<p>Pan wnaeth Llywodraeth Cymru ddatganiad ar Lleuedd Llewyrchus Llawn Addewid y llynedd, cyhoeddodd arian ychwanegol i Sir y Fflint ar gyfer darparu safon ansawdd tai Cymru a mwy—gyda'r materion ychwanegol ynghylch amgylchedd, swyddi, hyfforddiant ac ymgysylltu â'r gymuned. Sut rydych yn monitro hynny i sicrhau ei fod yn seiliedig ar ymgysylltu â'r gymuned, gyda'r gymuned yn penderfynu ac yn cael ei grymuso, yn hytrach na bod yn gynllun yr awdurdod lleol?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:24	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Well, within the VVP programme, there's a great deal of monitoring that's undertaken. Every local authority has a specific regeneration manager who's an official within my department, to ensure that that work is being undertaken, and as I mentioned in my answer to Llyr, it's very important that the community is consulted about anything that takes place.</p>	<p>Wel, o fewn y rhaglen Lleuedd Llewyrchus Llawn Addewid, mae llawer iawn o fonitro'n digwydd. Mae gan bob awdurdod lleol reolwr adfywio penodol sy'n swyddog yn fy adran, er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud, ac fel y soniais yn fy ateb i Llyr, mae'n bwysig iawn ymgynghori â'r gymuned ynglŷn ag unrhyw beth sy'n digwydd.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<p><b>Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau</b></p>		<p><b>Questions Without Notice from Party Spokespeople</b></p>	
14:25	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>We now move to questions from the spokespeople. The first this afternoon is the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, Peter Black.</p>	<p>Symudwn yn awr at gwestiynau gan y llefarwyr. Y cyntaf y prynhawn yma yw llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:25	<p><b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you, Presiding Officer. Minister, can you tell me how many applications you've had from Welsh credit unions for mergers over the last three years?</p>	<p>Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, a allwch ddweud wrthyf faint o geisiadau rydych wedi'u derbyn gan undebau credyd yng Nghymru i uno dros y tair blynedd diwethaf?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>



- 14:25 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- You'll be aware of the one between North Wales and Hafren credit unions, and I am aware of one other that's been submitted, but I don't know the name of the specific credit union. Could I declare, Presiding Officer, that I'm a member of North Wales Credit Union?
- Fe fyddwch yn ymwybodol o'r un rhwng undebau credyd gogledd Cymru a Hafren, ac rwy'n ymwybodol o un arall sydd wedi'i gyflwyno, ond nid wyf yn gwybod enw'r undeb credyd penodol. A gaf fi ddatgan, Lywydd, fy mod yn aelod o Undeb Credyd Gogledd Cymru?
- 14:25 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you. Presiding Officer, I declare that I'm a member of LASA Credit Union, but that wasn't one of the ones that applied for merger, so I didn't mention it. Minister, a freedom of information request indicated to me that when you had the merger of North Wales Credit Union and the former Hafren Credit Union, the Government provided a total of £138,186 to facilitate that merger, of which £96,956 was approved to cover the difference between the income and expenditure levels resulting from the merger, presumably to pay off debts which the two credit unions had. Do you think that's good value for taxpayers' money?
- Diolch. Lywydd, rwy'n datgan fy mod yn aelod o Undeb Credyd Benthyciadau ac Arbedion Abertawe, ond nid oedd yn un o'r rhai a wnaeth gais am uno, felly ni soniais amdano. Weinidog, dangosodd cais rhyddid gwybodaeth i mi, pan unwyd Undeb Credyd Gogledd Cymru â hen Undeb Credyd Hafren, fod y Llywodraeth wedi rhoi cyfanswm o £138,186 i hwyluso'r uno, gyda £96,956 ohono wedi'i gymeradwyo i dalu am y gwahaniaeth rhwng y lefelau incwm a gwariant a oedd yn deillio o uno, yn ôl pob tebyg i dalu dyledion a oedd gan y ddau undeb credyd. A ydych yn credu bod hynny'n werth da am arian trethdalwyr?
- 14:26 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, I think what it's done is provide a very stable credit union. We've looked to make sure that that money has been well spent. I am aware of the FOI request that you put in, and the money was broken down very significantly for you to see.
- Ydw, rwy'n meddwl mai'r hyn y mae wedi'i wneud yw darparu undeb credyd sefydlog iawn. Rydym wedi ceisio sicrhau bod yr arian wedi cael ei wario'n dda. Rwy'n ymwybodol o'r cais rhyddid gwybodaeth a gyflwynwyd gennych a chafodd yr arian ei ddadansoddi'n sylweddol iawn i chi ei weld.
- 14:26 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that indication, Minister. I think it's important that we do establish what financial, developmental, governance and sustainability criteria the Welsh Government applies to any decision to support a credit union merger. If you were to receive other credit union merger applications, is that sort of money available in your budget in future, or is this a one-off expenditure which is going to just apply to that particular credit union?
- Diolch am ddynodi hynny, Weinidog. Rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn sefydlu pa feini prawf ariannol, datblygiadol, llywodraethol ac o ran cynaliadwyedd y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymhwyso i unrhyw benderfyniad i gefnogi uno undebau credyd. Pe baech yn derbyn ceisiadau uno undebau credyd eraill, a yw'r math hwnnw o arian ar gael yn eich cyllideb yn y dyfodol neu a yw hwn yn wariant untro sydd ond yn gymwys ar gyfer yr undeb credyd penodol hwnnw?
- 14:27 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- No, I think we would look at it on a case-by-case analysis.
- Na, rwy'n meddwl y byddem yn edrych arno ar sail dadansoddiad o achosion unigol.
- 14:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to the Welsh Conservatives spokesperson, Mark Isherwood.
- Symudwn yn awr at lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Mark Isherwood.

14:27

**Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Wales Council for Voluntary Action has long called for local authorities, health boards and the third sector to work together more imaginatively to develop better services closer to people, more representative of needs, and add value by drawing on community resources. However, the Welsh Government has decided to push ahead with replacing core funding arrangements for national third sector organisations with new project-based grant schemes, that mean that third sector bodies that have been delivering projects and programmes, often for decades, delivering improvements to people's lives, representing causes and saving Welsh Government statutory bodies money, are now faced with closure or demotion to simply delivery agents for Welsh Government programmes, including, of course, Disability Wales, the rights and equality-based umbrella organisation, which no longer fits the criteria. After 40 years as a national voice, Disability Wales has less than four months to ensure its survival. As one campaigner in north Wales said, 'we've been attacked enough; this just adds insult to injury'. As the Minister responsible for both equality and the voluntary sector, how will you, at this final moment, intervene, if at all, to enable delivery and design with the third sector, which will improve outcomes and save Welsh Government money, rather than trying to shoehorn them in to shrunken organisations simply delivering your programmes?

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi galw ers amser ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'r trydydd sector i weithio gyda'i gilydd yn fwy dychmygus i ddatblygu gwasanaethau gwell yn agosach at bobl, gwasanaethau sy'n fwy ymatebol i anghenion ac sy'n ychwanegu gwerth drwy ddefnyddio adnoddau cymunedol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu bwrw ymlaen i sefydlu cynlluniau grant newydd yn seiliedig ar brosiectau yn lle trefniadau cyllid craidd ar gyfer cyrff trydydd sector cenedlaethol. Golyga hyn fod cyrff trydydd sector sydd wedi bod, ers degawdau yn aml, yn cyflwyno prosiectau a rhaglenni sy'n sicrhau gwelliannau i fywydau pobl, yn cynrychioli achosion ac yn arbed arian i gyrff statudol Llywodraeth Cymru, bellach yn wynebu cau neu eu hisraddio'n gyfryngau'n unig ar gyfer darparu rhaglenni Llywodraeth Cymru, gan gynnwys, wrth gwrs, Anabledd Cymru, y sefydliad ymbarél sy'n seiliedig ar faterion hawliau a chydarddoldeb, nad yw bellach yn cydweddu â'r meini prawf. Ar ôl 40 mlynedd o fod yn llais cenedlaethol, mae gan Anabledd Cymru lai na phedwar mis i sicrhau ei fod yn goroesi. Fel y dywedodd un ymgyrchydd yng ngogledd Cymru, 'we've been attacked enough; this just adds insult to injury'. Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am gydraddoldeb a'r sector gwirfoddol, a fyddwch yn ymyrryd ar y cam terfynol hwn, i'w galluogi i ddarparu a chynllunio gyda'r trydydd sector, a fydd yn gwella canlyniadau ac yn arbed arian i Lywodraeth Cymru, yn hytrach na cheisio'u gwasgu'n rhan o sefydliadau a grebachwyd sy'n cyflawni eich rhaglenni a dim mwy na hynny?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:28

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I very much value the contribution that Disability Wales makes in promoting disabled people's rights and equality. They are receiving grant funding from my department, and they're taking forward one of the key aims in our framework for action on independent living, and that funding will continue.

Rwy'n bendant yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae Anabledd Cymru yn ei wneud yn hyrwyddo hawliau a chydarddoldeb pobl anabl. Maent yn derbyn cyllid grant gan fy adran ac yn bwrw ymlaen ag un o nodau allweddol ein fframwaith gweithredu ar fyw'n annibynnol, a bydd y cyllid hwnnw'n parhau.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:29

**Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I know that; I declare that, alongside Aled Roberts, I co-chair the cross-party group on disability, which is sponsored by them. This is devastation, this could force their closure and this must not be allowed to happen. Of course, they're not alone. As the Welsh government's guidance on the Families First programme to improve outcomes for children and families, particularly in poverty, states, we need good communication between Welsh Government, local authorities and the third sector and multi-agency working.

Gwn hynny; rwy'n datgan fy mod yn cyd-gadeirio'r grŵp trawsbleidiol ar anabledd gydag Aled Roberts, grŵp a noddir ganddynt. Mae hyn yn ddistrywiol—gallai orfodi iddynt gau ac ni ddylid caniatáu i hynny ddigwydd. Wrth gwrs, nid ydynt ar eu pen eu hunain. Fel y dywed canllawiau Llywodraeth Cymru ar y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf i wella canlyniadau i blant a theuluoedd, yn enwedig rhai sy'n byw mewn tlodi, mae angen cyfathrebu da rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r trydydd sector a gwaith amlasiantaeth.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

However, when I wrote to you after concern was raised by third sector bodies working on this programme over what's going to happen to core funding for that programme after spring 2016, you came back talking about the timing of the UK Government's spending review, even though the Welsh Government had already announced its intention to move from core to project funding. Now that we've had the comprehensive spending review, will you revisit this, as your answer to me implied, and see how this, and other programmes, can be safeguarded, and how the Welsh Government can learn from them how they can help you actually do more with your reduced budgets?

Fodd bynnag, pan ysgrifennais atoch ar ôl i gyrff trydydd sector sy'n gweithio ar y rhaglen leisio pryder ynglŷn â'r hyn sy'n mynd i ddigwydd i gyllid craidd ar gyfer y rhaglen ar ôl gwanwyn 2016, fe ymateboch drwy siarad am amseriad adolygiad o wariant Llywodraeth y DU, er bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi ei bwriad i symud o gyllid craidd at gyllid prosiect. Gan ein bod wedi cael yr adolygiad cynhwysfawr o wariant bellach, a fyddwch yn ailystyried hyn, fel roedd eich ateb i mi yn ei awgrymu, a gweld sut y gellir diogelu'r rhaglen hon ac eraill, a sut y gall Llywodraeth Cymru ddysgu ganddynt mewn gwirionedd sut y gallant eich helpu i wneud mwy gyda'ch cyllidebau llai?

- 14:30 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I'm sure even Mark Isherwood understands that there is a process you have to go through. It was a very, very late comprehensive spending review that came from the UK Government, which has made things very, very difficult, particularly for third sector organisations. We've now had the budget, just yesterday, and, obviously, my budget now—I know what my budget will be for 2016-17, and there will be ongoing discussions with all our third sector partners to discuss levels of funding for next year.
- Wel, rwy'n siŵr fod hyd yn oed Mark Isherwood yn deall bod yna broses y mae'n rhaid i chi fynd drwyddi. Roedd yn adolygiad cynhwysfawr o wariant hwyr iawn gan Lywodraeth y DU, sydd wedi gwneud pethau'n hynod o anodd yn enwedig i sefydliadau trydydd sector. Erbyn hyn, rydym wedi cael y gyllideb, ddoe ddiwethaf, ac yn amlwg, mae fy nghyllideb yn awr—rwy'n gwybod beth fydd fy nghyllideb ar gyfer 2016-17 a bydd trafodaethau parhaus gyda'n holl bartneriaid trydydd sector i drafod lefelau cyllid ar gyfer y flwyddyn nesaf.
- 14:30 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, thank you for that. As I state, your announcements as a Government on core funding predated the CSR, and it's not about, in this case, how much, but how you choose to spend that, and ask them how they can help you spend it better.
- Diolch i chi am hynny. Fel rwy'n ei ddweud, daeth eich cyhoeddiadau fel Llywodraeth ar gyllid craidd cyn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, ac nid yw'n ymwneud â faint rydych yn ei wario, yn yr achos hwn, ond sut rydych yn dewis ei wario a gofyn iddynt sut y gallant eich helpu i'w wario'n well.
- My final question, in a similar theme—third sector involvement in financial inclusion. As you know, the Welsh Government has put virtually all of the funding into large national advice agencies, such as Citizens Advice. Now, I'm told by organisations working in the sector that they generally have lengthy waiting lists, when smaller organisations can provide intervention in 24 to 48 hours. The consequence is that housing officers, support workers et cetera, who are not regulated to offer debt advice, are nonetheless, with the best of intentions, setting up unrealistic payment plans, which can result in other bills not being paid, and the client ending up in a cycle of debt. Will you again speak to the sector at large across Wales to establish how those most vulnerable people can not only be rescued from their creditors when in crisis, but that permanent intervention be put in place, to minimise the risk of the problems recurring in the future?
- Fy nghwestiwn olaf, sydd â thema debyg—rhan y trydydd sector mewn cynhwysiant ariannol. Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r holl gyllid bron i asiantaethau cynghori cenedlaethol mawr, fel Cyngor ar Bopeth. Nawr, mae sefydliadau sy'n gweithio yn y sector yn dweud wrthyf fod ganddynt restrau aros hir yn gyffredinol, pan fo sefydliadau llai yn gallu darparu ymyrraeth mewn 24 i 48 awr. Y canlyniad yw bod swyddogion tai, gweithwyr cymorth ac yn y blaen, nad ydynt yn cael eu rheoleiddio i gynnig cyngor ar ddyledion, er hynny, gyda'r bwriadau gorau, yn sefydlu cynlluniau talu afrealistig, a all arwain at fethu â thalu biliau eraill, a'r cleient yn cael ei ddal mewn cylch o ddyled yn y diwedd. A wnewch chi siarad eto â'r sector yn gyffredinol ledled Cymru i weld sut y gellir achub y bobl fwyaf agored i niwed nid yn unig rhag eu credydwy'r pan fyddant mewn argyfwng, ond hefyd drwy weithredu ymyrraeth barhaol, er mwyn lleihau'r risg o broblemau'n codi dro ar ôl tro yn y dyfodol?
- 14:31 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Good quality advice is very important. I'm certainly monitoring very closely the advice services that we have in Wales. You'll be aware I've set up the advice service network. That's coming back to me with recommendations and advice, and we will be looking at that going forward.
- Mae cyngor o ansawdd da yn bwysig iawn. Rwy'n sicr yn monitro'r gwasanaethau cynghori sydd gennym yng Nghymru yn ofalus iawn. Fe fyddwch yn ymwybodol fy mod wedi sefydlu rhwydwaith y gwasanaethau cynghori. Mae'n rhoi argymhellion a chyngor i mi a byddwn yn edrych ar hynny wrth symud ymlaen.
- 14:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- And we now move to the Plaid Cymru spokesperson, Rhodri Glyn Thomas.
- A symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Rhodri Glyn Thomas.
- 14:32 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, mae'r gyllideb a gyhoeddwyd ddoe yn awgrymu bod eich adran chi yn wynebu toriadau o bron i £60 miliwn. Sut mae hynny'n effeithio ar amcanion eich adran chi?
- Minister, the budget announced yesterday suggests that your department is facing cuts of almost £60 million. How does that affect the aims of your department?

14:32 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Well, you know, we've received a significant cut to our budget from the UK Government, and we can't do everything we want. What we need to do now is prioritise the funding to make sure that it has the impact that we want it to have across Wales. So, for instance, Supporting People, you'll be aware, has had a flat cash settlement. But I'm going through my budget, line by line, over the coming week.

Wel, wyddoch chi, rydym wedi cael toriad sylweddol i'n cyllideb gan Lywodraeth y DU ac ni allwn wneud popeth rydym eisiau ei wneud. Yr hyn sydd angen i ni ei wneud yn awr yw blaenoriaethu'r cyllid i wneud yn siŵr ei fod yn cael yr effaith rydym am iddo ei chael ledled Cymru. Felly, er enghraifft, mae Cefnogi Pobl, fe wyddoch, wedi cael setliad arian gwastad. Ond rwy'n mynd drwy fy nghyllideb, linell wrth linell, dros yr wythnos nesaf.

14:32 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n derbyn bod yn rhaid i chi flaenoriaethu, a gwneud dewisiadau anodd, ond pa griteria ydych chi'n eu defnyddio er mwyn sicrhau bod yr achosion hynny sydd yn fwyaf haeddiannol, a bod y bobl sy'n dibynnu ar yr achosion haeddiannol hynny, ddim yn dioddef yn y broses?

I accept that you have to prioritise and make difficult choices, but what criteria do you use to ensure that those most deserving cases, and those people who depend on those cases, do not suffer in the process?

14:33 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

For me, what's very important is outcomes. So, again, Supporting People—when I came into post, just over a year ago, I wasn't happy with the level of outcomes that I was receiving from Supporting People. I asked our partners who were delivering the Supporting People programme to ensure that those outcomes came back, so that I could make decisions based on very hard data, and that's what I'll be doing right across the portfolio, particularly with my tackling poverty programmes.

I mi, yr hyn sy'n bwysig iawn yw canlyniadau. Felly, unwaith eto, Cefnogi Pobl—pan gychwynnais yn y swydd ychydig dros flwyddyn yn ôl, nid oeddwn yn hapus gyda lefel y canlyniadau roeddwn yn eu cael gan Cefnogi Pobl. Gofynnais i'n partneriaid a oedd yn cyflwyno'r rhaglen Cefnogi Pobl i sicrhau bod y canlyniadau hynny'n dod yn ôl, fel y gallwn wneud penderfyniadau yn seiliedig ar ddata pendant iawn, a dyna y byddaf yn ei wneud ar draws y portffolio, yn enwedig gyda fy rhaglenni trechu tlodi.

14:33 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, fe glywsoch chi yn gynharach gan Llyr Gruffydd am achosion yng ngogledd Cymru lle mae pobl yn teimlo nad ydynt yn cael digon o fewnbwn i rai o'r cynlluniau a'r rhaglenni yma sydd gyda chi, a'u bod nhw'n cael eu cyflwyno o'r top i lawr. Mae'r un peth yn cael ei ddweud am Gymunedau yn Gyntaf, ac am nifer o raglenni eraill. A fyddwch chi'n edrych ar y rhaglenni hynny i weld sut y gallwch chi leihau'r baich biwrocraidd, a sicrhau bod pobl yn ein cymunedau ni yn teimlo bod ganddyn nhw berchnogaeth, yn teimlo bod ganddyn nhw fewnbwn, a bod y rhaglenni hynny yn eu gwasanaethu nhw yn y ffordd fwyaf effeithiol?

Minister, you heard earlier from Llyr Gruffydd about cases in north Wales where people feel that they don't have enough input into some of these schemes and programmes that you have, and that they feel that they are being introduced from the top down. The same is said of Communities First and about a number of other programmes. Will you be looking at those programmes to see how you can reduce the bureaucratic burden, and ensure that the people in our communities feel that they have ownership, that they have an input into the programmes and that the programmes serve them in the most effective way possible?

14:34 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Yes, I certainly will. I don't think it's any secret that I've been looking at Communities First very closely, because I think it's really important, again, that we look at the outcomes of a programme that we've had in place for a significant number of years. So, as I say, particularly the tackling poverty programmes, the four main ones—you know, Communities First, Families First, Flying Start and Supporting People, to some extent—I'm going to be looking very closely at how we go forward, and any transitional period also.

Byddaf yn sicr yn gwneud hynny. Nid wyf yn credu ei bod yn gyfrinach fy mod wedi bod yn edrych ar Cymunedau yn Gyntaf yn fanwl iawn, gan fy mod yn meddwl ei bod yn bwysig iawn, unwaith eto, i ni edrych ar ganlyniadau rhaglen sydd wedi bod ar waith gennym ers nifer sylweddol o flynyddoedd. Felly, fel y dywedais, yn enwedig y rhaglenni trechu tlodi, y pedair prif raglen—wyddoch chi, Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Cefnogi Pobl, i ryw raddau—rwy'n mynd i fod yn edrych yn ofalus iawn ar sut rydym yn symud ymlaen ac ar unrhyw gyfnod pontio hefyd.

## Y Rhaglen Cefnogi Pobl

## The Supporting People Programme

14:34 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rhaglen Cefnogi Pobl? OAQ(4)0406(CTP)

5. Will the Minister make a statement on the Supporting People programme? OAQ(4)0406(CTP)

14:34

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. The Supporting People programme plays a significant role in preventing homelessness. It provides essential support for vulnerable people to find and keep a home and to live as independently as possible. It also helps to reduce demand on our health and social services, and for this reason we have protected the budget for 2016-17.

Diolch. Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn chwarae rhan sylweddol yn atal digartrefedd. Mae'n darparu cymorth hanfodol i bobl sy'n agored i niwed i ddod o hyd i gartref a'i gadw, ac i fyw mor annibynnol â phosibl. Mae hefyd yn helpu i leihau'r galw ar ein gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, ac am y rheswm hwn rydym wedi diogelu'r gyllideb ar gyfer 2016-17.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

14:35

**Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I very much welcome the news that the funding for Supporting People has been protected in the draft budget. However—and I am sorry that there is a 'however'—I am concerned about the cut to the homelessness protection grant. Now, in the Finance Committee this morning we heard an explanation from the finance Minister that this cut is due to a non-recurrent transfer in 2015-16. Can you explain what that means and offer some assurance that what's left of this grant will remain for use by the third sector for the excellent work that they undertake in stopping people becoming homeless, rather than it being used to top-up the local authority transition fund?

Diolch yn fawr, Weinidog. Croesawaf yn fawr iawn y newyddion fod y cyllid ar gyfer Cefnogi Pobl wedi cael ei ddiogelu yn y gyllideb ddrafft. Fodd bynnag—ac mae'n ddrwg gennyf fod yna 'fodd bynnag'—rwy'n bryderus ynghylch y toriad i'r grant digartrefedd. Nawr, yn y Pwyllgor Cyllid y bore yma, clywsom esboniad gan y Gweinidog Cyllid fod y toriad hwn o ganlyniad i drosglwyddo cyllid afreolaidd yn 2015-16. A allwch egluro beth y mae hynny'n ei olygu a chynnig rhywfaint o sicrwydd y bydd yr hyn sydd ar ôl o'r grant yn parhau i fod at ddefnydd y trydydd sector ar gyfer y gwaith ardderchog y maent yn ei wneud yn atal pobl rhag mynd yn ddigartref, yn hytrach na'i fod yn cael ei ddefnyddio i ychwanegu at Gronfa Bontio'r Awdurdod Lleol?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

14:35

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The 2015-16 budget supported local authorities to make the transition to the new legislation via the additional sum of £4.9 million and that was provided in the first year of the legislation. So, that, as you say, isn't recurrent. However, you know, preventing homelessness is absolutely a priority for us and we will be looking at what we can do to maintain the funding. I mean there will be some cuts but I'm working very closely with officials to see what we can do to help.

Roedd cyllideb 2015-16 yn cynorthwyo awdurdodau lleol i wneud y newid i'r ddeddfwriaeth newydd drwy gyfrwng y swm ychwanegol o £4.9 miliwn, a darparwyd hwnnw ym mlwyddyn gyntaf y ddeddfwriaeth. Felly, nid yw hynny, fel y dywedwch, yn rheolaidd. Fodd bynnag, wyddoch chi, mae atal digartrefedd yn sicr yn flaenoriaeth i ni a byddwn yn edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud i gynnal y cyllid. Bydd rhai toriadau ond rwy'n gweithio'n agos iawn gyda swyddogion i weld beth y gallwn ei wneud i helpu.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

14:36

**Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Given the cost of housing people in homeless accommodation, which often turns out to be more expensive than the Ritz, I think that the Supporting People programme is hugely cost-effective, as we saw, Minister, when you visited the Julian Hodge house run by the Wallich in Adamsdown recently, where people with addiction problems are supported to get their lives back on track and to start volunteering and get back into training to enable them to get work. I was fantastically impressed with that and I wondered, on the back of that, what evidence you have of how the Supporting People programme prevents people being referred upwards into the NHS with more expensive problems.

O ystyried y gost o roi llety i bobl mewn llety i'r digartref, sy'n aml yn ddrutach na'r Ritz yn y diwedd, rwy'n meddwl bod y rhaglen Cefnogi Pobl yn hynod o gosteffeithiol, fel y gwelsom, Weinidog, pan ymweloch yn ddiweddar â thŷ Julian Hodge sy'n cael ei redeg gan y Wallich yn Adamsdown, lle y cefnogir pobl sydd â phroblemau dibyniaeth i gael eu bywydau yn ôl ar y trywydd iawn ac i ddechrau gwirfoddoli a dychwelyd at hyfforddiant i'w galluogi i gael gwaith. Roeddwn yn llawn edmygedd o hynny a meddyliais, yn sgil hynny, pa dystiolaeth sydd gennych o sut y mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn atal pobl rhag cael eu hatgyfeirio yn uwch i fyny i mewn i'r GIG gyda phroblemau drutach.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

14:37

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, it was a very good visit we undertook last week to the Wallich centre. It was very good to talk, particularly to the young people who were then hoping to go back into education. I thought that was, you know, very encouraging. I think there is widespread recognition that the Supporting People programme plays a huge role in reducing demands on our health services and we do now have growing evidence, really, to support that and back that up.

Oedd, cawsom ymweliad da iawn yr wythnos diwethaf â chanolfan Wallich. Roedd yn dda iawn siarad, yn enwedig â'r bobl ifanc a oedd wedyn yn gobeithio dychwelyd at addysg. Roeddwn yn meddwl bod hynny'n galonogol iawn. Rwy'n meddwl bod cydnabyddiaeth eang fod y rhaglen Cefnogi Pobl yn chwarae rhan fawr yn lleihau galwadau ar ein gwasanaethau iechyd a bellach mae gennym dystiolaeth gynyddol i gefnogi ac ategu hynny.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

I commissioned a feasibility study that linked data from the programme with NHS data in both Swansea and Blaenau Gwent and the emerging findings are very encouraging and it showed an overall long-term reduction in the use of general practitioner services, for instance, by people who were involved with the programme. And I think similar patterns were also seen in the use of accident and emergency departments; they weren't seeing the same people time and time again once they were involved in Supporting People. So, I'm looking to expand that research across other local authority areas in Wales. As I said in my answer to Rhodri Glyn Thomas, I think it's very important that we have that information and those outcomes.

Comisiynais astudiaeth ddichonoldeb a oedd yn cysylltu data o'r rhaglen â data'r GIG yn Abertawe a Blaenau Gwent. Mae'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg yn galonogol iawn, a dangosai, er enghraifft, y gostyngiad hirdymor cyffredinol yn y defnydd o wasanaethau meddyg teulu gan bobl a oedd yn ymwneud â'r rhaglen. Ac rwy'n meddwl bod patrymau tebyg wedi'u gweld hefyd yn y defnydd o adrannau damweiniau ac achosion brys; nid oeddent yn gweld yr un bobl dro ar ôl tro ar ôl iddynt ddechrau ymwneud â Cefnogi Pobl. Felly, rwy'n ystyried ehangu'r ymchwil ar draws ardaloedd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Fel y dywedais yn fy ateb i Rhodri Glyn Thomas, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn fod gennym y wybodaeth a'r canlyniadau hynny.

14:38

### **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Supporting People is a programme that Welsh Conservatives have no difficulty at all in supporting and welcoming either. Enabling a person, whatever their vulnerabilities, to live independently I think is one of your big wins on equalities, Minister. On this one, empowerment actually does mean something. But it doesn't exist in a vacuum and I think Members were surprised at the level of cuts to Disability Wales. In coming to that decision and making cuts to other third sector bodies, what consideration did you give to the effect that it would have on programmes like Supporting People, which obviously depend on the third sector to a significant degree in order to be so successful?

Mae Cefnogi Pobl yn rhaglen nad yw'r Ceidwadwyr Cymreig yn cael unrhyw anhawster o gwbl ei chefnogi na'i chroesawu chwaith. Yn fy marn i, mae galluogi unigolyn, ym mha ffordd bynnag y mae'n agored i niwed, i fyw'n annibynnol yn un o'ch buddugoliaethau mawr o ran cydraddoldeb, Weinidog. Yn hyn o beth, mae grymuso'n golygu rhywbeth. Ond nid yw'n bodoli mewn gwagle ac rwy'n meddwl bod yr Aelodau wedi synnu at lefel y toriadau i Anabledd Cymru. Wrth ddod i'r penderfyniad hwnnw a gwneud toriadau i gyrff trydydd sector eraill, pa ystyriaeth a roddwyd gennych i'r effaith y byddai'n ei chael ar raglenni fel Cefnogi Pobl, sy'n amlwg yn dibynnu ar y trydydd sector i raddau sylweddol er mwyn bod mor llyyddiannus?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:39

### **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I should make it clear that cutting the funding to Disability Wales didn't come from my portfolio, so I didn't make that decision. But, you know, I very much welcomed the cross-party support for Supporting People. I think that was very evident in the campaign that was run. But, as you say, it doesn't work in isolation. I don't think anybody does. We all need support from others. But, you know, we can't do everything and we have to prioritise and, as I said, I prioritised the Supporting People programme. They've had a flat cash settlement. However, they are very aware that they need to keep coming forward with the outcome data to support my decision.

Wel, dylwn ei gwneud yn glir na ddaeth y toriad i gyllid Anabledd Cymru o fy mhortffolio i, felly nid fi a wnaeth y penderfyniad hwnnw. Ond wyddoch chi, roeddwn yn croesawu'r gefnogaeth drawsbleidiol i Cefnogi Pobl yn fawr iawn. Credaf fod hynny'n amlwg iawn yn yr ymgyrch a gynhaliwyd. Ond fel y dywedwch, nid yw'n gweithio ar ei ben ei hun. Nid wyf yn credu fod unrhyw un yn gallu gwneud hynny. Rydym i gyd angen cymorth gan eraill. Ond wyddoch chi, ni allwn wneud popeth ac mae'n rhaid i ni flaenoriaethu ac fel y dywedais, rhoddais flaenoriaeth i'r rhaglen Cefnogi Pobl. Maent wedi cael setliad arian gwastad. Fodd bynnag, maent yn ymwybodol iawn fod angen iddynt barhau i gyflwyno data'r canlyniadau er mwyn ategu fy mhenderfyniad.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

## **Y Sector Gwirfoddol a Gwirfoddoli**

## **The Voluntary Sector and Volunteering**

14:39

### **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waith y sector gwirfoddol a gwirfoddoli yng Nghymru?*  
OAQ(4)0401(CTP)

*6. Will the Minister make a statement on the work of the voluntary sector and volunteering in Wales?*  
OAQ(4)0401(CTP)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:39

### **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Volunteers make a vital contribution to community life and to support this I provided £6.68 million to third sector infrastructure organisations. I've also approved funding for 22 capital-funded community facilities programme projects worth a total of £5.4 million and published a consultation on assets of community value.

Diolch. Mae gwirfoddolwyr yn gwneud cyfraniad hanfodol i fywyd y gymuned ac i gefnogi hyn rhoddais £6.68 miliwn i sefydliadau seilwaith y trydydd sector. Rwyf hefyd wedi cymeradwyo cyllid ar gyfer 22 o brosiectau arian cyfalaf y rhaglen cyfleusterau cymunedol sy'n werth £5.4 miliwn i gyd, ac wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar asedau o werth cymunedol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:40

**Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. Neath Port Talbot Council for Voluntary Service provides an excellent service supporting, promoting and developing the voluntary and community sector in Neath Port Talbot, which is composed of 60,000-plus volunteers. Last year they worked regionally with partners, including Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board, supporting the sector's involvement in developing its values and behaviour framework, including standards of care for older people in hospitals and the ABMU children's rights charter. Minister, do you agree with me that this is an excellent example and an example to us all?

Diolch yn fawr, Weinidog. Mae Gwasanaeth Gwirfoddol Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn darparu gwasanaeth ardderchog yn cefnogi, hyrwyddo a datblygu'r sector gwirfoddol a chymunedol yng Nghastell-nedd Port Talbot, sy'n cynnwys 60,000 a mwy o wirfoddolwyr. Y llynedd, gweithiodd y gwasanaeth yn rhanbarthol gyda phartneriaid, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, i gefnogi ymwneud y sector â gwaith datblygu ei fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad, gan gynnwys safonau gofal ar gyfer pobl hŷn mewn ysbytai a siarter hawliau plant Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Weinidog, a ydych yn cytuno bod hon yn enghraifft wych ac yn esiampl i ni i gyd?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

14:40

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, absolutely. I note your support for Neath Port Talbot Council for Voluntary Service and I think that all the county voluntary councils right across Wales are providing vital support. As I've said before, as a Government we can't do everything on our own and we really look to our volunteers and to the third sector. I'm always really struck by the real difference that they do make out there on the ground. But I particularly applaud the model of partnership working in Neath Port Talbot, working with the local authority and the health board, because we don't see that right across Wales, but I think it is very good best practice and I'd like to see a lot more of it over the coming years.

Ydw, yn llwyr. Nodaf eich cefnogaeth i Wasanaeth Gwirfoddol Cyngor Castell-nedd Port Talbot ac rwy'n meddwl bod yr holl gynghorau gwirfoddol sirol ledled Cymru yn darparu cymorth hanfodol. Fel rwyf wedi'i ddweud o'r blaen, fel Llywodraeth, ni allwn wneud popeth ar ein pen ein hunain ac rydym yn dibynnu'n fawr ar ein gwirfoddolwyr a'r trydydd sector. Fe'm trawir bob amser gan y gwahaniaeth gwirioneddol y maent yn ei wneud ar lawr gwlad. Ond rwy'n canmol yn arbennig y model o weithio mewn partneriaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot, gan weithio gyda'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd, oherwydd nid ydym yn gweld hynny ledled Cymru, ond rwy'n credu ei fod yn arfer gorau da iawn a hoffwn weld llawer mwy ohono dros y blynyddoedd nesaf.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

14:41

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, faith groups do an enormous amount of voluntary work across Wales, from churches and chapels to mosques and synagogues, too. What work is the Welsh Government doing to promote the volunteering efforts of faith groups and to ensure that they are engaged in the provision of services sometimes at local authority level? Some local authorities appear to be very good, such as the case we've just heard, but elsewhere in Wales that relationship is not as effective as it could be. What work are you doing to ensure that it's more effective in the future?

Weinidog, mae grwpiau ffydd yn gwneud llawer iawn o waith gwirfoddol ledled Cymru, o eglwysi a chapeli i foscgiau a synagogau hefyd. Pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo ymdrechion gwirfoddoli'r grwpiau ffydd ac i sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau sydd weithiau ar lefel awdurdod lleol? Mae'n ymddangos bod rhai awdurdodau lleol yn dda iawn, megis yr enghraifft rydym newydd ei chlywed, ond mewn mannau eraill yng Nghymru, nid yw'r berthynas mor effeithiol ag y gallai fod. Pa waith rydych yn ei wneud i sicrhau ei fod yn fwy effeithiol yn y dyfodol?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

14:42

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My main contact with faith groups and the third sector is through the faith group forum, which the First Minister chairs and I'm the vice-chair. We meet regularly with representatives from all faiths right across Wales and it's important to ensure that they are aware of what's going on out there and, equally, that we, as a Government, are aware. So, that's the main area that we work in.

Fy mhrif gyswilt â grwpiau ffydd a'r trydydd sector yw'r fforwm grwpiau ffydd y mae'r Prif Weinidog yn gadeirydd a minnau'n is-gadeirydd arno. Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd â chynrychiolwyr o bob ffydd ledled Cymru ac mae'n bwysig sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ac yn yr un modd, ein bod ni, fel Llywodraeth, yn ymwybodol. Felly, dyna'r prif faes rydym yn gweithio ynddo.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

14:42

**Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, at the last official count, there were 33,000 voluntary sector organisations in Wales. We love committees, don't we? Since many of these have to compete for funding, what are your views on whether larger organisations that duplicate each other's activities should consider merging?

Weinidog, yn y cyfrif swyddogol diwethaf, roedd yna 33,000 sefydliad sector gwirfoddol yng Nghymru. Rydym wrth ein bodd â phwyllgorau, onid ydym? Gan fod rhaid i lawer o'r rhain gystadlu am gyllid, beth yw eich barn ynglŷn ag a ddylai sefydliadau mwy sy'n dyblygu gweithgareddau ei gilydd ystyried uno?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

14:42

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We don't want to see duplication of services being provided, and, again, because of the funding I think that that has had much more of a sharper focus on it than perhaps before. Certainly, I have heard of a few groups that have merged together within the voluntary sector and perhaps it is something that could be looked at, but I think it's important that we do see a range of support services and that we don't see duplication.

Nid ydym am weld dyblygu'r gwasanaethau a ddarperir ac unwaith eto, oherwydd y cyllid, rwy'n meddwl bod ffocws llawer cliriach ar hynny nag o'r blaen o bosibl. Yn sicr, rwyf wedi clywed am rai grwpiau sydd wedi uno yn y sector gwirfoddol ac efallai ei fod yn rhywbeth y gellid ei ystyried, ond rwy'n credu ei bod yn bwysig i ni gael amrywiaeth o wasanaethau cymorth ac nad oes dyblygu'n digwydd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:43

**William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As has been widely acknowledged, the voluntary sector across Wales does make a huge contribution to communities across the length and breadth of this country. Minister, I'd like to put on record my thanks to you for taking the time out to visit Brecon Dial-a-Ride with me just a couple of weeks ago to see at first hand the valuable work of Lisa Marsh and her team in Brecon.

Fel y cydnabuwyd yn eang, mae'r sector gwirfoddol ledled Cymru yn gwneud cyfraniad mawr i gymunedau ar hyd a lled y wlad. Weinidog, hoffwn gofnodi fy niolch i chi am roi amser i ymweld â Dial-a-Ride Aberhonddu gyda mi wythnos neu ddwy yn ôl i weld gwaith gwerthfawr Lisa Marsh a'i thîm yn Aberhonddu drosoch eich hun.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

In the wider context of volunteering for the elderly, Age Cymru has an award scheme that recognises the outstanding contributions that are made throughout Wales to support the elderly, particularly those living in their own homes. As nominations for this year's round of awards close next Tuesday, will you join me in calling upon members and other bodies within Wales to look to put forward nominations of schemes of merit so that they can be given due recognition and also that their good practice can be further widespread?

Yng nghyd-destun ehangach gwirfoddoli ar gyfer yr henoed, mae gan Age Cymru gynllun gwobrwyo sy'n cydnabod y cyfraniadau rhagorol a wneir ledled Cymru i gefnogi'r henoed, yn enwedig y rhai sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain. Gan fod y cyfnod enwebu ar gyfer gwobrau eleni yn cau ddydd Mawrth nesaf, a wnewch chi ymuno â mi i alw ar aelodau a chyrrff eraill yng Nghymru i ystyried enwebu cynlluniau teilwng er mwyn rhoi cydnabyddiaeth haeddiannol iddynt a hefyd er mwyn hyrwyddo eu harferion da ymhellach?

14:44

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Absolutely. I think success should always be celebrated and it's really important to say thank you, and certainly the visit I did with you to Brecon Dial-a-Ride was one—. It's an incredible service that they provide and to hear the people, who use the service, talk about the benefits that they get and how isolated they would feel if they didn't have that service available—. So, absolutely, it's really important: one, that we say 'thank you' and, two, that we celebrate success.

Yn hollol. Rwy'n credu y dylid dathlu llwyddiant bob amser ac mae'n bwysig iawn dweud diolch, ac yn sicr roedd yr ymweliad gyda chi â Dial-a-Ride Aberhonddu yn un—. Maent yn darparu gwasanaeth anhygoel ac roedd clywed y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn siarad am y manteision y maent yn eu cael a pha mor unig y byddent yn teimlo pe na bai'r gwasanaeth ar gael iddynt—. Felly, yn sicr, mae'n bwysig iawn: un, ein bod yn dweud 'diolch' a dau, ein bod yn dathlu llwyddiant.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:44

**John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Given the amazing job that volunteers do across the length and breadth of Wales, Minister, would you agree that we need to encourage and reward our volunteers and one way of doing that is through time banking, which allows volunteers to exchange the hours that they give for access to leisure, entertainment or perhaps sporting facilities?

O ystyried y gwaith anhygoel y mae gwirfoddolwyr yn ei wneud ar hyd a lled Cymru, Weinidog, a fyddech yn cytuno bod angen i ni annog a gwobrwyo ein gwirfoddolwyr, ac un ffordd o wneud hynny yw bancio amser, sy'n caniatáu i wirfoddolwyr gyfnewid yr oriau y maent yn eu rhoi am fynediad i gyfleusterau hamdden, adloniant neu chwaraeon efallai?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:45

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I absolutely agree with you. We have 1 million people—so one in three people in Wales—who volunteer. That's a huge number. Time-banking—I remember a visit I did, I think it was to Cardiff Community Housing Association, and I met a young mum there who told me that she couldn't afford to take her young child swimming or to the cinema. By time-banking, through working in the food bank within the housing association, she earned enough hours to then have a voucher—I think it was bowling, actually—to take her son bowling. So, it's great to see that sort of initiative, with volunteers being rewarded in that way also.

Cytunaf yn llwyr â chi. Mae gennym 1 filiwn o bobl—felly un o bob tri o bobl Cymru—yn gwirfoddoli. Mae'n nifer enfawr. Bancio amser—rwy'n cofio ymweld â Chymdeithas Tai Cymuned Caerdydd, rwy'n meddwl, a chyfarfûm â mam ifanc yno a ddywedodd wrthyf na allai fforddio mynd â'i phlentyn ifanc i nofio neu i'r sinema. Drwy fancio amser, drwy weithio yn y banc bwyd yn y gymdeithas dai, enillodd ddigon o oriau i gael tocyn—bowlïo, rwy'n meddwl—i fynd â'i mab i fowlïo. Felly, mae'n wych gweld menter o'r fath, gyda gwirfoddolwyr yn cael eu gwobrwyo yn y modd hwnnw hefyd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



## Cysylltiadau Cymunedol

## Community Relations

14:45 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*7. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella cysylltiadau cymunedol yng Nghymru yn sgil yr ymosodiadau terfysgol diweddar ym Mharis?*  
OAQ(4)399(CTP)

*7. What plans does the Welsh Government have to improve community relations in Wales in view of the recent terrorist attacks in Paris, please?* OAQ(4)399(CTP)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:45 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. The Welsh Government is funding eight regional community cohesion co-ordinators to work with partners locally. They will continue to monitor tensions and will assess any increase in hate crime following the Paris attacks and the arrival of Syrian refugees in Wales. I will provide an update to Members following the Syrian refugee taskforce meeting in February.

Diolch. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu wyth cydgysylltydd cydlyniant cymunedol rhanbarthol i weithio gyda phartneriaid yn lleol. Byddant yn parhau i fonitro tensiynau ac yn asesu unrhyw gynnydd mewn troseddau casineb yn dilyn yr ymosodiadau ym Mharis a dyfodiad ffoaduriaid o Syria i Gymru. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau yn dilyn cyfarfod y tasglu ar ffoaduriaid Syria ym mis Chwefror.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:46 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that, Minister. Following the recent terrorist attacks in Paris, two mosques in Newport were vandalised with anti-Islamic graffiti. Gwent Police have said they were treating the incidents as hate crimes. Will the Minister join with me in condemning this vandalism, and does she agree that this kind of religious intolerance has no place in our society as freedom of religion is one of the values that ISIS is trying to destroy?

Diolch am hynny, Weinidog. Yn dilyn yr ymosodiadau terfysgol diweddar ym Mharis, cafodd dau fosc yng Nghasnewydd eu fandaleiddio â graffiti gwrth-Islamaidd. Mae Heddlu Gwent wedi dweud eu bod yn trin y digwyddiadau fel troseddau casineb. A wnaiff y Gweinidog ymuno â mi i gondemnio'r fandaliaeth, ac a yw'n cytuno nad oes lle i'r math hwn o anoddefgarwch crefyddol yn ein cymdeithas gan fod rhyddid crefyddol yn un o'r gwerthoedd y mae ISIS yn ceisio ei ddinistrio?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:46 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I was horrified at the recent graffiti that was placed on the mosque in Newport, and I do want to make it absolutely clear that this behaviour will not be tolerated. There should be no scapegoating of our Muslim communities. It's really important that we all continue to work together. Wales is an inclusive, multicultural society, and our Muslim communities play an integral role in Welsh society and they have done for many years.

Cefais fy arswydo gan y graffiti diweddar ar y mosg yng Nghasnewydd ac rwyf am ddweud yn gwbl glir na fydd yr ymddygiad hwn yn cael ei oddef. Ni ddylid gwneud bwch dihangol o'n cymunedau Mwslimaidd. Mae'n bwysig iawn ein bod i gyd yn parhau i weithio gyda'n gilydd. Mae Cymru'n gymdeithas gynhwysol, amlddiwylliannol, ac mae ein cymunedau Mwslimaidd yn chwarae rhan annatod yn y gymdeithas yng Nghymru ac maent wedi gwneud ers blynyddoedd lawer.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:47 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, one of the great fears of the kind of appalling rhetoric that we've seen from some political leaders over the last few weeks is that it breeds an atmosphere of intolerance and ignorance in our communities, which is detrimental to all of us. However, I think that by tackling the ignorance, we can start to tackle those fears. I was very pleased to attend the Dar Ul-Isra mosque open day in April this year. I wonder what support the Welsh Government could give to the Muslim communities in Wales to enable them to take part in these kinds of community-engagement activities so that we can educate our communities and encourage more people to go along and find out about the religion of Islam.

Weinidog, un o'r ofnau mawr yn sgil y math o rethreg ofnadwy rydym wedi'i gweld gan rai arweinwyr gwleidyddol dros yr wythnosau diwethaf yw ei fod yn creu awyrgylch o anoddefgarwch ac anwybodaeth yn ein cymunedau, sy'n niweidiol i bob un ohonom. Fodd bynnag, credaf y gallwn ddechrau mynd i'r afael â'r ofnau hynny drwy fynd i'r afael â'r anwybodaeth. Roeddwn yn falch iawn o fynychu'r diwrnod agored ym mosg Dar Ul-Isra ym mis Ebrill eleni. Tybed pa gefnogaeth y gallai Llywodraeth Cymru ei rhoi i'r cymunedau Mwslimaidd yng Nghymru i'w galluogi i gymryd rhan yn y mathau hyn o weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned fel y gallwn addysgu ein cymunedau ac annog mwya o bobl i fynd draw i ddysgu am grefydd Islam.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

- 14:47 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, I absolutely agree with the Member. I think it's very important, as politicians, that we do not use inflammatory language at all. I met last week with my two colleagues, the Minister for Education and Skills and the Minister for Public Services, to see what more we could do to strengthen the links across our portfolio areas to support positive community cohesion across our Muslim communities, and that's work that we will be taking forward.
- Cytunaf yn llwyr â'r Aelod. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn nad ydym fel gwleidyddion yn defnyddio iaith ymfflamychol o gwbl. Cefais gyfarfod yr wythnos diwethaf â fy nau gyd-Aelod, y Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, i weld beth arall y gallem ei wneud i gryfhau'r cysylltiadau rhwng ein meysydd portffolio er mwyn cefnogi cydlyniant cymunedol cadarnhaol ar draws ein cymunedau Mwslimaidd, ac mae'n waith y byddwn yn bwrw ymlaen ag ef.
- Y Trydydd Sector** **The Third Sector**
- 14:48 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 8. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r trydydd sector yng Nghymru? OAQ(4)0404(CTP)*
- 8. How is the Welsh Government supporting the third sector in Wales? OAQ(4)0404(CTP)*
- 14:48 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you. Welsh Government supports the third sector across Wales in many ways. In 2015-16, I provided core funding of £6.68 million to Welsh third sector infrastructure organisations. This includes just over £4 million for a network of county voluntary councils across Wales and £1.4 million for our national volunteering grant programmes.
- Diolch. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r trydydd sector ledled Cymru mewn sawl ffordd. Yn 2015-16, darperais gyllid craidd o £6.68 miliwn i sefydliadau seilwaith y trydydd sector yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ychydig dros £4 miliwn ar gyfer rhwydwaith o gynghorau gwirfoddol sirol ledled Cymru a £1.4 miliwn ar gyfer ein rhaglenni grantiau gwirfoddoli cenedlaethol.
- 14:48 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you. Well, as your shadow Minister, I've become concerned by the number of third sector bodies telling me that the Welsh Government is effectively shutting down the independent voice of the sector. Will you seek advice from the auditor general on how you might best consider alternative models, working with the sector, to improve outcomes and get best value for the public pound?
- Diolch. Wel, fel eich Gweinidog cyfatebol dros yr wrthblaid, rwyf wedi dechrau pryderu ynghylch y nifer o gyrff trydydd sector sy'n dweud wrthyf fod Llywodraeth Cymru yn mygu llais annibynnol y sector i bob pwrpas. A wnewch chi ofyn am gyngor gan yr archwilydd cyffredinol ar y ffordd orau i chi ystyried modelau amgen, gan weithio gyda'r sector, er mwyn gwella canlyniadau a chael y gwerth gorau am y bunt gyhoeddus?
- 14:49 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- What I would like is for the Member to write to me about that specific point because I'm not really sure what you're implying.
- Hoffwn i'r Aelod ysgrifennu ataf ynglŷn â'r pwynt penodol hwnnw am nad wyf yn siŵr iawn beth rydych yn ei awgrymu.
- 14:49 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae'r toriadau i gyllidebau llywodraeth leol yn golygu ein bod ni'n dibynnu fwy a mwy, wrth gwrs, ar fudiadau trydydd sector, ac mae'r toriadau, wedyn, yn cael effaith ar faint o gyllid y mae'r mudiadau yn ei gael. Mi wnaeth gweithwyr o un grŵp nid-am-elw yn fy etholaeth i gysylltu efo fi yn pryderu y bydd yna, yn y dyfodol, lai o arian i dalu am staff, neu y bydd staff yn colli rhai o'u telerau gwaith ac ati. Roedden nhw'n bryderus yn enwedig ar adeg lle mae yna addewid i wthio'r lleiafswm cyflog i fyny—rhywbeth rydym ni, wrth gwrs, mewn egwyddor yn ei gefnogi. Rŵan, yn ôl yr etholwyr, mi wnaethon nhw gysylltu efo Llywodraeth Cymru i ofyn am gyngor ac i nodi pryderon, a'r ateb ddaeth oedd mai mater i Lywodraeth Llundain, Llywodraeth Prydain ydy hyn. A ydy'r Gweinidog yn cytuno y buasai hynny yn ymateb annigonol ac yn ymateb braidd yn ddigydymdeimlad, ac a all y Gweinidog amlinellu unrhyw gamau y mae Llywodraeth Cymru am eu cymryd er mwyn cefnogi grwpiau o staff fel hyn?
- The cuts to local government budgets mean that we are relying more and more, of course, on third sector organisations, and the cuts then have an impact on how much funding those organisations receive. Workers from one not-for-profit group in my constituency contacted me with concerns that there will be less funding available to pay for staff, or that staff will lose some of their working conditions. They are concerned particularly at a time when it has been pledged that the minimum wage will be increased—something that we, of course, in principle support. Now, according to my constituents, they did contact the Welsh Government to ask for advice and to note their concerns, and the response was that this was an issue for the London Government, the UK Government. Does the Minister agree that that is an insufficient and unsympathetic response, and can the Minister outline any steps that the Welsh Government will take to support staff groups such as these?

14:50	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Again, if the Member could write to me specifically about the specific organisation, I will look into it and respond.</p>	<p>Unwaith eto, pe bai'r Aelod yn ysgrifennu ataf yn benodol ynglŷn â'r sefydliad hwnnw, byddaf yn edrych ar y mater ac yn ymateb.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:50	<p><b>Aled Roberts</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Rydych chi wedi cyfeirio eisoes at y newid o gyllid craidd o dan adran 64 i'r grant cymdeithasol cynaliadwy, ac Anabledd Cymru. Rwy'n deall yn union fod yna broses i fynd drwyddi, a thendro a cheisiadau, ond, o gofio bod llawer iawn o'r grwpiau anabledd yma yn wynebu newidiadau i'r wladwriaeth les, pa gymorth fydd ar gael yn sgil y ffaith na fydd Anabledd Cymru yn parhau â rhai o'r gwasanaethau yma wrth symud ymlaen?</p>	<p>You've already alluded to the change from core funding under section 64 into the social sustainable grant, and Disability Wales. I understand that there is a process that you have to go through and that tendering and bids have to be submitted, but, bearing in mind that many of these disability groups are facing changes in the welfare state, what assistance and support will be available in the light of the fact that Disability Wales will be unable to continue to provide some of these services in future?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:51	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>As I mentioned, the particular pot of money that Disability Wales won't be getting isn't from my portfolio, and I know there is work being undertaken by the Minister for Health and Social Services' officials with Disability Wales to manage the transition. Disability Wales is continuing to receive grant funding from my department to help take forward the framework for action on independent living, as I previously mentioned.</p>	<p>Fel y soniais, nid yw'r pot penodol o arian na fydd Anabledd Cymru yn ei gael yn dod o fy mhorthfolio i a gwn fod gwaith yn cael ei wneud gan y Gweinidog Iechyd a swyddogion Gwasanaethau Cymdeithasol gydag Anabledd Cymru i reoli'r pontio. Mae Anabledd Cymru yn parhau i dderbyn cyllid grant gan fy adran i helpu i fwrw ymlaen â'r fframwaith gweithredu ar fyw'n annibynnol, fel y soniais eisoes.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Safleoedd Teithwyr</b>		<b>Traveller Sites</b>	
14:51	<p><b>Andrew R.T. Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>9. Beth yw'r canllawiau diweddaraf y mae'r Gweinidog wedi'u rhoi i awdurdodau lleol mewn perthynas â darparu safleoedd teithwyr? OAQ(4)0400(CTP)</i></p>	<p><i>9. What is the latest guidance the Minister has provided to local authorities in relation to the provision of traveller sites? OAQ(4)0400(CTP)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:51	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>The Welsh Government published the 'Undertaking Gypsy and Traveller Accommodation Assessments' guidance on 25 February 2015, in line with section 106 of the Housing (Wales) Act 2014. New guidance relating to design and management standards for local authority Gypsy and Traveller sites was also published in May this year.</p>	<p>Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r canllawiau ar 'Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr' ar 25 Chwefror 2015, yn unol ag adran 106 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Hefyd, cyhoeddwyd canllawiau newydd yn ymwneud â safonau dylunio a rheoli safleoedd Sipsiwn a Theithwyr awdurdodau lleol ym mis Mai eleni.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:51	<p><b>Andrew R.T. Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition</i></p> <p>Thank you, Minister, for that answer. In my region in the area of Sully, there is a current proposal to meet the LDP requirement of the Vale of Glamorgan for a Traveller site. Everyone understands that provision has to be made, but, obviously, with the Government's direction of travel regarding local government reorganisation, do you still think it is applicable that all local government authority areas—the 22 of them—should have that requirement placed on them, given all the changes that are going on in government at the moment via the legislative process and policy process? It seems to be indicating a direction of travel that there will be a smaller footprint of local government across Wales. Therefore, the provision may not necessarily need 22 sites and could be more reflective of any map that might emerge in the future.</p>	<p>Diolch am yr ateb, Weinidog. Yn fy rhanbarth yn ardal Sili, ceir cynnig cyfredol i ateb gofyniad y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Bro Morgannwg am safle i Deithwyr. Mae pawb yn deall bod yn rhaid darparu safle ond yn amlwg, gyda chyfeiriad teithio'r Llywodraeth mewn perthynas ag ad-drefnu llywodraeth leol, a ydych yn dal i feddwl bod y gofyniad yn gymwys i ardaloedd awdurdodau lleol—y 22 ohonynt—ag ystyried yr holl newidiadau sy'n digwydd mewn llywodraeth leol ar hyn o bryd drwy'r broses ddeddfwriaethol a'r broses bolisi? Mae hyn i'w weld yn dynodi cyfeiriad teithio y bydd llai o ôl troed gan llywodraeth leol ledled Cymru. Felly, efallai na fydd y ddarpariaeth yn galw am 22 o safleoedd o reidrydd ac y gallai fod yn adlewyrchiad gwell o unrhyw fap a allai ddatblygu yn y dyfodol.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

14:52	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> In answer to the question, yes I do.	I ateb y cwestiwn, ydw, rwy'n credu hynny.	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:52	<b>Julie Morgan</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> During the recess, the cross-party group on Gypsies and Travellers will be meeting in Pembroke, and they've asked to have the subject to be accommodation, although Pembrokeshire has got quite a good service in terms of sites for Gypsies and Travellers, but, nevertheless, they've still got worries. I wondered if the Minister could give any update or overview of the success of Gypsies and Travellers in getting planning permission for individual family sites where they own the land. Over Wales, are there any trends emerging?	Yn ystod y toriad, bydd y grŵp trawsbleidiol ar Sipsiwn a Theithwyr yn cwrdd ym Mhenfro, ac maent wedi gofyn am wneud llety'n destun i'r drafodaeth, er bod gan Sir Benfro wasanaeth eithaf da o ran safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, ond er hynny, mae ganddynt bryderon o hyd. Roeddwn yn meddwl tybed a allai'r Gweinidog roi unrhyw ddiweddariad neu drosolwg o lwyddiant Sipsiwn a Theithwyr i gael caniatâd cynllunio ar gyfer safleoedd teuluoedd unigol lle y maent yn berchen ar y tir. Ledled Cymru, a oes unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg?	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:53	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I don't have that information to hand, but I'll be happy to write to the Member.	Nid oes gennyf y wybodaeth honno wrth law, ond byddaf yn fwy na pharod i ysgrifennu at yr Aelod.	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<b>Polisi Tai Fforddiadwy</b>	<b>The Affordable Housing Policy</b>	
14:53	<b>Suzy Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>10. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisi tai fforddiadwy Llywodraeth Cymru?</i> OAQ(4)0407(CTP)	<i>10. Will the Minister provide an update on the Welsh Government's affordable housing policy?</i> OAQ(4)0407(CTP)	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:53	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Thank you. We provide a range of programmes to support affordable housing and have achieved 91 per cent of our target of 10,000 affordable homes, which clearly demonstrates our commitment. Yesterday, our draft budget allocated an additional £21.7 million in 2016-17 to affordable housing through our social housing grant programme, which again strengthens our commitment further.	Diolch. Rydym yn darparu ystod o raglenni i gefnogi tai fforddiadwy ac rydym wedi cyflawni 91 y cant o'n targed o 10,000 o gartrefi fforddiadwy, sy'n arwydd clir o'n hymrwymiad. Ddoe, dyrannodd ein cyllideb ddrafft £21.7 miliwn ychwanegol yn 2016-17 i dai fforddiadwy drwy ein rhaglen grant tai cymdeithasol, sydd unwaith eto'n cryfhau ein hymrwymiad ymhellach.	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:53	<b>Suzy Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Thank you very much for that answer, Minister, and I hope that this new money will be used in innovative ways. In Uplands in Swansea, there are over 1,000 houses in multiple occupation, as of the end of September this year. It's a very disproportionate number of such homes for the area. I declare an interest because I live in that particular ward. There's an oversupply for students and, of course, the problem is exacerbated now by the attraction of living a little nearer to the new campus to the east of the city. What discussions have you had with Swansea council, which is looking at some unacceptably large areas for development under the LDP, about renewing focus on bringing HMOs and empty town-centre properties back into more stable, affordable residential use?	Diolch yn fawr iawn am yr ateb hwnnw, Weiniidog, ac rwy'n gobeithio y caiff yr arian newydd hwn ei ddefnyddio mewn ffyrdd arloesol. Yn ardal Uplands yn Abertawe, roedd yna dros 1,000 o dai amlfeddiannaeth ar ddiwedd mis Medi eleni. Mae'n nifer anghymesur iawn o gartrefi o'r fath ar gyfer yr ardal. Rwy'n datgan buddiant gan fy mod yn byw yn y ward benodol honno. Ceir gorgyflenwad o dai ar gyfer myfyrwyr ac wrth gwrs, mae'r broblem wedi'i gwaethygu yn awr gan atyniad byw ychydig yn nes at y campws newydd, sydd i'r dwyrain o'r ddinas. Pa drafodaethau a gawsoch gyda chyngor Abertawe, sy'n edrych ar rai ardaloedd annerbyniol o fawr ar gyfer datblygu o dan y Cynllun Datblygu Lleol, ynglŷn ag adnewyddu'r ffocws ar sicrhau bod tai amlfeddiannaeth ac eiddo gwag yng nghanol y dref yn cael eu dwyn yn ôl i ddefnydd preswyl mwy sefydlog a fforddiadwy?	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

14:54

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

HMOs actually fall within the portfolio of my colleague Carl Sargeant. My officials will have had discussions in relation to plans for properties within the area that you talk about. I think it is really important that we do have innovative ways of using the social housing grant and, certainly, I think we have seen that over the past few years and I would want to see more of it in the coming months, also.

Mewn gwirionedd, mae tai amlfeddiannaeth yn perthyn i bortffolio fy nghyd-Aelod, Carl Sargeant. Bydd fy swyddogion wedi cael trafodaethau mewn perthynas â chynlluniau ar gyfer eiddo yn yr ardal rydych yn sôn amdani. Rwy'n credu ei bod yn wirioneddol bwysig fod gennym ffyrdd arloesol o ddefnyddio'r grant tai cymdeithasol ac yn sicr, rwy'n credu ein bod wedi gweld hynny dros y blynyddoedd diwethaf a byddwn am weld mwy ohono dros y misoedd nesaf hefyd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Rhaglen Cefnogi Pobl

## The Supporting People Programme

14:55

**Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*11. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effeithlonrwydd y rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0405(CTP)[W]*

*11. What assessment has the Minister make of the efficiency of the Supporting People programme in Mid and West Wales? OAQ(4)0405(CTP)[W]*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:55

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch. I have commissioned a review of every local authority's management of the programme and use of the budget. All authorities in mid and west Wales have been reviewed. The reviews have demonstrated where things are working well, and where improvement is needed. I expect authorities and their partners to use resources to best effect.

Diolch. Rwyf wedi comisiynu adolygiad o reolaeth pob awdurdod lleol o'r rhaglen a'r defnydd o'r gyllideb. Adolygwyd pob awdurdod yng nghanolbarth a gorllewin Cymru. Mae'r adolygiadau wedi dangos lle y mae pethau'n gweithio'n dda, a lle y mae angen gwella. Rwy'n disgwyl i awdurdodau a'u partneriaid ddefnyddio adnoddau yn y ffordd orau.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:55

**Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Weinidog. Fel sydd wedi cael ei grybwyll sawl gwaith y prynhawn yma, rŷm ni i gyd yn croesawu'r ffaith nad yw'r rhaglen wedi cael toriad sylweddol yn y gyllideb, er bod 'cash flat' yn doriad bach, wrth gwrs. Rwyf i wedi derbyn gwybodaeth gan raglen yn y canolbarth a'r gorllewin sy'n dangos bod dros 7,000 o bobl wedi'u cynorthwyo yn y cyfnod chwe mis mwyaf diweddar a'u bod nhw'n honni bod pob punt a werir ar y rhaglen yn arwain at arbedion o £2.40 maes o law. Rwyf i wedi ymweld yn ddiweddar â chynllun yn ne Caerfyrddin fy hunain a gweld y gwahaniaeth ansoddol mae'n ei wneud i fywydau pobl, pan mae yna sefydlogrwydd o ran llety a thai. Gan eich bod chi'n chwilio am ffeithiau mwy cadarn ynglŷn â'r gwariant ataliol yma, beth mae'r Llywodraeth ei hun yn ei wneud i sicrhau bod strwythur yn ei le fel bod y wybodaeth yma'n cael ei chasglu?

Thank you, Minister. As has been mentioned already a few times this afternoon, we all welcome the fact that the programme hasn't seen a significant cut in the budget, although 'cash flat' does constitute a small reduction, of course. I have received information from a programme in mid and west Wales that shows that more than 7,000 people had been assisted in the most recent six-month period, and they claim that every pound spent on the programme leads to a saving of £2.40. I recently visited a scheme in Carmarthen and saw for myself the qualitative difference it makes to people's life to have stability in terms of accommodation and housing. As you are now seeking more robust evidence on this preventative spend, what is the Government itself doing to ensure that there is a structure in place so that this information is gathered?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:56

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, we put the structure in place previously, and I think it's a 96 per cent increase that I've seen this year in outcome data, which has been very helpful when I've had to make decisions around my budget. You're absolutely right—I actually think, probably, it's higher than £2.40; you only have to look at what is saved by people not going back to their GP time and time again, or to accident and emergency. So, I think there is a huge preventative agenda around the Supporting People programme, which all my ministerial colleagues are very well aware of. I think it's really important that we continue to see that outcome data coming from the regional collaborative committees and each individual local authority.

Wel, rydym wedi rhoi'r strwythur yn ei le o'r blaen, ac rwy'n credu fy mod wedi gweld cynnydd o 96 y cant eleni yn y data canlyniadau, ac mae hynny wedi bod yn ddefnyddiol iawn pan oedd yn rhaid i mi wneud penderfyniadau'n ymwneud â fy nghyllideb. Rydych yn hollol gywir—mewn gwirionedd rwy'n credu ei fod yn uwch na £2.40 yn ôl pob tebyg; nid oes ond yn rhaid i chi edrych ar yr hyn sy'n cael ei arbed yn sgil y ffaith na fydd pobl yn dychwelyd at eu meddyg teulu dro ar ôl tro, neu'n mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys. Felly, rwy'n credu bod yna agenda ataliol enfawr ynghlwm wrth y rhaglen Cefnogi Pobl, ac mae fy holl gyd-Weinidogion yn ymwybodol iawn o hynny. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn parhau i weld y data canlyniadau hwnnw'n dod gan y pwyllgorau cydweithredol rhanbarthol a phob awdurdod lleol unigol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:57

**Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, under the Supporting People programme, could you, perhaps, enlighten us as to what discussions you have with county councils in how they would support vulnerable people by providing appropriate housing? I know that, in my constituency, there is a complete dearth, for example, of disabled housing coming down the line. There's no intention to build any for at least 18 months, and, of course, this goes against the absolute grain of the Supporting People programme that you are pushing forward. So, we have you coming from one direction and complete inertia from another direction, and I wonder what you might be able to do to try to move that logjam.

Weinidog, o dan y rhaglen Cefnogi Pobl, a wnech chi ein goleuo, efallai, o ran pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda chynghorau sir ar y modd y buasant yn cefnogi pobl agored i niwed drwy ddarparu tai priodol? Gwn ein bod yn mynd i wynebu prinder mawr o dai ar gyfer pobl anabl yn fy etholaeth i, er enghraifft. Nid oes bwriad o gwbl i adeiladu unrhyw dai o'r fath am o leiaf 18 mis, ac wrth gwrs, mae hyn yn mynd yn gwbl groes i'r graen o ran y rhaglen Cefnogi Pobl rydych yn bwrw ymlaen â hi. Felly, rydych chi'n dod at hyn o un cyfeiriad a cheir diffyg symud llwyr o'r cyfeiriad arall, ac rwy'n meddwl tybed beth y galloch ei wneud i geisio clirio'r dagfa honno.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:58

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I'm sorry to hear that, because certainly, in other parts of Wales, I've been very fortunate to view particularly adapted housing being built within affordable housing developments. It may be only one in, say, 20, but it's really important that that house is there for a disabled person.

Wel, mae'n ddrwg gennyf glywed hynny, oherwydd yn sicr, mewn rhannau eraill o Gymru, rwyf wedi bod yn ffodus iawn i weld tai wedi'u haddasu, yn arbennig, yn cael eu hadeiladu mewn datblygiadau tai fforddiadwy. Efallai nad yw'n fwy nag un o bob 20, dyweder, ond mae'n bwysig iawn fod y tŷ hwnnw ar gael i berson anabl.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I know that when I've had—. As I say, I've had a review of Supporting People at local authority level across all 22 local authorities, and there were some improvements that I thought Carmarthenshire should make. They've been told that and we are monitoring very closely to make those improvements. Pembrokeshire, also, which I know is in your constituency, has acknowledged that there are further administrative procedures that need to be put in place, and, again, I will be monitoring it very closely.

Rwy'n gwybod pan wyf wedi—. Fel y dywedais, cefais adolygiad o Cefnogi Pobl ar lefel awdurdod lleol ar draws y 22 awdurdod lleol, ac roedd yna rai gwelliannau y credwn y dylai Sir Gaerfyrddin eu gwneud. Maent wedi cael gwybod hynny ac rydym yn monitro'n agos iawn i wneud y gwelliannau hynny. Mae Sir Benfro, hefyd, y gwn ei bod yn eich etholaeth chi, wedi cydnabod bod angen rhoi gweithdrefnau gweinyddol pellach ar waith, ac unwaith eto, byddaf yn monitro hynny'n agos iawn.

## Y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol

## The Community Facilities Programme

14:58

**Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*12. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae cymunedau yng Ngheredigion yn elwa ar y rhaglen cyfleusterau cymunedol? OAQ(4)0403(CTP)[W]*

*12. Will the Minister provide an update on how communities in Ceredigion benefit from the community facilities programme? OAQ(4)0403(CTP)[W]*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:59 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

I have so far approved funding worth a total of £5.4 million for 22 projects across Wales that improve community facilities to help to prevent or mitigate the impact of poverty in our most vulnerable communities. I will be making an announcement on projects currently under consideration, including one from Ceredigion, before Christmas.

Hyd yn hyn, rwyf wedi cymeradwyo cyllid gwerth £5.4 miliwn i gyd ar gyfer 22 o brosiectau ledled Cymru sy'n gwella cyfleusterau cymunedol er mwyn helpu i atal neu liniaru effaith tlodi yn ein cymunedau mwyaf agored i niwed. Byddaf yn gwneud cyhoeddiad ar brosiectau sydd dan ystyriaeth ar hyn o bryd, gan gynnwys un o Geredigion, cyn y Nadolig.

14:59 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Wel, Weinidog, fe wnaethoch chi ymweld â chlwb bowling Penparcau gyda fforwm Penparcau, ac roedd Simon Thomas yno hefyd, yn ôl yn yr haf. Fedraf i ddim mo'ch temptio chi'r prynhawn yma i wneud y cyhoeddiad ynglŷn ag ariannu'r ganolfan gymunedol ym Mhenparcau? Os na fedraf eich temptio chi, a gaf i jest eich annog chi y bydd pobl Penparcau yn gwerthfawrogi cadarnhad o'r cyllid yma? Fe fyddai'n anrheg Nadolig wych i'r gymuned yna.

Wel, Minister, you visited the Penparcau bowling club with the Penparcau forum, and Simon Thomas was also there, back in the summer. Couldn't I tempt you this afternoon to make that announcement on funding the community centre in Penparcau? If I can't tempt you, then could I just encourage you by saying that the people of Penparcau would very much appreciate confirmation of this funding? It would be an excellent Christmas present for that community.

14:59 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Well, Christmas is coming, so, as I say, I will make an announcement before Christmas.

Wel, mae'r Nadolig yn dod, felly, fel y dywedais, byddaf yn gwneud cyhoeddiad cyn y Nadolig.

### Cyfleoedd yng Nghwm Cynon

### Opportunities in the Cynon Valley

14:59 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

*13. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella cyfleoedd i bobl sydd ag anableddau yng Nghwm Cynon? OAQ(4)0408(CTP)*

*13. What is the Welsh Government doing to improve the opportunities for people with disabilities in Cynon Valley? OAQ(4)0408(CTP)*

15:00 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you. Our framework for action on independent living aims to create an environment where disabled people have access to the same opportunities as everyone else. Tackling poverty programmes, such as Families First, also play a critical role in helping to achieve this aim in areas such as Cynon Valley.

Diolch. Nod ein fframwaith gweithredu ar fyw'n annibynnol yw creu amgylchedd lle y caiff pobl anabl fynediad at yr un cyfleoedd â phawb arall. Hefyd, mae rhaglenni trechu tlodi, megis Teuluoedd yn Gyntaf, yn chwarae rhan hanfodol wrth helpu i gyflawni'r nod hwn mewn ardaloedd fel Cwm Cynon.

15:00 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister. Well, further to my supplementary question to the First Minister on this subject yesterday, how is the Welsh Government engaging with employers in Wales to ensure that they are aware of grants and support that enable them to make reasonable changes to support new or existing employees with disabilities? How is the Welsh Government engaging with disabled people so they're also informed of this support?

Diolch yn fawr, Weinidog. Wel, yn dilyn fy nghwestiwn atodol i'r Prif Weinidog ar y pwnc hwn ddoe, sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â chyflogwyr yng Nghymru i sicrhau eu bod yn ymwybodol o grantiau a chymorth sy'n eu galluogi i wneud newidiadau rhesymol i gynorthwyo gweithwyr newydd neu weithwyr presennol sydd ag anableddau? Sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â phobl anabl fel eu bod hwy hefyd yn cael gwbybod am y cymorth hwn?

15:00

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you. The main source of support for disabled people in employment is the Department for Work and Pensions' Access to Work programme and, you know, it's up to the Department for Work and Pensions to raise awareness. I think concerns around them not doing their job, if you like, have been raised with me as an issue in my recent meeting with the disability equality forum. So, I have asked my officials, who do work closely with DWP officials in the UK Government, to raise the concerns that were brought up at the forum, so that that will, hopefully, improve matters for disabled people in Wales. I think it's really important that both employers and disabled people are much better informed about the support that is available. You'll be aware of our Communities for Work programme, which was launched earlier this year. That does link with DWP programmes, specifically Access to Work, to support disabled people into work. So, for instance, they'll provide financial support for travel costs, or if they needed some adaptations or any specialist equipment, they could access funding through that programme also.

Diolch. Y brif ffynhonnell o gymorth ar gyfer pobl anabl mewn gwaith yw rhaglen Mynediad i Waith yr Adran Gwaith a Phensiynau, a wyddoch chi, cyfrifoldeb yr Adran Gwaith a Phensiynau yw codi ymwybyddiaeth. Rwy'n credu bod pryderon nad ydynt yn gwneud eu gwaith, os mynnwch, wedi'u dwyn i fy sylw yn fy nghyfarfod gyda'r fforwm cydraddoldeb anabledd yn ddiweddar. Felly, rwyf wedi gofyn i fy swyddogion, sy'n gweithio'n agos gyda swyddogion yr Adran Gwaith a Phensiynau yn Llywodraeth y DU, drafod y pryderon a gafodd eu crybwyll yn y fforwm, felly bydd hynny, gobeithio, yn gwella'r sefyllfa i bobl anabl yng Nghymru. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i gyflogwyr a phobl anabl gael llawer mwy o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael. Fe fyddwch yn ymwybodol o'n rhaglen Cymunedau am Waith, a lansiwyd yn gynharach eleni. Mae honno'n cysylltu â rhaglenni'r Adran Gwaith a Phensiynau, a Mynediad i Waith yn benodol, i gynorthwyo pobl anabl i gael gwaith. Felly, er enghraifft, byddant yn darparu cymorth ariannol tuag at gostau teithio, neu os ydynt angen addasiadau neu unrhyw offer arbenigol, gallent gael gafael ar gyllid drwy'r rhaglen honno hefyd.

15:02

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, in respect of people with disabilities accessing public transport in particular, and people with poor eyesight and diminished eyesight, one thing that is critical is that public service vehicles and the people who drive them and run them do have adequate training. I've raised this issue with the Minister for transport on several occasions, when contracts are issued. Have you had any dialogue with other Ministers in the Welsh Government about how you can drive forward this provision of enhanced training for drivers to be able to facilitate greater access and advice to people who have sight impairment in particular, but general disabilities as well? Very often, the experience is very off-putting for people to use public transport if they do have a disability.

Weinidog, o ran mynediad pobl ag anabledau at drafnidiaeth gyhoeddus yn arbennig, a phobl sydd â nam ar eu golwg, un peth sy'n hanfodol yw bod cerbydau gwasanaethau cyhoeddus a'r bobl sy'n eu gyrru ac yn eu darparu yn cael hyfforddiant digonol. Rwyf wedi crybwyll y mater wrth y Gweinidog trafnidiaeth ar sawl achlysur, pan fydd contractau'n cael eu rhoi. A ydych wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Gweinidogion eraill yn Llywodraeth Cymru ynglŷn â sut y gallwch fwrw ymlaen â'r ddarpariaeth hon o hyfforddiant estynedig i yrwyrr allu hwyluso gwell mynediad a chynghor i bobl â nam ar eu golwg yn benodol, ac i bobl ag anabledau cyffredinol hefyd? Yn aml iawn, mae'r profiad o ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn anymunol iawn i bobl os oes ganddynt anabled.

15:02

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I undertook a visit—it was actually in Wrexham—with the visually impaired society there around public transport, around the bus station. I was blindfolded and even an area that I knew very well was incredibly difficult to get around, because of A-boards, the pavements, et cetera, and the way that buses pulled up or didn't pull up properly at the kerb. So, this is something I have been taking forward with the third sector and with local authorities. I'm not aware of any specific discussions with the Minister for Economy, Science and Transport, but it's something I'll be very happy to highlight to her.

Ymwelais â'r gymdeithas i bobl â nam ar eu golwg—yn Wrecsam mewn gwirionedd—i drafod trafnidiaeth gyhoeddus mewn perthynas â'r orsaf fysiau. Rhoddwyd mwgwd dros fy llygaid, ac roedd yn hynod o anodd symud o gwmpas, hyd yn oed mewn man a oedd yn gyfarwydd iawn i mi, oherwydd A-fyrddau, y palmentydd, ac yn y blaen, a'r modd nad oedd bysiau'n stopio'n briodol wrth y palmant. Felly, mae hyn yn rhywbeth rwyf wedi bod yn ei drafod ymhellach gyda'r trydydd sector a chydag awdurdodau lleol. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw drafodaethau penodol gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, ond mae'n rhywbeth y byddaf yn hapus iawn i dynnu ei sylw ato.

**Y Stryd Fawr (Gorllewin Cymru)**

**High Streets (West Wales)**

15:03

**Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i adfywio'r stryd fawr yng ngorllewin Cymru?  
OAQ(4)0397(CTP)

14. What is the Welsh Government doing to help regenerate high streets in west Wales?  
OAQ(4)0397(CTP)



15:03	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>We are supporting the regeneration of many high streets in west Wales through our Vibrant and Viable Places tackling poverty programme—in Llanelli, for example—and positive progress is being made with our support for business improvement districts and town centre partnerships.</p>	<p>Rydym yn cefnogi'r gwaith o adfywio'r stryd fawr mewn llawer o drefi yng ngorllewin Cymru drwy ein rhaglen trechu tldi Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid—yn Llanelli, er enghraifft—a gwneir cynnydd cadarnhaol gyda'n cefnogaeth i ardaloedd gwella busnes a phartneriaethau canol trefi.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:03	<p><b>Paul Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, I'm sure that you're already aware that Milford Haven in my constituency has a shop vacancy rate of 21 per cent, which is substantially higher than the UK's average of 11.8 per cent. In light of this stark contrast, and given that Milford Haven has historically had an issue with vacancy rates, could you explain why this important town in my constituency hasn't qualified for much needed support under the Vibrant and Viable Places scheme?</p>	<p>Weinidog, rwy'n siŵr eich bod eisoes yn ymwybodol fod gan Aberdaugleddau yn fy etholaeth gyfradd siopau gwag o 21 y cant, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd y DU o 11.8 y cant. Yng ngoleuni'r cyferbyniad llwyr hwn, ac o ystyried bod Aberdaugleddau wedi cael problem yn y gorffennol gyda chyfraddau siopau gwag, a wnewch chi egluro pam nad yw'r dref bwysig hon yn fy etholaeth yn gymwys ar gyfer cymorth mawr ei angen o dan y cynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:04	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Well, the Vibrant and Viable Places scheme began over 18 months ago—we're halfway through the three-year project. Pembrokeshire will have submitted a bid, and that was decided at that time. But, we have been supporting Milford Haven with the town centre loan scheme, and that is specifically funding to bring empty sites and premises back into viable use.</p>	<p>Wel, dechreuodd y cynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid dros 18 mis yn ôl—rydym hanner ffordd drwy'r prosiect tair blynedd. Bydd Sir Benfro wedi cyflwyno cais, a gwnaed penderfyniad ar hynny ar y pryd. Ond rydym wedi bod yn cefnogi Aberdaugleddau gyda'r cynllun benthyciad canol trefi, ac mae hwnnw'n arian penodol tuag at ddod â safleoedd ac adeiladau gwag yn ôl i ddefnydd ymarferol.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:04	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you very much, Minister.</p>	<p>Diolch yn fawr iawn, Weinidog.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:04	<p><b>3. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): Y Celfyddydau ac Addysg</b></p> <p><b>Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>We now move on to the next item, which is a debate by individual Members under Standing Order 11.21. I call on Bethan Jenkins to move the motion—Bethan Jenkins.</p> <p>Cynnig NDM5885 Bethan Jenkins, Suzy Davies, Eluned Parrott</p> <p>Cefnogwyd gan Rhun ap Iorwerth, Lynne Neagle</p> <p>Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Yn cydnabod gwerth y celfyddydau a chreadigrwydd i addysg a datblygiad ein pobl ifanc, gan ddarparu profiad cyfoethog yn eu rhinwedd eu hunain, ond gan hefyd helpu i wella gallu plant i ganolbwyntio, gan ysgogi eu dychymyg a'u creadigrwydd, adeiladu hyder, codi dyheadau a rhoi gwell dealltwriaeth o bobl eraill iddynt a gwell empathi ar gyfer pobl eraill;</li> <li>2. Yn nodi â phryder bod cyfyngiadau ar gyllidebau awdurdodau lleol dros y degawd diwethaf wedi rhoi pwysau cynyddol ar wasanaethau cerddorol anstatudol;</li> </ol>	<p><b>3. Debate by Individual Members under Standing Order 11.21(iv): Arts and Education</b></p> <p>Symudwn yn awr at yr eitem nesaf, sef dadl gan Aelodau unigol o dan Reol Sefydlog 11.21. Galwaf ar Bethan Jenkins i gynnig y cynnig—Bethan Jenkins.</p> <p>Motion NDM5885 Bethan Jenkins, Suzy Davies, Eluned Parrott</p> <p>Supported by Rhun ap Iorwerth, Lynne Neagle</p> <p>To propose that the National Assembly for Wales:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Recognises the value of the arts and creativity in the education and development of our young people; providing a rich experience in their own right but also helping to improve a child's concentration, stimulating their imagination and creativity, building confidence, raising aspiration and giving them a greater understanding and empathy for others;</li> <li>2. Notes with concern that over the last decade constraints on local authority budgets have put non-statutory music services under increasing pressure;</li> </ol>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

3. Yn nodi casgliad y grŵp gorchwyl a gorffen ar wasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru fod yr heriau allweddol sy'n wynebu gwasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru yn cynnwys yr anghyfartalwch yn y ddarpariaeth bresennol a'r anghydraddoldeb cynyddol o ran cyfleoedd i gael mynediad at wasanaethau; a

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth genedlaethol ar addysg gerddorol fel bod pob plentyn yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o brofiadau cerddorol, i leihau rhwystrau ariannol i gael mynediad at y gwasanaethau hyn ac i sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel yn cael eu cynnal er gwaethaf gostyngiadau mewn cyllidebau awdurdodau lleol ac ysgolion.

*Cynigiwyd y cynnig.*

3. Notes the conclusion of the task and finish group on music services in Wales that key challenges facing music services in Wales include the disparity of existing provision and growing inequality of opportunity to access services; and

4. Calls on the Welsh Government to develop a national strategy on music education so that every child has the opportunity to participate in a range of musical experiences, to reduce financial barriers to accessing these services and to ensure that high quality services are sustained despite reductions in school and local authority budgets.

*Motion moved.*

15:04 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I wanted to show a video first.

Roeddwn am ddangos fideo yn gyntaf.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, you have to tell the Assembly that, because they are not aware.

Wel, mae'n rhaid i chi ddweud hynny wrth y Cynulliad, oherwydd nid ydynt yn gwybod.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:05 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Sorry.

Mae'n ddrwg gennyf.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

*Dangoswyd DVD. Mae'r trawsgrifiad mewn dyfynodau isod yn drawsgrifiad o'r cyfraniadau llafar ar y DVD. Mae'r cyflwyniad ar gael drwy ddilyn y linc hon:*

*A DVD was shown. The transcription in quotation marks below is a transcription of the oral contributions on the DVD. The presentation can be accessed by following this link:*

[Cyflwyniad DVD.](#)

[DVD presentation.](#)

'Providing music in schools was to ensure that children could take part in musical activities, just in the same way they take part in sport or in their maths lesson, or any other lesson. It was part of their general education. It was only when everything became under a threat that youngsters began to think this was a special privilege that they had.'

Roedd darparu cerddoriaeth mewn ysgolion yn sicrhau y gallai plant gymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol, yn union yn yr un ffordd ag y maent yn cymryd rhan mewn chwaraeon neu yn eu gwerau fathemateg, neu unrhyw wers arall. Roedd yn rhan o'u haddysg gyffredinol. Ni ddechreuodd pobl ifanc feddwl bod hon yn fraint arbennig hyd nes y daeth popeth o dan fygythiad.

'Not only did my music education in school consist of something that was important as an accompaniment to my studies, it wasn't just orchestra on a Monday afternoon, the odd violin lesson here and there; it was directly connecting me with my Welsh culture and heritage because our school actually had a folk club as well. My violin teacher was a folkie. I didn't realise how lucky I was at the time to have that, and it meant that I went on to have a lot more involvement in folk music outside of my work, as well as keeping the classical music going.'

Roedd fy addysg gerddorol yn yr ysgol nid yn unig yn rhywbeth a oedd yn bwysig fel atodiad i fy astudiaethau, cerddorfa ar brynawn Llundain, y wers ffidil achlysurol, roedd yn fy nghysylltu'n uniongyrchol â fy niwylliant a fy nhreftadaeth Gymreig oherwydd roedd gan ein hysgol glwb gwerin hefyd mewn gwirionedd. Roedd fy athrawes ffidil yn 'folkie'. Nid oeddwn yn sylweddoli pa mor llwus oeddwn i ar y pryd i gael hynny, a golygodd fy mod wedi mynd ymlaen i chwarae llawer mwy o ran mewn cerddoriaeth werin y tu allan i fy ngwaith, yn ogystal â chadw'r gerddoriaeth glasurol i fynd.

'Music is the one language that is understood by everyone. Therefore, to take away or deny anyone an education and a chance to explore their true emotions, character and being in one of the purest art forms is not only a serious error often made by those who do not fully understand its importance in our education system, but also, in my view, morally wrong.'

Cerddoriaeth yw'r un iaith y mae pawb yn ei deall. Felly, mae gwrthod cyfle neu wadu addysg i unrhyw un, a chyfle i archwilio eu hemosiynau a'u gwir gymeriad ac ymwneud ag un o'r ffurfiau celfyddydol puraf, nid yn unig yn gamgymeriad difrifol a wnaed yn aml gan bobl nad ydynt yn llwyr ddeall ei phwysigrwydd yn ein system addysg, ond hefyd, yn fy marn i, mae'n foesol anghywir.

'From an education standpoint, music is one of the only subjects that is easy to integrate into all other subjects. Music is maths, music is literature, music is physics, music is history. So, if you cut funding to music, you cut funding for important elements of all other core subjects.'

'Music is a cognitive ability. If you do well in music you are very likely to do well in all other subjects.'

'So, music makes money for Wales. Within the creative economy of Wales, music is one of the fastest growing sectors. We have the Green Man Festival, which was recently voted one of the best festivals in the UK. Without children learning these skills, the creative sector will be stifled with a shortage and a lack.'

'All major philosophical traditions throughout history have believed that the creative universe is basically composed of vibration, which is sound, which is music. So, when you take your vote consider that if you undercut funding for music education, you're basically undermining the pinnings of the universe.'

*Ar y DVD, dywedodd yr amrywiol gyfranwyr 'Gwlad y gân' yn eu heithoedd brodorol.*

O safbwynt addysg, cerddoriaeth yw un o'r unig bynciau sy'n hawdd ei integreiddio ym mhob pwnc arall. Cerddoriaeth yw mathemateg, cerddoriaeth yw llenyddiaeth, cerddoriaeth yw ffiseg, cerddoriaeth yw hanes. Felly, os ydych yn torri cyllid ar gyfer cerddoriaeth, rydych yn torri cyllid ar gyfer elfennau pwysig o'r holl bynciau craidd eraill.

Gallu gwybyddol yw cerddoriaeth. Os ydych yn gwneud yn dda mewn cerddoriaeth rydych yn debygol iawn o wneud yn dda yn yr holl bynciau eraill.

Felly, mae cerddoriaeth yn gwneud arian i Gymru. Yn economi greadigol Cymru, cerddoriaeth yw un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf. Mae gennym Wyl y Dyn Gwyrdd, y pleidleisiwyd drosti yn ddiweddar fel un o wyliau gorau'r DU. Os nad yw plant yn dysgu'r sgiliau hyn, bydd y sector creadigol yn cael ei lesteirio gan brinder a diffyg.

Mae pob traddodiad athronyddol mawr drwy gydol hanes wedi credu bod y bydysawd creadigol wedi'i greu yn y bôn o ddirgryniad, sef sain, sef cerddoriaeth. Felly, pan fyddwch yn pleidleisio, ystyriwch hyn: os ydych yn torri cyllid ar gyfer addysg gerddorol, rydych yn tansilio sylfeini'r bydysawd.

*On the DVD, the various contributors said 'Land of song' in their native languages.*

15:07

## **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr. Thank you to those who contributed to the film, after I asked on social media for them to contribute to it.

When I was looking for quotes about music before this debate, the one that held firm with me was one by Aldous Huxley, which says:

'After silence that which comes nearest to expressing the inexpressible is music.'

So, I'm not sure that my words will do anything justice here today. But the arguments that you've heard in the short film will be well-known in this Chamber. Unfortunately, music is seen very much as a non-essential service still. That seems to be the view of those who don't understand its importance or how to interpret music in other subjects. In Singapore, for example, top of the PISA rankings this year, it has recently begun opening schools where the curriculum is taught entirely based on music. I think we have something to learn from places like Singapore: putting music at the heart of everything that we do.

Diolch yn fawr. Diolch i'r rhai a gyfrannodd at y ffilm, ar ôl i mi ofyn ar y cyfryngau cymdeithasol iddynt gyfrannu ati.

Pan oeddwn yn chwilio am ddyfyniadau am gerddoriaeth cyn y ddadl hon, yr un a arhosai'n gadarn gyda mi oedd un gan Aldous Huxley, sy'n dweud:

'After silence that which comes nearest to expressing the inexpressible is music.'

Felly, nid wyf yn siŵr y bydd fy ngeiriau yn gwneud cyfiawnder ag unrhyw beth yma heddiw. Ond bydd y dadleuon rydych wedi'u clywed yn y ffilm fer yn hysbys yn y Siambr hon. Yn anffodus, i raddau helaeth, gwelir cerddoriaeth fel gwasanaeth nad yw'n hanfodol o hyd. Ymddengys mai dyna yw barn y rhai nad ydynt yn deall ei phwysigrwydd neu sut i ddehongli cerddoriaeth mewn pynciau eraill. Mae Singapore, er enghraifft, sydd ar frig y safleoedd PISA eleni, wedi dechrau agor ysgolion yn ddiweddar lle y caiff y cwricwlwm ei ddysgu yn seiliedig yn gyfan gwbl ar gerddoriaeth. Rwy'n credu bod gennym rywbeth i'w ddysgu o leoedd fel Singapore: rhoi cerddoriaeth wrth graidd popeth a wnawn.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

In the lead up to this debate, there was some suggestion that this debate might be a little frivolous or irrelevant, but nothing could be further from the truth. Music in schools is absolutely in the tradition that built our 'stutes—the mining institutes. It is the embodiment of socialist aspiration or betterment, developed by those who wanted more for their children than simply following them underground. Proper investment in music in schools extends opportunities for those living in the old industrial areas and, in fact, anywhere in Wales. Music doesn't discriminate.

It says that we are all different, and not all of us fit into a mould. It stops young people from being locked into a life not of their choosing. As a Government, this one needs to be showing that they are more concerned about music in schools. The Minister, who is not here at present today, has spoken of his desire to combat deprivation through education and music in schools. We have a ready-made tool to be able to do that. But jobs are being cut, services are being privatised, and this is not the way we should be taking our education system. Yes, we have Donaldson, but if the teachers are not there to teach, then how do we then reintroduce music into our schools?

The recent revelation that the most prominent and powerful positions in the arts in the UK are held by privately educated persons flies in the face of our aspirations here in Wales. Talent is not geographical, nor demographic. It can be found in the most unlikely places. I find it simply unacceptable that we might lose a Nicky Wire, a Duffy, a John Cale, a Wynne Evans, a Shirley Bassey, a Pretty Vicious from Merthyr, because the best place they could begin a lifetime of music—in school—wasn't available for them. I feel that music is the first crucial step to young people's development.

We have to make sure that we don't allow ability to develop according to good fortune or place of birth. It has to be for all of us here in Wales, and for tomorrow's future stars who live here in Wales. Diolch yn fawr.

15:10

## **Mick Antoniw** [Bywgraffiad Biography](#)

I'm very glad to be able to speak in this debate. I declare my interest as a member of the Musicians' Union and I'm very much supporting the union in the work that it has done to support music teachers in its Support My Music Teacher campaign. Of course, the reason why that has been important is because, of the 30,000 Musicians' Union members, 20,000 actually work in education. So, people who are actually involved professionally in music also contribute a significant part of their lives to the education of our young people—of students. I think that has to be recognised.

Cyn y ddadl hon, roedd rhywfaint o awgrym y gallai'r ddadl fod ychydig yn wamal neu'n amherthnasol, ond ni allai dim fod ymhellach o'r gwir. Mae cerddoriaeth mewn ysgolion yn sicr yn rhan o'r traddodiad a adeiladodd ein 'stiwts'—sefydliadau glowyr. Mae'n ymgorfforiad o ddyhead neu welliant sosialaidd a ddatblygwyd gan y rhai hynny a oedd eisiau mwy i'w plant na'u bod yn eu dilyn o dan y ddaear. Mae buddsoddi'n briodol mewn cerddoriaeth mewn ysgolion yn ehangu cyfleoedd i'r rhai sy'n byw yn yr hen ardaloedd diwydiannol ac yn wir, yn unrhyw le yng Nghymru. Nid yw cerddoriaeth yn gwahaniaethu.

Mae'n dweud ein bod i gyd yn wahanol, ac nad yw pawb ohonom o'r un anian. Mae'n atal pobl ifanc rhag cael eu caethiwo mewn bywyd nad ydynt wedi'i ddewis. Mae angen i'r Llywodraeth hon ddangos ei bod yn malio mwy am gerddoriaeth mewn ysgolion. Mae'r Gweinidog, nad ydyw yma ar hyn o bryd heddiw, wedi sôn am ei awydd i fynd i'r afael ag amddifadedd drwy addysg a cherddoriaeth mewn ysgolion. Mae gennym arf parod i allu gwneud hynny. Ond mae swyddi'n cael eu torri, gwasanaethau'n cael eu preifateiddio, ac ni ddylem fod yn mynd â'n system addysg i lawr y trywydd hwn. Oes, mae gennym Donaldson, ond os nad yw'r athrawon yno i ddysgu, yna sut y gallwn ni ailgyflwyno cerddoriaeth yn ein hysgolion wedyn?

Mae'r datguddiad diweddar mai pobl wedi'u haddysgu'n breifat sydd yn y swyddi mwyaf amlwg a phwerus yn y celfyddydau yn y DU yn mynd yn groes i'n dyheadau yma yng Nghymru. Nid yw talent yn ddaearyddol, nac yn ddemograffig. Gellir dod o hyd i dalent yn y manau mwyaf annhebygol. Mae'n gwbl annerbyniol i mi y gallem gollu rhai tebyg i Nicky Wire, Duffy, John Cale, Wynne Evans, Shirley Bassey, a Pretty Vicious o Ferthyr Tudful, am nad oedd y man gorau ar gyfer dechrau ar oes o gerddoriaeth—sef yn yr ysgol—ar gael iddynt. Rwy'n teimlo mai cerddoriaeth yw'r cam hanfodol cyntaf i ddatblygiad pobl ifanc.

Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr nad ydym yn caniatáu i allu ddatblygu yn ôl cyfoeth unigolyn neu ble y cafodd ei eni. Rhaid iddo fod ar gael i bob un ohonom yma yng Nghymru, ac i sêr y dyfodol sy'n byw yma yng Nghymru. Diolch yn fawr.

Rwy'n falch iawn o allu siarad yn y ddadl hon. Rwy'n datgan buddiant fel aelod o Undeb y Cerddorion ac rwy'n cefnogi'r undeb yn fawr iawn yn y gwaith y mae wedi'i wneud i gefnogi athrawon cerddoriaeth yn ei ymgyrch Support My Music Teacher. Wrth gwrs, y rheswm pam y mae'r ymgyrch honno wedi bod yn bwysig yw bod 20,000 o'r 30,000 o aelodau sydd gan Undeb y Cerddorion yn gweithio ym maes addysg mewn gwirionedd. Felly, mae pobl sy'n ymwneud â cherddoriaeth yn broffesiynol hefyd yn cyfrannu cyfran sylweddol o'u bywydau tuag at addysgu ein pobl ifanc—ein myfyrwyr. Rwy'n credu bod yn rhaid cydnabod hynny.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

There are a number of reasons why this motion is important, and why music education is important. There is of course an economic argument, because exports from the United Kingdom as a whole, from music and the music industry, are worth £4 billion, and they are increasing—it is one of the fastest growing and most consistently growing export industries we have. In many parts of the UK, and many parts of Wales, we have people who are leaders in the field of music technology and its association with the media industry, and with films. There is a whole technological economic argument as well in terms of career opportunities, not just in playing music, but the whole technology and performance arena around music. For me, most importantly, though, it is the impact it has on some of our most socially deprived areas, and on kids in our schools, because it is one of the most aspirational subjects and one of the most aspirational opportunities that gives confidence and aspiration, and enables children to rise to have confidence and belief, as well as something that, throughout life, gives people incredible personal satisfaction.

I think there are many pressures on music at the moment, and my biggest concern is that, across Wales, we now seem to have a bit of a postcode lottery. The pressure of financial cuts has certainly had an impact on music education as it competes. Sometimes, as has been said, it is seen as the poorer partner of education whereas it should be a fundamental part, as should sport, of the whole educational development. I think the biggest concern—the reason why this motion is important today—is because I think we need a Welsh Government solution, a Welsh Assembly solution, to ensure that we retain a consistent and comprehensive music service across Wales. There are many fantastic things being done that are being supported either by Welsh Government or by bodies such as the Arts Council of Wales, and so on. Cory Band, which draws from my constituency, from the Valleys—the eight-time world champion brass band, based in our Valleys heartlands; a showpiece for the world—had a very substantial grant of, I think, £300,000 from the Welsh arts council to promote brass instruments around our schools and to encourage their take-up. The take-up has been very encouraging. So, I would hope that, perhaps, Minister, in your response you will actually address the issue of the need for that cross-Wales programme to ensure that consistency.

Can I make a couple of other suggestions as well? One is that I think that we do need something that raises the profile of music teachers—some sort of award scheme—that really recognises the contribution that they make. And can I make just one other suggestion? One of the issues for a lot of poorer families is the actual acquisition of musical instruments. I know that, around Wales, there are thousands upon thousands upon thousands of musical instruments in attics, in people's homes, that have been used, perhaps, by people's children for a while, or they've grown out of, and so on. Somehow, we need to look at pulling that resource together to restore those instruments and make them available. It may be there's something Welsh Government could do by way of supporting social enterprise to actually bring all those unused musical instruments and make them available for the whole new generation of children that I know would love to actually have musical opportunities.

Mae yna nifer o resymau pam y mae'r cynnig hwn yn bwysig, a pham y mae addysg gerddorol yn bwysig. Mae yna ddadl economaidd wrth gwrs, gan fod allforion cerddoriaeth a'r diwydiant cerddorol o'r Deyrnas Unedig gyfan yn werth £4 biliwn, ac maent yn cynyddu—mae'n un o'r diwydiannau allforio sy'n tyfu gyflymaf a fwyaf cyson sydd gennym. Mewn sawl rhan o'r Deyrnas Unedig, a sawl rhan o Gymru, mae gennym bobl sy'n arweinyddwr ym maes technoleg cerddoriaeth a'i gysylltiad â'r diwydiant cyfryngau a ffilmiau. Ceir dadl economaidd dechnolegol hefyd o ran cyfleoedd gyrfa, nid yn unig o ran chwarae cerddoriaeth, ond y dechnoleg a'r maes perfformio sy'n ymwneud â cherddoriaeth hefyd. I mi, yn bwysicaf oll, fodd bynnag, mae'n ymwneud â'r effaith y mae'n ei chael ar rai o'n hardaloedd mwyaf difreintiedig yn gymdeithasol, ac ar blant yn ein hysgolion, gan ei fod yn un o'r pynciau mwyaf uchelgeisiol ac un o'r cyfleoedd mwyaf uchelgeisiol sy'n rhoi hyder a dyhead, ac yn galluogi plant i fagu hyder a hunan-gred, yn ogystal â rhywbeth sydd, drwy gydol eu bywydau, yn rhoi boddhad personol anhygoel i bobl.

Rwy'n credu bod llawer o bwysau ar gerddoriaeth ar hyn o bryd, a fy mhryder mwyaf yw ei bod yn ymddangos fel pe bai gennym loteri cod post i ryw raddau ledled Cymru. Mae pwysau toriadau ariannol yn sicr wedi effeithio ar addysg gerddorol wrth iddi gystadlu. Weithiau, fel y dywedwyd eisoes, caiff ei gweld fel partner tlawd addysg ond dylai fod yn rhan sylfaenol o ddatblygiad addysgol cyfflawn, fel y dylai chwaraeon fod. Rwy'n credu mai'r pryder mwyaf—y rheswm pam y mae'r cynnig hwn yn bwysig heddiw—yw fy mod yn credu ein bod angen ateb gan Lywodraeth Cymru, ateb gan Gynulliad Cymru, i sicrhau ein bod yn cadw gwasanaeth cerddoriaeth cyson a chynhwysfawr ar draws Cymru. Gwneir llawer o bethau gwyach a gefnogir naill ai gan Lywodraeth Cymru neu gan gyrff megis Cyngor Celfyddydau Cymru, ac yn y blaen. Cafodd Cory Band, sydd ag aelodau o fy etholaeth, o'r Cymoedd—y band pres sydd wedi bod yn bencampwr y byd wyth gwaith, ac sydd wedi'i leoli yng nghadarnleoedd ein Cymoedd; band a edmygir ledled y byd—cawsant grant sylweddol iawn o £300,000, rwy'n credu, gan Gyngor Celfyddydau Cymru i hyrwyddo offerynnau pres yn ein hysgolion ac i annog disgyblion i'w chwarae. Mae'r nifer sydd wedi manteisio ar hynny wedi bod yn galonogol iawn. Felly, byddwn yn gobeithio y byddwch chi, Weinidog, yn eich ymateb, yn ymdrin â'r angen am raglen ar draws Cymru i sicrhau'r cysondeb hwnnw.

A gaf fi wneud ychydig o awgrymiadau eraill hefyd? Y cyntaf yw fy mod yn credu bod angen rhywbeth sy'n codi proffil athrawon cerddoriaeth—rhyw fath o gynllun gwobrwyo—sy'n cydnabod y cyfraniad y maent yn ei wneud. Ac a gaf fi wneud un awgrym arall? Un o'r problemau i lawer o deuluoedd tlotach yw prynu offerynnau cerdd. Ar draws Cymru, gwn fod miloedd ar filoedd ar filoedd o offerynnau cerdd mewn atigau, yng nghartrefi pobl, offerynnau sydd wedi cael defnydd, efallai, gan blant pobl am gyfnod, neu rai y maent wedi tyfu'n rhy fawr ar eu cyfer, ac yn y blaen. Rywsut, mae angen i ni ystyried casglu'r adnodd hwn er mwyn adfer yr offerynnau a sicrhau eu bod ar gael. Mae'n bosibl y gallai Llywodraeth Cymru wneud rhywbeth i gefnogi menter gymdeithasol i gasglu'r holl offerynnau cerdd nas defnyddiwyd a sicrhau eu bod ar gael ar gyfer y genhedlaeth newydd o blant y gwn y byddent wrth eu boddau'n cael cyfleoedd cerddorol.

Members, I realise, after co-tabling this debate, that I'm not equipped to come to this debate from a position of strength; I don't associate myself with musical excellence, although it remains a source of pride to be connected to Mr William Graham here, who was able to introduce the inestimable Lemmy from Motörhead to Assembly Members not so very long ago. [Laughter.]

After a childhood scarred by relentless piano lessons and hymn singing, my mother made quite sure that my sister and I were not going to be similarly damaged. My father tried to undo her work by bringing LPs of bagpipe music and Jim Reeves into the house, but I think she took the view that these were just as likely to assist her in diverting me and my sister away from a desire for expensive music lessons and the acquisition of a saxophone in later life, although she didn't quite succeed on that last one—it's still there on my bucket list.

But music will out—it is irresistible. Despite all that, and an undeniable lack of musical talent in my own case, my parents found themselves on the receiving end of a never-ending string of musical demands—'Come to my school concert', 'Can Father Christmas get me a Disney record?', 'Miss wants me to play the recorder/the violin', 'I want a guitar', 'I want a Donny Osmond record', 'I want a transistor radio, a cassette player, a CD player, an MP3 player', 'What do you mean you met Bryn Fôn at a party and I didn't?', 'Any chance of opera tickets for my birthday, or a saxophone?'

Who, then, is to blame for this need of music? Was it the Urdd or village eisteddfodau? In my case, no—we didn't have those where I grew up. Television? Probably, yes. Was it that rogue 'Tubby the Tuba' of 1978 in the cupboard? I suspect it might have been a bit. Sunday school—I imagine that played its part as well. But, surely, the main culprit had to be school, or, more accurately, primary school, in my case. I'm not sure if Bethan and Eluned had the experience of singing together—I'm sure some of the older Members here probably did—sitting on the floor of the hall in front of a big radio with songbooks in your hand, while quite a posh voice exhorted you to join it in singing folk songs from around the world. I wonder if anybody does remember that.

Aelodau, rwy'n sylweddoli, ar ôl cyd-gyflwyno'r ddadl hon, nad wyf wedi fy arfogi i siarad gydag awdurdod yn y ddadl hon; nid wyf yn cysylltu fy hun â rhagoriaeth gerddorol, er mai testun balchder parhaol i mi yw cael fy nghysylltu â Mr William Graham yma, a allodd gyflwyno'r Lemmy aruthrol o Motörhead i Aelodau'r Cynulliad yn eithaf diweddar. [Chwerthin.]

Ar ôl plentyndod a greithiwyd gan wersi piano di-baid a chanu emynau, sicrhaodd fy mam na fyddwn i â fy chwaer yn cael ein niweidio yn yr un modd. Ceisiodd fy nhad ddadwneud ei gwaith drwy ddod â recordiau LP o gerddoriaeth bagbibau a Jim Reeves i'r tŷ, ond rwy'n credu ei bod hi o'r farn y byddai'r rhain yr un mor debygol o'i chynorthwyo i ddenu fy chwaer a minnau rhag unrhyw awydd am wersi cerddoriaeth drud a phrynu sacsoffon yn ddiweddarach mewn bywyd, er na lwyddodd hi'n llwyr ar yr olaf—mae hynny ar fy rhestr o bethau i'w gwneud cyn marw o hyd.

Ond bydd cerddoriaeth yn ennill y dydd—ni ellir ei gwrthsefyll. Er gwaethaf hynny i gyd, a diffyg talent gerddorol diamheuol yn fy achos i, bu'n rhaid i fy rhieni wynebu rhes ddiddiwedd o alwadau cerddorol—'Dewch i fy nghyngerdd ysgol', 'A all Siôn Corn ddod a record Disney i mi?', 'Mae Miss am i mi chwarae'r recorder/ffidil', 'Rwyf eisiau gitâr', 'Rwyf eisiau record Donny Osmond', 'Rwyf eisiau radio dransistor, chwaraewr casét, chwaraewr CD, chwaraewr MP3', 'Beth, fe gyfarfuoch chi â Bryn Fôn mewn parti a wnes i ddim?', 'Unrhyw obaith o gael tocynnau opera ar fy mhen-blwydd, neu sacsoffon?'

Pwy, felly, sydd ar fai am yr angen hwn am gerddoriaeth? Ai bai'r Urdd neu'r eisteddfodau pentref ydyw? Yn fy achos i, nage—nid oedd gennym bethau felly lle y cefais fy magu. Teledu? Mwy na thebyg, ie. Ai'r cnaf 'Tubby the Tuba' o 1978 yn y cwprdd ydoedd? Rwy'n tybio efallai fod hynny'n wir i raddau. Ysgol Sul—rwy'n dychmygu bod honno wedi chwarae ei rhan hefyd. Ond yn sicr, yr ysgol oedd yn bennaf gyfrifol, neu'n fwy manwl, yr ysgol gynradd yn fy achos i. Nid wyf yn siŵr os cafodd Bethan ac Eluned brofiad o ganu gyda'i gilydd—rwy'n siŵr bod rhai o'r Aelodau hŷn yma wedi cael profiad felly—wrth eistedd ar lawr y neuadd o flaen radio fawr gyda llyfr caneuon yn eich llaw, a llais go grand yn eich annog i ymuno i ganu caneuon gwerin o bob cwr o'r byd. Tybed a oes unrhyw un yn cofio hynny.

But primary schools are just so much better at this now. Music and other participatory arts are woven through the foundation phase to support other types of learning. It was a relief, I think, to read in the Dai Smith report that much of what he saw in the primary sector was exemplary and fit for purpose anywhere around the globe. I don't need persuading that contact with music has benefits that extend far beyond enjoyment and far beyond performance. It helps train memory and recall—a skill that seems to be disappearing in the Google era. It helps with cognitive skills—that was mentioned earlier—and an understanding of things like concepts of pattern and repetition, which are essential for language acquisition, including languages that are not native to us. It helps with discipline, in terms of working together, and perseverance, and it helps with behaviour, because singing, let's face it, is the easiest and cheapest stress buster that you can lay your hands on.

Ond mae ysgolion cynradd yn gwneud hyn gymaint yn well ar hyn o bryd. Mae cerddoriaeth a chelfyddydau cyfranogol eraill yn cael eu gweu drwy'r cyfnod sylfaen i gefnogi mathau eraill o ddysgu. Rwy'n credu ei bod yn rhyddhad i ddarllen yn adroddiad Dai Smith fod llawer o'r hyn a welodd yn y sector cynradd yn rhagorol ac yn addas i'r diben yn unrhyw ran o'r byd. Nid oes angen fy mherswadio fod gan gysylltiad â cherddoriaeth fanteision sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i fwyhad ac ymhell y tu hwnt i berfformio. Mae'n helpu i ddatblygu sgiliau cof ac adalw—sgil sy'n ymddangos fel pe bai'n diflannu yn oes Google. Mae'n helpu gyda sgiliau gwybyddol—crybwyllwyd hyn yn gynharach—a dealltwriaeth o bethau fel cysyniadau o batrwm ac ailadrodd, sy'n hanfodol ar gyfer caffael iaith, gan gynnwys ieithoedd nad ydynt yn frodorol i ni. Mae'n helpu gyda disgyblaeth, o ran gweithio gyda'n gilydd, a dyfalbarhad, ac mae'n helpu gydag ymddygiad, gan mai canu, gadewch i ni wynebu'r peth, yw'r ffordd hawsaf a rhataf o leddfu straen y gallwch ei chael.

15:18 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:18 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I will on that.

Gwnaf, fe wnaaf ar hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:18 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Would you share my concerns, however, that, with peripatetic teachers being taken out of schools, some teachers and some schools don't have those musical skills, so they won't be able to put that back into the system when they've disappeared altogether?

A fydddech chi'n rhannu fy mhryderon, fodd bynnag, gydag athrawon peripatetig yn cael eu tynnu'n ôl o ysgolion, nad oes gan rai athrawon a rhai ysgolion sgiliau cerddorol o'r fath, felly ni fyddant yn gallu rhoi hynny yn ôl yn y system pan fyddant wedi diflannu'n gyfan gwbl?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:18 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I completely agree with you. Your point regarding Donaldson—what's coming around the corner—was very well made, actually, so, yes, I do agree with you on that.

Cytunaf yn llwyr â chi. Cafodd eich pwynt ynglŷn â Donaldson—yr hyn sy'n dod rownd y gornel—ei wneud yn dda iawn, mewn gwirionedd, felly, ydw, rwy'n cytuno â chi ar hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I think that what I would also like to say is that music does all this before you get anywhere near the opportunity to really acquire some skills with a musical instrument, or indeed learn how music works. I think it's there, actually, that we're starting on the more difficult territory. I was looking at a recent-ish Ofsted report—I'm sorry I couldn't find something similar in Wales to refer to, but it found that, in England, there'd been a slide in the academic vigour in music teaching, with key stage 3 lessons especially being disjointed and superficial and rarely including any classical music. I suppose in Wales the observations may not be the same; it certainly isn't in my own children's secondary school—it certainly wasn't like it there—but that school was just lucky in its teacher, and one teacher can't provide the benefits of a breadth of musical experience or different pedagogies.

Rwy'n credu mai'r hyn yr hoffwn ei ddweud hefyd yw bod cerddoriaeth yn gwneud hyn i gyd cyn i chi ddod yn agos at gael cyfle i gaffael rhywfaint o sgiliau ar offeryn cerdd, neu'n wir i ddysgu sut y mae cerddoriaeth yn gweithio. Rwy'n credu mai dyna ble rydym yn dechrau troedio ar dir anos mewn gwirionedd. Roeddwn yn edrych ar adroddiad Ofsted lled ddiweddar—mae'n ddrwg gennyf na allwn ddod o hyd i rywbeth tebyg yng Nghymru i gyfeirio ato, ond darganfu'r adroddiad fod llithro wedi bod yn Lloegr o ran egni academaidd addysgu cerddoriaeth, gyda gwersi cyfnod allweddol 3 yn enwedig yn ddigyswllt ac yn arwynebol a phrin yn cynnwys unrhyw gerddoriaeth glasurol. Rwy'n tybio efallai na fyddai'r sylwadau yr un fath yng Nghymru; yn sicr nid ydynt yn ysgol uwchradd fy mhlant—yn sicr nid dyna'r sefyllfa yno—ond roedd yr ysgol honno'n ffodus o'i hathro, ac ni all un athro ddarparu manteision ehangder profiad cerddorol neu wahanol ddulliau o addysgu.

So, I'm kind of asking myself, I think, 'Has music teaching written its own requiem?', in a way, because, in Wales, we've put so much focus on core subjects—the must-have subjects—that pupils, parents and school leaders have become complicit in a kind of educational apartheid, is the way I look at it. Yes, we want every person with an aptitude for STEM subjects to be proactively encouraged to take them up and, yes, there may be some arts-based college courses where we would be right to raise an eyebrow as to their purpose, but there is a massive territory in the middle where academic rigour, creative thought and elite performance sit, and we underestimate the value of that to our young people at our peril—not just because of their personal growth, but for society and for the economy. STEM is not for everyone, and the A for arts is not second-best. So, please, let's make the Donaldson era mean something. I did have more to say on this, but I really recommend Members support this motion today, and I hope that the Deputy Minister will as well. Thank you.

Felly, gofynnaf i mi fy hun, rwy'n meddwl, 'A yw addysgu cerddoriaeth wedi cyfansoddi ei requiem ei hun?', mewn ffordd, oherwydd, yng Nghymru, rydym wedi canolbwyntio cymaint ar y pynciau craidd—y pynciau sy'n rhaid eu cael—fel bod disgyblion, rhieni ac arweinwyr ysgolion wedi dod yn rhan o fath o apartheid addysgol, yn ôl y ffordd rwy'n edrych arno. Ydym, rydym am i bob person sydd â dawn i wneud pynciau STEM gael eu hannog yn rhagweithiol i'w dilyn ac efallai bod rhai cyrsiau coleg yn y celfyddydau lle y byddai'n iawn i ni grychu talcen ynglŷn â'u diben, ond mae yna lawer iawn o dir yn y canol lle y ceir trylwyredd academaidd, meddwl creadigol a pherfformiad elitaidd, a gwae i ni danbriso gwerth hynny i'n pobl ifanc—nid yn unig o ran eu twf personol, ond i gymdeithas ac i'r economi. Nid yw STEM at ddant pawb, ac nid ail orau yw A yn y celfyddydau. Felly, os gwelwch yn dda, gadewch i ni wneud i oes Donaldson olygu rhywbeth. Roedd gennyf fyw i'w ddweud am hyn, ond rwy'n argymhell yn fawr y dylai'r Aelodau gefnogi'r cynnig hwn heddiw, ac rwy'n gobethio y bydd y Dirprwy Weinidog yn gwneud hynny hefyd. Diolch.

15:20

## Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf innau'n falch iawn o gael y cyfle i siarad heddiw. Rwy'n gwneud cyfraniad am y rheswm syml fy mod yn teimlo'n angerddol dros y gwerth y mae cerddoriaeth yn ei ychwanegu at fywydau pobl a pha mor bwysig ydy hi fod plant a phobl ifanc yn cael pob cyfle i gael cyfoethogi eu bywydau drwy gerddoriaeth. Roeddwn i'n lwcus iawn: mi ges i fy magu ar aelwyd gerddorol. Mi oedd canu a chwarae'r gitâr a chwarae'r piano yn bethau oedd yn digwydd yn naturiol. Rwy'n dal i dreulio llawer o fy amser rŵan yn chwarae offerynnau cerdd—yn wael, rwy'n ychwanegu.

Mi oeddwn yn lwcus iawn i gael cyfleon gartref, ond mi oedd y cyfleoedd a gynigiwyd i fi drwy fy nyddiau ysgol i ddatblygu yn gerddorol a chael profiadau cerddorol yn amhriasadwy hefyd. Mi ddylwn i ddweud bod y genhedlaeth nesaf yn ein tŷ ni yn cael cychwyn cerddorol da i fywyd hefyd. Mae fy mhlant innau wedi cael pleser mawr a budd allan o wersi cerdd yr ysgol, gwarsi offerynnol yn yr ysgol, sioeau cerdd ac ati, ac wedi cael profiadau arbennig o ganlyniad i hynny, yn chwarae mewn cerddorfeydd sirol, ac ati.

Rhyw 11 oed oeddwn i pan es i ddechrau gwarsi cornet yn Ysgol David Hughes ym Mhorthaethwy—fi a chriw o ffrindiau. Tua'r un adeg, mi ailgychwynwyd Band Ieuencid Biwmares, a hynny'n cael ei wneud yn haws gan y ffaith fod criw ohonom ni yn yr ysgol yn cael gwarsi offerynnau pres. Nid wyf yn dweud ein bod ni, ar y pryd, o safon arbennig o uchel fel unawdwyr cerddorol, ond mi oedd y ffaith ein bod ni wedi cael ein tynnu at ein gilydd bryd hynny yn dechrau siwrne a arweiniodd at fand Biwmares rŵan yn bod yn un o'r bandiau gorau sydd yna yn ynysoedd Prydain, ac rwy'n falch iawn o hynny. A dweud y gwir, mi ddechreuodd y safon godi'n wirioneddol pan adawais i.

I'm also very pleased to have an opportunity to contribute today. I am contributing for the simple reason that I feel passionately about the value that music adds to the lives of people and how important it is that children and young people have every opportunity possible to enrich their lives through music. I was very fortunate, as I was brought up in a musical family. Singing and playing the guitar and piano were things that happened naturally. I still spend a great deal of my time now playing musical instruments—very poorly I should add.

I was very fortunate to have those opportunities at home, but the opportunities provided through my schooling to develop musically and to have musical experiences were also invaluable. I should say that the next generation in our house are also having a good musical start in life. My children have had a great deal of pleasure and benefit from music lessons at school, musical instrument lessons at school, shows and so on, and have had excellent experiences as a result of that, playing in country orchestras, and so on.

I was around the age of 11 when I started cornet lessons at Ysgol David Hughes in Menai Bridge—me and a group of friends. Around the same time, the Beaumaris Youth Band was re-established, and that was made easier by the fact that there was a group of us at school having brass lessons. I'm not saying that we were particularly talented as musical soloists at that time, but the fact that we had been brought together at that point was the start of a journey that led to the Beaumaris band now being one of the best bands in the British isles, and I'm particularly proud of that. To be honest, the standard went up particularly when I left the band.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



Mae band Bwmares yn rhan cwbl allweddol o'r gymuned, gan roi'r cyfle i gannoedd o bobl ifanc ymuno mewn cymdeithas gerddorol. Rŵan, mae ysgolion yr ardal yn elwa o'r arbenigeidd sydd wedi cael ei ddatblygu o fewn y band. Mae arweinydd y band—y cyfarwyddwr cerdd arbennig iawn, Gwyn Evans—yn dysgu offerynwyr yn yr ysgolion, mae gan ysgolion eu bandiau eu hunain dan arweiniad Gwyn, ac rwy'n siŵr bod band tref Porthaethwy, i lawr y ffordd o Fiwmares, wedi elwa yn fawr o'r ffaith bod yna fwrwm bandiau pres yn lleol. Rwy'n bryderus iawn iawn mai dirywio y bydd y cyfle i ail-greu straeon da fel yna mewn rhannau eraill o Gymru, oni bai bod yna statws uwch yn cael ei roi i gerddoriaeth o fewn addysg.

Y perig ar adegau o wasgu ariannol, wrth gwrs, ydy bod yr hyn sy'n anstatudol yn cael ei golli, ac nid oes amheuaeth ynglŷn â'r pwysau cynyddol sydd wedi cael ei roi ar wasanaethau cerddorol. Y gwir amdani ydy bod gwahanol awdurdodau lleol wedi ymateb mewn gwahanol ffyrdd i'r heriau ariannol maen nhw'n eu hwynebu. Ond allwn ni ddim parhau i fynd i lawr llwybr tuag at sefyllfa lle bydd yna anghyfartaledd enfawr rhwng y ddarpariaeth, ac felly y bydd y cyfleon sydd ar gael yn dibynnu ar le mae plentyn yn digwydd byw.

Y gair pwysig i fi yn fan hyn ydy 'normaleiddio'. Mewn dyddiau a fu, mi oedd cyfleon cerddorol yn beth normal, yn beth cyffredin. Mi oedd cyfleon cerddorol yn rhywbeth yr oedd disgyblion yn eu gweld ac yn eu clywed o'u cwmpas nhw. O gael eu haddysgu mewn awyrgylch cerddorol 'passive', os liciwch chi, felly, mae'n amlwg bod mwy a mwy o bobl ifanc yn gallu cael eu bachu gan gerddoriaeth a manteisio ar y cyfle sydd ar agor iddyn nhw. Ond er mwyn inni ail-normaleiddio—achos rwy'n ofni bod y normaleiddio wedi mynd—mae angen strategaeth Llywodraeth.

Allwn ni ddim gadael i 'market forces', os liciwch chi, o fewn byd addysg neu fyd llywodraeth leol gymryd rheolaeth yn y fan hyn. Mae angen y fath strategaeth i gefnogi arfer da yn lleol hefyd. Ond, yn gwbl hanfodol, mae angen strategaeth er mwyn sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc ni yn cael cyfleon lle bynnag maen nhw yn byw. Gwlad y gân yr ydym ni, fel y clywsom ni ar ddiwedd y ffilm. Gwlad gerddorol ydym ni, ac mae hi'n etifeddiaeth gyfoethog iawn yr wyf i'n falch ohoni, ond mae hi yn etifeddiaeth sy'n mynd i gael ei thanseilio heb fod camau cadarn iawn ac arweiniad strategol yn cael ei roi gan Lywodraeth Cymru.

The Beaumaris band is a crucial part of the community, giving hundreds of young people an opportunity to join in a musical society. Schools in the area benefit now from the expertise developed within the band. The leader of the band—the very special musical director, Gwyn Evans—is actually tutoring instrumentalists in our schools, schools have their own bands that are led by Gwyn, and I'm sure that the Menai Bridge band, down the road from Beaumaris, has benefited from the fact that there is a vibrant brass band community. I'm very concerned that the opportunity to recreate good-news stories such as those in other parts of Wales will decline unless greater status is given to music in education.

The risk at times of financial pressure, of course, is that what is non-statutory is lost, and there is no doubt about the increasing pressures that have been placed on music services. The truth is that different local authorities have responded in different ways to the financial challenges that they face. But we can't continue to go down a route towards a situation where there will be huge inequality in the provision, and therefore the opportunities available will depend on where a child happens to live.

The important word for me here is 'normalisation'. In days of yore, musical opportunities were the norm, were commonplace. Musical opportunities were something that pupils saw and heard around them. In being educated in a passive musical environment, if you like, therefore, it's clear that more and more young people can be attracted to music and take advantage of the opportunities available to them. But in order for us to renormalize—because I do fear that that normalisation has been lost—we need a Government strategy.

We can't allow market forces, if you like, within education or local government to take the reins here. We need such a strategy to support good practice locally as well. But, crucially, we need a strategy in order to ensure that our children and young people do have opportunities wherever they live. We are the land of song, as we heard at the end of that film. We are a musical nation, and it is a very rich heritage that I am very proud of, but it is a heritage that will be undermined unless robust steps are taken and a strategic lead given by the Welsh Government.

I'll follow, in many ways, on from what Rhun ap Iorwerth has said about his experience in Anglesey. My experience in Blaenau Gwent is actually very, very similar. I'll start my contribution by declaring an interest in that I'm president of Beaufort Male Choir, and, in doing that—[Interruption.] I won't do that. I also recognise that Beaufort is, of course, one of the many male voice choirs in Blaenau Gwent—I think every town has at least one of them—and also represents the sort of community music where we don't mistake excellence for exclusivity, where people enjoy the ability to listen to excellent music, but also have the ability to take part in that themselves; a community-based culture that is as much a part of the south Wales Valleys as are the hills themselves. We know that all of our Valleys have excellence in terms of bands, in terms of orchestras and in terms of choirs, The Ebbw Valley Brass band and the Tredegar Town Band are both examples of bands that have dominated music in the United Kingdom. And it's no surprise and it should be no surprise that it's the south Wales miners that established their own eisteddfod as well—recognition that, as a part of our culture in the Valleys of south Wales, music and arts are a central part of what we want to achieve as a society.

I'm glad that the Welsh Government has recognised this in terms of the approaches it's taken to support of the arts. I know that the Welsh Government spends 57 per cent more per capita on the arts council than is spent by the United Kingdom Government on the arts council in England. We also know that the arts are being protected in Wales, with the cuts experienced in England being far greater than they are in Wales. But let me ask this question: have we somehow mistaken utilitarianism, and have we taken utilitarianism as a general approach to education too far in the last few years—focused on education simply as a means to an end and not focused on the power of education to transform society? I hope that we will, when we're debating this motion this afternoon, not simply look at it in isolation, but also examine and understand how music and how education through the arts can actually eradicate poverty, and should be a central part of our ambition to eradicate poverty in this country. I believe that arts and music education should be an absolutely key part of our ambition as a socialist Government, and should be a part of our priorities in the same way as language, literature and history are a part. We need to define poverty in Wales to ensure that people in Wales and children growing up in Wales have access to the arts as an absolute right, and not simply as a privilege.

Mewn sawl ffordd, rwy'n dilyn o'r hyn a ddywedodd Rhun ap Iorwerth am ei brofiad yn Ynys Môn. Mae fy mhrofiad ym Mlaenau Gwent yn debyg iawn mewn gwirionedd. Dechreuaf fy nghyfraniad drwy ddatgan buddiant gan fy mod yn llywydd Côr Meibion Beaufort, ac wrth wneud hynny—[Torri ar draws.] Ni wnaaf hynny. Rwyf hefyd yn cydnabod bod Beaufort, wrth gwrs, yn un o nifer o gorau meibion ym Mlaenau Gwent—credaf fod gan bob tref o leiaf un ohonynt—ac mae hefyd yn cynrychioli'r math o gerddoriaeth gymunedol lle nad ydym yn camgymryd rhagoriaeth am ddetholusrwydd, lle y bydd pobl yn mwynhau'r gallu i wrando ar gerddoriaeth ardderchog, ond hefyd â'r gallu i gymryd rhan yn hynny eu hunain; diwylliant yn y gymuned sy'n gymaint rhan o Gymoedd de Cymru â'r bryniau eu hunain. Rydym yn gwybod bod rhagoriaeth ym mhob un o'n Cymoedd o ran bandiau, o ran cerddorffeydd ac o ran corau. Mae Band Pres Glynebwy a Band Tref Tredegar yn ddwy enghraifft o fandiau sydd wedi bod yn amlwg iawn ym maes cerddoriaeth yn y Deyrnas Unedig. Ac nid yw'n syndod, ac ni ddylai fod yn syndod fod glowyr de Cymru wedi sefydlu eu heisteddfod eu hunain yn ogystal—cydnabyddiaeth fod cerddoriaeth a'r celfyddydau, fel rhan o'n diwylliant yng Nghymoedd de Cymru, yn rhan ganolog o'r hyn rydym am ei gyflawni fel cymdeithas.

Rwy'n falch fod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod hyn o ran y dulliau y mae wedi'u defnyddio i gefnogi'r celfyddydau. Rwy'n gwybod bod Llywodraeth Cymru yn gwario 57 y cant yn fwy y pen ar Gyngor y Celfyddydau nag sy'n cael ei wario gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyngor y celfyddydau yn Lloegr. Rydym hefyd yn gwybod bod y celfyddydau'n cael eu diogelu yng Nghymru, gyda'r toriadau a brofwyd yn Lloegr yn llawer dyfnach na'r rhai a wnaed yng Nghymru. Ond gadewch i mi ofyn y cwestiwn hwn: a ydym, rywsut, wedi camddeall iwtilitariaeth, ac wedi mynd ag iwtilitariaeth fel ymagwedd gyffredinol at addysg yn rhy bell yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf—gan ganolbwyntio ar addysg yn syml fel ffordd o gyrraedd nod yn hytrach na chanolbwyntio ar bŵer addysg i drawsnewid cymdeithas? Pan fyddwn yn trafod y cynnig hwn y prynhawn yma, gobeithiaf y byddwn nid yn unig yn edrych arno fel rhywbeth ar wahân, ond hefyd yn archwilio a deall sut y gall cerddoriaeth a sut y gall addysg drwy'r celfyddydau ddileu tlodi mewn gwirionedd, a'r modd y dylai fod yn rhan ganolog o'n huchelgais i ddileu tlodi yn y wlad hon. Rwy'n credu y dylai'r celfyddydau ac addysg gerddorol fod yn rhan gwbl allweddol o'n huchelgais fel Llywodraeth sosialaidd, a dylai fod yn rhan o'n blaenoriaethau yn yr un ffordd ag y mae iaith, llenyddiaeth a hanes yn rhan ohonynt. Mae angen i ni ddiffinio tlodi yng Nghymru i sicrhau bod pobl yng Nghymru a phlant sy'n cael eu magu yng Nghymru yn cael mynediad at y celfyddydau fel hawl absoliwt, ac nid fel braint yn unig.

When we're doing this, I hope that we will take inspiration from the El Sistema system in Venezuela, where we've seen 300,000 children have the benefit of a musical education that has changed their lives, and changed the lives of their society. All too often in Wales, we simply look at what's ahead of us and we don't look up at what we can achieve. I would like us to look hard at how the Venezuelan example has transformed the lives of people, using a symphony orchestra as a means of social improvement and as a means of ensuring that people have the opportunity to do things that they wouldn't have had themselves.

Pan fyddwn yn gwneud hyn, rwy'n gobeithio y byddwn yn cael ysbrydoliaeth o system El Sistema yn Venezuela, lle y gwelwom 300,000 o blant yn elwa ar addysg gerddorol a newidiodd eu bywydau, ac wedi newid bywydau eu cymdeithas. Yn rhy aml yng Nghymru, edrychwn yn syml ar yr hyn sydd o'n blaenau heb edrych i fyny ar yr hyn y gallwn ei gyflawni. Hoffwn i ni edrych yn fanwl ar sut y mae esiampl Venezuela wedi trawsnewid bywydau pobl, gan ddefnyddio cerddorfa symffoni fel modd o wella cymdeithas ac fel modd o sicrhau bod pobl yn cael cyfle i wneud pethau na fyddent wedi cael cyfle i'w gwneud eu hunain.

15:29 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i ymyrryd, achos mae El Sistema Cymru—Codi'r To—yn gweithredu ym Mangor. Rwy'n datgan diddordeb fel cadeirydd, ac rwy'n gwahodd unrhyw Weinidog neu is-Weinidog i ddod draw i weld effaith fendithiol mae'r cynllun hwnnw wedi ei gael ar blant mewn dwy ardal ddifreintiedig.

I'm grateful for the opportunity to intervene, because the El Sistema of Wales—Codi'r To—is operating in Bangor. I declare an interest as chair, and I would invite any Minister or Deputy Minister to come over to see the beneficial impact that scheme is having on children in two disadvantaged areas.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:30 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member has pre-empted my next paragraph. I'm aware of the success of the project he's referred to, and it is a project that's been successful in many parts of Europe. What I hope we will be able to do here in Wales is to say that this should be a central part of what we want to achieve as a part of the next Government.

Mae'r Aelod wedi achub y blaen ar fy mharagraff nesaf. Rwy'n ymwybodol o lwyddiant y prosiect y cyfeiriodd ato, ac mae'n brosiect sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn sawl rhan o Ewrop. Yr hyn rwy'n gobeithio y gallwn ei wneud yma yng Nghymru yw dweud y dylai hyn fod yn rhan ganolog o'r hyn rydym am ei gyflawni yn rhan o'r Llywodraeth nesaf.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Because, if we are serious about eradicating poverty in Wales, we have to look beyond simply poverty defined in economic terms, and look at how poverty will be defined in cultural terms as well. I want us to create a society where we're able to ensure that children have aspiration, self-esteem, confidence and pride in themselves, and their community, and what they can do. I believe that music can be a key part of that, and I hope the Government, in responding to this motion today, will respond, not simply with a speech, but with an aspiration and an ambition as well. Thank you.

Oherwydd, os ydym o ddifrif ynglŷn â dileu tlodi yng Nghymru, mae'n rhaid i ni edrych y tu hwnt i dlodi a ddiffinnir mewn termau economaidd, ac edrych ar sut y diffinnir tlodi mewn termau diwylliannol yn ogystal. Rwyf am i ni greu cymdeithas lle y gallwn sicrhau bod gan blant ddyhead, hunan-barch, hyder a balchder yn eu hunain ac yn eu cymuned, a'r hyn y gallant ei wneud. Credaf y gall cerddoriaeth fod yn rhan allweddol o hynny, ac rwy'n gobeithio y bydd y Llywodraeth, wrth ymateb i'r cynnig hwn heddiw, yn ymateb, nid yn unig gydag arait, ond gyda dyhead ac uchelgais yn ogystal. Diolch.

15:31 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm very pleased to support this motion, as we shouldn't underestimate the value of music to us as individuals, and to our communities. I thought that the film that started this debate really encapsulated that. I also welcome Suzy Davies's comments about 'Singing Together', because I do remember that, as a child. That was the sort of 1960s version of 'The X Factor', I think. If I remember rightly, we as children had to vote for our favourite songs. If I remember, one of the songs that we voted for—which I can still sing today—is 'Big Rock Candy Mountain', so it's still with me. [Laughter.]

Rwy'n falch iawn o gefnogi'r cynnig hwn, gan na ddylem danbrisiu gwerth cerddoriaeth i ni fel unigolion, ac i'n cymunedau. Roeddwn yn meddwl bod y ffilm a ddechreuodd y ddadl hon yn crynhoi hynny mewn gwirionedd. Rwyf hefyd yn croesawu sylwadau Suzy Davies am 'Singing Together', oherwydd rwy'n cofio hynny, yn blentyn. Roedd yn fath o fersiwn y 1960au o 'The X Factor', rwy'n meddwl. Os cofiaf yn iawn, roedd yn rhaid i ni fel plant bleidleisio dros ein hoff ganeuon. Os cofiaf, un o'r caneuon y pleidleisiom ni drosti—gallaf ddal i'w chanu heddiw—oedd 'Big Rock Candy Mountain', felly mae'n dal i fod gyda mi. [Chwerthin.]

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I think there is an understandable dilemma that, when budgets are tight, cultural activities such as music are not seen as a front-line service. And, of course, the big spending cuts that have been imposed on Wales by the UK Government in Westminster over recent years means that difficult decisions have to be made in this portfolio, as in others. But I do welcome—as my colleague, Alun Davies, mentioned—we know that, per capita, the Welsh Government invests 57 per cent more on the Arts Council of Wales than the UK Government has done on the equivalent in England.

But, saying that, I think—[Interruption.]

Pan fydd cyllidebau'n dynn, rwy'n meddwl bod yna broblem ddealladwy nad yw gweithgareddau diwylliannol megis cerddoriaeth yn cael eu gweld fel gwasanaeth rheng flaen. Ac wrth gwrs, mae'r toriadau mawr mewn gwariant a orfodwyd ar Gymru gan Lywodraeth y DU yn San Steffan dros y blynyddoedd diwethaf yn golygu bod yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd yn y portffolio hwn, fel mewn portffolios eraill. Ond rwy'n croesawu—fel y soniodd fy nghyd-Aelod, Alun Davies—fod Llywodraeth Cymru, fel y gwyddom, yn buddsoddi 57 y cant yn fwy y pen ar Gyngor Celfyddydau Cymru nag y mae Llywodraeth y DU wedi'i wneud ar y cyngor cyfatebol yn Lloegr.

Ond ar ôl dweud hynny, rwy'n credu—[Torri ar draws.]

15:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention? Suzy Davies.

A wneuch chi dderbyn ymyriad? Suzy Davies.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:32 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I take your point on that, but there's a recognition—isn't there—that, over the border, there is more access to philanthropic support for the arts, something that we're not really developing at a full strength here in Wales. It's not making a criticism—it's just to recognise the point.

Derbyniaf eich pwynt ynglŷn â hynny, ond mae cydnabyddiaeth—onid oes—fod mwy o gymorth dyngarol yn cael ei roi i'r celfyddydau dros y ffin, rhywbeth nad ydym yn mynd ati o ddifrif i'w ddatblygu'n llawn yma yng Nghymru. Nid beirniadaeth yw hynny—dim ond nodi'r pwynt.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:32 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Okay. Well, obviously, there is a challenge, which I think that we do need to address.

lawn. Wel, yn amlwg, mae yna her, ac rwy'n meddwl bod angen i ni fynd i'r afael â hi.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I think, given the importance of music, I would urge the Welsh Government to think creatively, as it is so important to the wellbeing of Wales. I do take Mick Antoniw's point that we need a solution to this; we realise the importance of music.

O gofio pwysigrwydd cerddoriaeth, hoffwn annog Llywodraeth Cymru i feddwl yn greadigol, gan fod cerddoriaeth mor bwysig i les Cymru. Rwy'n derbyn pwynt Mick Antoniw fod arnom angen ateb i hyn; rydym yn sylweddoli pa mor bwysig yw cerddoriaeth.

I was impressed with the findings of the task and finish group on music services, which I'm very pleased that the Minister commissioned. I think the group rightly made the case that there should be a pressing need for a robust and coherent structure of local, regional and national ensembles, and music activities, to ensure that children and young people are able to access a range of high-quality experiences, and also to aspire to excellence. And I am pleased that the Welsh Government has shown its commitment to this, by supporting nearly all of the recommendations.

Roeddwn yn llawn edmygedd o ganfyddiadau'r grŵp gorchwyl a gorffen ar wasanaethau cerddoriaeth, ac rwy'n falch iawn fod y Gweinidog wedi comisiynu'r gwaith. Rwy'n meddwl bod y grŵp wedi cyflwyno achos priodol fod angen dybryd am strwythur cadarn a chydlynol o ensembles lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, a gweithgareddau cerddorol, er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael ystod o brofiadau o ansawdd uchel, ac yn anelu at ragoriaeth hefyd. Ac rwy'n falch fod Llywodraeth Cymru wedi dangos ei hymrwymiad i hyn drwy gefnogi bron bob un o'r argymhellion.

Wales defines itself, and is portrayed by others, as—quite rightly—the land of song. But, as others have said, this didn't just occur by chance. The talent and innovations we see today really have sprung up from that heritage and identity. At this point, I would like to just pay a tribute to my music teacher—I went back to music as a mature student, if you like—Mrs Rosalie Evans, who sadly died, far too young, last week, who was also the accompanist of the Morlais Male Choir, and one of the most inspirational pianists and musicians you could meet. So, I just wanted to put her name on record.

Mae Cymru yn diffinio ei hun, ac yn cael ei phortreadu gan eraill—yn gwbl gywir—fel gwlad y gân. Ond fel y mae eraill wedi dweud, nid yw hyn wedi digwydd ar hap. Mewn gwirionedd, mae'r doniau a'r datblygiadau arloesol a welwn heddiw wedi deillio o'r dreftadaeth a'r hunaniaeth. Ar y pwynt hwn, hoffwn roi teyrnged i fy athrawes gerddoriaeth—dychwelais at gerddoriaeth fel myfyriwr aeddfed, os mynnwch—Mrs Rosalie Evans, a fu farw yn llawer rhy ifanc yr wythnos diwethaf, yn anffodus. Hi hefyd oedd cyfeilydd Côr Meibion Morlais, ac roedd yn un o'r pianyddion a'r cerddorion mwyaf ysbrydoledig y gallech eu cael. Felly, roeddwn i eisiau cofnodi ei henw.

I was also, this week, reminded, when I was pleased to be present, with other Assembly Members—the Member for Rhondda, Leighton Andrews, and also Leanne Wood, South Wales Central Assembly Member—at the launch of Professor Gareth Williams's book, 'Do you Hear the People Sing?'. Now, this book documents very descriptively the particular tradition of male voices in Wales, very ably accompanied by the Pendyrus Male Choir, and I put on record that my husband sings in this choir—a very good choir.

But, of course, there are other forms of this heritage as well: choral singing, the eisteddfodau, chapel traditions and, of course, much more contemporary versions of musical activities as well. I think that the opportunity to participate in music provides many benefits through greater access to creativity in a classroom and cultural experiences in the wider world. All these have the potential to support schools in improving motivation, behaviour and attainment in its young people. But, I think in a broader sense too, our musical heritage is really what makes Wales distinct as a nation. I think that can be important for our profile abroad and for tourism but also for community cohesion. So, finally, I would like to urge Welsh Government to do all it can to nurture our musical tradition now and well into the future.

Yr wythnos hon hefyd, cefais fy atgoffa o'r pleser o fynychu digwyddiad gydag Aelodau eraill o'r Cynulliad—yr Aelod dros y Rhondda, Leighton Andrews, a Leanne Wood, Aelod Cynulliad dros Ganol De Cymru—i lansio llyfr Yr Athro Gareth Williams, 'Do you Hear the People Sing?'. Nawr, mae'r llyfr yn dogfennu'n ddisgrifiadol iawn y traddodiad arbennig o gorau meibion yng Nghymru, gyda chefnogaeth ddawnus iawn Côr Meibion Pendyrus, a hoffwn gofnodi bod fy ngŵr yn canu yn y côr hwn—côr da iawn.

Ond wrth gwrs, ceir ffurfiau eraill ar y dreftadaeth hon, yn ogystal: canu corawl, yr eisteddfodau, traddodiadau capel ac wrth gwrs, fersiynau llawer mwy cyfoes o weithgareddau cerddorol hefyd. Credaf fod cyfle i gymryd rhan mewn cerddoriaeth yn cynnig nifer o fanteision drwy fwy o fynediad at greadigrwydd mewn ystafell ddogsbath a phrofiadau diwylliannol yn y byd ehangach. Mae'r rhain i gyd â photensial i gynorthwyo ysgolion drwy wella cymhelliant, ymddygiad a chyrhaeddiad yn eu pobl ifanc. Ond mewn ystyr ehangach hefyd, rwy'n credu mai ein treftadaeth gerddorol yw'r hyn sydd, mewn gwirionedd, yn gwneud Cymru yn wahanol fel cenedl. Rwy'n credu y gall hynny fod yn bwysig o ran ein proffil tramor ac o ran twristiaeth ond hefyd o ran cydlyniant cymunedol. Felly, yn olaf, hoffwn annog Llywodraeth Cymru i wneud popeth yn ei gallu i feithrin ein traddodiad cerddorol yn awr ac ymhell i'r dyfodol.

15:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism to speak on behalf of the Government - Ken Skates.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth i siarad ar ran y Llywodraeth—Ken Skates.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:36 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism*

Thank you, Presiding Officer. Can I thank all Members who have spoken this afternoon and who brought this important debate to the Chamber? I'm very pleased to say that the Government will support the motion and both amendments. As a number of Members have already said, quite clearly, the arts give children a voice and a medium in which to express themselves. It's through this freedom to create and to communicate that we learn much about who we are and how we relate to the world in which we live. The arts, undoubtedly, give us identity, can foster a sense of competence and confidence and, crucially, give us belonging. Mick, you were absolutely right to talk about the economic value of music and the arts globally and how it portrays Wales in the best possible light. But, for me, the greatest value of the arts is in terms of our wellbeing and the value to our soul. This year saw the launch of the creative learning through the arts action plan for Wales. It's a ground-breaking partnership between the Welsh Government and the Arts Council of Wales. It aims to support practitioners to adopt stimulating, creative teaching practices in order to improve teaching and also to improve learning outcomes, and to widen pupils' cultural experiences.

Diolch i chi, Lywydd. A gaf fi ddiolch i'r holl Aelodau sydd wedi siarad y prynhawn yma ac a gyflwynodd y ddaid bwysig hon yn y Siambr? Rwy'n falch iawn o ddweud y bydd y Llywodraeth yn cefnogi'r cynnig a'r ddau welliant. Fel y mae nifer o'r Aelodau wedi dweud eisoes yn eithaf dir, mae'r celfyddydau yn rhoi llais a chyfrwng i blant fynegi eu hunain. Drwy'r rhyddid hwn i greu ac i gyfathrebu y dysgwn lawer ynglŷn â phwy ydym ni a sut rydym yn ymwneud â'r byd rydym yn byw ynddo. Yn ddi-os, mae'r celfyddydau yn rhoi hunaniaeth i ni, yn gallu meithrin ymdeimlad o gymhwysedd a hyder ac yn hollbwysig, yn rhoi ymdeimlad o berthyn i ni. Mick, roeddech yn llygad eich lle wrth siarad am werth economaidd cerddoriaeth a'r celfyddydau yn fyd-eang a sut y mae'n darlunio Cymru yn y ffordd orau posibl. Ond i mi, gwerth mwyaf y celfyddydau yw eu lles a'u gwerth i'n heneidiau. Eleni, lanswyd y cynllun gweithredu dysgu creadigol drwy'r celfyddydau ar gyfer Cymru. Mae'n bartneriaeth arloesol rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. Ei nod yw cynorthwyo addysgwyr i fabwysiadu arferion addysgu ysgogol a chreadigol er mwyn gwella addysgu, gwella deilliannau dysgu, ac ehangu profiadau diwylliannol disgyblion.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:37

**Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We had a petition from the Friends of Bridgend Youth Music, and they were telling us at the Petitions Committee on Tuesday through correspondence that they haven't been able to access that particular creative action plan. Is there any way that they can access that?

Cawsom ddeiseb gan Friends of Bridgend Youth Music, ac roeddent yn dweud wrthym yn y Pwyllgor Deisebau ddydd Mawrth drwy ohebiaeth nad ydynt wedi gallu cael mynediad at y cynllun gweithredu creadigol penodol hwnnw. A oes unrhyw ffordd y gallant gael wneud hynny?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:37

**Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. As of January next year they'll be able to apply to become one of the areas that are taking part in activity, but I'll come to that point shortly.

Oes. O fis Ionawr y flwyddyn nesaf byddant yn gallu cyflwyno cais i fod yn un o'r ardaloedd sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd, ond dof at y pwynt hwnnw cyn bo hir.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The plan is a £20 million programme and has two distinct strands: first of all the lead creative schools scheme and the all-Wales arts and education programme. The lead creative schools scheme will bring musicians, actors, film-makers and designers into schools to work with pupils and with teachers to bring about sustainable, long-term change to teaching and also to learning. It's an opportunity to inspire and to motivate learners to become active creators rather than just passive consumers of culture. In my view, it will also help to enhance a learner's emotional quotient. Through using the arts as a hook for engagement in education, I'm confident that the scheme could also lead to an improvement in attendance, behaviour and attainment levels.

Rhaglen gwerth £20 miliwn yw'r cynllun ac mae iddo ddwy elfen wahanol: yn gyntaf oll y cynllun ysgolion creadigol arweiniol, a rhaglen gelfyddydau ac addysg Cymru gyfan. Bydd y cynllun ysgolion creadigol arweiniol yn dod â cherddorion, actorion, gwneuthurwyr ffilmiau a dylunwyr i mewn i'r ysgolion i weithio gyda disgyblion a chydag athrawon i sicrhau newid hirdymor cynaliadwy i addysgu a hefyd i ddysgu. Mae'n gyfle i ysbrydoli ac ysgogi dysgwyr i greu diwylliant yn hytrach na bod yn ddefnyddwyr goddefol yn unig. Yn fy marn i, bydd hefyd yn helpu i wella cyniferydd emosiynol dysgwr. Drwy ddefnyddio'r celfyddydau fel bachyn ar gyfer ymgysylltu ag addysg, rwy'n hyderus y gallai'r cynllun arwain hefyd at wella lefelau presenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad.

Nearly 130 schools are participating in the first round but, as I say, round 2 will be open for applications in January. As Professor Donaldson made clear in his 'Successful Futures', report experiences outside the classroom can also inspire and raise the aspirations of learners. The all-Wales arts and education programme will be taken forward through the establishment of four regional networks, which will share best practice and also encourage partnership working between culture and heritage organisations and schools. Cultural organisations will be supported to tailor experiences they offer to reflect the needs of schools and the curriculum. This offer will be communicated to schools via a new arts and creative learning portal on Hwb to showcase best practice and to promote collaboration. Again, the portal will go live in the new year. It will further complement the Fusion programme, now operating extraordinarily successfully in six pioneer areas covering some of the most deprived areas of Wales. It's a programme aimed at eradicating poverty by harnessing the power of culture in exactly the way that Alun Davies highlighted. Incidentally, El Sistema is, of course, operating in Gwynedd, very successfully, and Gwynedd itself is one of the six pioneer areas in the Fusion programme. Likewise, Cardiff is a Fusion programme pioneer area and I'm pleased to say that Making Music, Changing Lives, modelled on El Sistema, is also proving incredibly successful.

Mae bron 130 o ysgolion yn cymryd rhan yn y rownd gyntaf, ond fel y dywedais, bydd rownd 2 yn agor ar gyfer ceisiadau ym mis Ionawr. Fel dywedodd yr Athro Donaldson yn glir yn ei adroddiad, 'Dyffodol Llwyddiannus', gall profiadau y tu allan i'r dosbarth ysbrydoli a chodi dyheadau dysgwyr hefyd. Datblygir rhaglen gelfyddydau ac addysg Cymru gyfan drwy sefydlu pedwar rhwydwaith rhanbarthol, a fydd yn rhannu arferion gorau a hefyd yn annog gweithio mewn partneriaeth rhwng sefydliadau diwylliant a threftadaeth ac ysgolion. Bydd sefydliadau diwylliannol yn cael cymorth i deilwra'r profiadau y maent yn eu cynnig i adlewyrchu anghenion ysgolion a'r cwricwlwm. Cyfathrebir y cynnig hwn i'r ysgolion drwy borth dysgu celfyddydau a dysgu creadigol newydd ar Hwb i arddangos arferion gorau a hyrwyddo cydweithio. Unwaith eto, bydd y porth yn dod yn weithredol yn y flwyddyn newydd. Bydd yn ategiad pellach i'r rhaglen Fusion sy'n gweithredu'n hynod o lwyddiannus yn awr mewn chwe ardal arloesi sy'n cynnwys rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae'n rhaglen sy'n anelu at ddileu tlodi drwy harneisio pŵer diwylliant yn yr union ffordd y nododd Alun Davies. Gyda llaw, mae El Sistema, wrth gwrs, yn gweithredu'n llwyddiannus iawn yng Ngwynedd, ac mae Gwynedd ei hun yn un o'r chwe ardal arloesi yn y rhaglen Fusion. Yn yr un modd, mae Caerdydd yn un o ardaloedd arloesi'r rhaglen Fusion ac rwy'n falch o ddweud bod Creu Cerddoriaeth, Newid Bywydau, a fodelwyd ar El Sistema, yn hynod o lwyddiannus hefyd.

The report of the music services task and finish group shows that there is much to be done to safeguard current levels of service as well as creating a more equitable offer for young people, no matter which local authority they live in. Work has already started on the recommendations. For example, last week, the Minister for Education and Skills and I met with consultants who were exploring the feasibility of establishing a national endowment for music in Wales. It's fair to say, I think, that we were both extremely excited by the ideas that were raised and I hope that, in future years, the creation of such an endowment may help to provide and safeguard musical opportunities for all children right across Wales.

As the Minister for Education and Skills said in his response, the task and finish group's vision for the role of music services in the education of our three to 19-year-olds is one that we must sign up to nationally and implement locally. By accepting and taking forward these recommendations, we accept our role and responsibility in ensuring that high-quality music services are maintained for young people. We will now be working with local government to consider how these recommendations can be formalised into a cohesive strategy for maintaining provision and widening access to music for young people of all levels of ability.

The Government is also taking action to support our seven national youth ensembles, which include the national youth orchestra, the national youth theatre and National Youth Dance Wales. These groups are fundamentally important to the identification and the development of budding talent in the arts and creative industries. Faced with budget pressures, the Minister for Education and Skills and I set up a task group to develop recommendations for how new sources and mechanisms of funding can be found in order to seek and safeguard the future of these ensembles. This group will be reporting very shortly and I do hope that they may well address the points raised by Suzy Davies in her intervention. The work arising from that report will, like the music services report, be an important element of our strategy for music education.

It is fair to say that, around the world, we are known for our musical creativity, but can I point out to Bethan Jenkins that she left out of her list of great musicians one of the finest and most creative living musicians that we have right now, Jonny Buckland, lead guitarist for that tiny little band called Coldplay? Jonny actually grew up in north-east Wales in the same village as myself. I was privileged to be able to grow up with him in Pantymwyn. He attributed his success to the support and the confidence that he gained from his teachers and his parents.

Through our groundbreaking programmes for the arts and creativity, and through far better protection of local government budgets here than in England—and of the Arts Council of Wales's budget—I am confident that we will maintain the success that we've achieved over many years.

Mae adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar y gwasanaethau cerddoriaeth yn dangos bod llawer i'w wneud i ddiogelu'r lefelau presennol o wasanaeth yn ogystal â chreu cynnig tecach ar gyfer pobl ifanc, ym mha ardal awdurdod lleol bynnag y maent yn byw ynddi. Mae gwaith wedi dechrau eisoes ar yr argymhellion. Er enghraifft, yr wythnos diwethaf, cyfarfu'r Gweinidog Addysg a Sgiliau a minnau gydag ymgynghorwyr a oedd yn edrych ar y posibilrwydd o sefydlu gwaddol cenedlaethol ar gyfer cerddoriaeth yng Nghymru. Mae'n deg dweud, rwy'n meddwl, ein bod wedi ein cyffroi'n fawr gan y syniadau a grybwyllwyd ac rwy'n gobeithio, yn y dyfodol, y gallai creu gwaddol o'r fath helpu i ddarparu a diogelu cyfleoedd cerddorol i bob plentyn ledled Cymru.

Fel y dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn ei ymateb, rhaid i bawb ohonom ymrwymo i weledigaeth y grŵp gorchwyl a gorffen ar rôl gwasanaethau cerddoriaeth yn addysg ein plant tair i 19 oed yn genedlaethol a'i rhoi ar waith yn lleol. Drwy dderbyn a bwrw ymlaen â'r argymhellion hyn, rydym yn derbyn ein rôl a'n cyfrifoldeb i sicrhau bod gwasanaethau cerddoriaeth o ansawdd uchel yn cael eu cynnal ar gyfer pobl ifanc. Byddwn yn awr yn gweithio gyda llywodraeth leol i ystyried sut y gellir ffurfioli'r argymhellion hyn ar lun strategaeth gydlynol ar gyfer cynnal y ddarpariaeth ac ehangu mynediad at gerddoriaeth i bobl ifanc o bob lefel gallu.

Mae'r Llywodraeth hefyd yn rhoi camau ar waith i gefnogi ein saith ensemble ieuencid cenedlaethol, sy'n cynnwys y gerddorfa ieuencid genedlaethol, y theatr ieuencid genedlaethol a Dawns Genedlaethol Ieuencid Cymru. Mae'r grwpiau hyn yn sylfaenol bwysig i nodi a datblygu doniau addawol yn y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol. Yn wyneb pwysau ar y gyllideb, sefydlodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau a minnau grŵp gorchwyl i ddatblygu argymhellion ynghylch sut y gellir dod o hyd i ffynonellau a dulliau newydd o ariannu er mwyn sicrhau a diogelu dyfodol yr ensembles hyn. Bydd y grŵp yn adrodd yn fuan iawn, ac rwy'n gobeithio y byddant yn mynd i'r afael â'r pwyntiau a gododd Suzy Davies yn ei hymyriad. Bydd y gwaith sy'n deillio o'r adroddiad hwnnw, fel yr adroddiad ar y gwasanaethau cerddoriaeth, yn elfen bwysig o'n strategaeth ar gyfer addysg gerddorol.

Ym mhob cwr o'r byd, mae'n deg dweud ein bod yn enwog am ein creadigrwydd cerddorol, ond a gaf fi dynnu sylw Bethan Jenkins at y ffaith ei bod wedi hepgor un o'r cerddorion byw gorau a mwyaf creadigol sydd gennym ar hyn o bryd o'i rhestr o gerddorion gwych, sef Jonny Buckland, prif gitarydd band bach o'r enw Coldplay? Cafodd Jonny ei fagu yng ngogledd-ddwyrain Cymru mewn gwirionedd, yn yr un pentref â minnau. Cefais y ffraind o dyfu i fyny gydag ef ym Mhant-y-mwyn. Roedd yn priodoli ei lwyddiant i'r gefnogaeth a'r hyder a gafodd gan ei athrawon a'i rieni.

Drwy ein rhaglenni arloesol ar gyfer y celfyddydau a chreadigrwydd, a thrwy ddiogelu cyllidebau llywodraeth leol yn llawer gwell yma nag yn Lloegr—a chyllideb Cyngor Celfyddydau Cymru yn yr un modd—rwy'n hyderus y byddwn yn cynnal y llwyddiant rydym wedi'i gyflawni dros nifer o flynyddoedd.

Alun Davies talked about the need for a vision and my vision for the arts and for music and creativity is very simple: it reflects that which Bertrand Russell spoke about in the last century, when he said that,

'The world that we must seek is a world in which the creative spirit is alive.'

Soniodd Alun Davies am yr angen am weledigaeth ac mae fy ngweledigaeth i ar gyfer y celfyddydau ac ar gyfer cerddoriaeth a chreadigrwydd yn syml iawn: mae'n adlewyrchu'r hyn y soniodd Bertrand Russell amdano yn y ganrif ddiwethaf, pan ddywedodd,

'The world that we must seek is a world in which the creative spirit is alive.'

15:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Eluned Parrott to reply to the debate.

Galwaf ar Eluned Parrott i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:43 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'd like to thank all of the contributors to the debate today. I'd also like to thank the postgraduate students from Cardiff University who came to play as a jazz ensemble for us in the Oriol earlier—some of whom you heard in the video as well.

In Wales, we've a long history of valuing music as a key part of our identity and culture. We had the first national youth orchestra in the world—a pyramid model that has been copied right across the globe. It was one that ensured that young people with talent, who worked hard, regardless of their financial circumstances, could move through a system of training ensembles to aspire to play for their country and to be as proud of that as we would be of any sportsman or sportswoman who did likewise.

There are, of course, Members in this Chamber who've done exactly that. Bethan was too modest to mention in her opening remarks that the first time that Bethan and I laid eyes on each other was in Gorseinon College some years ago, when I and Glyn Parfitt auditioned her for the National Youth Orchestra of Wales and, of course, she got in because she is a brilliant viola player, so congratulations to you for all those years ago.

I am glad to hear the Minister today reconfirming his support for National Youth Arts Wales and the important ensembles they provide. They are a crucial part—the pinnacle of our pyramid structure. But people will not reach the top of the mountain if there is no mountain for them to climb—if the pinnacle is all that remains. This is the challenge that we have to face today.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl heddiw. Hoffwn ddiolch hefyd i'r myfyrwyr ôl-raddedig o Brifysgol Caerdydd a ddaeth i chwarae fel ensemble jazz i ni yn yr Oriol yn gynharach—ac fe glywoch rai ohonynt yn y fideo hefyd.

Yng Nghymru, mae gennym hanes hir o werthfawrogi cerddoriaeth fel rhan allweddol o'n hunaniaeth a diwylliant. Dyma ble y cafwyd y gerddorfa ieuencid genedlaethol gyntaf yn y byd—model pyramid sydd wedi ei efelychu ar draws y byd, un a oedd yn sicrhau y gallai pobl ifanc ddawnus, a weithiai'n galed, waeth beth fo'u hamgylchiadau ariannol, symud drwy system o ensembles hyfforddi gan anelu at chwarae dros eu gwlad a bod cyn falched o hynny ag y byddem o unrhyw un a fyddai'n gwneud hynny yn y byd chwaraeon.

Wrth gwrs, mae yna Aelodau yn y Siambr hon sydd wedi gwneud yn union hynny. Roedd Bethan yn rhy wylaidd i sôn yn ei sylwadau agoriadol mai'r tro cyntaf i Bethan a minnau gyfarfod oedd yng Ngholeg Gorseinon rai blynyddoedd yn ôl, pan roddais i a Glyn Parfitt glyweliad iddi ar gyfer Cerddorfa Genedlaethol Ieuencid Cymru ac wrth gwrs, cafodd ei derbyn am ei bod yn chwaraewr fiola ardderchog, felly llongyfarchiadau i chi am yr hyn a wnaethoch yr holl flynyddoedd rheini'n ôl.

Rwy'n falch o glywed y Gweinidog heddiw yn ailddatgan ei gefnogaeth i Celfyddydau Cenedlaethol Ieuencid Cymru a'r ensembles pwysig a ddarparant. Maent yn rhan allweddol—pinac ein strwythur pyramid. Ond ni fydd pobl yn cyrraedd copa'r mynydd os nad oes mynydd iddynt ei ddringo—os mai'r pinac yw'r cyfan sydd ar ôl. Dyma'r her sy'n rhaid i ni ei hwynebu heddiw.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



Turning to the contributors today, Mick talked about the economic impact and the social impact in our most deprived communities, and it's exactly that: it's giving young people who have perhaps nothing else something special to aspire to. For some it will be sport, for some it will be theatre, for some it will be their academic achievements; but for many of those young people it was music. I understand, as you said Mick, you're a member of the Musicians' Union and you paid credit to their long-running campaign to keep music live. What the challenge is here, though, is keeping music alive, frankly; it is getting that serious. Whilst we have champion brass bands in your constituency—and in many other Members' constituencies before we break out into brass band wars—the truth is that without the underpinning education that gives those young people a start in those instruments, that is not going to be there for very much longer.

You talked about the idea of there being some kind of way of putting together a national loan scheme for instruments, Mick, and I think that that is a really important idea because that is one of the missing pegs. Even if fantastic comprehensives, like, for example, Treorchy Comprehensive, pay for pupils to have musical lessons within their school budget—though I know other schools in the area aren't able to do that—that still doesn't get over the barrier of having to pay maybe £300 or £400 for a musical instrument for a young person to play. So, that's something that perhaps we ought to return to.

Suzy talked about how music enriches our lives—presumably unless you've got Suzy's taste in LPs—but also about the demands it then places on parents. It's not just about the musical lessons but also about going to the concerts, supporting those young people; supporting them to pay for courses when they go and take part in youth orchestras and so on, which is great if you can afford it. She talked also about the advantage of participatory arts for younger children and also the improvements it gives to memory and cognitive skills, and I think that that is also interesting. She talked about the worrying slide there's been in standards in music lessons in England. That's very true. It's been matched by a very worrying decline in the number of applications from UK students from non-private schools applying to subjects like music at university as well. You'll notice that the university students you heard speaking—many of them were speaking in accents from other parts of the world, because now the universities are diversifying their student base: it's because they don't have so many local students coming forward.

Rhun talked about his own experience of music, what it gave to him and his children. Maybe it was a mistake from the translator—I'm sure you said the Beaumaris band—you talked about the standard it reached after you'd left—

Gan droi at y cyfranwyr heddiw, siaradodd Mick am yr effaith economaidd a'r effaith gymdeithasol ar ein cymunedau mwyaf difreintiedig, a dyna'n union ydyw: mae'n rhoi cyfle i bobl ifanc nad oes ganddynt unrhyw beth arall, o bosibl, i gael rhywbeth arbennig i anelu tuag ato. I rai, bydd i'w gael ym myd chwaraeon, i rai bydd i'w gael ym myd y theatr, i rai, bydd i'w gael yn eu llwyddiannau academaidd; ond i lawer o'r bobl ifanc hynny roedd i'w gael yn y byd cerddorol. Fel y dywedoch chi, Mick, rwy'n deall eich bod yn aelod o Undeb y Cerddorion a rhoesoch glod i'w hymgyrch hir i gadw cerddoriaeth fyw. Yr her yn y fan hon, fodd bynnag, yw cadw cerddoriaeth yn fyw, a dweud y gwir; mae'r sefyllfa'n mynd mor ddirifol â hynny. Er bod gennym fandiau pres arobryn yn eich etholaeth—ac yn etholaethau nifer o Aelodau eraill cyn i ni ddechrau rhyfel rhwng y bandiau pres—y gwir yw na fyddant yno lawer yn hwy heb yr addysg waelodol sy'n rhoi dechrau i bobl ifanc o'r fath ar yr offerynnau hyn.

Fe sonioch am y syniad o gael rhyw ffordd o lunio cynllun benthyciadau cenedlaethol ar gyfer prynu offerynnau, Mick, a chredaf fod hwnnw'n syniad pwysig iawn am mai dyna un o'r bachau sydd ar goll. Hyd yn oed os yw ysgolion cyfun gwyh, fel Ysgol Gyfun Treorci er enghraifft, yn talu i ddisgyblion gael gwersi cerddoriaeth o gyllideb eu hysgol—er y gwn nad yw'r ysgolion eraill yn yr ardal yn gallu gwneud hynny—nid yw hynny'n goresgyn y rhwystr o orfod talu £300 neu £400 efallai am offeryn cerdd i berson ifanc ei chwarae. Felly, mae hynny'n rhywbeth y dylem ddychwelyd ato o bosibl.

Soniodd Suzy am y modd y mae cerddoriaeth yn cyfoethogi ein bywydau—oni bai bod gennych chwaeth Suzy mewn LPs yn ôl pob tebyg—ond hefyd am y galwadau y mae'n eu creu ar rieni wedyn. Nid yw'n ymwneud yn unig â'r gwersi cerddorol, ond hefyd â mynd i'r cyngherddau, cefnogi'r bobl ifanc hynny; eu cynorthwyo i dalu am gyrsiau pan fyddant yn dod yn rhan o gerddorfeidd ieuenticid ac yn y blaen, sy'n wych os gallwch ei fforddio. Soniodd hefyd am fantais celfyddydau cyfranogol i blant iau ac am y modd y maent yn gwella sgiliau cof a sgiliau gwybyddol, a chredaf fod hynny'n ddiddorol hefyd. Siaradodd am y llithro a welwyd yn safonau gwersi cerddoriaeth sy'n peri pryder yn Lloegr. Mae hynny'n wir iawn. Gwelwyd dirywiad cyfatebol anffodus iawn yn nifer y ceisiadau gan fyfyrwyr yn y DU o ysgolion nad ydynt yn ysgolion preifat sy'n ymgeisio am le prifysgol i astudio pynciau fel cerddoriaeth. Fe sylwch fod y myfyrwyr prifysgol a glywsoch yn siarad—roedd llawer ohonynt yn siarad mewn acenion o rannau eraill o'r byd, oherwydd erbyn hyn mae'r prifysgolion yn amrywio eu sylfaen myfyrwyr: y rheswm am hynny yw nad oes ganddynt gymaint o fyfyrwyr lleol yn ymgeisio am lefydd.

Siaradodd Rhun am ei brofiad ei hun o gerddoriaeth, yr hyn a roddodd iddo ef a'i blant. Efallai mai camgymeriad y cyfeithydd ydoedd—rwy'n siŵr eich bod wedi dweud band Biwmares—roeddech yn sôn am y safon a gyrhaeddodd ar ôl i chi adael—

15:47 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Yes, I did.

Do, fe wnes.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:47 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Maybe you meant—

Efallai eich bod yn golygu—

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:48	<p><b>Rhun ap Iorwerth</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>No, that's right.</p>	<p>Na, mae hynny'n iawn.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:48	<p><b>Eluned Parrott</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>It was after you'd left. Fair enough. I'm sure you're afflicted by false modesty there, Rhun.</p>	<p>Ar ôl i chi adael y digwyddodd. Digon teg. Rwy'n siŵr eich bod wedi eich taro gan ffug wyleidd-dra yn y fan honno, Rhun.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:48	<p><b>Rhun ap Iorwerth</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>No, that's not right either. [Laughter.]</p>	<p>Na, nid yw hynny'n iawn chwaith. [Chwerthin.]</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:48	<p><b>Eluned Parrott</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Okay, fair enough. But you're quite right that there is this risk in hard times that you start to cut off the leaves and then the limbs and you start with the things that are non-statutory duties, and that means that the picture for music education across Wales has become very, very patchy and we do need that national strategy to make sure that there is more equality for everyone.</p> <p>Alun Davies talked again about his own local brass bands, and the famous choirs of his own local area as well. But this important point that excellence in music is not the same as exclusivity: that we can aspire for anyone to be fantastic. Just because music is excellent it doesn't mean it's elitist; it doesn't mean that it is excluded to those people, unless we don't do something to make sure that young people whose parents don't have the means have some access to music education. That is what is at risk at the moment.</p> <p>El Sistema that Alun mentioned—I understand they've now reached 750,000 young people in terms of moving for an army of social change. But the question is really to me—if we can use music for social change, if we recognise that, if we value that—then why, after 15 years, hasn't this yet happened in the Welsh Government? It's a question of priorities and we need to make sure that they're in the right place.</p> <p>Christine Chapman, you seemed to offer to favour us with a song earlier but I was sorry to hear that you didn't. But you talked about the challenge of cuts and that is a real challenge, of course it is, but it's a question of asking ourselves if we really, really value this. If we value this we must find a way, because Wales's music teachers can't live on our goodwill, frankly.</p>	<p>lawn, digon teg. Ond rydych yn llygad eich lle fod yna berygl ar adegau anodd eich bod yn dechrauocio'r hen ddail ac yna'r brigau ac rydych yn dechrau gyda'r pethau sy'n ddyletswyddau anstatudol. Mae hynny'n golygu bod y darlun ar gyfer addysg gerddorol ar draws Cymru yn mynd yn dameidiog iawn ac mae angen strategaeth genedlaethol arnom er mwyn sicrhau bod mwy o gydraddoldeb i bawb.</p> <p>Siaradodd Alun Davies unwaith eto am ei fandiau pres lleol ei hun, ac am gorau enwog ei ardal leol hefyd. Ond y pwynt pwysig hwn nad yw rhagoriaeth mewn cerddoriaeth yr un fath â detholusrwydd: y gallwn gael uchelgais i unrhyw un fod yn wych. Nid yw'r ffaith fod cerddoriaeth yn rhagorol yn golygu ei bod yn elitaidd; nid yw'n golygu ei bod wedi'i heithrio ar gyfer y bobl hynny'n unig os gwnawn rywbeth i sicrhau bod pobl ifanc y mae eu rhieni heb fodd o dalu yn cael rhywfaint o fynediad at addysg gerddorol. Dyna'r risg ar hyn o bryd.</p> <p>El Sistema, a grybwyllodd Alun—rwy'n deall eu bod bellach wedi cyrraedd 750,000 o bobl ifanc o ran ymfyddino er creu newid cymdeithasol. Ond y cwestiwn i mi mewn gwirionedd yw—os gallwn ddefnyddio cerddoriaeth er mwyn creu newid cymdeithasol, os ydym yn cydnabod hynny, os ydym yn gwerthfawrogi hynny—yna pam, ar ôl 15 mlynedd, nad yw hynny wedi digwydd eto yn Llywodraeth Cymru? Mae'n fater o flaenoriaethau ac mae angen i ni wneud yn siŵr eu bod yn iawn.</p> <p>Christine Chapman, roedd yn ymddangos eich bod yn mynd i roi cân i ni yn gynharach, ac roedd yn flin gennyf na wnaethoch. Ond fe siaradoch am her toriadau ac mae honno'n her go iawn, wrth gwrs ei bod, ond mae'n fater o ofyn i ni ein hunain os ydym o ddirif yn gwerthfawrogi hyn go iawn. Os ydym yn ei werthfawrogi, mae'n rhaid i ni ganfod ffordd, am na all athrawon cerddorol Cymru fyw ar ein hewyllys da, a bod yn onest.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

The range of skills that music gives to a young person is truly, truly extraordinary. For me, I was a relatively shy teenager, I would say to people it gave me confidence—not something, generally, people think I'm short on these days, but, at the time, I was. [Assembly Member: 'Hear, hear.'] Thank you for the confirmation there. [Laughter.] Socially, it teaches us self-reliance, it teaches us the value of hard work, it teaches us team-working skills, it teaches people the ability to listen to one another, and these are skills that equip you for life, wherever you go. Research also demonstrates that learning music stretches the intellect and improves educational outcomes in literacy, numeracy and creative thinking. For example, the University of Ottawa found six separate empirical studies to demonstrate a link between musical education and improved literacy, finding, for example, that children who can distinguish between musical pictures were also more able to identify rhymes, syllables and phonemes and other fundamental building blocks of language. This helped them to develop more complex use of language much earlier in their educational lives. Similarly, the San Francisco State University found that, when one cohort of pupils were given music lessons instead of maths for six weeks, they scored 50 per cent higher in a maths test at the end of it than students given extra maths at the same time. It's not really a surprise to me, though, because learning music is learning a new language. It's a creative language, certainly, but it's also a language that is based on mathematics. It's based on the understanding of the ratios between different frequencies that make each musical note what it is and how complex rhythms and harmonies fit together. It is a deeply analytical, complex mathematical language that they are learning.

Music, as Alun Davies said earlier, can also be a powerful agent for social change, as the El Sistema and Simón Bolívar youth orchestra in Venezuela demonstrate. When José Antonio Abreu created El Sistema in 1975 he was copying the best in the world at that time, and that was us. There is a personal and educational, a social and an economic value to music in Wales, but, today, that is at risk, and while the world is catching up with us, we're starting to take it apart. Already, two local authorities in Wales have disbanded their music services. The education Minister's own local authority in Merthyr no longer has a head of music service. Rhondda Cynon Taf only saved its music service earlier this year by changing teaching contracts to pay-by-the-hour tutor roles. Other local authorities have cut funding and teachers, and teachers have created co-operatives to make sure that the music doesn't die altogether in their part of the world. We're seeing private companies moving into the field and, while I've got no doubt that those teachers are committed, I can't help but be astonished that a Welsh Labour Government is presiding over a system where private companies are moving into education and bringing people in to work on zero-hour contracts, charging parents, regardless of their ability to pay. That is a clear threat that what is patchy will become worse.

Mae'r ystod o sgiliau y mae cerddoriaeth yn eu rhoi i berson ifanc yn wirioneddol anhygoel. I mi, roeddwn yn gymharol swil yn ystod fy arddegau, a byddwn yn dweud wrth bobl ei fod wedi rhoi hyder i mi—nid rhywbeth y bydd pobl, yn gyffredinol, yn meddwl fy mod yn brin ohono y dyddiau hyn, ond roedd yn wir bryd hynny [Aelod Cynulliad: 'Clywch, clywch.'] Diolch am y cadarnhad. [Chwerthin.] Yn gymdeithasol, mae'n dysgu hunandibyniaeth i ni, mae'n dysgu gwerth gwaith caled i ni, mae'n dysgu sgiliau gweithio mewn tîm i ni, mae'n dysgu'r gallu i bobl wrando ar ei gilydd, ac mae'r rhain yn sgiliau sy'n eich paratoi ar gyfer bywyd, ble bynnag yr ewch. Mae ymchwil hefyd yn dangos bod dysgu cerddoriaeth yn ymestyn y deall ac yn gwella deilliannau addysgol mewn llythrennedd, rhifedd a meddwl yn greadigol. Er enghraifft, canfu Prifysgol Ottawa chwe astudiaeth empirig wahanol a ddangosai gysylltiad rhwng addysg gerddorol a llythrennedd gwell, a gwelodd, er enghraifft, fod plant sy'n gallu gwahaniaethu rhwng lluniau cerddorol hefyd yn well am nodi rhigymau, sillafau a ffonemau a phatrymau ieithyddol sylfaenol eraill. Roedd hyn yn eu helpu i ddatblygu defnydd mwy cymhleth o iaith yn llawer cynharach yn eu bywydau addysgol. Yn yr un modd, canfu Prifysgol Talaith San Francisco, pan fyddai un cohort o ddisgyblion yn cael gwersi cerddoriaeth yn lle mathemateg am chwe wythnos, roeddent yn cael marciau 50 y cant yn uwch mewn prawf mathemateg ar ddiwedd y cyfnod na myfyrwyr a gafodd wersi mathemateg ychwanegol ar yr un pryd. Nid yw'n syndod go iawn i mi, fodd bynnag, gan mai dysgu iaith newydd yw dysgu cerddoriaeth. Mae'n iaith greadigol, yn sicr, ond mae hefyd yn iaith sy'n seiliedig ar fathemateg. Mae'n seiliedig ar y ddealltwriaeth o'r cymarebau rhwng gwahanol amleddau sy'n gwneud pob nodyn cerddorol yr hyn ydyw a sut y mae rhythmiau a harmonïau cymhleth yn cydweddu â'i gilydd. Maent yn dysgu iaith fathemategol ddadansoddol a chymhleth iawn.

Fel y dywedodd Alun Davies yn gynharach, gall cerddoriaeth fod yn gyfrwng pwerus ar gyfer newid cymdeithasol hefyd, fel y mae El Sistema a cherddorfa ieuenticid Simón Bolívar yn Venezuela yn ei ddangos. Pan grëodd José Antonio Abreu El Sistema yn 1975 roedd yn dynwared y gorau yn y byd ar y pryd, a ni oedd hwnnw. Ceir gwerth personol ac addysgol, cymdeithasol ac economaidd i gerddoriaeth yng Nghymru, ond heddiw, mae hynny mewn perygl, ac wrth i'r byd ddal i fyny gyda ni, rydym yn dechrau ei ddad-wneud. Eisoes, mae dau awdurdod lleol yng Nghymru wedi diddymu eu gwasanaethau cerddoriaeth. Nid oes pennaeth gwasanaethau cerdd gan awdurdod lleol y Gweinidog Addysg ei hun ym Merthyr mwyach. Yr unig ffordd y llwyddodd Rhondda Cynon Taf i achub ei wasanaeth cerddoriaeth yn gynharach eleni oedd drwy newid contractau addysgu i rolau tiwtoriaid sy'n cael eu talu wrth yr awr. Mae awdurdodau lleol eraill wedi cwtogi ar gyllid a niferoedd athrawon, ac mae athrawon wedi creu cwmnïau cydweithredol i wneud yn siŵr nad yw cerddoriaeth yn marw'n gyfan gwbl yn eu rhan hwy o'r byd. Rydym yn gweld cwmnïau preifat yn symud i'r maes ac er nad oes gennyf unrhyw amheuaeth fod yr athrawon hyn yn ymroddedig, ni allaf lai na synnu bod Llywodraeth Lafur Cymru yn llywyddu dros system lle y mae cwmnïau preifat yn symud i fyd addysg ac yn dod â phobl i mewn i weithio ar gontractau dim oriau, gan godi tâl ar rieni, beth bynnag fo'u gallu i dalu. Dyna fygythiad clir y bydd yr hyn sy'n dameidiog yn mynd yn waeth.

I am concerned about the work of the task and finish group. To make sure that it actually works, we need to make sure that there's funding attached, not just words. There's no definition either at the moment of what local authorities' duties actually will be. And, in terms of the creative learning programme, I'm concerned about how that will work in collaboration with what ought to be a core vision. There is a danger, if we're not careful, that one term of creative learning plans could replace core music provision altogether, that people could say, 'We've done our music; we did a creative learning plan for one term this year.' There has to be a follow-through; it has to be a strategy. It cannot be a replacement for that. So, I would urge Welsh Government to monitor the impact and effect of that programme and to make sure that it is everything it should be. As we look to the future, we've got to find a way to give new stability to music education in Wales or playing an instrument will be the sole preserve of the wealthy and we'll be, by force, the land of song, because it's the only instrument we were given for free.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair.*

Rwy'n poeni am waith y grŵp gorchwyl a gorffen. I wneud yn siŵr ei fod yn gweithio mewn gwirionedd, mae angen i ni sicrhau bod cyllid ynghlwm wrtho, nid geiriau'n unig. Nid oes diffiniad ar hyn o bryd chwaith o'r hyn fydd dyletswyddau awdurdodau lleol mewn gwirionedd. Ac o ran y rhaglen dysgu creadigol, rwy'n poeni sut y bydd hynny'n gweithio ar y cyd â'r hyn a ddylai fod yn weledigaeth graidd. Os nad ydym yn ofalus, mae perygl y gallai un tymor o gynlluniau dysgu creadigol gymryd lle'r ddarpariaeth o gerddoriaeth graidd yn gyfan gwbl, y gallai pobl ddweud, 'Rydym wedi gwneud ein cerddoriaeth; gwnaethom gynllun dysgu creadigol am un tymor eleni.' Rhaid cael dilyniant; rhaid iddi fod yn strategaeth. Ni all ddisodli hynny. Felly, byddwn yn annog Llywodraeth Cymru i fonitro effaith y rhaglen a gwneud yn siŵr ei bod yn bopeth y dylai fod. Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, mae'n rhaid i ni ddod o hyd i ffordd o sicrhau sefydlogrwydd newydd i addysg gerddorol yng Nghymru neu bydd chwarae offeryn yn rhywbeth ar gyfer pobl gyfoethog yn unig ac fe'n gorfodir i fod yn wlad y gân am mai dyna'r unig offeryn a roddir i ni am ddim.

*The Deputy Presiding Officer took the Chair.*

15:53

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? Then the motion without amendment is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

## **4. Dadl Plaid Cymru: S4C**

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Aled Roberts, a gwelliant 2 yn enw Paul Davies.*

## **4. Plaid Cymru Debate: S4C**

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Aled Roberts, and amendment 2 in the name of Paul Davies.*

15:53

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 4 is the Plaid Cymru debate on S4C, and I call on Bethan Jenkins to move the motion.

Eitem 4 yw dadl Plaid Cymru ar S4C, a galwaf ar Bethan Jenkins i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5904 Elin Jones

Motion NDM5904 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn credu ei bod yn bwysig sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer S4C fel darlledwr annibynnol iaith Gymraeg;

1. Believes in the importance of securing a sustainable future for S4C as an independent Welsh-language broadcaster;

2. Yn croesawu ymrwymiad parhaus S4C i symud ei phencadlys allan o Gaerdydd i Gaerfyrddin; a

2. Welcomes the continuing commitment by S4C to move its headquarters out of Cardiff to Carmarthen; and

3. Yn credu bod y cynnig yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant i dorri ymhellach cyllideb adran Llywodraeth y DU dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i S4C gan 26 y cant yn groes i'r amcanion hyn ac felly'n annerbyniol.

3. Believes the proposal in the comprehensive spending review to further cut the UK Government Department for Culture, Media and Sport's budget to S4C by 26 per cent is inimical to these aims and therefore unacceptable.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Diolch. Roedd rhywbeth trist o anorod am gynlluniau'r Canghellor am S4C pan ddatgelwyd hwy yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant bythefnos yn ôl. Er ein bod wedi arfer â dros bum mlynedd o doriadau ideolegol Toriaidd, roedd dal yn sioc, ac yn fwy felly oherwydd diffyg rhesymeg na dim arall, pan sylweddolom faint y toriadau hyn. I ailadrodd, torrwyd cyllideb S4C o 36 y cant yn 2010 gan yr Adran dros diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Cafwyd partneriaeth a daethpwyd i gytundeb cyllido pedair blynedd rhwng y BBC ac S4C yn 2013: byddai'r BBC yn cyfrannu £76.3 miliwn o ffi'r drwydded yn 2013-14, gan ddisgyn i £74.5 miliwn erbyn 2016-17. Roedd y cytundeb yn sicrhau annibyniaeth olygyddol a rheolaeth weithredol S4C. Ar hyn o bryd, mae S4C yn derbyn eu cyllid o'r ffynonellau canlynol: 90 y cant o ffi'r drwydded, 8 y cant gan y DCMS a tua 2 y cant o incwm hysbysebu a masnachol.

Cyhoeddwyd ar 25 Tachwedd y gwneir mwy o doriadau i gyllid DCMS i S4C gyda thoriadau 'incremental' yn dod â'r cyfraniad blynyddol i lawr o'r £6.7 miliwn presennol i £5 miliwn erbyn 2019-20—cyfanswm toriad o ryw chwarter eu cyfraniad. Mae S4C wedi gallu ymateb yn gadarnhaol—nid wyf yn gwybod sut—gan osod allan eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae eu cynlluniau yn gosod sail mewn tri maes: defnyddio'r digidol i uno; hybu Cymru a'r iaith Gymraeg ar hyd a lled y Deyrnas Gyfunol a thramor; a chefnogi addysg a meithrin sgiliau. Mae hyn yn debyg iawn i'r hyn yr oeddem ni'n ei gynnig nifer o flynyddoedd yn ôl, gyda'r nod o wreiddio'r sianel yn llawnach ym mywyd Cymreig ar draws Cymru.

Mae'r sianel, wrth gwrs, fel rydym wedi'i dweud o'r blaen mewn nifer o drafodaethau yma yn y Senedd, yn buddsoddi mewn cwmnïau o bob cwr o Gymru ac yn comisiynu cynnwys ganddynt, gan weithio gyda 50 o gwmnïau annibynnol yn 2014-15 yn unig. Aeth bron i 81 y cant o incwm S4C yn uniongyrchol i'r sector annibynnol sy'n cynhyrchu'r rhan fwyaf o'r cynnwys. Yr hyn sy'n broblem i fi yw beth fydd yn digwydd i'r cwmnïau yma os bydd yna fwy o doriadau i S4C. Mae rhai o'r cwmnïau yma yn dibynnu ar S4C er mwyn creu cynnwys iddyn nhw. Byddent yn gorfod symud y tu hwnt i Gymru er mwyn ffeindio gwaith—gwaith na fydd yn cael ei wneud trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, a siom mawr fyddai hynny, felly.

Rwyf i hefyd yn credu bod pwynt inni ailgodi'r mater yma fod Plaid Cymru o blaid datganoli darlledu a chael atebolrwydd clir yma yn y Cynulliad yma a chael y systemau fel ein bod ni'n gallu cymryd cyfrifoldeb dros ein dyfodol ni ein hun. Os ydy'r pleidiau yma yn y Senedd mor anghyffyrddus, mor yn erbyn y ffaith bod San Steffan wedi gwneud y toriadau enbyd hyn i S4C, wel, pam ddim datganoli'r cyfrifoldeb i'r Senedd yma, fel ein bod ni yma yng Nghymru yn gallu gwneud y penderfyniadau hynny? Ni sy'n gallu penderfynu wedyn beth sy'n mynd i ba bot o arian a sut mae'r arian yna'n cael ei wario.

Thank you. There was something sadly inevitable about the Chancellor's plans for S4C when they were revealed in the comprehensive spending review a fortnight ago. Although we have become used to over five years of ideological Tory cuts, it was still a shock, even more so because of the lack of rationale, when we realised the scale of these cuts. To repeat the issue, S4C's budget was cut by 36 per cent in 2010 by the Department for Culture, Media and Sport. There was a partnership and a four-year funding agreement was reached between the BBC and S4C in 2013: the BBC would contribute £76.3 million of the licence fee in 2013-14, falling to £74.5 million by 2016-17. The agreement ensured the editorial independence of S4C as well as the executive independence. At the moment, S4C receives its funding from the following sources: 90 per cent from the licence fee, 8 per cent from the DCMS and around 2 per cent from advertising and commercial incomes.

On 25 November it was announced that there would be further cuts to the DCMS S4C budget, with incremental cuts bringing the annual contribution down from the current £6.6 million to £5 million by 2019-20—a cut of around 25 per cent. S4C has been able to respond positively—I don't know how—setting out their plans for the future. Their plans set out three areas: using the digital to unite; promoting the Welsh language and Wales across the UK and abroad; and supporting education and nurturing skills. This is very similar to what we proposed a number of years ago, with the aim of rooting the channel more fully in Welsh life across Wales.

The channel, of course, as we have said in the past in a number of debates here in the Senedd, invests in companies in all parts of Wales, commissioning content from them, working with 50 independent companies in 2014-15 alone. Around 81 per cent of S4C's income went directly to the independent sector, which produces most of the content. What is problematic for me is what will happen to these companies if there are further cuts to S4C. Some of these companies are reliant on S4C in order to create content for them. They would have to move outwith Wales in order to find work—work that wouldn't be produced through the medium of Welsh, and that would be a huge disappointment, therefore.

I also believe that there is a point for us to restate this point that Plaid Cymru is in favour of the devolution of broadcasting and having a clear accountability here in this Assembly and to have the systems in place whereby we can take responsibility for our own future. If the parties in the Senedd are so uncomfortable and so opposed to the fact that Westminster has made these terrible cuts to S4C, then why not devolve responsibility to this Senedd so that we here in Wales can make those decisions? We would then decide what goes to which pot of money and how that funding is spent.

Rydym ni wedi clywed gan y Gweinidog fod y panel darlledu wedi cael ei sefydlu o'r blaen, ond nid yw'r panel darlledu hynny wedi reportio i unrhyw un, felly sut ydym ni'n gwybod beth sy'n digwydd yma yng Nghymru o ran dyfodol darlledu? Beth mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'w wneud i sefyll lan i Lywodraeth San Steffan yn erbyn y toriadau hyn? Mae memorandwm esboniadol rhwng y Llywodraeth, rhwng y comisiwn a rhwng y Deyrnas Gyfunol yn dda, ond mae'n rhy hwyr, nawr, i ni gael memorandwm. Mae angen inni siarad yn blwmp ac yn blaen â San Steffan a dweud na fyddem ni'n derbyn y toriadau yma i S4C. Byddem ni'n hoffi cefnogi gwelliant y Toriaid a'r ffaith bod y Toriaid yma yng Nghymru'n cefnogi S4C—wel, mae hynny'n neis iawn i dderbyn, ond ble oeddech chi? Ble oedd y Toriaid? Mae tri ohonoch chi yn yr ystafell nawr ar gyfer y ddadl ar S4C, ond ble oeddech chi pan oedd y toriadau hyn yn cael eu gwneud gan San Steffan? Os ydy hi mor bwysig i chi, pam ydych chi wedi caniatáu i hynny ddigwydd?

We have heard from the Minister that the broadcast panel has been established in the past, but that broadcasting panel hasn't reported to anyone, so how do we know what is happening here in Wales in terms of the future of broadcasting? What is the Welsh Government going to do to stand up to the Westminster Government against these cuts? A memorandum of understanding between the Government, the commission and the UK Government is positive, but it is too late now for us to have a memorandum. We need to speak clearly to Westminster and state that we will not accept these cuts to S4C. I would like to support the Conservative amendment and the fact that the Conservatives here in Wales do support S4C—well, and they are very warm words, but where were you? Where were the Conservatives? There are three of you here for this debate on S4C, but where were you when these cuts were being made in Westminster? If it is so important to you, why did you allow that to happen?

15:58 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A ydych chi'n fodlon derbyn bod yr Aelodau Seneddol yn San Steffan wedi gwneud rhai o'r dadleuon yn erbyn y toriadau hynny, ac, wrth gwrs, fod y Ceidwadwyr yma wedi gwneud yr un math o beth hefyd?

Are you willing to accept that Members of Parliament in Westminster have made some of the arguments against those cuts, and, of course, that the Conservatives here have done the same sort of thing as well?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:58 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wel, nid ydych yn ddylanwadol iawn, felly, oherwydd roedd y toriadau hynny wedi cael eu gwneud. Pam ddim dweud, cyn i'r gyllideb honno ddod allan, pa mor bwysig—? Sut all S4C ddisgwyl cael yr un toriadau â'r BBC pan mae'r gyllideb hyd yn oed yn llai? Rwy'n credu y bydd yn gosod y BBC ac S4C, efallai, yn erbyn ei gilydd yn y dyfodol, oherwydd y ffaith bod y toriadau hyn yn ddisgwyliedig i'r BBC ac S4C—yr un fath o doriadau. Gellid rhesymu o ran S4C—. Mae'n rhaid inni nid yn unig warchod S4C, ond creu mwy o bosibiliadau sianeli trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Sut mae hynny, felly, yn bosib os oes mwy o doriadau'n dod o San Steffan?

Well, you're not particularly influential, therefore, because those cuts have been made. Why didn't you speak up, before the CSR, to say how important—? How can S4C expect to have the same cuts as the BBC when their budget is much smaller? I believe that it will place the BBC and S4C in opposition to each other, perhaps, because of the fact that these cuts are expected from the BBC and S4C—the same sort of cuts. It can be reasoned in terms of S4C—. We not only have to protect S4C but create further possibilities for Welsh-medium television channels. How is that possible, therefore, if there are further cuts coming from Westminster?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Wrth gwrs ein bod yn croesawu consensws clud y Toriaid yma yng Nghymru, ond byddem ni'n hoffi gweld mwy o ddylanwad gennych chi ar lefel San Steffan. Rwy'n edrych ymlaen at glywed gennych chi beth yw'ch barn chi ar y mater.

Of course we welcome a cosy consensus among the Conservatives here in Wales, but I would like to see more influence by you at a Westminster level. I look forward to hearing from you what your views on this issue are.

15:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have selected the two amendments to the motion. I call on Peter Black to move amendment 1, tabled in the name of Aled Roberts.

Rwyf wedi dethol y ddau welliant i'r cynnig. Galwaf ar Peter Black i gynnal gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Mewn nosod ar ddiwedd pwynt 3:*

*Insert at end of point 3:*

*'ac yn galw ar Lywodraeth y DU i amddiffyn cyllid ac annibyniaeth olygyddol S4C'.*

*'and calls on the UK Government to protect the funding and editorial independence of S4C'.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 moved.*

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I move amendment 1 in the name of Aled Roberts and say how pleased I am, again, to have the opportunity to discuss the important role of S4C and the need to secure the future of Welsh-language broadcasting? If only that debate was not taking place in more auspicious circumstances, when we were not facing yet more cuts to S4C's budget.

S4C plays a very valuable role in safeguarding the Welsh language and enriching the culture of Wales. But, equally as important, it also brings significant benefits to the Welsh economy. Every £1 invested by S4C in the creative industry more than doubles its value to the economy, with individual productions having a direct impact on the areas in which they are filmed. S4C has supported the growth of a strong and successful independent sector as a publisher-broadcaster. It spends nearly 81 per cent of its commissioning budget on the independent sector, supporting jobs and skills development. Of course, S4C supports a whole range of skilled creative industry jobs across Wales. We hope it will be an ever more important player in the Welsh economy, particularly in areas such as Ceredigion and Carmarthen, where S4C is relocating its headquarters. That's why I think it's important that the Welsh Government also continues its support for S4C.

I think, in the inquiry that the communities committee is currently conducting or just coming to the conclusion of conducting into the BBC charter renewal, one of the things that became apparent was how important S4C and, of course, the BBC are to the Welsh economy, and how little work has been done over the years by the Welsh Government in supporting broadcasting, on the grounds that it isn't really a responsibility of the Welsh Government. They are absolutely right that it is not a devolved responsibility, but the benefits that we get from that investment that broadcasting companies such as BBC, ITV and S4C bring to Wales are absolutely crucial in terms of the creation of jobs and supporting our economy. Of course, there is a wider significance, too, in terms of the cultural reach and the support for the language in terms of S4C, all of which do fall within devolved responsibilities.

So, I think, in addition to what is in this motion, the wider plea to the Welsh Government is that you need to take a much bigger interest in broadcasting than you have done in the past, because, although it is not a devolved responsibility, if you properly resource the civil service to actually give you support in terms of supporting broadcasting, then you will be able to much better do your job in terms of also supporting the economy, our culture and our language in Wales. I think that is a very important message that I hope can come from this debate today, certainly for the Welsh Government to consider.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi gynnig gwelliant 1 yn enw Aled Roberts a dweud pa mor falch wyf fi, unwaith eto, i gael cyfle i drafod rôl bwysig S4C a'r angen i sicrhau dyfodol darlledu yn yr iaith Gymraeg? O na fyddai'r drafodaeth yn cael ei chynnal mewn amgylchiadau mwy addawol, pan nad ydym yn wynebu mwy fyth o doriadau i gyllideb S4C.

Mae S4C yn chwarae rôl werthfawr iawn yn diogelu'r iaith Gymraeg a chyfoethogi diwylliant Cymru. Ond yr un mor bwysig, mae hefyd yn creu manteision sylweddol i economi Cymru. Mae pob £1 a fuddsoddir gan S4C yn y diwydiant creadigol yn mwy na dyblu ei gwerth i'r economi, gyda chynrychiadau unigol yn effeithio'n uniongyrchol ar yr ardaloedd lle y cânt eu ffilmio. Mae S4C wedi cefnogi twf sector annibynnol cryf a llwyddiannus fel cyhoeddwr-darlledwr. Mae'n gwario bron i 81 y cant o'i chyllideb gomisiynu ar y sector annibynnol, gan gefnogi swyddi a datblygu sgiliau. Wrth gwrs, mae S4C yn cefnogi ystod eang o swyddi diwydiant creadigol medrus ar draws Cymru. Rydym yn gobeithio y bydd yn chwarae rôl gynyddol bwysig yn economi Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd megis Ceredigion a Chaerfyrddin, lle y mae S4C yn adleoli ei phencadlys. Dyna pam rwy'n meddwl ei bod yn bwysig i Lywodraeth Cymru hefyd barhau â'i chefnogaeth i S4C.

Yn yr ymchwiliad y mae'r pwyllgor cymunedau ar hyn o bryd yn ei gynnal neu'n tynnu at derfyn y gwaith o'i gynnal i adnewyddu siarter y BBC, rwy'n meddwl mai un o'r pethau a ddaeth yn amlwg oedd pa mor bwysig yw S4C, a'r BBC wrth gwrs, i economi Cymru, a chyn lleied o waith a wnaeth Llywodraeth Cymru dros y blynyddoedd o ran cefnogi darlledu, ar y sail nad yw'n gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru mewn gwirionedd. Mae'n llygad ei lle nad yw'n gyfrifoldeb a ddatganolwyd, ond mae'r manteision a gawn o'r buddsoddiad y mae cwmnïau darlledu megis BBC, ITV ac S4C yn ei ddwyn i Gymru yn gwbl allweddol o ran creu swyddi a chefnogi ein heconomi. Wrth gwrs, mae yna arwyddocâd ehangach hefyd, o ran cyrhaeddiad diwylliannol a'r gefnogaeth i'r iaith mewn perthynas ag S4C, ac mae pob un o'r pethau hyn yn gyfrifoldebau datganoledig.

Felly, yn ychwanegol at yr hyn sydd yn y cynnig hwn, rwy'n meddwl mai'r apêl ehangach i Lywodraeth Cymru yw bod angen i chi ddangos llawer mwy o ddiddordeb ym maes darlledu nag a wnaethoch yn y gorffennol, oherwydd, er nad yw'n gyfrifoldeb a ddatganolwyd, pe baech yn darparu adnoddau priodol i'r gwasanaeth sifil eich cynorthwyo o ran cefnogi darlledu, yna byddwch hefyd yn gallu gwneud eich gwaith yn llawer gwell o ran cefnogi'r economi, ein diwylliant a'n hiaith yng Nghymru. Credaf fod hon yn neges bwysig iawn y gobeithiaf y bydd modd ei chyfleu o'r ddadl hon heddiw, yn sicr i Lywodraeth Cymru ei hystyried.

Our amendment to this motion is actually, believe it or not, a quote from the Welsh Conservative manifesto for the general election. The problem is, of course—[Interruption.] I know, we do like to quote the Conservatives occasionally. The problem is, of course, that that quote was not in the Conservatives' UK manifesto. So, effectively, the Welsh Tories did not seal the deal. We had in our manifesto as Welsh Liberal Democrats, both for the Welsh and the UK manifestos, a commitment to S4C, but there was no commitment in the Conservatives' UK manifesto to S4C, which is why I have doubts about their amendment 2. Whatever is being said in this Chamber, what is being done in Westminster does not support the words of the Conservatives' amendment, and neither does it match what the Welsh Conservatives promised in their manifesto, which is not being delivered at Westminster. So, when MPs such as Guto Bebb quite rightly stand up in the House of Commons and say to the relevant Secretary of State that S4C needs to be protected, it's a manifesto commitment, it was a manifesto that he stood on, but it was not a manifesto that the Secretary of State for Culture, Media and Sport stood on in the UK Government. I think that is part of the problem that we're facing at the moment.

S4C told us during their evidence to the communities committee on the BBC charter review inquiry that their funding should be considered separately to the BBC's provision for indigenous nations, and licence fee funding should also be considered separately to the BBC charter review. I support that. Although S4C has operational and editorial independence currently, safeguarded under the operating agreement with the BBC Trust, this cannot be relied on when the BBC itself is facing challenging times and, of course, that licence fee funding could be challenged in extremis and could be withdrawn or cut. I think there needs to be a much greater division and independence for S4C within that.

I think that there is a case to devolve the money that DCMS puts into S4C to the Welsh Government, but the money would have to come here as part of that, and there would also need to be a proper separation within the BBC Trust as well, to make sure that S4C was protected. I know the Welsh Government would be reluctant to take that on because of their historic reluctance to take on funding commitments, but if the money came, I would ask them to look at it.

Credwch neu beidio, mae ein gwelliant i'r cynnig hwn mewn gwirionedd yn cynnwys dyfyniad o fanifesto'r Ceidwadwyr Cymreig ar gyfer yr etholiad cyffredinol. Y broblem yw, wrth gwrs—[Torri ar draws.] Rwy'n gwybod, rydym yn hoffi dyfynnu'r Ceidwadwyr o bryd i'w gilydd. Wrth gwrs, y broblem yw nad oedd y dyfyniad hwnnw ym manifesto'r Ceidwadwyr ar gyfer y DU. Felly, i bob pwrpas, nid yw'r Toriaid Cymreig wedi selio'r cytundeb. Yn ein manifesto fel Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, yn y manifestos ar gyfer Cymru a'r DU, roedd gennym ymrwymiad i S4C, ond ni chafwyd unrhyw ymrwymiad i S4C ym manifesto'r Ceidwadwyr ar gyfer y DU, a dyna pam y mae gennyf amheuon ynglŷn â'u gwelliant 2. Beth bynnag a ddywedir yn y Siambr hon, nid yw'r hyn sy'n cael ei wneud yn San Steffan yn cefnogi geiriau gwelliant y Ceidwadwyr, ac nid yw chwaith yn cyfateb i'r hyn a addawodd y Ceidwadwyr Cymreig yn eu manifesto, nad yw'n cael ei gyflawni yn San Steffan. Felly, pan fydd Aelodau Seneddol megis Guto Bebb yn gwbl briodol yn codi yn Nhŷ'r Cyffredin i ddweud wrth yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol fod angen diogelu S4C, mae'n ymrwymiad manifesto, y manifesto y safai arno, ond nid dyna'r manifesto y safai'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon arno yn Llywodraeth y DU. Credaf mai dyna ran o'r broblem rydym yn ei hwynebu ar hyn o bryd.

Dywedodd S4C wrthym yn ystod eu tystiolaeth i'r pwyllgor cymunedau ar yr ymchwiliad i adolygu siarter y BBC y dylid ystyried eu cyllid ar wahân i ddarpariaeth y BBC ar gyfer y gwledydd cartref, a dylid ystyried cyllid ffi'r drwydded hefyd ar wahân i'r adolygiad o siarter y BBC. Rwy'n cefnogi hynny. Er bod gan S4C annibyniaeth weithredol a golygyddol ar hyn o bryd, wedi'i diogelu o dan y cytundeb gweithredu gydag Ymddiriedolaeth y BBC, ni ellir dibynnu ar hyn pan fo'r BBC ei hun yn wynebu cyfnod heriol ac wrth gwrs, gellid herio cyllid ffi'r drwydded mewn amgylchiadau eithafol a'i dynnu'n ôl neu ei dorri. Rwy'n credu bod angen llawer mwy o raniad ac annibyniaeth i S4C o fewn hynny.

Credaf fod yna achos dros ddatganoli'r arian DCMS a roddir tuag at S4C i Lywodraeth Cymru, ond byddai'n rhaid i'r arian ddod yma yn rhan o hynny, a byddai angen gwahanu'n briodol hefyd o fewn Ymddiriedolaeth y BBC yn ogystal, er mwyn sicrhau bod S4C yn cael ei diogelu. Rwy'n gwybod y byddai Llywodraeth Cymru yn amharod i ystyried hynny oherwydd eu hamharodrwydd hanesyddol i ysgwyddo ymrwymadau ariannu, ond pe bai'r arian yn dod, byddwn yn gofyn iddynt edrych arno.

16:05

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Suzy Davies to move amendment 2, tabled in the name of Paul Davies.

*Gwelliant 2—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn croesawu ymdrechion gan yr holl bleidiau a gynrychiolir yn y Cynulliad i sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer S4C.*

*Cynigiwyd gwelliant 2.*

Galwaf ar Suzy Davies i gynnig gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 2—Paul Davies*

*Add as new point at end of motion:*

*Welcomes the efforts by all parties represented in the Assembly towards securing a sustainable future for S4C.*

*Amendment 2 moved.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



Diolch yn fawr. Rwy'n symud y cynnig hwn.

Thank you very much. I move the amendment.

Lywydd, dywedais ran o beth rwyf am ddweud yn y ddadl heddiw yn y ddadl yr wythnos diwethaf gan y Ceidwadwyr Cymreig ynglŷn â'r adolygiad o wariant, ond mae gennyf ryw beth arall i'w ddweud hefyd. Jest i ddechrau, a gaf i gadarnhau y gwnaethom ni gefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol i'r ddadl honno, a rŷm yn fodlon i'w gefnogi eto heddiw?

I said part of what I'm going to say in this debate in the debate last week by the Welsh Conservatives on the CSR, but I have something else to say as well. Just to start, could I confirm that we did support the Liberal Democrat amendment to that debate, and we're willing to support that again today?

Fel y mae pawb yma wedi ei ddweud, fwy nag unwaith yn y Siambr hon, rŷm ni i gyd am gael dyfodol cynaliadwy, annibynnol ar gyfer S4C, am y rhesymau a roddwyd gan Bethan Jenkins. Nid tiriogaeth unigryw i Blaid Cymru yw hon; mae pob plaid, gan gynnwys Aelodau Seneddol Ceidwadol, wedi sticio dadl at Ysgrifennydd Gwladol y DCMS a, Peter, hoffwn weld y ddadl yma yn cael dylanwad drosto hefyd. Mae'n bwysig bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn deall ein bod yn cyflwyno ffrynt unedig ar hyn.

As everyone has said here, more than once in this Chamber, we all want a sustainable, independent future for S4C, for the reasons that were given by Bethan Jenkins. This is not unique territory for Plaid Cymru; every party, including Conservative MPs, have taken the argument to the Secretary of State for DCMS and, Peter, I would like to see this debate having an influence on it also. It's important that the UK Government does understand that we are presenting a united front on this.

Ar ôl y gwaith rhagorol gan S4C o ran lleihau ei chostau gweithredu a chynnal ansawdd y rhaglenni y mae yn dal yn eu sgrinio, nid wyf yn credu bod cael gwared ar chwarter o'i chyllid uniongyrchol yn deg nac yn strategol o gwbl. Os ydyw'n bosib i ffeindio cyfraniad ar gyfer y 'world service'—ac rwy'n croesawu hynny—pam cosbi S4C? Nid yw £1.7 miliwn yn fawr i DCMS, ond mae'n gwneud gwahaniaeth mawr i S4C.

After the excellent work by S4C in terms of reducing its operational costs and maintaining the quality of the programmes that it screens, I don't think that scrapping a quarter of its direct funding is either fair or strategic. If it's possible to find a contribution for the world service—and I welcome that—then why penalise S4C? For DCMS, £1.7 million isn't a great deal of money, but it does make a huge difference to S4C.

Mae'r rhan fwyaf o arian S4C yn dod, wrth gwrs, o'r drwydded deledu ac mae'r berthynas rhwng S4C a'r BBC wedi helpu S4C drwy ddyddiau eithaf tywyll. Pan ddywedodd y Blaid Lafur nad oedd unrhyw arian ar ôl, roeddent yn golygu hynny. Yr wythnos hon, fodd bynnag, mae rhai sylwadau diofal gan Weinidog y Deyrnas Unedig wedi amlygu sut y mae S4C yn agored i wendid yn y berthynas honno. Ddirprwy Lywydd, rwy'n dychmygu bod Mr Vaizey, fel dyn addysgedig a'r Gweinidog dros ddiwylliant, wedi darllen yn eang. Mae'n siŵr ei fod yn gallu deall y gwahaniaeth rhwng 'digonol' a 'hael'. Nid oedd ei sylwadau yn San Steffan yr wythnos diwethaf wir yn dangos hynny. Yn anffodus, mae ei fathemateg hefyd wedi helpu i danio'r ofn a'r gwres, er nad yw ei symiau—hyd yn hyn—wedi cael eu cadarnhau.

Most of S4C's funding comes from the licence fee and the relationship between S4C and the BBC has assisted S4C through some dark days. When the Labour Party said that there was no money left, they meant that. This week, however, some careless comments by a UK Minister have highlighted how S4C is vulnerable in that relationship. Deputy Presiding Officer, I imagine that Mr Vaizey, as an erudite man and the Minister for culture, has read widely. I'm sure that he can understand the difference between 'sufficient' and 'generous'. His comments in Westminster last week didn't demonstrate that. Unfortunately, his maths have also lit the blue touch paper, although his sums, to date, have not been confirmed.

Er gwaethaf yr amrywiaeth o lwyfannau darlledu, mae'n ymddangos bod incwm cyffredinol ffi'r drwydded yn cynyddu. Nid yw'r rhwymedigaeth newydd i ariannu trwyddedau i bobl dros 70 oed yn dod i mewn yn syth; felly, mae'n gwbl deg bod y BBC yn rhannu ei lwc yn ystod y cyfnod hwn.

Despite the variety of broadcasting platforms, it appears that the general income from the licence fee is increasing. The new obligation to fund licences for people over 70 years of age is not being introduced immediately; so, it's entirely fair that the BBC shares the spoils during this period.

Mae yna bob rheswm hefyd i edrych eto ar rôl S4C, ac i edrych yn fanwl ar y rhwystrau sy'n atal rhywfaint ar welliant i incwm masnachol S4C. Fel y clywsom yng nghyflwyniad S4C yn y Pierhead y mis diwethaf, maen nhw'n gwybod y gallant ennill fwy eu hunain, ond mae angen amser a sicrwydd ariannol i wneud hynny, ac y mae angen ehangu eu cylch gwaith statudol, efallai, i'w cyflawni.

There is also every reason to look again at the role of S4C, and to look in detail at the barriers that prevent some of the increase to its commercial income. As we heard in the S4C presentation in the Pierhead last month, they know that they can generate more funds themselves, but they need time and financial certainty to do so, and they may need to broaden their statutory remit to achieve that.

Fel Ceidwadwyr Cymreig, wrth gwrs ein bod ni'n hoffi'r syniad o S4C yn ennill mwy o'i harian, ond rydym hefyd yn cydnabod nad yw cyllideb gyfnewidiol y BBC na gwelliant mewn gweithrediadau masnachol yn gwarantu dyfodol cynaliadwy ar gyfer S4C, a hyn yw'r galw yn y cynnig.

Felly, rŷm yn ymuno â phob plaid yn annog Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyflawni ei dyletswydd i roi digon o arian i S4C i dalu am y gost o ddarparu ei gwasanaethau cyhoeddus statudol a threfnu i ddarparu neu ddsbarthu'r gwasanaethau hynny. Hefyd, hoffwn i DCMS egluro sut y maen nhw wedi dod i benderfyniad ar beth yw 'digonol', yn lle cipio dadl oddi ar y silff, sef, 'Gall neb ddisgwyl dianc rhag toriadau'.

As Welsh Conservatives, of course we like the idea of S4C generating more of its own income, but we also recognise that neither the changeable BBC budget nor improvements in commercial activity will guarantee a sustainable future for S4C, and this is what the motion demands.

Therefore, we join with all parties to encourage the UK Government to deliver on its duty to provide sufficient funding to S4C to pay for the cost of providing its statutory public services and to arrange to broadcast or distribute those services. Also, I would like DCMS to explain how they have come to a decision on what 'sufficient' means, rather than taking an argument off the shelf, that is, 'Nobody can expect to get away without facing cuts'.

16:09

## Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf i hefyd yn croesawu'r ddadl hon ar S4C, a byddaf yn cefnogi cynnig Plaid Cymru a'r ddau welliant. Ddydd Mawrth diwethaf, fe wnes i fynychu dangosiad cyfres ddrama wleidyddol newydd S4C, o'r enw 'Byw Celwydd'. Ffuglen, nid ffaith, oedd y rhaglen honno. Ni ddylem ni, fel cynrychiolwyr pobl Cymru, fod o dan unrhyw gamargraff am bwysigrwydd S4C i fywyd diwylliannol ac economaidd Cymru. Cafodd S4C ei sefydlu fwy na 30 mlynedd yn ôl, a chafodd plant bach y cyfnod hwnnw—yn aml o gartrefi Saesneg eu hiaith fel arall—eu hadloniant drwy gyfrwng y Gymraeg. Erbyn nawr, mae'r plant hynny yn eu 40au. Maent wedi cael eu cyflyru i dderbyn arlwy Cymraeg y teledu. A ydym, o ddifri calon, am fradychu'r genhedlaeth honno a dyfodd i fyny ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif?

Mae S4C yn dal i ddarparu rhaglenni hanfodol i bobl ifanc, yn enwedig mewn cartrefi gyda rhieni di-Gymraeg. Mae 'Cyw' a 'Stwnsh' eisoes yn cefnogi dysgu ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae rhaglenni penodol yn hyrwyddo rhifedd a llythrennedd, ac eraill sy'n berthnasol i'r cwricwlwm cenedlaethol. Mae S4C hefyd yn creu nifer o apiau addysgiadol. Fel gwylwyr a gwrandawyr Cymraeg, nid oes gennym lawer o ddewis yn y cyfryngau, ond rydym yn ffodus i gael rhaglenni adloniant ardderchog fel 'Y Gwyll' a fy ffefryn ar hyn o bryd, '35 diwrnod'; rhaglenni gwybodaeth fel y newyddion a'r rhaglen ddogfen 'Y Byd ar Bedwar'; ac yn fwy pwysig efallai i mi, y gemau rygbi. Heblaw am S4C, yr unig ddarlledwr iaith Cymraeg arall yw Radio Cymru. Mae'n siomedig nad oes mwy o ddewis yn yr iaith Gymraeg ar gael, yn enwedig am fod cannoedd o sianeli ar gael ar deledu lloeren.

Heb ymrwymiad cyhoeddus gan y Llywodraeth, ni fyddai gwasanaethau S4C yn gynaliadwy. Mae'r cynnig gan Lywodraeth Doriaidd yn San Steffan i dorri 26 y cant ymhellach o gyllideb S4C yn tansellio gallu'r darlledwr i redeg gwasanaethau priodol i'r gwylwyr. Mae hyn yn gynnig ar ben gostyngiad o £101 miliwn yn 2009-10 i £82.8 miliwn yn 2014-15—toriad sy'n cynrychioli traean o gyllideb S4C yn nhermau real, gyda swyddi, rhaglenni a gwasanaethau yn cael eu colli.

I also welcome this debate on S4C, and I will support the Plaid Cymru motion as well as both amendments. Last Tuesday, I attended the first screening of S4C's new political drama series, 'Byw Celwydd'. That fiction not fact. We, as the representatives of the people of Wales, should not be under any illusion regarding the importance of S4C to the cultural and economic life of Wales. S4C was established more than 30 years ago, and young children at that time—often from non-Welsh-speaking homes—were receiving their entertainment through the medium of Welsh. By now, those children are in their 40s. They have become used to receiving Welsh-medium provision on television. Are we going to betray that generation that grew up at the end of the twentieth century?

S4C continues to provide crucial programming for young people, particularly in homes where Welsh isn't the first language. 'Cyw' and 'Stwnsh' already support formal and informal learning for children and young people. There are specific programmes that promote literacy and numeracy, and others that are relevant to the national curriculum. S4C also creates a number of educational apps. As Welsh-medium viewers and listeners, we don't have much choice in the media, but we are fortunate to have excellent entertainment programmes such as 'Y Gwyll/Hinterland' and my current favourite, '35 diwrnod'; we have current affairs programmes such as the news and 'Y Byd ar Bedwar'; and, more importantly for me perhaps, the rugby coverage. If it weren't for S4C, the only other Welsh-language broadcaster is Radio Cymru. It is disappointing that there isn't more choice available through the medium of Welsh, particularly as there are hundreds of channels on satellite television.

Without a public commitment from the Government, S4C's services would not be sustainable. The proposal by the Conservative Government in Westminster to cut a further 26 per cent of S4C's budget undermines the broadcaster's ability to provide appropriate services for its viewers. This is on top of a reduction from £101 million in 2009-10 to £82.8 million in 2014-15—a cut that represents a third of S4C's budget in real terms, with jobs, programming and services being lost.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Mae'r adran diwylliant a chwaraeon yn San Steffan yn dioddef, rwy'n derbyn hynny, ond gyda rhai eithriadau—yn hyn a elwir yn Saesneg yn 'salami slicing'. Yn Gymraeg, 'toriadau tameidiog' yw'r rhain. Maent yn dioddef yr un toriadau â phawb arall, heblaw'r eithriadau. Nid yw S4C yn cael ei hystyried yn unigryw fel y mae rhaglenni fel 'UK sport' a'r 'BBC World Service'—dywedodd rhywun hynny yn gynharach. Hefyd, maen nhw'n amddiffyn llyfrgelloedd Lloegr a'r amgueddfeydd, ond nid yw hynny yn digwydd yng Nghymru. Pan gafodd S4C ei sefydlu chwarter canrif a mwy yn ôl nawr, eithriad ac achos arbennig oedd S4C. I ni yng Nghymru, mae'n dal i fod yn achos arbennig, a dylai Llywodraeth y Torïadau yn Llundain gytuno â ni.

Rŷm ni hefyd yn edrych ymlaen at adleoliad S4C i Gaerfyrddin, pan fydd cyfle i'r cwmni ailfeddwl pa fath o wasanaethau maent am ddarparu yn y dyfodol. Hoffwn weld mwy o gyfranogiad gan wylwyr tuag at gynnwys. Hoffwn hefyd weld S4C yn cymryd mantais o'r cyfleoedd sydd ar gael yn sir Gaerfyrddin a dinas-ranbarth bae Abertawe, er enghraifft, trwy gydweithio â Phrifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, a hefyd y 30 o gwmnïau lleol sydd wedi dangos diddordeb yn barod. S4C yw seren ddisglair y cyfryngau iaith Gymraeg. Mae'r darlledwr yn chwarae rhan hollbwysig yn y gymuned Gymraeg, ac yn cynnal lle arbennig ym meddyliau pobl Cymru. Heb S4C cynaliadwy a chryf, bydd y gymuned Gymraeg a Chymru gyfan yn wannach. Yn yr ysbryd hwn, rwy'n cymeradwyo cynnig Plaid Cymru a'r gwelliannau.

DCMS in Westminster is suffering, and I accept that, but with some exceptions—what is called 'salami slicing' in English. In Welsh, these are 'toriadau tameidiog'. They are suffering the same cuts as everyone else, except for the exceptions. S4C isn't considered to be unique as are programmes such as UK sport and the BBC World Service—someone mentioned that earlier. Also, they are protecting libraries and museums in England, but that isn't happening in Wales. When S4C was established more than 25 years ago, it was a special case and an exception. For us in Wales, it continues to be an exception, and the Tory Government in London should agree with us on that point.

We are also looking forward to the relocation of S4C to Carmarthen, when there will be an opportunity for the company to reconsider the types of services that they wish to provide in future. We would like to see more participation by viewers in terms of the content. We would also like to see S4C taking advantage of the opportunities that are available in Carmarthenshire and the Swansea bay city region, for example, by collaborating with Swansea University, the University of Wales Trinity Saint David, and also the 30 local companies that have expressed an interest already. S4C is the bright star of the Welsh-language media. The broadcaster plays a crucial role in Welsh-speaking communities, and maintains a special place in the hearts of the people of Wales. Without a sustainable and strong S4C, the Welsh-speaking community and all of Wales will be weaker. In this spirit, I encourage you to support the Plaid Cymru motion and the amendments.

16:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism, Ken Skates.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Ken Skates.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:14 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism*

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I thank Members for their contributions during this very timely debate? It is extremely disappointing that the UK Government has decided to further cut S4C's funding, particularly as DCMS has protected or increased budgets for organisations in England. This decision has also been taken without the review of S4C that was promised by the UK Government in 2010, and which we have continually pushed for, but not yet had.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau yn ystod y ddadl amserol hon? Mae'n hynod o siomedig fod Llywodraeth y DU wedi penderfynu torri cyllid S4C ymhellach, yn enwedig gan fod y DCMS wedi diogelu neu gynyddu cyllidebau ar gyfer sefydliadau yn Lloegr. Gwnaed y penderfyniad hwn hefyd heb yr adolygiad o S4C a addawodd Llywodraeth y DU yn 2010, adolygiad rydym wedi gwthio'n barhaus amdano, ond nad ydym wedi'i gael hyd yma.

Since the comprehensive spending review in 2010, the Welsh Government has consistently expressed concern to the UK Government about the impact that any further major funding cuts will have on S4C. It is vital that S4C has sufficient funding as well as editorial and managerial independence. We therefore support amendment 1 in the name of Aled Roberts.

Ers yr adolygiad cynhwysfawr o wariant yn 2010, mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi pryder yn gyson wrth Lywodraeth y DU ynghylch effaith unrhyw doriadau ariannu mawr pellach ar S4C. Mae'n hanfodol fod gan S4C gyllid digonol yn ogystal ag annibyniaeth olygyddol a rheolaethol. Felly, rydym yn cefnogi gwelliant 1 yn enw Aled Roberts.

Obviously, there is cross-party agreement here in the Assembly about the challenges facing S4C and the need for it to be sustainable, and that's why we support amendment 2 in the name of Paul Davies. Indeed, we welcome the fact that the Welsh Conservatives here, as well as their Welsh Conservative counterparts in Westminster, have expressed disappointment with the recent financial settlement for S4C.

Yn amlwg, ceir cytundeb trawsbleidiol yma yn y Cynulliad am yr heriau sy'n wynebu S4C a'r angen iddi fod yn gynaliadwy, a dyna pam rydym yn cefnogi gwelliant 2 yn enw Paul Davies. Yn wir, rydym yn croesawu'r ffaith fod y Ceidwadwyr Cymreig yma, yn ogystal â'u cymheiriaid ymhlith y Ceidwadwyr Cymreig yn San Steffan, wedi mynegi siom ynghylch y setliad ariannol diweddar ar gyfer S4C.

However, it is a pity that they have not been able to influence their colleagues who are UK Government Ministers. Indeed, it does not seem that the UK Government Ministers understand the impact of the cuts that S4C has already received since 2010. In recent months, we've heard what are truly baffling comments. In July, the Secretary of State for Culture, Media and Sport said that it was 'reasonable' that S4C should make the same kind of efficiency savings being asked of the BBC. In addition, last week, the Minister for Culture and Digital Economy, Ed Vaizey, said that S4C is 'adequately funded' and is 'extremely generously funded'—this after announcing a further cut of more than 20 per cent.

These are startling comments, considering the uncertainty about S4C's funding position, especially when you consider that the Secretary of State for Culture, Media and Sport has a statutory duty, as outlined in the Public Bodies Act 2011, to ensure that S4C receives sufficient funding.

In addition to the reduction in funding from the UK Government, the funding S4C receives from the BBC via the television licence fee is not secure from April 2017 onwards. Deputy Presiding Officer, our priorities for charter renewal include ensuring that there is sufficient funding for S4C.

We've called, yet again, for an urgent review of S4C. Last month, the First Minister wrote again to the Secretary of State for Culture, Media and Sport inviting him to Cardiff for an urgent meeting to discuss S4C and other broadcasting issues. Unfortunately, we have not yet had responses to any of these letters.

Deputy Presiding Officer, it is vital that S4C has sufficient funding, as well as editorial and managerial independence, for it to maintain its ability to serve the Welsh audience and continue to play a crucial role in supporting both the Welsh language and the creative industries in Wales.

Fodd bynnag, mae'n drueni nad ydynt wedi gallu dylanwadu ar eu cymheiriaid ymhlith Gweinidogion Llywodraeth y DU. Yn wir, nid yw'n ymddangos bod Gweinidogion Llywodraeth y DU yn deall effaith y toriadau y mae S4C eisoes wedi'u cael ers 2010. Yn y misoedd diwethaf, clywsom sylwadau gwirioneddol ddryslyd. Ym mis Gorffennaf, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei bod yn 'rhesymol' y dylai S4C wneud yr un math o arbedion effeithlonrwydd ag y gofynnir amdanynt gan y BBC. Yn ogystal, yr wythnos diwethaf, dywedodd y Gweinidog dros Ddiwylliant a'r Economi Ddigidol, Ed Vaizey, fod S4C yn cael ei 'hariannu'n ddigonol' ac yn cael 'ei hariannu'n hynod o hael'—hyn ar ôl cyhoeddi toriad pellach o fwy nag 20 y cant.

Mae'r rhain yn sylwadau syfrdanol, o ystyried yr ansicrwydd ynghylch sefyllfa ariannu S4C, yn enwedig pan gofwrch fod gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ddyletswydd statudol, fel y'i hamlinellir yn Neddf Cyrff Cyhoeddus 2011, i sicrhau bod S4C yn cael cyllid digonol.

Yn ychwanegol at y gostyngiad yn y cyllid gan Lywodraeth y DU, nid yw'r cyllid y mae S4C yn ei gael gan y BBC drwy ffi'r drwydded deledu yn ddiogel o fis Ebrill 2017 ymlaen. Ddirprwy Lywydd, mae ein blaenoriaethau ar gyfer adnewyddu'r siarter yn cynnwys sicrhau cyllid digonol ar gyfer S4C.

Rydym wedi galw, unwaith eto, am adolygiad brys o S4C. Y mis diwethaf, ysgrifennodd y Prif Weinidog eto at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ei wahodd i Gaerdydd am gyfarfod brys i drafod S4C a materion darlledu eraill. Yn anffodus, nid ydym wedi cael ymateb i unrhyw un o'r llythrau hyn eto.

Ddirprwy Lywydd, mae'n hanfodol fod S4C yn cael digon o arian, yn ogystal ag annibyniaeth olygyddol a rheolaethol, iddi gynnal ei gallu i wasanaethu'r gynulleidfa Gymraeg a pharhau i chwarae rôl hanfodol yn cefnogi'r iaith Gymraeg a'r diwydiannau creadigol yng Nghymru.

16:17 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Simon Thomas to reply to the debate.

Galwaf ar Simon Thomas i ymateb i'r ddatl.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:17 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd, a gobeithio bod pobl wedi mwynhau'r cyfle, mewn cyfnod byrrach nag arfer, i drafod mater sydd o bwys amserol. Oherwydd hynny, nid wyf yn mynd i ateb pob pwynt a godwyd, ond gwnaf jest bwysleisio rhai o'r agweddau positif, rwy'n meddwl, sydd wedi dod o'r ddatl yma.

Thank you, Deputy Presiding Officer, and I hope that people have enjoyed, in a briefer time than usual, the opportunity to discuss a timely issue. Because of that, I'm not going to answer every point that was raised, but I will just emphasise some of the positive aspects, I think, that have come out of this debate.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Rwy'n cofio gwylio noson gyntaf S4C yn y lolfa fawr yn neuadd Pantycelyn—dau sefydliad Cymraeg sydd bellach dan fygythiad, mae'n wir i ddweud. Ers y noson gyntaf yna ym 1982, mae S4C wedi cynhyrchu dros £2 biliwn i Gymru ac, yn fwy pwysig byth, fel yr oedd yn cael ei gydnabod gan Ian Hargreaves yn ei adolygiad o'r cyfryngau yng Nghymru, heb S4C, na fyddai gan Gymru fawr ddim o gwmnïau teledu annibynnol o gwbl—dyna pam mae S4C mor bwysig.

I remember watching the first night of S4C in the main lounge in Pantycelyn hall—two Welsh language institutions that are now under threat, it's true to say. Since that first night in 1982, S4C has generated more than £2 billion for Wales, and, more importantly, as was recognised by Ian Hargreaves in his review of the media in Wales, without S4C, Wales would have almost no independent television companies—that's why S4C's so important.

Mae S4C wedi ymateb yn bositif, hefyd, i'r her sydd wedi cael ei gosod gan y Llywodraeth Doriaidd a'r Llywodraeth glymbleidiol gynt drwy dorri unrhyw fraster a oedd yn bodoli yn y gorfforaeth a drwy sicrhau bod dros 80 y cant o arian S4C yn cael ei wario yn uniongyrchol ar y rhaglenni. Rwy'n credu bod hynny yn dangos bod S4C wedi ymateb i'r her, ac yn awr mae'n briodol gofyn pam nad yw'r Llywodraeth yn San Steffan yn ymateb i'r her y mae S4C yn ei gosod hithau i'r Llywodraeth, sef sicrhau amleithrwydd y tu fewn i'r cyfryngau darlledu Prydeinig a dewis i wylwyr Cymraeg.

Mae S4C hefyd yn bositif yn y ffordd y maen nhw'n cadw at eu cynllun i symud pencadlys i Gaerfyrddin erbyn 2018 ac, yn sgil hynny, creu hyd at 200 o swyddi ar safle Coleg y Drindod yn y dref honno. Bydd hynny yn hwb sylweddol i dref lle mae'r Gymraeg yn bwysig, ac yn hwb sylweddol i'r gorllewin, hefyd, gyda'r posibiliad o gynhyrchu £31 miliwn yn yr ardal dros y cyfnod nesaf.

Felly, mae S4C wedi ymateb i'r her, gan ehangu yn sylweddol ar-lein. Mae'n dueddol o fod yn fyth bod neb yn gwylio S4C. Wrth gwrs, mae pobl yn gwylio S4C yn enfawr nawr ar Clic, ar-lein ar y BBC ar iPlayer, ac mae yna gynydd sylweddol wedi bod yn hynny.

It is vital that the Conservatives realise that S4C is part of the media broadcasting environment for the whole of the United Kingdom. You can't turn your back on Welsh-language broadcasting because it's in Wales or in Welsh; you have to preserve it as part of that multi-faceted broadcasting environment for all citizens of the UK. Please do that, and ensure the security of supply and funding for S4C.

S4C has also responded positively to the challenge that has been set by the Tory Government and the former coalition Government by cutting any fat that existed in the corporation and by ensuring that more than 80 per cent of S4C's funding is spent directly on programming. I think that that shows that S4C has responded to the challenge, and now it's appropriate to ask why the Westminster Government isn't responding to the challenge that S4C itself is setting for the Government, namely to ensuring multilingualism within broadcasting in Britain and choice for Welsh-speaking viewers.

S4C is also positive in the way that it is sticking to its plan to move its headquarters to Carmarthen by 2018, and, in the wake of that, creating up to 200 jobs on the Trinity St David site in that town. That will be a considerable boost for a town where the Welsh language is important, and also a boost to west Wales as well, with the possibility of generating £31 million in the area over the next period.

So, S4C has responded to the challenge, expanding significantly online. It's a bit of a myth that nobody watches S4C. Of course, people watch S4C now on Clic, online on the BBC on iPlayer, and there has been a great increase in that.

Mae'n hanfodol fod y Ceidwadwyr yn sylweddoli bod S4C yn rhan o amgylchedd y cyfryngau darlledu ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan. Ni allwch droi eich cefn ar ddarlledu yn yr iaith Gymraeg am ei fod yng Nghymru neu yn Gymraeg; rhaid i chi ei gadw fel rhan o'r amgylchedd darlledu amlochrog i holl ddinasyddion y DU. Gwnewch hynny, a sicrhewch ddiogelwch y cyflenwad a'r cyllid ar gyfer S4C.

16:20

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I will defer voting until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

*Voting deferred until voting time.*

## 5. Dadl Plaid Cymru: Ardoll ar Ddiodydd Llawn Siwgr

*Detholwyd y gwelliant canlynol: gwelliant 1 yn enw Paul Davies.*

## 5. Plaid Cymru Debate: A Sugary Drinks Levy

*The following amendment has been selected: amendment 1 in the name of Paul Davies.*

16:20

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 5 is the second Plaid Cymru debate. This one is on the sugary drinks levy, and I call on Elin Jones to move the motion.

Cynnig NDM5905 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynigion i ddefnyddio pwerau trethu newydd o dan Deddf Cymru 2014 i ganiatáu i Lywodraeth nesaf Cymru i gyflwyno ardoll ar ddiodydd llawn siwgr.

Eitem 5 yw ail ddadl Plaid Cymru. Mae hon ar yr ardoll ar ddiodydd llawn siwgr, a galwaf ar Elin Jones i gynnig y cynnig.

Motion NDM5905 Elin Jones

To propose that the National Assembly for Wales:

Calls on the Welsh Government to bring forward proposals to use new taxation powers under the Wales Act 2014 to allow the next Welsh Government to introduce a levy on sugary drinks.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I move the motion in my name. The motion today is self-explanatory and timely. It calls on the Welsh Government to bring forward proposals for a sugary drinks tax so that the next Welsh Government can use the powers it will have to introduce such a tax. It is timely for two reasons. The first reason is that the Wales Act 2014 will give the next Welsh Government the power to introduce new forms of taxation, subject to the approval of the National Assembly and UK Parliament.

Now, cynics may argue that the UK Parliament could veto the introduction of such a tax, but that's precisely why we have put forward this motion today. The earlier we can agree in principle to introduce a sugary drinks tax, the better and the greater the chances of success. It is unlikely, of course, that the UK Parliament would veto a manifesto commitment of a party in Government. Such a move would be politically and constitutionally unwise. But it is also unlikely they would veto proposals where there was a long-standing record of support from a variety of parties. So, a motion that affirms this institution's support for a tax on sugary drinks would both demonstrate the will of this institution and allow us to lead the way on a very significant public health measure in Wales.

The second reason why this debate is timely is that support for a sugary drinks tax has grown substantially since Plaid Cymru first announced that we would seek to introduce such a tax. Only last month, the publication of the UK Parliament Health Committee's report on child obesity was another addition to the chorus of voices calling for more radical action to tackle what is becoming the No. 1 public health issue of our time, and that is the overconsumption of unnecessary sugar. That radical action, of course, included the introduction of a sugary drinks tax, and was backed by all but one member of that health committee.

A tax on sugary drinks is now supported by a whole range of organisations—from the Royal College of Paediatrics and Child Health and the British Medical Association to celebrity chefs, such as Michel Roux and Jamie Oliver. Opinion polls now show that the public support the introduction of such a tax. Taxes have already been introduced in several countries, including Mexico, Norway, Finland and Hungary. Opposition to the tax is confined to the sugary drinks industry, for obvious reasons, and those right-wing think tanks that oppose most forms of taxation, and also, of course, it is opposed, to date, by the Tory UK Government and the Labour Welsh Government.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiau y cynnig yn fy enw i. Mae'r cynnig heddiw yn hunanesboniadol ac yn amserol. Mae'n galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynigion ar gyfer treth ar ddiodydd llawn siwgr fel y gall Llywodraeth nesaf Cymru ddefnyddio'r pwerau a fydd ganddi i gyflwyno treth o'r fath. Mae'n amserol am ddau reswm. Y rheswm cyntaf yw bydd Deddf Cymru 2014 yn rhoi'r grym i gyflwyno mathau newydd o drethi, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol a Senedd y DU i Lywodraeth nesaf Cymru.

Yn awr, gall sinigiaid ddadlau y gallai Senedd y DU roi fetu ar gyflwyno treth o'r fath, ond dyna'n union pam rydym wedi cyflwyno'r cynnig hwn heddiw. Po gyntaf y gallwn gytuno mewn egwyddor i gyflwyno treth ar ddiodydd llawn siwgr, y gorau yw'r gobaith o lwyddo. Mae'n annhebygol, wrth gwrs, y byddai Senedd y DU yn rhoi fetu ar ymrwymiad manifesto plaid mewn Llywodraeth. Byddai cam o'r fath yn wleidyddol ac yn gyfansoddiadol annoeth. Ond mae hefyd yn annhebygol y byddent yn rhoi fetu ar gynigion lle y ceid hanes hirsefydlog o gefnogaeth gan amryw o bleidiau. Felly, byddai cynnig sy'n cadarnhau cefnogaeth y sefydliad hwn i dreth ar ddiodydd llawn siwgr yn dangos ewyllys y sefydliad hwn ac yn caniatáu i ni arwain ar fesur iechyd cyhoeddus pwysig iawn yng Nghymru.

Yr ail reswm pam y mae'r ddadl hon yn amserol yw bod cefnogaeth i dreth ar ddiodydd llawn siwgr wedi tyfu'n sylweddol ers y cyhoeddodd Plaid Cymru gyntaf y byddem yn ceisio cyflwyno treth o'r fath. Y mis diwethaf, roedd cyhoeddi adroddiad Pwyllgor Iechyd Senedd y DU ar ordewdra ymhlith plant yn ychwanegiad arall at y corws o leisiau sy'n galw am weithredu'n fwy radical i fynd i'r afael yr hyn sy'n dod yn broblem iechyd cyhoeddus bwysicaf ein cyfnod ni, sef gorfwyta siwgr diangen. Roedd y camau radical hynny, wrth gwrs, yn cynnwys cyflwyno treth ar ddiodydd llawn siwgr, ac fe'i cefnogwyd gan bob aelod ond un o'r pwyllgor iechyd hwnnw.

Mae ystod eang o sefydliadau bellach yn cefnogi treth ar ddiodydd llawn siwgr—o'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant a Chymdeithas Feddygol Prydain i gogyddion enwog, megis Michel Roux a Jamie Oliver. Dengys polau piniwn y gefnogaeth gyhoeddus sydd i gyflwyno treth o'r fath bellach. Cyflwynwyd trethi eisoes mewn nifer o wledydd, gan gynnwys Mecsico, Norwy, y Ffindir a Hwngari. Mae gwrthwynebiad i'r dreth wedi'i gyfyngu i'r diwydiant diodydd llawn siwgr, am resymau amlwg, a'r melinau trafod asgell dde hynny sy'n gwrthwynebu'r rhan fwyaf o fathau o drethi, ac wrth gwrs, fe'i gwrthwynebir hefyd hyd yn hyn, gan Doriaid Llywodraeth y DU a Llywodraeth Lafur Cymru.

Let's recap some of the facts about the consumption of soft drinks and health. The Scientific Advisory Committee on Nutrition stated that drinking high-sugar beverages results in weight gain and increases body mass index in teenagers and children. An obese child is 80 per cent more likely to be an obese adult. Being overweight in adolescence is linked to a greater risk of bowel cancer later in life. Overweight teenagers go on to have twice the risk of bowel cancer. Drinking a can of Coke a day increases the risk of developing diabetes by 22 per cent. Yet sugary drinks are taxed at a standard rate of VAT. They attract no extra taxation or duty that reflects the health risks and costs associated with consumption.

Now, some might say that the occasional can of Coke has no risks, but equally the occasional glass of wine or occasional pint of beer isn't going to affect your health. The problems come with excessive consumption, but nobody would now seriously argue against taxation of alcohol simply because an occasional drink doesn't do any harm. The evidence on the excessive consumption of sugary drinks is overwhelming, and increasingly we are coming to an understanding of this, despite the efforts of lobbyists adopting the same tactics and arguments for self-regulation over action that big tobacco adopted decades ago to delay action on smoking.

Another objection is that the tax could be regressive. This was brilliantly dealt with by Jamie Oliver's performance in the Health Committee in Parliament. He referred to data showing that those most likely to benefit from tackling obesity would be disadvantaged children. In fact, not introducing a tax on sugary drinks and allowing child obesity to increase is the regressive policy. And would anyone ever call for reducing taxes on tobacco so that people on low incomes could afford cigarettes?

So, what would be the effects of such a tax in Wales? I commissioned research as an Assembly Member two years ago that models the effects of a 20p per litre tax, and that research found that obesity would reduce by 8,300, the number of people who were overweight would be reduced by 13,300, consumption of sugary drinks would reduce by around 15 per cent, leading to a reduction of diabetes by between 3 per cent and 5 per cent, with reductions greatest amongst those on low incomes, and ischaemic heart disease would decline between 1 per cent and 3 per cent. There would be more positive behaviour from children in schools due to less sugar consumption. Tooth decay would be reduced, and £45 million would be raised in tax receipts. And, of course, there would be a long-term saving to the NHS from treating the effects of obesity and diabetes.

Let's face it: if there were a new drug developed that achieved the above health effects, there would be protests on every street until it was made available on the NHs. Yet, this tax is a tool that will be available shortly to us here for promoting public health, and won't cost anything to the public purse.

Gadewch i ni ailadrodd rhai o'r ffeithiau am yfed diodydd ysgafn ac iechyd. Nododd y Pwyllgor Ymgynghorol Gwyddonol ar Faeth fod yfed diodydd sy'n llawn o siwgr yn arwain at fagu pwysau a mynegai màs y corff uwch ymhlith pobl ifanc yn eu harddegau a phlant. Mae plentyn gordew 80 y cant yn fwy tebygol o fod yn oedolyn gordew. Mae bod dros bwysau yn ystod blaenlencynod yn gysylltiedig â mwy o risg o ganser y coluddyn yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae pobl ifanc yn eu harddegau sydd dros bwysau yn mynd ymlaen i wynebu dwywaith y risg o ganser y coluddyn. Mae yfed can o Coke y dydd yn cynyddu'r risg o ddatblygu diabetes 22 y cant. Eto trethir diodydd llawn siwgr ar gyfradd safonol o TAW. Nid ydynt yn denu unrhyw drethiant neu doll ychwanegol sy'n adlewyrchu'r risgiau a'r costau iechyd sy'n gysylltiedig â'u hyfed.

Nawr, efallai y bydd rhai'n dweud nad oes risgiau ynghlwm wrth yfed can achlysurol o Coke, ond yr un mor wir, nid yw gwydraid achlysurol o win neu beint o gwrw o bryd i'w gilydd yn mynd i effeithio ar eich iechyd. Mae'r problemau'n dod gyda goryfed, ond ni fyddai neb yn dadlau o ddirif bellach yn erbyn trethu alcohol am nad yw diod achlysurol yn gwneud unrhyw niwed. Mae'r dystiolaeth ar yfed gormod o ddiodydd llawn siwgr yn llethol, ac rydym yn dod i ddeall hyn fwyfwy, er gwaethaf ymdrechion lobiwyr i fabwysiadu'r un tategau a dadleuon ynghylch hunanreoleiddio yn lle camau gweithredu ag y mabwysiadodd y cwmnïau tybaco mawr ddegawd yn ôl i rwystro camau gweithredu ar ysmegu.

Gwrthwynebiad arall yw y gallai'r dreth fod yn atchweliadol. Trafodwyd hyn yn wych gan Jamie Oliver gerbron y Pwyllgor Iechyd yn y Senedd. Cyfeiriodd at ddata sy'n dangos mai'r rhai sydd fwyaf tebygol o gael budd o fynd i'r afael â gordewdra fyddai plant difreintiedig. Mewn gwirionedd, peidio â chyflwyno treth ar ddiodydd llawn siwgr a chaniatáu i ordewdra plant gynyddu yw'r polisi atchweliadol. Ac a fyddai unrhyw un byth yn galw am leihau trethi ar dybaco er mwyn i bobl ar incwm isel allu ffordio sigarêts?

Felly, beth fyddai effeithiau treth o'r fath yng Nghymru? Comisiynais ymchwil fel Aelod Cynulliad ddwy flynedd yn ôl sy'n modelu effeithiau treth o 20c y litr, a gwelodd y gwaith ymchwil hwnnw y byddai nifer y bobl sy'n ordew yn gostwng 8,300, byddai nifer y bobl a oedd dros bwysau yn gostwng 13,300, byddai cyfraddau yfed diodydd llawn siwgr yn gostwng tua 15 y cant, gan arwain at ostyngiad o rhwng 3 y cant a 5 y cant yn yr achosion o ddiabetes, gyda'r gostyngiadau mwyaf ymhlith pobl ar incwm isel, a byddai cyfraddau defyd isgemia'r galon yn gostwng rhwng 1 y cant a 3 y cant. Byddai ymddygiad mwy cadarnhaol ymhlith plant mewn ysgolion o ganlyniad i yfed llai o siwgr. Byddai lefelau pydredd dannedd yn gostwng, a byddai £45 miliwn yn cael ei godi mewn derbyniadau treth. Ac wrth gwrs, byddai arbediad hirdymor i'r GIG o drin effeithiau gordewdra a diabetes.

Gadewch i ni ei wynebu: pe bai cyffur newydd yn cael ei ddatblygu i gyflawni'r effeithiau uchod ar iechyd, byddai protestiadau ar bob stryd hyd nes y ddi i fod ar gael ar y GIG. Eto i gyd, mae'r dreth hon yn offeryn a fydd ar gael i ni yma cyn bo hir i hybu iechyd y cyhoedd, ac ni fydd yn costio dim i bwrs y wlad.

Sometimes, one objection raised on the tax concerns the intended use or hypothecation of the receipts from the tax. Plaid Cymru believes that pledging to invest proceeds of the tax in the health service is a worthwhile use of the money, but voting for this motion today does not commit to using the proceeds of the tax for any particular purpose. That is a debate for another day.

So, I urge Members here this afternoon to support the introduction of a pop tax in Wales, and for us here to lead the way in making this change happen for the benefit of the health of our nation.

Weithiau, un gwrthwynebiad a leisir ynglŷn â'r dreth yw'r defnydd a fwriedir neu'r cyllid a neilltuir o'r derbyniadau o'r dreth. Cred Plaid Cymru fod addo buddsoddi enillion y dreth yn y gwasanaeth iechyd yn ddefnydd buddiol o'r arian, ond nid yw pleidleisio o blaid y cynnig hwn heddiw yn ymrwmo i ddefnyddio enillion y dreth at unrhyw ddiiben penodol. Mae honno'n dadl at rywdro eto.

Felly, rwy'n annog yr Aelodau yma y prynhawn yma i gefnogi'r broses o gyflwyno treth ar bop yng Nghymru, ac i ni yma arwain ar wneud i'r newid hwn ddigwydd er lles iechyd ein cenedl.

16:27

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have selected the amendment to the motion. I call on Darren Millar to move amendment 1, tabled in the name of Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Dileu 'ddefnyddio pwerau trethu newydd o dan Ddeddf Cymru 2014 i ganiatáu i Lywodraeth nesaf Cymru i gyflwyno ardoll ar ddiodydd llawn siwgr' a rhoi yn ei le 'leihau effeithiau andwyol diodydd llawn siwgr ar iechyd cyhoedd'.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

Rwyf wedi dewol y gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Darren Millar i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Amendment 1—Paul Davies*

*Delete 'use new taxation powers under the Wales Act 2014 to allow the next Welsh Government to introduce a levy on' and replace with 'reduce the adverse public health impacts of'.*

*Amendment 1 moved.*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:27

## **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move the amendment tabled in the name of Paul Davies.

A Tango tax is not the answer to the public health crisis that is growing here in Wales. Whilst I have a great deal of sympathy with the calls to address increasing sugar consumption across the country, I think we have to put things into context. The reality is that only 3 per cent of the calories consumed here in Wales actually come from soft drinks—just 3 per cent. So, if we think we're going to make a huge difference by simply taxing something like sugary drinks, then we are hugely mistaken. And I don't think that we will ever see, as a result of that, the sort of sea change in the consumption of sugar that Elin Jones, quite rightly, is seeking to establish here in Wales.

The reality is that soft-drink manufacturers have already been making huge inroads into the volumes of sugar in their drinks in recent years. Some manufacturers have reduced the content of sugar in their fizzy drinks by up to 30 per cent or even 40 per cent, and consumers are still buying them. Yes.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiau y gwelliant a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

Nid treth Tango yw'r ateb i'r argyfwng iechyd y cyhoedd sy'n tyfu yma yng Nghymru. Er bod gennyf lawer iawn o gydymdeimlad â'r galwadau i roi sylw cynyddol i'r defnydd o siwgr ar draws y wlad, rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni roi pethau mewn cyd-destun. Y realiti yw mai 3 y cant yn unig o'r calorïau a fwyteir yma yng Nghymru sy'n dod o ddiodydd meddal mewn gwirionedd—3 y cant yn unig. Felly, os ydym yn meddwl ein bod yn mynd i wneud gwahaniaeth mawr drwy drethu pethau fel diodydd llawn siwgr, yna rydym yn gwneud camgymeriad mawr. Ac nid wyf yn credu y byddwn byth yn gweld, yn sgil hynny, y math o newid mawr yn y defnydd o siwgr y mae Elin Jones, yn gwbl briodol, yn ceisio'i sicrhau yma yng Nghymru.

Y realiti yw bod gwneuthurwyr diodydd meddal eisoes wedi gwneud cynnydd enfawr o ran faint o siwgr sydd yn eu diodydd yn y blynyddoedd diwethaf. Mae rhai cynhyrchwyr wedi cwtogi cynnwys siwgr yn eu diodydd swigod hyd at 30 y cant neu hyd yn oed 40 y cant, ac mae defnyddwyr yn dal i'w prynu. Ie.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:28

## **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for giving way, Darren. Can I ask why you're opposed to a tax on sugary drinks when you're in favour of a tax on chewing gum?

Diolch i chi am ildio, Darren. A gaf fi ofyn pam eich bod yn gwrthwynebu treth ar ddiodydd llawn siwgr a chithau o blaid treth ar gwm cnoi?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)



Because chewing gum pollutes our streets, Peter. You may be satisfied with that; I am not. But let's get back to the issue of public health. Let's get back to the issue of public health. We need a public health revolution here in Wales. We don't have one happening at the moment, and that's why we want to see a dedicated Deputy Minister for public health on the Government benches. We think that sort of approach is one way to improve public education about the consumption of sugar.

As I was saying earlier, the volume of sugar in sugary drinks—in pop around Wales—is actually falling. Coca-Cola now sells—43 per cent of its products are actually zero-sugar products or diet products. And I think we have to reflect on this, because consumer demand is moving away from sugar-filled drinks and towards alternatives that have less sugar. [Interruption.] I won't take an intervention. Your motion today calls for a tax on sugary drinks, not just soft drinks.

Let me tell you that certain fruit juice drinks have higher sugar contents than fizzy pop. Are you wanting to tax those? Are you wanting to have additional taxes on sugary milk products? You're nodding away. So, you want to discourage people from drinking fruit drinks, fruit juices—yes? You want to discourage people from consuming something which is proven to have some health benefits and actually tax an industry that is already making significant inroads into reducing the sugar content of its drinks. I think this is entirely the wrong approach. If you think seriously that adding pennies to the cost of a can of pop in Wales is going to discourage youngsters across this country from buying the occasional Coke or the occasional Fanta or the occasional Lilt or whatever else they're buying, I think you will be very much mistaken indeed.

What we need to be doing is educating the public about choices, working with manufacturers to continue to reduce the sugar content of soft drinks in particular, but recognise that only 3 per cent of those calories that are contributed by sugar to the diet actually come from this particular source. I have to say that if you're wanting to add more tax onto a pint of beer because it contains lots of sugar, and more tax onto fruit juices, I just don't know where your policy direction is going. Because we all know you can't just keep taxing things and expect people to make the right choices. It isn't actually happening—it isn't actually happening. I think that a much better approach is to take a wider public health approach where you educate the public, where you make sure you've got public health champions in health boards, public health champions in local authorities, public health champions within the Welsh Government who consider very carefully how they engage with food and drink manufacturers and with retailers to promote the right choices rather than simply tax things all the time. That, of course, is the answer of socialism and socialist parties; it's not the answer of this party.

Oherwydd bod gwm cnoi yn llygru ein strydoedd, Peter. Efallai eich bod yn fodlon ynglŷn â hynny; nid wyf fi. Ond gadewch i ni fynd yn ôl at fater iechyd y cyhoedd. Gadewch i ni fynd yn ôl at fater iechyd y cyhoedd. Mae arnom angen chwyldro iechyd cyhoeddus yma yng Nghymru. Nid oes gennym un yn digwydd ar hyn o bryd, a dyna pam rydym am weld Dirprwy Weinidog penodol ar gyfer iechyd y cyhoedd ar feinciau'r Llywodraeth. Rydym yn credu bod ymagwedd o'r fath yn un ffordd o wella addysg y cyhoedd ynghylch y defnydd o siwgr.

Fel roeddwn yn ei ddweud yn gynharach, mae faint o siwgr a geir mewn diodydd llawn siwgr—mewn pop ledled Cymru—yn gostwng mewn gwirionedd. Mae Coca-Cola bellach yn gwerthu—mewn gwirionedd mae 43 y cant o'i gynnrych yn gynhyrchion di-siwgr neu gynhyrchion deiet. Ac rwy'n credu bod yn rhaid i ni ystyried hyn, oherwydd mae galw defnyddwyr yn symud oddi wrth ddiodydd llawn siwgr a thuag at ddewisiadau eraill sy'n cynnwys llai o siwgr. [Torri ar draws.] Nid wyf am dderbyn ymyriad. Mae eich cynnig heddiw yn galw am dreth ar ddiodydd llawn siwgr, nid diodydd meddal yn unig.

Gadewch i mi ddweud wrthydch fod rhai diodydd sudd ffrwythau yn cynnwys mwy o siwgr na phop swigod. A ydych eisiau trethu'r rheini? A ydych yn awyddus i gael trethi ychwanegol ar gynhyrchion llaeth llawn siwgr? Rydych yn ysgwyd eich pennau. Felly, rydych am annog pobl i beidio ag yfed diodydd ffrwythau, sudd ffrwythau—ydych? Rydych yn awyddus i annog pobl i beidio ag yfed rhywbeth y profwyd ei fod yn creu peth lles i iechyd a threthu diwydiant sydd eisoes yn gwneud cynnydd sylweddol i leihau cynnwys siwgr ei ddiodydd. Rwy'n credu mai dyna'r ffordd gwbl anghywir o fynd ati. Os ydych yn credu o ddifrif fod ychwanegu ceiniogau at gost can o bop yng Nghymru yn mynd i atal pobl ifanc ar draws y wlad rhag prynu'r Coke achlysurol neu ambell Fanta neu'r Lilt achlysurol neu beth bynnag arall y maent yn ei brynu, rwy'n meddwl eich bod yn gwneud camgymeriad mawr yn wir.

Yr hyn y mae angen i ni ei wneud yw addysgu'r cyhoedd ynglŷn â dewisiadau, gan weithio gyda gwneuthurwyr i barhau i ostwng y cynnwys siwgr mewn diodydd meddal yn arbennig, ond cydnabod mai 3 y cant yn unig o'r caloriau sy'n cael eu cyfrannu gan siwgr i'r deiet sy'n dod o'r ffnhonnell benodol hon mewn gwirionedd. Mae'n rhaid i mi ddweud os ydych yn awyddus i ychwanegu mwy o dreth ar beint o gwrw am ei fod yn cynnwys llawer o siwgr, a mwy o dreth ar sudd ffrwythau, nid wyf yn gwybod i ba gyfeiriad y mae eich polisi'n mynd. Oherwydd mae pawb ohonom yn gwybod na allwch ddal ati i drethu pethau a disgwyl i bobl wneud y dewisiadau cywir. Nid yw'n digwydd—nid yw hynny'n digwydd mewn gwirionedd. Rwy'n credu mai ymagwedd lawer gwell yw mabwysiadu agwedd iechyd cyhoeddus ehangach lle rydych yn addysgu'r cyhoedd, lle rydych yn gwneud yn siŵr fod gennych hyrwyddwyr iechyd cyhoeddus ar fyrddau iechyd, hyrwyddwyr iechyd y cyhoedd yn yr awdurdodau lleol, hyrwyddwyr iechyd cyhoeddus o fewn Llywodraeth Cymru sy'n ystyried yn ofalus iawn sut y maent yn ymgysylltu â chynhyrchwyr bywd a diod a manwerthwyr i hyrwyddo'r dewisiadau cywir yn hytrach na threthu pethau drwy'r amser. Dyna, wrth gwrs, yw ateb sosialaeth a phleidiau sosialaidd; nid dyna ateb y blaid hon.

16:32

**Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I support a pop tax; I think it's an eminently sensible suggestion. As the mover of the motion said, in fact the support for a tax is growing. The House of Commons select committee, which has been referred to, which was looking into childhood obesity called for us as politicians to be brave and bold. The action to tackle this included recommending a sugary drinks tax on full sugar soft drinks, and I would suggest that this would be an eminently sensible step forward along with public health education, along with all the other things that we need to do and we are already doing. But, it seems to me that this is part of that wider public health agenda, that we do have a duty—if we have the power—to take action on this particular issue.

Rwy'n cefnogi treth ar bop; rwy'n credu ei fod yn awgrym synhwyrol iawn. Fel y dywedodd y sawl a gynigiodd y cynnig, mewn gwirionedd mae'r gefnogaeth i dreth yn tyfu. Mae pwyllgor dethol Tŷ'r Cyffredin, y cyfeiriwyd ato, a oedd yn edrych ar ordewdra ymhlith plant wedi galw arnom fel gwleidyddion i fod yn ddewr ac yn feiddgar. Roedd y camau gweithredu i fynd i'r afael â hyn yn cynnwys argymhell treth ddiodydd siwgr ar ddiodydd meddal llawn siwgr, a byddwn yn awgrymu y byddai hwn yn gam synhwyrol amlwg ymlaen ynghyd ag addysg iechyd y cyhoedd, ynghyd â'r holl bethau eraill y mae angen i ni eu gwneud ac rydym yn eu gwneud yn barod. Ond mae'n ymddangos i mi fod hyn yn rhan o'r agenda iechyd cyhoeddus ehangach, fod gennym ddyletswydd—os oes gennym y pŵer—i weithredu ar y mater penodol hwn.

There have been endless petitions since 2013 calling for a tax or levy of up to 20 per cent on sugar-sweetened drinks. Of course, the most high profile was the one Elin Jones referred to, which was from Jamie Oliver and Sustain, the children's food campaign, and gained more than 150,000 signatures. All the evidence does show that a tax or levy on sugary drinks is effective and I do support it because I believe it would have the effect of putting people off buying such drinks, and there is evidence to support this from all around the world.

Cafwyd deisebau di-ben-draw ers 2013 yn galw am dreth neu ardoll o hyd at 20 y cant ar ddiodydd wedi'u melysu â siwgr. Wrth gwrs, yr un â'r proffil uchaf oedd yr un y cyfeiriai Elin Jones ati, sef yr un gan Jamie Oliver a Sustain, yr ymgyrch bwyd plant, ac mae'n cynnwys mwy na 150,000 o lofnodion. Mae'r holl dystiolaeth yn dangos bod treth neu ardoll ar ddiodydd llawn siwgr yn effeithiol ac rwy'n ei chefnogi am fy mod yn credu y byddai'n arwain at atal pobl rhag prynu diodydd o'r fath, a cheir dystiolaeth i gefnogi hyn ym mhob cwr o'r byd.

The countries that have added a tax to sugary drinks include Hungary, which has been doing this since 2011, France since 2012 and Mexico, which introduced a tax of one peso per litre on all sugary drinks. The city of Berkeley in California introduced a similar measure in January this year. In Mexico, Femsá, which is Coca-Cola's Mexican bottling company, blamed declining sales in 2014 on the price jump after the sugar tax was introduced.

Mae'r gwledydd sydd wedi ychwanegu treth ar ddiodydd llawn siwgr yn cynnwys Hwngari, sydd wedi bod yn gwneud hyn ers 2011, Ffrainc ers 2012 a Mecsico, a gyflwynodd dreth o un peso y litr ar bob diod llawn siwgr. Cyflwynodd dinas Berkeley yng Nghaliffornia fesur tebyg ym mis Ionawr eleni. Ym Mecsico, mae Femsá, sef y cwmni sy'n potelu Coca-Cola ym Mecsico, wedi beio gostyngiad yn y gwerthiant yn 2014 ar y naid yn y pris ar ôl cyflwyno'r dreth siwgr.

16:34

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Will you take an intervention, Julie?

A wneuch chi dderbyn ymyriad, Julie?

16:34

**Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Certainly.

Yn sicr.

16:34

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

You've made a very important reference there to the falling sales of soft drinks. They've actually been falling here in the UK as well, regardless of the fact that there's been no additional tax. How do you explain that? I explain it by people making wiser choices.

Fe wnaethoch gyfeiriad pwysig iawn yno at werthiant diodydd meddal yn gostwng. Maent wedi bod yn gostwng yma yn y DU hefyd mewn gwirionedd, er gwaethaf y ffaith nad chafwyd unrhyw dreth ychwanegol. Sut rydych yn esbonio hynny? Fy esboniad i yw bod pobl yn dewis yn ddoethach.

16:34

**Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I think that education is very important, and I think people are making wiser choices. But, I think they will be encouraged to make even wiser choices by putting this tax on, and I think that is reflected in the international evidence.

Rwy'n credu bod addysg yn bwysig iawn, ac rwy'n credu bod pobl yn dewis yn ddoethach. Ond rwy'n credu y byddant yn cael eu hannog i wneud dewisiadau doethach byth drwy osod y dreth hon, a chredaf fod hynny'n cael ei adlewyrchu yn y dystiolaeth ryngwladol.

A monthly manufacturing survey in Mexico found that, overall, sales of fizzy drinks fell by 1.9 per cent in 2014, whereas, in the previous three years, sales had increased by 3.2 per cent a year. There is other evidence as well. In France, where the fat tax on sugary soft drinks was introduced in 2012, the appetite for soft drinks has changed. Euromonitor International says that the soft drinks market posted slow growth in 2014, that consumers are buying more healthy soft drinks, such as drinks made with sugar substitutes, and that consumers are also buying more bottled water and juice as opposed to carbonated drinks.

I think that is a part of education and people thinking, 'How can we eat more healthily?' but there is more that we can do, and I think this is a very important step on the way. One of the other issues I wanted to take out was what Darren Millar said when he talked about 'the occasional can'. Now, if you look at the figures from the local health boards, in Cardiff and the Vale area, 21 per cent of boys and 22 per cent of girls drink sugary drinks once a day or more. And we know that it is children aged four to 10 years old who are the second biggest consumers of sugar. So, it's not occasional drinks as Darren Millar said. There is a significant number of children in the population who are actually drinking them once a day, and that is a matter of huge concern. I do think that, if we have anything in our power to stop that, we should do it.

I think schools are already doing a good job on promoting healthy eating to children, and the Change4Life sugar swap campaign is promoting tips on how to lower sugar intake. So, there are other very important things we can do. I do realise that the causes of childhood obesity are not just down to drinking pop. I think increasing the cost of sugary drinks would send the right signal to families with children and teenagers who are forming the habits of a lifetime at this point in their lives. I think it is very important that we do this, as well as making sure that children have the best start in life in relation to dentistry as well. I'll just finally end on this point about dentistry. When I first came to this Assembly and the children's committee looked at the issue with children's teeth in Wales, it was absolutely horrific what was happening at that time. I think that this would help with that a lot.

Canfu arolwg gweithgynhyrchu misol ym Mecsico fod cyfanswm gwerthiant diodydd swigod wedi gostwng 1.9 y cant yn 2014, ac yn y tair blynedd flaenorol, roedd gwerthiannau wedi cynyddu 3.2 y cant y flwyddyn. Mae yna dystiolaeth arall hefyd. Yn Ffrainc, lle y cyflwynwyd y dreth ordewdra ar ddiodydd meddal llawn siwgr yn 2012, mae'r chwant am ddiodydd meddal wedi newid. Dywed Euromonitor International fod y farchnad diodydd meddal yn dangos twf araf yn 2014, fod defnyddwyr yn prynu diodydd meddal iachach, megis diodydd a wnaed ag amnewidion siwgr, a bod defnyddwyr hefyd yn prynu mwy o ddŵr potel a sudd yn hytrach na diodydd carbonedig.

Credaf fod hynny'n rhan o addysg a phobl yn meddwl, 'Sut allwn ni fwyta'n fwy iach?' ond mae mwy y gallwn ei wneud, ac rwy'n credu bod hwn yn gam pwysig iawn ar y ffordd. Un o'r pethau eraill roeddwn i eisiau ei nodi oedd yr hyn a ddywedodd Darren Millar pan soniodd am 'y can achlysurol'. Nawr, os edrychwch ar y ffigurau gan y byrddau iechyd lleol, yn ardal Caerdydd a'r Fro, mae 21 y cant o fechgyn a 22 y cant o ferched yn yfed diodydd llawn siwgr unwaith y dydd neu'n amlach. Ac rydym yn gwybod mai plant rhwng pedair a 10 oed yw'r grŵp oedran nesaf at yr uchaf o ran y siwgr y maent yn ei fwyta. Felly, nid yw'n fater o ddiod achlysurol fel y dywedodd Darren Millar. Mae yna nifer sylweddol o blant yn y boblogaeth sy'n eu hyfed unwaith y dydd mewn gwirionedd, ac mae hwnnw'n destun pryder mawr. Pe bai gennym unrhyw bŵer i atal hynny, dylem ei wneud.

Rwy'n credu bod ysgolion eisoes yn gwneud gwaith da ar hyrwyddo bwyta'n iach i blant, ac mae'r ymgyrch ffeirio siwgr Newid am Oes yn hyrwyddo awgrymiadau ar sut i leihau faint o siwgr mae pobl yn ei fwyta. Felly, mae yna bethau eraill pwysig iawn y gallwn ei wneud. Rwy'n sylweddoli nad yfed pop yn unig sy'n achosi gordewdra ymysg plant. Rwy'n credu bod codi pris diodydd llawn siwgr yn cyfleu'r neges gywir i deuluoedd â phlant a phobl ifanc sy'n ffurfio arferion oes ar y pwynt hwn yn eu bywydau. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i ni wneud hyn, yn ogystal â gwneud yn siŵr fod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd o ran deintyddiaeth hefyd. Rwyf am gloi gyda'r pwynt hwn ynghylch deintyddiaeth. Pan ddeuthum i'r Cynulliad hwn gyntaf, roedd pwyllgor y plant yn edrych ar fater dannedd plant yng Nghymru, ac roedd yn hollol erchyll beth oedd yn digwydd ar y pryd. Rwy'n meddwl y byddai hyn yn helpu llawer gyda hynny.

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Could I thank Plaid Cymru for providing the opportunity this afternoon to talk about this important area? If we're honest, few of us get through the day without adding sugar to our daily diets. I never cease to be amazed by my ability to eat chocolate, but we are increasingly aware of the massive damage that sugar in our diets is doing to our health and to our wellbeing. You don't have to be obese to have sugar have a massive impact on your health. I think, increasingly, we understand that, in past decades, perhaps we were obsessed with fat and the contribution of fat in diets. Actually, all along, it has been sugar consumption that has been the problem. Sometimes, it's not the amount of calories that you consume but the nature of those calories that you consume that will have an effect. So, for instance, research showed, for incidence of type 2 diabetes, that an increase of an additional 150 calories to your diet increases your chance of getting type 2 diabetes by 0.1 per cent, but if those 150 calories come from a fizzy drink, that increases your chance of developing type 2 diabetes significantly. So, it is actually the type of calories that you consume that will have the impact on your health. Therefore, we will support the Plaid Cymru motion today at first reading, because, as a party, we believe in using the taxation system to tax things that are bad and using the taxation to try and promote areas that are good.

Darren Millar raised the issue of fruit juice and smoothies. Actually, I think we do need to address the issue of fruit juice and smoothies. As a parent, I'm always trying to usher my children towards the smoothie option rather than the traditional can of fizzy drink, but I was appalled to actually check out the back of that packaging to see the amount of sugar in that drink. Now, I accept that there is some additional nutritional value from gaining your calories via the fruit juice rather than the traditional Coke, but it is marginal, absolutely marginal, and I think many parents are conned by the marketing of those products as healthy products, but when you look at the sugar content— Actually, I think having a tax on those kinds of products will at least alert people to the contents of those products.

But that moves me on. A tax on sugary drinks can only be one part of our approach to tackling these issues. I agree with Darren, we do need to empower people to make healthy choices, but whilst we have a Government in Westminster that continues not to make progress on proper food labelling that is easy to understand and is accessible to people to help them enforce and make positive choices, education will be limited. As the health committee in Westminster's report also acknowledged, we have to take action on price promotions in shops and restaurants with regard to these products; we desperately need to do something, which we cannot do here because of the lack of competence, on the marketing and advertising of high-sugar products of all kinds—not just fizzy drinks—to our children. Breakfast cereals: any parent's trip down a breakfast cereal aisle in a supermarket, you will run the gauntlet of trying to prise that cartooned-clad box of cereal out of your children's hands—Darren.

A gaf fi ddiolch i Blaid Cymru am ddarparu'r cyfle y prynhawn yma i siarad am y maes pwysig hwn? Os ydym yn onest, ychydig ohonom sy'n mynd drwy'r dydd heb ychwanegu siwgr at ein deiet dyddiol. Caf fy synnu'n barhaol gan fy ngallu i fwyta siocled, ond rydym yn fwyfwy ymwybodol o'r difrod enfawr y mae siwgr yn ein deiet yn ei wneud i'n hiechyd ac i'n lles. Nid oes raid i chi fod yn ordew i siwgr effeithio'n enfawr ar eich iechyd. Yn gynyddol, rwy'n credu efallai ein bod yn deall yn y degawdau diwethaf ein bod wedi obsesu ynghylch braster a chyfraniad braster mewn deietau. A dweud y gwir, ar hyd yr amser, y defnydd o siwgr oedd y broblem. Weithiau, nid faint o galoriau a fwytwch, ond natur y galoriau a fwytwch fydd yn cael effaith. Felly, er enghraifft, dangosodd ymchwil ar achosion o ddiabetes math 2, fod cynnydd o 150 o galoriau ychwanegol at eich deiet yn arwain at gynydd o 0.1 y cant yn eich risg o gael diabetes math 2, ond os daw'r 150 o galoriau o ddiod swigod, mae'n cynyddu eich risg o ddatblygu diabetes math 2 yn sylweddol. Felly, mewn gwirionedd y math o galoriau a fwytwch sy'n mynd i effeithio ar eich iechyd. Felly, byddwn yn cefnogi cynnig Plaid Cymru heddiw ar y darlenniad cyntaf, oherwydd, fel plaid, rydym yn credu mewn defnyddio'r system drethi i drethu pethau sy'n ddrwg a defnyddio'r drethi i geisio hyrwyddo pethau sy'n dda.

Soniodd Darren Millar am sudd ffrwythau a smwddis. A dweud y gwir, rwy'n meddwl bod angen i ni fynd i'r afael â mater sudd ffrwythau a smwddis. Fel rhiant, rwyf bob amser yn ceisio annog fy mhlant i ddewis smwddi yn hytrach na'r can traddodiadol o ddiod swigod, ond roeddwn yn arswydo wrth edrych ar gefn y deunydd pacio i weld faint o siwgr sydd yn y ddiod. Nawr, rwy'n derbyn bod rhywfaint o werth maethol ychwanegol o gael eich galoriau drwy'r sudd ffrwythau yn hytrach na'r Coke traddodiadol, ond mae'n fach iawn, yn wirioneddol fach, ac rwy'n meddwl bod llawer o rieni yn cael eu twyllo gan y marchnata a wneir ar y cynhyrchion hynny fel cynnyrch iach, ond pan edrychwch ar y cynnwys siwgr—. Mewn gwirionedd, rwy'n credu y bydd trethi ar y mathau hynny o gynhyrchion yn tynnu sylw pobl at gynnwys y mathau hynny o gynnyrch.

Ond mae hynny'n fy arwain at rywbeth arall. Ni all treth ar ddiodydd llawn siwgr ond bod yn un rhan o'n dull o fynd i'r afael â'r materion hyn. Rwy'n cytuno â Darren, mae angen i ni rymuso pobl i wneud dewisiadau iach, ond tra bo gennym Lywodraeth yn San Steffan sy'n parhau i fethu â gwneud cynnydd ar labelu bwyd priodol sy'n hawdd ei ddeall ac yn hygyrch i bobl i'w helpu i orfodi a gwneud dewisiadau cadarnhaol, bydd addysg yn gyfyngedig. Fel roedd y pwyllgor iechyd yn adroddiad San Steffan hefyd yn cydnabod, mae'n rhaid i ni roi camau ar waith mewn perthynas â hyrwyddiadau prisiau mewn siopau a bwytai o ran y cynhyrchion hyn; mae gwir angen i ni wneud rhywbeth na allwn ei wneud yma oherwydd diffyg cymhwysedd, ynglŷn â marchnata a hysbysebu cynhyrchion llawn siwgr o bob math—nid diodydd swigod yn unig—i'n plant. Grawnfwydydd brewcwast: bydd unrhyw riant sy'n teithio ar hyd yr eil grawnfwyd brewcwast mewn archfarchnad yn wynebu'r her o geisio tynnu'r blwch orawnfwyd gyda chartwnau drosto o ddwylo eich plant—Darren.

- 16:41 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Do you accept that some of these products are so cheap in some of our supermarkets that even a mark-up of 20 per cent, et cetera, still makes them relatively inexpensive compared to some of the healthy options? Don't you think it's better to educate people, ensure that there's proper labelling and work with manufacturers to get this sugar content down?
- A ydych yn derbyn bod rhai o'r cynhyrchion hyn mor rhad yn rhai o'n harchfarchnadoedd fel y byddai codi'r pris 20 y cant, ac ati, hyd yn oed yn dal yn eu gwneud yn gymharol rad o gymharu â rhai o'r dewisiadau iach? Onid ydych yn meddwl y byddai'n well addysgu pobl, sicrhau bod yna labelu priodol a gweithio gyda gwneuthurwyr i ostwng y cynnwys siwgr?
- 16:41 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- We need to do all those things, but I believe we do need to consider the idea of putting a tax on those products as one part of a plethora of actions that we need to take. This, alone, will not solve our obesity problem, but we cannot let perfect be the enemy of the good, Darren. We have to take action where we can, one step at a time. So, I would like to see this tax used, as I said, as part of concerted action and a concerted campaign by this Assembly as a whole and the Welsh Government to persuade the Westminster Government to take action on marketing and advertising of high-sugar products, especially to children, as well as looking to put extra pressure on the food industry to address the sugar content and portion size of everyday foods, because whilst we see table sugar dropping in sales, actually, our sugar content is going up because of the hidden sugar in so many products that people are not aware that they're consuming.
- Mae angen i ni wneud yr holl bethau hynny, ond rwy'n credu bod angen i ni ystyried y syniad o osod treth ar y cynhyrchion hyn fel un rhan o'r llu o gamau gweithredu y mae angen i ni eu rhoi ar waith. Ni fydd hyn ar ei ben ei hun yn datrys ein problem gordewdra, ond ni allwn adael i berffeithrwydd y nod ein rhwystro rhag gwneud yr hyn sy'n dda, Darren. Rhaid i ni roi camau ar waith lle y gallwn, un cam ar y tro. Felly, hoffwn weld y dreth hon yn cael ei defnyddio, fel y dywedais, yn rhan o weithredu ar y cyd ac ymgyrch ar y cyd gan y Cynulliad hwn yn ei gyfarwydd a Llywodraeth Cymru i ddarbwyllio Llywodraeth San Steffan i weithredu ar farchnata a hysbysebu cynnyrch llawn siwgr, yn enwedig i blant, yn ogystal â cheisio rhoi pwysau ychwanegol ar y diwydiant bwyd i fynd i'r afael â'r cynnwys siwgr a maint dogn bwydydd bob dydd, oherwydd, er ein bod yn gweld gostyngiad yng ngwerthiant siwgr cyffredin, mewn gwirionedd mae ein cynnwys siwgr yn codi oherwydd y siwgr cudd sydd mewn cymaint o gynhyrchion nad yw pobl yn ymwybodol eu bod yn ei fwyta.
- 16:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I call the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.
- Galwaf ar y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.
- 16:43 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*
- Deputy Llywydd, I welcome the opportunity to respond on behalf of the Welsh Government to this debate on a sugary drinks levy. There's been, of course, much discussion, as has been said this afternoon, across the world about the impact of sugary drinks and foods on public health. It's clear that, with its proven links to obesity and diabetes, it's becoming one of the major health challenges facing many countries, including our own. The big question, of course, is how we deal with it.
- Ddirprwy Lywydd, rwy'n croesawu'r cyfle i ymateb ar ran Llywodraeth Cymru i'r ddatl hon ar ardoll ar ddiodydd llawn siwgr. Fel y dywedwyd y prynhawn yma wrth gwrs, cafwyd llawer o drafod ledled y byd am effaith diodydd a bwydydd llawn siwgr ar iechyd y cyhoedd. Gyda'i gysylltiadau â gordewdra a diabetes wedi'u profi, mae'n amlwg ei fod yn dod yn un o'r heriau iechyd mawr sy'n wynebu llawer o wledydd, gan gynnwys ein gwlad ni. Y cwestiwn mawr, wrth gwrs, yw sut rydym yn mynd i'r afael â'r her honno.
- The motion before us today proposes a taxation route via a new devolved sugary drinks levy and this is certainly one option that might be open to us, as Elin Jones is proposing. The Wales Act 2014, through which we have secured the power to create new taxes, allows us to create taxes honed to match the needs and circumstances of Wales within parameters.
- Mae'r cynnig ger ein bron heddiw yn cynnig llwybr trethiant drwy ardoll newydd ddatganoledig ar ddiodydd llawn siwgr ac mae'n sicr yn un opsiwn a allai fod yn agored i ni, fel y mae Elin Jones yn ei gynnig. Mae Deddf Cymru 2014, lle rydym wedi cael pŵer i greu trethi newydd, yn ein galluogi i greu trethi wedi'u llunio i gyd-fynd ag anghenion ac amgylchiadau Cymru o fewn paramedrau.

Importantly, the Bevan Foundation itself is currently engaged in a study seeking to identify new taxes that could be introduced successfully, looking at how behaviour might be influenced by new taxes. Attending their seminar recently, there was a lively discussion about the impact that a sugar tax could have, and they are securing opinions from a cross-section of Welsh life, which is a very helpful, valuable exercise. One of the issues raised at the event was whether or not we could use our new tax powers to encourage healthier lifestyles. The Welsh Government is clearly committed to reducing sugar in people's diets. The Minister for Health and Social Services has already written to the Secretary of State for Health calling on the UK Government to do more to help promote healthier diets within the powers that they have available to them. Of course, this is a challenge where action must be joined up.

But new taxation powers do enable us to do things differently in Wales. Where the case is strong, and there is a strong case, in principle, for developing proposals in relation to a levy on sugary drinks, as the motion suggests. So, the Government does support the motion.

However, I've made no secret of the fact that—this is the important point to make—I've made no secret of the fact that the criteria for evaluating new tax proposals are particularly challenging. Any new tax or levy has to receive the most meticulous of examinations. We have a responsibility, of course, to the communities and businesses of Wales to think through the implications in full. That work needs to be completed to understand the impacts that a new tax might have: how it would be administered and how it would work in Wales, given our porous borders with England. Julie Morgan also drew attention to the other countries, like Hungary, Mexico, France and Denmark, where they've introduced similar taxes or levies to encourage healthier diets. Clearly, we need to draw on the evidence from those countries in terms of how they developed the proposals and then implemented them. So, it's not going to be a straightforward process, I believe, with any new taxes that might be proposed as the result of our new powers. Also, of course, we have to remember that any new proposal has to be agreed with HM Treasury, before seeking formal parliamentary approval and approval in the Assembly—so, quite a few hurdles to go through.

Yn bwysig iawn, mae Sefydliad Bevan ei hun ar hyn o bryd yn cynnal astudiaeth i geisio nodi trethi newydd y gellid eu cyflwyno'n llwyddiannus, gan edrych ar sut y gallai trethi newydd ddylanwadu ar ymddygiad. Pan fynychais eu seminar yn ddiweddar, cafwyd trafodaeth fywiog am effaith bosibl treth siwgr, ac maent yn gofyn am farn croestoriad o fywyd Cymru, sy'n ymarfer defnyddiol a gwerthfawr iawn. Un o'r materion a godwyd yn y digwyddiad oedd a allem ddefnyddio ein pwerau treth newydd i annog ffyrdd iachach o fyw. Mae Llywodraeth Cymru yn amlwg yn ymrwymedig i leihau siwgr yn neiet pobl. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol eisoes wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros lechyd yn galw ar Lywodraeth y DU i wneud mwy i helpu i hyrwyddo deiet iachach o fewn y pwerau sydd ganddynt at eu defnydd. Wrth gwrs, mae hon yn her lle y bydd yn rhaid cydgysylltu camau gweithredu.

Ond mae pwerau trethu newydd yn ein galluogi i wneud pethau'n wahanol yng Nghymru. Os yw'r achos yn gryf, ac mae yna achos cryf, mewn egwyddor, dros ddatblygu cynigion mewn perthynas ag ardoll ar ddiodydd llawn siwgr, fel yr awgryma'r cynnig. Felly, mae'r Llywodraeth yn cefnogi'r cynnig.

Fodd bynnag, nid yw'n gyfrinach—a dyma'r pwynt pwysig i'w wneud—nid yw'n gyfrinach fod y meini prawf ar gyfer gwerthuso cynigion treth newydd yn arbennig o heriol. Bydd yn rhaid archwilio unrhyw dreth neu ardoll newydd yn gwbl drwyadl. Mae gennym gyfrifoldeb, wrth gwrs, i gymunedau a busnesau Cymru i feddwl drwy'r goblygiadau yn llawn. Mae angen cwblhau'r gwaith hwnnw er mwyn deall effeithiau posibl treth newydd: sut y byddai'n cael ei gweinyddu a sut y byddai'n gweithio yng Nghymru, o ystyried ein ffiniau bylchog â Lloegr. Tynnodd Julie Morgan sylw hefyd at wledydd eraill, fel Hwngari, Mecsico, Ffrainc a Denmarc, lle y maent wedi cyflwyno trethi neu ardollau tebyg i annog deiet iachach. Yn amlwg, mae angen i ni bwyso ar y dystiolaeth o'r gwledydd hynny o ran sut y maent wedi mynd ati i ddatblygu'r argymhellion a'u rhoi ar waith. Felly, nid yw'n mynd i fod yn broses syml yn fy marn i, gydag unrhyw drethi newydd a allai gael eu cynnig o ganlyniad i'n pwerau newydd. Hefyd, wrth gwrs, mae'n rhaid i ni gofio y bydd yn rhaid cael cytundeb Trysorlys EM ar unrhyw gynnig newydd, cyn ceisio cymeradwyaeth seneddol ffurfiol a chymeradwyaeth yn y Cynulliad—felly, mae yna gryn dipyn o rwystrau i'w goresgyn.

I think it is important—many people have said this afternoon that taxation is only one of the policy tools open to us to tackle the problem of sugary drinks. We've already got a wide range of measures in place to support and encourage healthy diets and healthy, more active living. It's important to just record those again: the all-Wales obesity pathway, a framework for the services and support provided by health boards, working with local government and other partners; the work being taken forward by Public Health Wales in developing its 10-step programme to address childhood obesity, and that's focusing on how parents can adopt healthy habits with their children at an early stage; Let's Walk Cymru, walking projects targeted at inactive adults—it's not just children; the national exercise referral scheme, targeting clients who are developing or have developed a chronic condition; Change4Life Wales; and Healthy Working Wales. And, of course, we've talked about education quite a bit this afternoon—the Welsh network of healthy school schemes are particularly important in encouraging the development of local healthy schools schemes.

I think this illustrates the high importance the Welsh Government ascribes to addressing this issue. Working with our partners, we're heavily committed to reducing adverse public health impacts of unhealthy living, and, on that basis, I oppose the amendment to the motion. But I think the impact and the effect of sugary drinks and other unhealthy foodstuffs in Wales cannot be ignored, and, as Kirsty said, in principle the Welsh Government recognises that a sugary drinks levy could add to the armoury of initiatives being used to tackle this issue, but it's all too clear that there are practical difficulties that would need to be thoroughly investigated beforehand. So, I do urge Members to support the motion, recognising that much further work is needed in advance of the consideration of the introduction of a new tax.

Rwy'n credu ei fod yn bwysig—mae llawer o bobl wedi dweud y prynhawn yma mai un arf yn unig o'r arfau polisi sy'n agored i ni i fynd i'r afael â phroblem diodydd llawn siwgr yw trethiant. Mae gennym eisoes ystod eang o fesurau ar waith i gefnogi ac annog deiet iach a byw'n iach a gwneud mwy o ymarfer corff. Mae'n bwysig cofnodi'r rhain eto: Llwybr Gordewdra Cymru gyfan, fframwaith ar gyfer y gwasanaethau a'r gefnogaeth a ddarperir gan fyrdau iechyd, gan weithio gyda llywodraeth leol a phartneriaid eraill; y gwaith sy'n cael ei ddatblygu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ddatblygu ei raglen 10 cam i fynd i'r afael â gordewdra ymhlith plant, ac mae honno'n canolbwyntio ar sut y gall rhieni fabwysiadu arferion iach gyda'u plant ar oedran cynnar; Dewch i Gerdded Cymru, prosiectau wedi'u targedu at oedolion anweithgar—nid plant yn unig; y cynllun cenedlaethol i atgyfeirio pobl i wneud ymarfer corff, sy'n targedu cleientiaid sy'n datblygu neu sydd wedi datblygu cyflwr cronig; Newid am Oes Cymru; a Cymru Iach ar Waith. Ac wrth gwrs, rydym wedi siarad cryn dipyn am addysg y prynhawn yma—mae rhwydwaith Cymru o gynlluniau ysgolion iach yn arbennig o bwysig ar gyfer annog datblygiad cynlluniau ysgolion iach lleol.

Rwy'n credu bod hyn yn dangos y pwyslais y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar fynd i'r afael â'r mater hwn. Gan weithio gyda'n partneriaid, rydym yn ymrwymedig iawn i leihau effeithiau patrymau byw afiach ar iechyd y cyhoedd, ac ar sail hynny, rwy'n gwrthwynebu'r gwelliant i'r cynnig. Ond rwy'n credu na ellir anwybyddu effaith diodydd llawn siwgr a bwydydd afiach eraill yng Nghymru, ac fel y dywedodd Kirsty, mewn egwyddor mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai ardoll ar ddiodydd llawn siwgr ychwanegu at yr arfogaeth o frentrau sy'n cael eu defnyddio i fynd i'r afael â'r mater hwn, ond mae'n amlwg iawn fod yna anawsterau ymarferol y byddai angen eu hymchwilio'n drylwyr ymlaen llaw. Felly, rwy'n annog yr Aelodau i gefnogi'r cynnig, gan gydnabod bod angen gwneud llawer o waith pellach cyn ystyried cyflwyno treth newydd.

16:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Elin Jones to reply to the debate.

Galwaf ar Elin Jones i ymateb i'r ddatl.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:48 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n arbennig o falch o'r gefnogaeth sydd wedi dod o sawl cyfeiriad yn ystod y ddatl yma'r prynhawn yma i symud ar gamau i gyflwyno treth diodydd melys yma yng Nghymru. Roedd Darren Millar yn llais unig iawn, os caf i ddweud, y prynhawn yma. Efallai ei fod e hefyd wedi yfed gormod o bop cyn dod i mewn i'r Siambr yma, rwy'n meddwl, achos roedd yna dipyn o 'fizz' yna. Os caf i ddweud wrth Darren Millar, mae'r dystiolaeth yn dangos yn gyson os ydych chi'n cyflwyno treth ar nwyddau, yna fe fydd yna leihad yn y defnydd a'r pryniant o'r nwyddau hynny. Mae gennym ni brofiad uniongyrchol fan hyn. Cofiwch mai ni a gyflwynodd yn y Cynulliad yma y lefi 5c ar fagiâu plastig ac edrychwch beth ddigwyddodd i ddefnydd bagiau plastig.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm particularly pleased about the support expressed from many directions during this debate this afternoon to take steps to introduce a sugary drinks levy here in Wales. Darren Millar was a very lonely voice, if I may say so, this afternoon. Perhaps he had too much pop to drink before coming into the Chamber, I think, because there was quite some fizz in his contribution. If I can tell Darren Millar, the evidence regularly shows that if you introduce a tax on goods, then there will be a reduction in the use and purchasing of those goods. We have direct experience here. Do bear in mind that we in this Assembly introduced the 5p levy on plastic bags and just look what happened to the use of plastic bags.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:49 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. I am grateful to the Member taking the intervention. Do you accept, though, that without a tax, there has already been a significant reduction in the amount of sugar in the soft drinks here in Wales being consumed and that, actually, the manufacturers themselves are already taking concerted action and that the sales of sugar-free alternatives have increased, while the sugar-filled alternatives are going down?

Diolch. Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am dderbyn yr ymyriad. A ydych yn derbyn, fodd bynnag, fod gostyngiad sylweddol wedi bod o ran faint o siwgr a geir yn y diodydd ysgafn a yfir yma yng Nghymru a bod y gwneuthurwyr eu hunain mewn gwirionedd eisoes yn gweithredu'n gyfunol a bod gwerthiant dewisiadau eraill di-siwgr wedi cynyddu, tra bod gwerthiant dewisiadau amgen llawn siwgr yn gostwng?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:49 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There's been nowhere near enough action taken by the manufacturers, or, if I may say so, by the UK Government in addressing these issues.

Ni wnaed agos digon gan y gwneuthurwyr, na chan Lywodraeth y DU os caf ddweud hynny, i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Yr wyf i yn derbyn beth y mae pawb—a Darren hefyd—wedi ei ddweud: taw dim ond un arf i daclo gordewdra yw treth ar bop. Os caf ddweud, Darren, mae'n llawer mwy tebygol o fod yn llwyddiannus yn taclo gordewdra na beth y byddai creu Dirprwy Weinidog yn gyfrifol am iechyd y cyhoedd.

I do accept what everyone, including Darren, has said: that the pop tax is just one tool to tackle obesity. But, if I may say, Darren, it is far more likely to be successful in tackling obesity than creating a Deputy Minister with responsibility for public health would be.

Diolchaf i Julie Morgan ac i Kirsty Williams am eu cyfraniadau nhw. Mae nifer o gwestiynau wedi cael eu codi yn ystod y ddaol ynglŷn â pha ddiodydd melys yn union a fyddai'n cael eu trethu, ac a fyddai sudd ffrwythau'n cael ei gynnwys. Mae codi'r cwestiynau yna nawr yn dangos pam mae ishe dechrau ar y gwaith o baratoi ac ymgynghori er mwyn cael y dreth briodol i'w chyflwyno yma yng Nghymru. Dyna pam mae angen dechrau ar y gwaith yma. Felly, mae'n wych gwybod, y prynhawn yma, ei bod yn debygol iawn y bydd y Cynulliad yma—mwyafrif o bobl y Cynulliad yma—yn pleidleisio i roi cychwyn ar y gwaith o gyflwyno treth ar bop, a threth ar ddiodydd melys, yma yng Nghymru, ac y cawn ni, unwaith eto fel Cynulliad, arwain y gad ar hyn. Diolch.

I'd like to thank Julie Morgan and Kirsty Williams for their contributions. A number of questions have been raised during the debate as to exactly which sugary drinks should be taxed, and whether fruit juice should be included. Raising those questions now demonstrates why we need to start the preparatory work and the consultation in order to get the appropriate tax in place here in Wales. That is why we need to commence this work. Therefore, it's excellent to know that, this afternoon, it's very likely that this Assembly—the majority of Members in this Assembly—will vote to actually start that work of introducing a tax on pop, and a levy on sugary drinks, here in Wales, and that we, as an Assembly, can once again be in the vanguard on this. Thank you.

16:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I will defer voting until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohirio y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## 6. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Addysg mewn Ysgolion

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 3 a 4 yn enw Elin Jones, a gwelliannau 2 a 5 yn enw Paul Davies. Os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliannau 3 a 4 yn cael eu dad-ddethol.*

## 6. Welsh Liberal Democrats Debate: Education in Schools

*The following amendments have been selected: amendments 1, 3 and 4 in the name of Elin Jones, and amendments 2 and 5 in the name of Paul Davies. If amendment 2 is agreed, amendments 3 and 4 will be deselected.*

16:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 6, dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar addysg mewn ysgolion. Galwaf ar Aled Roberts i wneud y cynnig.

Item 6, the Welsh Liberal Democrat debate on education in schools. I call on Aled Roberts to move the motion.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Cynnig NDM5906 Aled Roberts

Motion NDM5906 Aled Roberts

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:



1. Yn gresynu at y ffaith bod Cymru yn llusgo ar ôl gweddill y DU o ran canlyniadau addysgol, yn enwedig ym meysydd allweddol darllen, mathemateg a gwyddoniaeth;

2. Yn credu y dylai polisiâu addysgol helpu i feithrin arweinyddiaeth a llywodraethiant cryf, addysgu rhagorol, dyheadau uchel a chyfleoedd i arloesi;

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i rymuso athrawon ac arweinwyr ysgolion sydd wedi dangos gallu ac arloesedd â'r rhyddid i ragori drwy:

a) lleihau maint dosbarthiadau babanod i 25 i roi mwy i amser i athrawon ymgymryd â gwaith dysgu gyda disgyblion unigol;

b) cyflwyno rhaglen penaethiaid dawnus i annog arweinwyr i ddefnyddio eu harbenigedd i gefnogi ysgolion sy'n tanberfformio;

c) sicrhau bod athrawon yn cael amser wedi'i ddiogelu i ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus;

d) cyflwyno cynrychiolaeth etholedig o gyfoedion o'r proffesiwn addysgu i'r Cyngor Gweithlu Addysg i sicrhau atebolrwydd gwirioneddol; ac

e) cyflwyno system o fonitro disgyblion unigol, fel y gall athrawon ganolbwyntio ar brofiadau, cyflawniadau a deilliannau disgyblion unigol.

*Cynigiwyd y cynnig.*

1. Regrets that Wales lags behind the rest of the UK in educational outcomes, particularly in key areas of reading, mathematics and science.

2. Believes that educational policies should help foster strong leadership and governance, excellent teaching, high aspirations and opportunities to innovate.

3. Calls on the Welsh Government to empower teachers and school leaders who have shown capacity and innovation with the freedom to excel, by:

a) reducing infant class sizes to 25 to give teachers more time for individual learning with pupils;

b) introducing a talented headteachers programme to encourage top leaders to use their expertise to support underperforming schools;

c) ensuring that teachers are given protected time to undertake continuous professional development;

d) introducing elected representation of peers from the teaching profession to the Education Workforce Council to ensure proper accountability; and

e) introducing a system of individual pupil monitoring, so that teachers can focus on the experiences, achievements and outcomes for individual pupils.

*Motion moved.*

16:51

## **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch o'r cyfle i gael cyfle i gael cyflwyno'r cynnig hwn heddiw, sy'n canolbwyntio ar y rôl hanfodol y mae athrawon yn ei chwarae fel adnodd pwysicaf ein hysgolion.

Mae tystiolaeth o bob cwr o'r byd yn dangos yn gyson mai ansawdd y dysgu o fewn ein hysgolion yw'r ffactor pwysicaf o ran cyrhaeddiad. Gall athro rhagorol drawsnewid bywyd plentyn o fewn y dosbarth. Rŷm ni'n cydnabod pa mor galed y mae athrawon yn gweithio yn ein hysgolion a chredwn fod angen rhoi mwy o ryddid ac annibyniaeth i'n gweithwyr proffesiynol ar y rheng flaen. Rhaid i ni ganiatáu i'n hathrawon ac arweinwyr ysgolion y cyfle i ragori er mwyn i ni allu canolbwyntio adnoddau ar yr ysgolion sydd fwyaf angen cymorth. Ond, mae'n rhaid i ni gydnabod bod yn rhaid cael cydbwysedd rhwng y pwysau gwaith y mae athrawon yn ei deimlo er mwyn sicrhau bod athrawon yn cael digon o amser i gael y gorau allan o bob disgybl.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I am pleased to have the opportunity to move this motion today, which focuses on the vital role that teachers play as the most important resource for our schools.

Evidence from every part of the world shows consistently that the quality of teaching within our schools is the most important factor in terms of attainment. An excellent teacher can transform the life of a pupil within the classroom. We recognise how hard teachers work in our schools and we believe that we need to give more freedom and independence to our professionals on the front line. We have to allow our teachers and school leaders to have the opportunity to excel in order for us to be able to focus our resources on the schools that are most in need of assistance. However, we have to acknowledge that there must be a balance between the work pressures that teachers feel in order to ensure that teachers have enough time to get the best out of every pupil.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Er gwaethaf gwaith caled ac ymroddiad athrawon, mae plant Cymru yn cael cam gan ein Llywodraeth. Mae record Llywodraeth Lafur Cymru yn siarad drosti ei hun. Nid yw'r tangyflawni o ran cyrhaeddiad oherwydd bod ein myfyrwyr yn llai abl, na'n hathrawon yn llai ymroddedig. Roedd canlyniadau PISA yn 2012 yn dangos bod Cymru wedi gostwng o safle 40 i safle 43 allan o 65 gwlad mewn mathemateg, ac yr oedd gostyngiadau tebyg mewn darllen a gwyddoniaeth. Mae'r Gweinidog addysg erbyn hyn, wrth gwrs, wedi dileu targed y Llywodraeth bod Cymru ymysg yr 20 gwlad uchaf yn PISA yn y dyfodol.

Roedd adroddiad 'Cyflwr y Genedl' 2014 yn dangos bod bron i dri chwarter y plant sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn methu cyrraedd pump TGAU o ansawdd da. Mae'n amser inni, felly, gyflwyno syniadau newydd, ffres ar gyfer Cymru. Un o'r syniadau newydd hynny, wrth gwrs, yw'r grant amddifadedd a gyflwynwyd gennym ni fel plaid. Rydym yn falch ein bod wedi sicrhau dros £282 miliwn ar gyfer y grant hwn i helpu'n ysgolion i fynd i'r afael ag anfantais a chau'r bwch perfformiad rhwng plant o gefndiroedd difreintiedig. Ond, wrth gwrs, mae'n rhaid inni werthuso'r syniadau newydd yma, ac er bod adroddiad gwerthuso'r ail flwyddyn, a gyhoeddwyd wythnos diwethaf, yn eithaf positif, mae'n glir bod yn rhaid bod yn amyneddgar o ran effaith rhai o'r rhaglenni newydd yma. Ond mae'n rhaid inni gael ystod eang o syniadau. Dyna pam mae rhan gyntaf ein cynnig heddiw yn galw am ostyngiad ym maint dosbarthiadau i 25 o ddisgyblion, fel bod plant yn cael y sylw unigol y mae ei angen arnynt er mwyn iddyn nhw gyrraedd eu potensial.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae maint dosbarthiadau yng Nghymru wedi bod yn cynyddu, gyda nifer cynyddol o'n dosbarthiadau efo mwy na 30 o blant ynddynt. Yn 2015, roedd 7,835 o ddisgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o fwy na 30, o'i gymharu â 6,969 yn 2013. Roedd mwy na 30 o blant mewn 246 o ddsbarthiadau yn 2015, o gymharu â 218 yn 2013. Yn y cyfamser, mae dros 71,700 o blant o fewn dosbarthiadau ein hysgolion babanod yng Nghymru yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o 25 neu fwy, sef 59 y cant o'r holl ddisgyblion. Mae'r ffigurau hyn yn bwysig oherwydd mae plant yn elwa o gael eu dysgu mewn grwpiau llai lle maent yn derbyn mwy o sylw. Mae NUT Cymru wedi cydnabod hyn yr wythnos yma gan ddweud:

'Infant class sizes have been slowly but steadily increasing over a number of years. This has a major impact on teachers' workload and their ability to spend valuable quality time with their pupils. It has a direct impact on attainment levels. Creating a cap of 25 pupils is undoubtedly a proposal that would be well achieved by the teaching profession across Wales.'

Despite the hard work and the commitment of teachers, the pupils of Wales are suffering because of our Government. The record of the Welsh Labour Government speaks for itself. The underperformance in terms of attainment is not because our students are less able, or that our teachers are less committed. The Programme for International Student Assessment results in 2012 showed that Wales's position had fallen from 40 to 43 out of 65 countries in respect of maths, and there were similar relegations in terms of reading and science. The Minister for education by now, of course, has abolished the Government's target that Wales should be among the top 20 countries in PISA in the future.

The 'State of the Nation' report 2014 showed that nearly three quarters of the children eligible for free school meals failed to get five GCSEs of good quality. It is time, therefore, to introduce new, fresh ideas for Wales. One of those new ideas, of course, is the pupil deprivation grant, which was introduced by our party. We are pleased that we have been able to secure more than £282 million for that grant to help our schools to tackle disadvantage and to close the performance gap between children from underprivileged backgrounds. But, of course, we need to evaluate these new ideas, and even though the evaluation report of the second year, which was produced last week, was quite positive, it is clear that we need to be patient in terms of the impact of some of these new programmes. But we must have a broad range of ideas. That's why the first part of our motion today calls for a reduction in class sizes to 25 pupils so that children have the individual attention that they need in order for them to reach their potential.

Over the past few years, class sizes in Wales have been increasing, with an increasing number of our classes with more than 30 pupils in them. In 2015, there were 7,835 pupils being taught in classes of more than 30 pupils, compared with 6,969 in 2013. There were more than 30 children in 246 classes in 2015, compared with 218 in 2013. In the meantime, more than 71,700 children in classrooms in our infant schools in Wales are taught in classes of 25 or more, namely 59 per cent of all pupils. These figures are important, because children benefit from being taught in smaller groups where they receive more attention. NUT Wales has recognised this this year, saying:

'Infant class sizes have been slowly but steadily increasing over a number of years. This has a major impact on teachers' workload and their ability to spend valuable quality time with their pupils. It has a direct impact on attainment levels. Creating a cap of 25 pupils is undoubtedly a proposal that would be well achieved by the teaching profession across Wales.'

Fe ddylem gydnabod y berthynas bwysig rhwng disgybl ac athro, ac mae dosbarthiadau llai yn caniatáu i'r berthynas ffynnu. Hefyd, mae'n galluogi'r athro neu'r athrawes i roi mwy o sylw i faterion megis anghenion arbennig, arddull dysgu ac ymddygiad y plentyn. Ceir tystiolaeth gadarn i gefnogi dosbarthiadau llai o fewn astudiaethau megis astudiaeth prosiect seren yn Tennessee yn yr Unol Daleithiau, a hefyd ym mhrosiect ar faint dosbarthiadau yn Lloegr, a oedd yn astudio cyrhaeddiad ymysg 10,000 o blant ysgolion cynradd. Mae'r adroddiad yna yn dangos bod cyrhaeddiad o fewn llythrennedd a mathemateg yn gwella yn ystod hyd yn oed y flwyddyn gyntaf lle mae'r dosbarthiadau yn llai.

Yn fwy diweddar, yn 2014, roedd crynodeb ymchwil gan David Zyngier, a wnaeth adolygu 112 o astudiaethau, yn dangos bod mwyafrif llethol o'r astudiaethau hyn efo effaith sylweddol ar gyflawniad myfyrwyr, ac ar leihau'r bwllch cyrhaeddiad. Mae Zyngier yn nodi:

'Noticeably, of the papers included in this review, only three authors supported the notion that smaller class sizes did not produce better outcomes to justify the expenditure.'

Ac yn y gorffennol, os awn ni nôl i adroddiad Estyn yn 2003, roedd yr adroddiad yna yn mynegi:

mae trafodaethau gyda phenaethiaid a staff eraill yn ystod ein hymweliadau ag ysgolion yn awgrymu bod gweld lleihau maint dosbarthiadau i'r rhai sy'n is na 30 o ddisgyblion ar draws y cyfnod cynradd yn hanfodol.

Canfu arolwg gennym fel Democratiaid Rhyddfrydol yn 2003, ar effaith y grant amddifadedd, fod 39 y cant o'n hysgolion yn rhestru staffio fel y prif fater. Mae'r consensws clir ymhlith athrawon, felly, a rhieni, yn ogystal â'r dystiolaeth yma, yn cefnogi'r farn hon dros leihau maint dosbarthiadau, a'r manteision o ran addysgu drwy'r polisi hwn. Mae'n amser inni roi mwy o amser er mwyn i athrawon allu canolbwyntio ar eu disgyblion yn ogystal â rhoi mwy o amser iddynt gynllunio a marcio gwaith, sydd, yn ei dro, o bosib yn lleihau'r straen ymhlith athrawon a thrwy hynny'n gwella cyfraddau cadw athrawon.

Mae'n amlwg bod hyn yn flaenoriaeth ar gyfer rhieni a disgyblion, ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gefnogi ein cynnig ac edrychwn ymlaen at glywed barn y pleidiau eraill yn ystod y ddatl hon heddiw.

We should recognise the important relationship between the pupil and the teacher, and smaller classes allow that relationship to prosper. It also allows the teacher to give more attention to issues such as special needs, teaching style and behavioural issues. There is robust evidence to support smaller classrooms within studies such as the STAR project study in Tennessee in the USA, and also in a project on classroom sizes in England, which studied attainment among 10,000 primary school children. That report shows that attainment within numeracy and literacy improves, even in the first year, where the classrooms are smaller.

More recently, in 2014, a summary of research by David Zyngier, who reviewed 112 studies, shows that the vast majority of these studies have a significant impact on pupil attainment and close the attainment gap. Zana notes:

'Noticeably, of the papers included in this review, only three authors supported the notion that smaller class sizes did not produce better outcomes to justify the expenditure.'

And in the past, if we go back to the Estyn report in 2003, that report says:

discussions with headteachers and other staff during our school visits suggest that a reduction in class sizes to fewer than 30 pupils across the primary stage is crucial.

A survey by the Liberal Democrats in 2003 on the impact of the pupil deprivation grant shows that 39 per cent of our schools list staffing as the main issue. The clear consensus among teachers and parents, therefore, as well as this evidence, supports this view for reducing class sizes and the benefits for learning through this policy. It's time for us to give more time in order for teachers to be able to focus on their pupils, as well as giving more time for them to plan and to mark their pupils' work, which in turn, possibly, will reduce stress among the teaching workforce and improve retention rates.

This is obviously a priority for parents and pupils, and we encourage the Welsh Government to support our motion. I look forward to hearing the opinion of the other parties during this debate today.

16:58

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf wedi dethol y pum gwelliant i'r cynnig. Os derbynnir gwelliant 2, caiff gwelliannau 3 a 4 eu dad-ddethol. Galwaf ar Simon Thomas i gynnig gwelliannau 1, 3 a 4, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Yn credu mai buddsoddi mewn addysg gynnar yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gynyddu cyrhaeddiad addysgol.*

I have selected the five amendments to the motion. If amendment 2 is agreed, amendments 3 and 4 will be deselected. I call on Simon Thomas to move amendments 1, 3 and 4, tabled in the name of Elin Jones.

*Amendment 1—Elin Jones*

*Insert as new point 2 and renumber accordingly:*

*Believes that investing in early education is the most effective way of raising educational attainment.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Gwelliant 3—Elin Jones

*Ym mhwynt 3, dileu is-bwynt a).*

Gwelliant 4—Elin Jones

*Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:*

*cyflwyno datblygu proffesiynol parhaus gorfodol i athrawon.*

*Cynigiwyd gwelliannau 1, 3 a 4.*

Amendment 3—Elin Jones

*In point 3, delete sub-point a).*

Amendment 4—Elin Jones

*Add as new sub-point at end of point 3:*

*introducing compulsory continuous professional development for teachers.*

*Amendments 1, 3 and 4 moved.*

16:59

## Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yn sicr, mae'n briodol iawn drannoeth ddiwrnod y gyllideb ein bod ni'n trafod fan hyn yn y Cynulliad ym mha ffordd yr ydym i ddefnyddio'r buddsoddiad yn addysg ein plant yn y ffordd fwyaf effeithiol i fynd i'r afael ag un o'r problemau sydd yn wynebu'r system addysg yng Nghymru, sef y bwlch o hyd rhwng y plant mwyaf difreintiedig a'r plant mwyaf breintiedig a chyrhaeddiad y gwahanol garfannau o'r plant hynny—a chodi safonau yn gyffredinol hefyd—a gwneud hynny, wrth gwrs, yn wyneb y ffaith bod gennym ar y gorwel gwricwlwm gwbl newydd, system ddysgu gwbl newydd, ac wrth gwrs hyfforddiant ar gyfer athrawon a fydd yn gwbl newydd.

Nid wyf yn anghytuno â'r hyn sydd yn y cynnig, ac rwy'n anghytuno hyd yn oed yn llai â'r hyn a ddywedwyd gan Aled Roberts yn ei gyflwyniad. Rwyf i o'r farn, ac mae Plaid Cymru o'r farn, mai buddsoddi mewn addysg blynyddoedd cynnar yw'r ffordd fwyaf effeithiol o godi cyrhaeddiad ar draws y bwrdd yng Nghymru, a dyna pam rŷm ni o'r farn y dylid rhoi hawl i bob un plentyn o dair blwydd oed i fynychu addysg amser llawn yng Nghymru ymhen degawd.

Mae addysg o ansawdd yn ystod y blynyddoedd cynnar yn arbennig o lwyddiannus wrth fynd i'r afael ag addysg a safonau ymysg plant o gefndiroedd difreintiedig ac wrth fynd i'r afael â'r cyswilt yna rhwng tloedi a chyrhaeddiad gwael yng Nghymru. Mae hefyd yn codi sgiliau deallusol pob plentyn, yn ogystal â'u sgiliau cymdeithasol ac emosiynol nhw. Mae hefyd yn ffordd dda o adnabod anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar, a pharatoi ac ymyrryd yn gynnar gyda'r plentyn er budd y plentyn, ond er budd y pwrs cyhoeddus hefyd, achos, drwy hynny, mae gwariant ataliol yn dod i mewn i'r effaith ac rŷm ni'n gweld buddion drwy fywyd y plentyn.

Mae addysg yn y blynyddoedd cynnar yn dangos buddion i'r plentyn fel y mae'n troi yn oedolyn, ac mae oedolion sydd yn derbyn addysg yn y blynyddoedd cynnar o ansawdd yn fwy tebygol o ennill a chadw swyddi gwell sy'n talu yn well, yn llai tebygol o ddioddef iechyd gwael—rŷm ni newydd drafod rôl addysg o ran diodydd llawn siwgr, er enghraifft; wel, y mwyaf o addysg sydd gennych chi, y mwyaf y byddwch yn deall beth yr ydych chi'n ei fwyta—ac yn llai tebygol o fod yn ymwneud â throseddau yn ogystal. Rwy'n cytuno yn benodol â geiriau cyntaf Aled Roberts, rwy'n meddwl: ansawdd y dysgu a'r addysgu, ac ansawdd yr arweinydd yn yr ysgol, yw'r elfen fwyaf pwysig sy'n effeithio ar safonau yn y dosbarth.

Certainly, it is very appropriate that, the day after our discussion on the budget, we should today be discussing how we use the investment in our children's education in the most effective way to tackle one of the problems facing the education system in Wales, namely the attainment gap between the most disadvantaged children and the others, and the attainment between those different cohorts—and the need to raise standards generally—and to do that, of course, in light of the fact that we have on the horizon an entirely new curriculum, an entirely new teaching system and, of course, new teacher training.

I wouldn't disagree with what's contained within the motion, and I would disagree even less with what was said by Aled Roberts during his opening remarks. I'm of the view, and Plaid Cymru is of the view, that investment in early years education is the most effective way of raising educational attainment across the board in Wales, and that's why we're of the opinion that every child from the age of three should have the right to attend full-time education in Wales within a decade.

High-quality education during the early years is particularly successful in tackling educational standards in terms of children from deprived backgrounds and in tackling the link between poverty and poor attainment in Wales. It also enhances the intellectual skills of all children, as well as their social and emotional skills. It's also a good way to identify additional learning needs at an early stage, and to prepare and intervene at an early stage for the benefit of that child, but also for the benefit of the public purse, because, in so doing, preventative spending comes into effect and we see benefits throughout that child's life.

Early years education does show benefits for a child as that child becomes an adult, and adults who have received high-quality education in their early years are more likely to gain and retain better paid employment, are less likely to suffer ill health—we've just discussed the role of education in relation to sugary drinks, for example; well, the more education you get, the more you'll understand what you consume—and are less likely to become involved in crime. I agree specifically with Aled Roberts's first words, I think: the quality of teaching and education and leadership in our schools is the most important element that impacts upon standards in our classrooms.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

So, Plaid Cymru is very clear that we should trust teachers to teach, trust school leaders to lead and build an overall system and curriculum that reflects those values. We don't, in a sense, oppose what the Liberal Democrats have set out today, although I do think—and it's one of the reasons why we've brought forward a couple of amendments—that a particular reference to numbers at this stage in nursery, which is a particular reference in the motion, is not the priority that Plaid Cymru wants to put at the moment.

Aled Roberts mentioned international studies, and there are many of them, but it's also clear from those international studies that it's the quality of training of the teachers that is more important—not to say class sizes aren't important, but this is more important—than the actual size of class, within reason, of course. We're talking here about numbers around 25 to 30, with 30 being the operative number that Estyn looked at over 10 years ago now. They were only looking in the Welsh context; I think we do need to look internationally here. We also need to bear in mind that our curriculum will be changing so enormously that we will be having different class sizes at different times of the day, with different involvement at different age groups, because that's the implication of what the Donaldson review is setting out.

So, within that, we really need to focus, I think, on professionalising our education workforce, making continuous professional development, in effect, a mandatory part of being a teacher, so that you're only fit to practice if you've kept up with those developments—much the same as it is for other professions such as doctors and lawyers—and, increasingly, putting a great deal of respect into our teaching profession in terms of the continuous professional development they get and the way we treat them as a society. The fact that so many of our teachers do not receive CPD at the moment, including, of course, a lot of our supply teachers, who are, in effect, the people teaching some of these classes, does have a detrimental effect on standards in our schools.

The final point that I think we need to bear in mind here is that when we're talking about numbers and ratios, we also need to bear in mind the whole of the education workforce and the training for those, and it is my ambition, and Plaid Cymru's ambition, that many more of our classroom teachers also get higher level skills in order to assist in this process.

Felly, mae Plaid Cymru yn glir iawn y dylem ymddiried mewn athrawon i addysgu, ymddiried yn arweinwyr ysgolion i arwain ac adeiladu system gyffredinol a chwricwlwm sy'n adlewyrchu'r gwerthoedd hynny. Nid ydym, ar ryw ystyr, yn gwrthwynebu'r hyn y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi nodi heddiw, er fy mod yn credu—ac mae'n un o'r rhesymau pam rydym wedi cyflwyno un neu ddau o welliannau—nad cyfeirio'n benodol at y niferoedd mewn unedau meithrin, sy'n gyfeiriad penodol yn y cynnig, yw'r flaenoriaeth y mae Plaid Cymru eisiau ei gwneud ar hyn o bryd.

Crybwyllodd Aled Roberts astudiaethau rhyngwladol, ac mae llawer ohonynt, ond mae hefyd yn amlwg o'r astudiaethau rhyngwladol hynny fod ansawdd hyfforddiant yr athrawon yn bwysicach—nid i ddweud nad yw maint dosbarthiadau yn bwysig, ond mae hyn yn fwy pwysig—na maint y dosbarth mewn gwirionedd, o fewn rheswm, wrth gwrs. Rydym yn sôn yma am niferoedd oddeutu 25 i 30, a 30 oedd y nifer gweithredol yr edrychodd Estyn arno dros 10 mlynedd yn ôl erbyn hyn. Roeddent yn edrych ar y cydestun Cymreig yn unig; rwy'n meddwl bod angen i ni edrych yn rhyngwladol yma. Mae angen i ni hefyd gadw mewn cof y bydd ein cwricwlwm yn newid cymaint fel y byddwn yn cael dosbarthiadau o faint gwahanol ar wahanol adegau o'r dydd, gydag ymwneud gwahanol â grwpiau oedran gwahanol, oherwydd dyna yw goblygiad yr hyn y mae adolygiad Donaldson yn ei nodi.

Felly, o fewn hynny, mae gwir angen i ni ganolbwyntio, rwy'n meddwl, ar broffesiynoli ein gweithlu addysg, ar wneud datblygiad proffesiynol parhaus, i bob pwrpas, yn rhan orfodol o fod yn athro, fel eich bod ond yn addas i addysgu os ydych yn gyfarwydd â datblygiadau cyfredol—fwy neu lai yr un fath ag ar gyfer proffesiynau eraill megis meddygon a chyfreithwyr—ac yn gynyddol, rhoi llawer iawn o barch i'n proffesiwn addysgu o ran y datblygiad proffesiynol parhaus a gânt a'r ffordd rydym yn eu trin fel cymdeithas. Mae'r ffaith nad oes cymaint o'n hathrawon yn cael DPP ar hyn o bryd, gan gynnwys llawer o'n hathrawon cyflenwi wrth gwrs, sef y bobl sy'n dysgu rhai o'r dosbarthiadau hyn i bob pwrpas, yn effeithio'n andwyol ar safonau yn ein hysgolion.

Y pwynt olaf y credaf fod angen i ni ei gadw mewn cof yma pan fyddwn yn sôn am niferoedd a chymarebau yw bod angen i ni gofio hefyd am y gweithlu addysg cyfan a hyfforddiant ar eu cyfer, a fy uchelgais, ac uchelgais Plaid Cymru, yw gweld llawer mwy o'n hathrawon dosbarth yn cael sgiliau lefel uwch hefyd er mwyn cynorthwyo yn y broses hon.

17:04

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Galwaf ar Angela Burns i gynnig gwelliannau 2 a 5 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

I call on Angela Burns to move amendments 2 and 5, tabled in the name of Paul Davies.

*Gwelliant 2—Paul Davies*

*Amendment 2—Paul Davies*

*Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 3 and replace with:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i rymuso athrawon ac arweinwyr ysgolion sydd wedi dangos gallu ac arloesedd gan roi'r rhyddid iddynt ragori drwy:*

*Calls on the Welsh Government to empower teachers and school leaders who have shown capacity and innovation with the freedom to excel, by:*

a) cyflwyno rhaglen gynhwysfawr i benaethiaid sy'n cynnig datblygu proffesiynol parhaus a chymorth parhaus i'r holl benaethiaid;

b) gweithio gyda'r proffesiwn addysgu i ddatblygu a chynnig cyfres o raglenni datblygu proffesiynol parhaus sy'n darparu ar gyfer anghenion athrawon ac ysgolion;

c) sicrhau bod athrawon yn cael amser wedi'i ddiogelu i ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus gorfodol; a

d) dileu'r baich biwrocraidd ar athrawon i'w galluogi i weithredu system monitro unigol i ddisgyblion.

Gwelliant 5—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o gapasiti addysgu ac anghenion hyfforddiant er mwyn galluogi cynllunio gweithlu cywir.

Cynigiwyd gwelliannau 2 a 5.

a) introducing a comprehensive headteachers programme that provides continual professional development and ongoing support to all headteachers;

b) working with the teaching profession to develop and offer a suite of continuous professional development programmes that delivers for the needs of teachers and schools;

c) ensuring that teachers are given protected time to undertake mandatory continuous professional development; and

d) removing the bureaucratic burden from teachers to enable them to practise a system of individual pupil monitoring.

Amendment 5—Paul Davies

Add a new point at the end of the motion:

Calls on the Welsh Government to undertake a review of teaching capacity and training needs in order to enable accurate workforce planning.

Amendments 2 and 5 moved.

17:04

## Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I would like to thank the Liberal Democrats for bringing forward today's debate. While we support the main thrust of your argument and, indeed, that of Plaid Cymru, I have amended the motion because I wished to have an opportunity to raise a few concerns, and, by doing so, I hope to strengthen the motion.

I have had many discussions with education professionals, ranging from teachers to unions to the Minister, and whilst I absolutely support your desire to reduce class sizes for infants to 25, I'm unable to see how this can be implemented in the foreseeable future. There is a serious capacity issue in the system. Workforce planning has been inadequately undertaken by the Welsh Government. Absence rates are high, due in the main to work-related stress. We are overusing supply teachers—a fact reinforced by the Children, Young People and Education Committee's recent inquiry into supply teaching—and I am simply not clear where all the additional staff will come from to allow class sizes to reduce to an appropriate size.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddiolch i'r Democratiaid Rhyddfrydol am gyflwyno'r ddatl heddiw. Er ein bod yn cefnogi prif fyrdwn eich dadl ac yn wir, dadl Plaid Cymru, rwyf wedi diwygio'r cynnig oherwydd fy mod yn dymuno cael cyfle i fynegi rhai pryderon, ac wrth wneud hynny, rwy'n gobeithio cryfhau'r cynnig.

Rwyf wedi cael nifer o drafodaethau gyda gweithwyr proffesiynol yn y byd addysg, yn amrywio o athrawon i undebau i'r Gweinidog, ac er fy mod yn llwyr gefnogi eich awydd i leihau maint dosbarthiadau babanod i 25, nid wyf yn gallu gweld sut y gellir gweithredu hyn yn y dyfodol agos. Mae yna broblem gapasiti ddifrifol yn y system. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynllunio'r gweithlu'n ddigonol. Mae cyfraddau absenoldeb yn uchel, yn bennaf oherwydd straen sy'n gysylltiedig â gwaith. Rydym yn gordefnyddio athrawon cyflenwi—ffraith a gadarnheir gan ymchwilad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ddiweddar i waith athrawon cyflenwi—ac nid wyf yn eglur o gwbl o ble y daw'r holl staff ychwanegol i ganiatáu i faint dosbarthiadau leihau i faint priodol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The motion specifies introducing a headteachers programme to encourage top leaders. Again, I have no quarrel at all with that driver; however, I'm firmly of the belief that a comprehensive headteachers programme is required to support all headteachers, to ensure that every one of our schools is led by an individual and senior team that is trained, supported and able to access both refresher courses and further personal and career development. Indeed, I would argue that to be a headteacher requires talent, and a struggling headteacher would need more support than simply being encouraged to ape best practice. Every school and every situation is different, and headteachers have an enormous task. They need individualised support and training, which is why we are calling, Minister, for a comprehensive headteachers programme. Furthermore, to retain the high standards, headteachers need to be challenged and held accountable by school governors. Welsh Government, local authorities and school governors must work together to develop a package for school governors to learn skills to help them hold headteachers accountable and push them to greater degrees of excellence.

We have long supported the need for every pupil to have an individual plan that identifies their milestones, picks up where the child needs further support, and is elastic enough to accommodate the fine balance between their developmental cycle and ensuring that they do not fall too far away from their age group. But, my concern over this element of the Liberal Democrat motion before us today is one of teacher workload. To borrow from Stevie Smith, teachers are not waving but drowning. They are drowning in a sea of paperwork, much of which is, by anyone's measure, fairly pointless. Estyn also recognises this issue. We have a situation where school leaders don't want to feel exposed, so they require teachers to fill out detailed lesson plans that end up being filed, that don't flex with the actual lesson, and that take up extraordinary amounts of time. This is time that teachers could be giving to individualising education, to finding the right key to unlock every child and to being able to practice their profession, which is both a science and an art. When teachers are not constructing lesson plans or marking work, they are attempting to cope with the sheer overload of Government guidance, regulation, advice and minutiae.

This comment neatly segues into my reason for abstaining on the first Plaid Cymru amendment: investing in early education is one of the most effective ways of raising educational attainment, but it is only one of the ways, and I would suggest to you that we need comprehensively engaged parents, and teachers who are trained, supported and empowered to carry out their task.

Mae'r cynnig yn pennu y dylid cyflwyno rhaglen i benaethiaid i annog prif arweinwyr. Unwaith eto, nid oes gennyf gweryl o gwbl â'r dull hwnnw o fynd ati; fodd bynnag, rwy'n credu'n gryf fod angen rhaglen gynhwysfawr ar gyfer penaethiaid i gefnogi pob pennaeth, er mwyn sicrhau bod pob un o'n hysgolion yn cael ei harwain gan uwch dîm arbennig sydd wedi'i hyfforddi a'i gefnogi ac sy'n gallu manteisio ar gyrsiau gloywi a datblygiad personol a gyrfaol pellach. Yn wir, byddwn yn dadlau bod angen dawn i fod yn bennaeth, a byddai angen mwy o gymorth ar bennaeth sy'n ei chael hi'n anodd na chael eu hannog yn unig i efelychu arferion gorau. Mae pob ysgol a phob sefyllfa yn wahanol, ac mae penaethiaid yn wynebu tasg enfawr. Mae arnynt angen cefnogaeth a hyfforddiant unigol, a dyna pam rydym yn galw, Weinidog, am raglen gynhwysfawr i benaethiaid. Ar ben hynny, er mwyn cadw'r safonau'n uchel, mae angen herio penaethiaid a'u gwneud yn atebol i lywodraethwyr ysgolion. Rhaid i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a llywodraethwyr ysgolion weithio gyda'i gilydd i ddatblygu pecyn i lywodraethwyr ysgolion ddysgu sgiliau i'w helpu i wneud penaethiaid yn atebol a'u gwthio i raddau uwch o ragoriaeth.

Ers amser hir, rydym wedi cefnogi'r angen i bob disgybl gael cynllun unigol sy'n nodi eu cerrig milltir, yn dangos lle y mae angen cefnogaeth bellach ar y plentyn, ac yn ddigon hyblyg i ganiatáu'r cydbwysedd cywir rhwng eu cylch datblygiadol a sicrhau nad ydynt yn llithro'n rhy bell ar ôl eu grŵp oedran. Ond mae fy mhryder ynghylch yr elfen hon o gynnig y Democratiaid Rhyddfrydol ger ein bron heddiw yn ymwneud â llwyth gwaith athrawon. A benthg gan Stevie Smith, boddi y mae athrawon, nid chwifio'u breichiau. Maent yn boddi mewn môr o waith papur, a llawer ohono, yn ôl mesur unrhyw un, yn weddol ddiabwrpas. Mae Estyn hefyd yn cydnabod y broblem hon. Mae gennym sefyllfa lle nad yw arweinwyr ysgol yn dymuno teimlo dan fygythiad, felly maent yn ei gwneud yn ofynnol i athrawon lenwi cynlluniau gwersi manwl sy'n cael eu rhoi ar silff, cynlluniau nad ydynt yn berthnasol i'r gwersi mewn gwirionedd, ac sy'n cymryd amser mawr o'u hamser. Dyma amser y gallai athrawon fod yn ei roi i unigoleiddio'r addysg, er mwyn dod o hyd i'r allwedd iawn i ddatglo'i gallu pob plentyn ac i allu ymarfer eu proffesiwn, sy'n wyddoniaeth ac yn gelfyddyd fel ei gilydd. Pan nad yw athrawon yn llunio cynlluniau gwersi neu'n marcio gwaith, maent yn ceisio ymdopi â'r llwyth enfawr o ganllawiau, rheoliadau, cyngor a manion Llywodraeth.

Mae'r sylw hwn yn arwain yn daclus at fy rheswm dros ymatal ar welliant cyntaf Plaid Cymru: mae buddsoddi mewn addysg gynnar yn un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o godi cyrhaeddiad addysgol, ond un o'r ffyrdd yn unig ydyw, a byddwn yn awgrymu wrthyfch fod angen ymgysylltiad cynhwysfawr â rhieni, ac athrawon sydd wedi'u hyfforddi, eu cynorthwyo a'u galluogi i gyflawni eu gorchwyl.

Last year, Professor Steve Strand of Oxford University announced the findings of a long-term study that suggests that disadvantaged pupils underachieve regardless of whether their school is highly rated or not. Professor Strand says the stubbornness of the attainment gap across all types of school suggests that the quality of a school is not enough to overcome a disadvantaged background. In his paper, he suggests factors outside school rather than anything happening in the classroom may be the root cause of attainment gaps, and his is not the only body of work that indicates the importance of those factors outside the school gates. Outside the school gate, excellent teachers, investment in education: we must bear in mind the need for a mixed approach in order to succeed in our common goal of raising educational attainment.

The determination to develop and enable excellent teaching practice is why we would promote mandatory professional development. To enable those teachers to develop is crucial as is ensuring they can access first-class and effective CPD provision. I'm sure the Minister will tell us that he's put the new deal in place, but what about the quality and relevance of the CPD opportunities themselves? A passport for recording attended CPD programmes won't be effective if teachers and headteachers do not believe the programmes available are good enough or worth taking. Have regional consortia consulted with teachers and headteachers about the skills that they want to learn and develop, instead of what regional consortia think they should learn? The motion and the amendments to it are all heading in a collaborative direction. We will support this motion no matter how the amendments fall, but we had to put our amendments forward, because perhaps a little less absoluteness would have eased the passage.

Y llynedd, cyhoeddodd yr Athro Steve Strand o Brifysgol Rhydychen ganfyddiadau astudiaeth hirdymor sy'n awgrymu bod disgyblion difreintiedig yn tangyflawni pa un a yw eu hysgol yn cael ei hystyried yn un dda ai peidio. Mae'r Athro Strand yn dweud bod ystyfnigrwydd y bwch cyrhaeddiad ar draws pob math o ysgol yn awgrymu nad yw ansawdd ysgol yn ddigon i oresgyn cefndir difreintiedig. Yn ei bapur, mae'n awgrymu ffactorau y tu hwnt i'r ysgol yn hytrach nag unrhyw beth sy'n digwydd yn yr ystafell ddoosbarth fel achos sylfaenol bylchau cyrhaeddiad, ac nid ei waith ef yw'r unig gorff o waith sy'n dangos pwysigrwydd ffactorau y tu allan i giatiau'r ysgol. Y tu hwnt i giât yr ysgol, athrawon rhagorol, buddsoddi mewn addysg: mae'n rhaid i ni gadw mewn cof yr angen am ddull cymysg er mwyn llwyddo yn ein nod cyffredin o wella cyrhaeddiad addysgol.

Y penderfyniad i ddatblygu a galluogi arferion addysgu rhagorol yw'r rheswm pam y byddem yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol gorfodol. Mae galluogi athrawon i ddatblygu yn hanfodol fel y mae sicrhau y gallant gael mynediad at ddarpariaeth DPP effeithiol o'r radd flaenaf. Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn dweud wrthym ei fod wedi rhoi'r fargen newydd ar waith, ond beth am ansawdd a pherthnasedd y cyfleoedd DPP eu hunain? Ni fydd pasbort ar gyfer cofnodi pa raglenni DPP a fynychwyd yn effeithiol os nad yw athrawon a phenaethiaid yn credu bod y rhaglenni sydd ar gael yn ddigon da neu'n werth eu dilyn. A yw'r consortia rhanbarthol wedi ymgynghori ag athrawon a phenaethiaid ynglŷn â'r sgiliau y maent am eu dysgu a'u datblygu, yn hytrach na'r hyn y mae'r consortia rhanbarthol yn meddwl y dylent ei ddysgu? Mae'r cynnig a'r gwelliannau iddo i gyd yn arwain i gyfeiriad cydweithredol. Byddwn yn cefnogi'r cynnig hwn ni waeth beth sy'n digwydd gyda'r gwelliannau, ond roedd yn rhaid i ni gyflwyno ein gwelliannau, gan y byddai ychydig llai o absoliwtiaeth wedi hwyluso ei basio.

17:09

## **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I want to focus in my contribution on some of these issues, and how we support our teachers and headteachers, particularly through professional development. I should firstly say that we will be supporting Plaid Cymru's amendment 4 today, as well as the Conservatives' amendment 5.

I think we do need to seriously explore compulsory CPD for teachers. Other professions, of course, already have this, and I think it does send a slightly strange message if our actions appear to suggest that an accountant can't be accredited to practice without CPD on a regular basis, but our teachers can. We need to ensure that our teachers are of the highest quality and are properly supported to teach and to innovate in their teaching. Anything less than those high standards really is a disservice to children, parents and to the teachers themselves. And we know that teachers do want to improve and do want to see professional development opportunities. The question is how we go about supporting them in that aim.

Rwyf am ganolbwyntio yn fy nghyfraniad ar rai o'r materion hyn, a sut rydym yn cefnogi ein hathrawon a'n penaethiaid, yn enwedig drwy ddatblygiad proffesiynol. Dylwn yn gyntaf ddweud y byddwn yn cefnogi gwelliant 4 Plaid Cymru heddiw, yn ogystal â gwelliant 5 y Ceidwadwyr.

Rwy'n credu bod angen i ni edrych o ddifrif ar DPP gorfodol ar gyfer athrawon. Mae proffesiynau eraill eisoes yn gwneud hyn, wrth gwrs, ac rwy'n credu ei fod yn cyfleu neges ychydig yn rhyfedd os ymddengys bod ein gweithredoedd yn awgrymu na ellir achredu cyfrifydd i ymarfer heb DPP yn rheolaidd, ond bod ein hathrawon yn cael gwneud hynny. Mae angen i ni sicrhau bod ein hathrawon o'r ansawdd uchaf ac yn cael cefnogaeth briodol i addysgu ac i arloesi yn eu haddysgu. Byddai unrhyw beth llai na'r safonau uchel hynny yn gwneud cam go iawn â phlant, rhieni a'r athrawon eu hunain. A gwyddom fod athrawon eisiau gwella ac eisiau cyfleoedd datblygu proffesiynol. Y cwestiwn yw sut yr awn ati i'w cefnogi yn y nod hwnnw.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



We do need to look at this longstanding issue over the funding of CPD. It really must be provided as part of an employment package, rather than it being left to the individual to access the training in their own time, and at their own cost. If the workforce is contributing registration fees to the Education Workforce Council, then those fees should be used to fund CPD, I think, in order to keep all teachers fully up-to-date with the innumerable changes currently under way in their profession.

We must also ensure that CPD is actually available for teachers if we are to make it compulsory too. Real care must be taken to make sure that this isn't just restricted to those who are on permanent full-time contracts in the long term in individual schools. Assembly committee inquiries in both the Public Accounts Committee and the Children, Young People and Education Committee have highlighted a number of shortcomings in the availability of CPD for supply teachers, for example. And as registration of the workforce expands to include learning assistants and lecturers, it's obviously appropriate that we have clarity as to what CPD is available and necessary for all of the professions in their charge.

We also have to make sure that it's available consistently across Wales, and that geographical areas aren't disadvantaged by a lack of provision. As I said, CPD is compulsory in other professions, but in Scotland it's also compulsory, of course, for teachers. An additional 35 hours of CPD each year was introduced as a contractual commitment, and was accepted by teachers as part of the agreement of 'A Teaching Profession for the 21st Century' back in 2001. If we're to explore this in Wales, we do need to make sure, though, that we are taking the teaching profession with us on that journey to improving standards, because to do otherwise, obviously, would be failing the teachers and the pupils if we drive professionals away by doing so. So, I do think we need to be careful in the approach before we have any moves towards a mandatory system, although it is definitely worth exploring.

If we are going to go down this route of making CPD compulsory through the Education Workforce Council, then I also think we need to make sure that that registration body is properly representative of the profession and accountable to its members, by making sure that it includes elected representatives of the teaching profession.

That moves us on to point (d) of our motion, calling for,

'elected representation of peers from the teaching profession to the Education Workforce Council to ensure proper accountability'.

Mae angen i ni edrych ar y broblem hon sydd wedi bod ar y gweill ers tro gyda chyllido DPP. Mae gwir angen ei ddarparu fel rhan o becyn cyflogaeth, yn hytrach na'i wneud yn fater i'r unigolyn sicrhau mynediad at yr hyfforddiant yn eu hamser eu hunain, a thalu amdano eu hunain. Os yw'r gweithlu yn cyfrannu ffioedd cofrestru i'r Cyngor Gweithlu Addysg, yna dylid defnyddio'r ffioedd hynny i ariannu DPP yn fy marn i, er mwyn sicrhau bod gan yr holl athrawon y wybodaeth ddiweddaraf yn llawn am y newidiadau dirifedi sydd ar y gweill yn eu proffesiwn ar hyn o bryd.

Mae'n rhaid i ni sicrhau hefyd fod DPP ar gael i athrawon mewn gwirionedd os ydym am ei wneud yn orfodol hefyd. Rhaid gofalu gwneud yn siŵr nad yw'n gyfyngedig i'r rhai sydd ar gontractau amser llawn parhaol yn unig yn y tymor hir mewn ysgolion unigol. Mae ymchwiliadau pwyllgorau'r Cynulliad yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi tynnu sylw at nifer o ddiffygion yn argaeledd DPP ar gyfer athrawon cyflenwi, er enghraifft. Ac wrth i gofrestru'r gweithlu ehangu i gynnwys cynorthwywyr dysgu a darlithwyr, mae'n amlwg yn briodol ein bod yn sicrhau eglurder ynglŷn â pha DPP sydd ar gael ac sy'n angenrheidiol ar gyfer pob un o'r proffesiynau dan eu gofal.

Rhaid i ni hefyd wneud yn siŵr ei fod ar gael yn gyson ar draws Cymru, ac nad yw rhai ardaloedd daearyddol dan anfantais oherwydd diffyg darpariaeth. Fel y dywedais, mae DPP yn orfodol mewn proffesiynau eraill, ond yn yr Alban mae hefyd yn orfodol ar gyfer athrawon wrth gwrs. Cyflwynwyd 35 o oriau ychwanegol o DPP bob blwyddyn fel ymrwymiad cytundebol, ac fe'i derbyniwyd gan athrawon fel rhan o gytundeb y Proffesiwn Addysgu ar gyfer yr 21ain Ganrif yn ôl yn 2001. Os ydym i edrych ar hyn yng Nghymru, mae angen i ni wneud yn siŵr, fodd bynnag, ein bod yn mynd â'r proffesiwn addysgu gyda ni ar y daith i wella safonau, gan y byddai gwneud fel arall, yn amlwg, yn gwneud cam ag athrawon a disgyblion os ydym yn colli addysgwyr proffesiynol drwy wneud hynny. Felly, rwy'n credu bod angen i fod yn ofalus o ran yr ymagwedd cyn i ni symud cam tuag at system orfodol, er ei bod yn bendant yn werth ei harchwilio.

Os ydym yn mynd i ddilyn y llwybr hwn o wneud DPP yn orfodol drwy'r Cyngor Gweithlu Addysg, yna rwyf hefyd yn credu bod angen i wneud yn siŵr fod y corff cofrestru yn cynrychioli'r proffesiwn yn briodol ac yn atebol i'w aelodau, drwy sicrhau ei fod yn cynnwys cynrychiolwyr etholedig o'r proffesiwn addysgu.

Mae hynny'n ein symud ymlaen at bwynt (d) ein cynnig, sy'n galw am,

'[g]ynrychiolaeth etholedig o gyfoedion o'r proffesiwn addysgu i'r Cyngor Gweithlu Addysg i sicrhau atebolrwydd gwirioneddol'.

The Association of Teachers and Lecturers at its conference this year passed an emergency motion that described the EWC as 'undemocratic' and 'unelected'. We do agree with this view, although we do recognise that there have been issues with the number of nominations coming from the teaching profession. But, I would ask the Welsh Government to review this and work with teachers to explain how the current process can be used to ensure that teacher representation on the council is appropriate and is as they would wish.

Finally, we also propose the introduction of a talented headteachers programme to encourage top leaders to use their expertise to support underperforming schools. This recognises the difficulty that some schools face in attracting the skills and the leadership that they need to help them succeed, often due to reasons outside of their control. And it recognises the issues highlighted by Robert Hill Consulting in its review of 'The future delivery of education services in Wales' back in 2013, which found that the quality of leadership in a school is second only to teaching in its impact on students' outcomes. He felt that the model of strong leadership was not as well embedded across Wales as it needed to be, and met headteachers who did not feel empowered or equipped to deal with the challenges they faced, and middle and senior level leaders who said that they'd received insufficient leadership support. That obviously is a challenge we must address.

We need to make sure that we have a plan to encourage the sharing of expertise from our best leaders in education to those schools where the most help is needed.

17:14

### **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm grateful for the opportunity to speak in this important debate today. I read the Welsh Liberal Democrat motion with interest, but I will be supporting the Welsh Government in voting against it. I feel that, on balance, it presents too narrow and too negative a picture of educational attainment in Wales.

No-one will deny that there are a number of challenges here in Wales. No-one will deny that there is a lot more still to do in terms of improving performance in this area. However, the policies and reforms that the Minister and his predecessor in post have put in place have put us firmly on the right track towards significant, meaningful and lasting improvement. If we link this into our proposed reforms to the apprenticeship programme, then I'm confident that we have the building blocks in place to transform educational attainment and skill levels in Wales.

Yn ei chynhadledd eleni, pasiodd y Gymdeithas Athrawon a Darlithwyr gynnog brys a oedd yn disgrifio'r Cyngor Gweithlu Addysg fel corff 'annemocrataidd' ac 'anetholedig'. Rydym yn cytuno â'r farn hon, er ein bod yn cydnabod y bu problemau gyda nifer yr enwebiadau a ddôo o'r proffesiwn addysgu. Ond hoffwn ofyn i Lywodraeth Cymru adolygu hyn a gweithio gydag athrawon i egluro sut y gellir defnyddio'r broses bresennol i sicrhau bod cynrychiolaeth briodol ac fel y byddent yn ei ddymuno i athrawon ar y cyngor.

Yn olaf, rydym hefyd yn bwriadu cyflwyno rhaglen benaethiaid talentog i annog prif arweinwyr i ddefnyddio eu harbenigedd i gefnogi ysgolion sy'n tangyflawni. Mae hyn yn cydnabod yr anhawster y mae rhai ysgolion yn ei wynebu i ddenu'r sgiliau a'r arweinyddiaeth sydd eu hangen arnynt i'w helpu i lwyddo, yn aml oherwydd rhesymau y tu hwnt i'w rheolaeth. Ac mae'n cydnabod y materion a amlygodd Robert Hill Consulting yn eu hadolygiad ar 'Ddarparu gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol' yn ôl yn 2013, a ganfu fod ansawdd yr arweinyddiaeth mewn ysgol yn ail yn unig i addysgu o ran ei heffaith ar ganlyniadau myfyrwyr. Teimlai nad oedd y model o arweinyddiaeth gref wedi ymwreiddio cystal ag y dylai fod ledled Cymru, a chyfarfu â phenaethiaid nad oeddent yn teimlo wedi'u grymuso nac wedi'u harfogi i ymdrin â'r heriau a wynebant, ac arweinwyr ar y lefel ganol ac uwch a ddywedodd nad oeddent wedi cael digon o gefnogaeth ar arweinyddiaeth. Mae hynny'n amlwg yn her y mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â hi.

Mae angen i ni wneud yn siŵr bod gennym gynllun i annog ein harweinwyr gorau mewn addysg i rannu arbenigedd â'r ysgolion sydd fwyaf o angen cymorth.

Diolch am y cyfle i siarad yn y ddadl bwysig hon heddiw. Darllenais gynnog Democratiaid Rhyddfrydol Cymru gyda diddordeb, ond byddaf yn cefnogi Llywodraeth Cymru drwy bleidleisio yn ei erbyn. Ar y cyfan, rwy'n teimlo ei fod yn cynnig darlun rhy gul a rhy negyddol o gyrhaeddiad addysgol yng Nghymru.

Ni fydd unrhyw un yn gwadu bod yna nifer o heriau yma yng Nghymru. Ni fydd unrhyw un yn gwadu bod yna lawer mwy i'w wneud o hyd o ran gwella perfformiad yn y maes. Fodd bynnag, mae'r polisiâu a'r diwygiadau y mae'r Gweinidog a'i ragflaenydd yn y swydd wedi'u rhoi ar waith wedi ein rhoi yn gadarn ar y trywydd iawn tuag at welliant sylweddol, ystyrlon a pharhaol. Os cysylltw'n hyn â'n diwygiadau arfaethedig i'r rhaglen brentisiaeth, yna rwy'n hyderus fod gennym y cerrig sylfaen yn eu lle i drawsnewid cyrhaeddiad addysgol a lefelau sgiliau yng Nghymru.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I welcome the Welsh Government's decision to develop a distinct curriculum for Wales following the extensive work carried out by Professor Graham Donaldson, and in particular his 'Successful Futures' report. The Minister has made the right decision in deciding to adopt Professor Donaldson's recommendations in full. The reforms set out in his proposals strike the right balance between academic and vocational learning, focusing on the purposes of education, with a greater emphasis on functional literacy and numeracy, which will stand Welsh learners in good stead when linked in with the new strengthened GCSEs in English or Welsh language and maths, as well as the more rigorously graded Welsh baccalaureate.

I'm pleased that three schools in my constituency—Lewis School, Pengam, Ysgol Gyfun Cwm Rhymini and Hendredenny Park Primary School—have been identified by the Welsh Government as pioneer schools, which will take the lead on the development and design of the new curriculum.

The new curriculum's focus on functional literacy and numeracy links in well with the reforms put forward by the review of 14-19 qualifications, which the Welsh Government commissioned back in the autumn of 2011, when, in fact, I was the Deputy Minister for Skills. This will streamline the number of qualifications in Wales to focus on quality rather than quantity and ensure that we have a clear and consistent approach to regulate Welsh qualifications for the benefit of both learners and employers.

The creation of Qualifications Wales is an important step forward in ensuring this. A more rigorous qualifications regime and a more sharply focused curriculum will also help to prepare our learners for apprenticeships and work-based learning, in both of which the Welsh Government has a strong record of support.

The Deputy Minister for Skills and Technology recently unveiled her planned reforms of apprenticeships, and I was pleased to see in yesterday's draft budget that the further education budget will be protected from cuts, with a further £5 million to create an additional 2,500 apprenticeships. In terms of outcomes and attainment levels, therefore, we need to look at more than just class sizes. We need to look at the bigger picture: at how we are supporting our learners from early years all the way through to further and higher education and on to adult learning as well.

At a time of decline in public sector finances caused by the Tory Government austerity programme, this has been a matter of difficult choices and carefully setting out our priorities. However, I firmly believe that we have put the right foundations in place to ensure consistent improvement in educational attainment and all other indicators across the board, thanks to the brave reforms that have been made by the Welsh Government.

Rwy'n croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cwricwlwm neilltuol i Gymru yn dilyn y gwaith helaeth a wnaeth yr Athro Graham Donaldson, ac yn arbennig ei adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus'. Mae'r Gweinidog wedi gwneud y penderfyniad iawn yn penderfynu mabwysiadu argymhellion yr Athro Donaldson yn llawn. Mae'r diwygiadau a nodwyd yn ei argymhellion yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng dysgu academiaidd a galwedigaethol, gan ganolbwyntio ar ddibenion addysg, gyda mwy o bwyslais ar lythrennedd a rhifedd gweithredol, a fydd o fantais i ddysgwyr Cymru o'u cysylltu â'r cymwysterau TGAU newydd cryfach mewn Gymraeg neu Saesneg iaith a mathemateg, yn ogystal â bagloriaeth Cymru sydd wedi'i graddio'n fwy manwl.

Rwy'n falch fod Llywodraeth Cymru wedi clustnodi tair ysgol yn fy etholaeth—Ysgol Lewis, Pengam, Ysgol Gyfun Cwm Rhymini ac Ysgol Gynradd Parc Hendredenny—fel ysgolion arloesi a fydd yn arwain ar ddatblygiad a chynllun y cwricwlwm newydd.

Mae ffocws y cwricwlwm newydd ar lythrennedd a rhifedd gweithredol yn cysylltu'n dda â'r diwygiadau a gyflwynwyd gan yr adolygiad o gymwysterau 14-19, a gomisiynodd Llywodraeth Cymru yn ôl yn hydref 2011, pan oeddwn yn Ddirprwy Weinidog Sgiliau, mewn gwirionedd. Bydd hyn yn ailwampio nifer y cymwysterau yng Nghymru i ganolbwyntio ar ansawdd yn hytrach na maint a sicrhau bod gennym ddull clir a chyson o reoleiddio cymwysterau yng Nghymru er lles dysgwyr a chyflogwyr.

Mae creu Cymwysterau Cymru yn gam pwysig tuag at sicrhau hyn. Bydd cyfundrefn gymwysterau fwy trwyadl a chwricwlwm gyda ffocws gwell hefyd yn helpu i baratoi ein dysgwyr ar gyfer prentisiaethau a dysgu yn y gwaith, ac mae gan Lywodraeth Cymru hanes cryf o gefnogi yn y ddau faes.

Yn ddiweddar datgelodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg ei diwygiadau arfaethedig i brentisiaethau, ac roeddwn yn falch o weld yn y gyllideb ddrafft ddde y bydd y gyllideb addysg bellach yn cael ei diogelu rhag toriadau, gyda £5 miliwn arall i greu 2,500 o brentisiaethau ychwanegol. O ran canlyniadau a lefelau cyrhaeddiad, felly, mae angen i ni edrych ar fwy na maint dosbarthiadau yn unig. Mae angen i ni edrych ar y darlun ehangach: ar sut rydym yn cefnogi ein dysgwyr o'r blynyddoedd cynnar yr holl ffordd drwodd i addysg bellach ac uwch ac ymlaen i ddysgu oedolion hefyd.

Ar adeg o ostyngiad yng nghyllid y sector cyhoeddus wedi'i achosi gan raglen galedi'r Llywodraeth Dori'aid, bu'n rhaid gwneud dewisiadau anodd a nodi ein blaenoriaethau'n ofalus. Fodd bynnag, credaf yn gryf ein bod wedi rhoi'r sylfeini cywir yn eu lle i sicrhau gwelliant cyson mewn cyrhaeddiad addysgol a phob dangosydd arall yn gyffredinol, diolch i'r diwygiadau dewr a wnaed gan Lywodraeth Cymru.

Ensuring equality of opportunity in education as well as parity of esteem between academic and vocational learning are two of our key priorities here, as is the notion of preparing our learners with the skills that they will need to thrive in an increasingly competitive global labour market.

Deputy Llywydd, education remains the greatest weapon in our armoury to break that link between where one is born and what one can achieve. There will always be more to do, but we in Wales are moving in the right direction.

17:19

## William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Turning first to the Plaid Cymru amendment 1, we fully agree that

‘investing in early education is the most effective way of raising educational attainment.’

I think that’s beyond any doubt whatsoever. Outside the home environment, high-quality early education is particularly important and research has consistently demonstrated the potential long-term benefits of investment in early education and childcare for every child, but particularly for those who come from disadvantaged backgrounds. Key to this is an education system that provides all children with the skills needed to succeed in life—to think critically, to use their talents creatively, to develop a healthy lifestyle, positive relationships and social responsibility, to make well-balanced decisions and to resolve conflict as well as providing children with the tools needed to pursue their own goals in life. It is our belief that such a system requires that teachers have the time to focus on the individual learning needs of their individual pupils and to give them the quality attention that is their right and what they deserve.

In 2003, a report by Estyn on the impact of class size in primary schools found that, and I quote, there is much evidence to suggest that

‘teaching and learning are much better in classes of under 30 where the pupils: are in early years education and in the early stages of Key Stage 1’.

Mae sicrhau cyfle cyfartal mewn addysg yn ogystal â pharch cydradd rhwng dysgu academiaidd a galwedigaethol yn ddwy o’n blaenoriaethau allweddol yma, felly hefyd y syniad o baratoi ein dysgwyr â’r sgiliau y byddant eu hangen i ffynnu mewn marchnad lafur fyd-eang sy’n wryfwy cystadleuol.

Ddirprwy Lywydd, addysg yw’r arf mwyaf yn ein harfogaeth o hyd ar gyfer torri’r cysylltiad rhwng lle y caiff unigolyn ei eni a beth y gall ei gyflawni. Bydd rhagor i’w wneud bob amser, ond rydym yn symud i’r cyfeiriad iawn yng Nghymru.

Gan droi yn gyntaf at welliant 1 Plaid Cymru, rydym yn cytuno’n llwyr mai

‘buddsoddi mewn addysg gynnar yw’r ffordd fwyaf effeithiol o gynyddu cyrhaeddiad addysgol.’

Rwy’n credu bod hynny y tu hwnt i unrhyw amheuaeth o gwbl. Y tu allan i amgylchedd y cartref, mae addysg gynnar o ansawdd uchel yn arbennig o bwysig ac mae ymchwil wedi dangos yn gyson y manteision hirdymor posibl o fuddsoddi mewn addysg gynnar a gofal plant i bob plentyn, ond yn enwedig i rai sy’n dod o gefndiroedd difreintiedig. Mae system addysg sy’n darparu’r sgiliau sydd eu hangen ar bob plentyn i lwyddo mewn bywyd yn allweddol i hyn—meddwl yn feirniadol, defnyddio eu doniau’n greadigol, datblygu ffordd iach o fyw, perthynas gadarnhaol ag eraill a chyfrifoldeb cymdeithasol, gwneud penderfyniadau cytbwys a datrys gwrthdaro yn ogystal â rhoi’r arfau sydd eu hangen arnynt i blant i ddilyn eu nodau eu hunain mewn bywyd. Credwn fod system o’r fath yn galw am roi amser i athrawon ganolbwyntio ar anghenion dysgu unigol eu disgyblion unigol ac i roi iddynt y sylw o ansawdd y mae ganddynt hawl iddo, fel y maent yn ei haeddu.

Yn 2003, gwelodd adroddiad gan Estyn ar effaith maint dosbarthiadau mewn ysgolion cynradd fod llawer o dystiolaeth i awgrymu, a dyfynnaf

‘teaching and learning are much better in classes of under 30 where the pupils: are in early years education and in the early stages of Key Stage 1’.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

That is why we've included this proposal in our motion today to reduce infant class sizes to 25, recognising the importance of investing in early years education, which can make such a crucial difference to an individual child's attainment. That is why, during the coalition Government, we ensured that there was a strong focus on the early years. At a time when public finances were particularly tight, we secured a £760 million investment for free early years education for the most disadvantaged two-year-olds in England. We also increased the provision of free early years education for all three and four-year-olds up to 15 hours a week, and we commissioned the Nutbrown review of qualifications and skills in the early years sector. We have a record of delivery and today we are proposing further actions to support pupils in their early years in schools across the length and breadth of Wales.

In terms of individual pupil monitoring, our motion calls for such a system, so that teachers can focus on the experiences, on the achievements and on the outcomes for individual pupils. We welcome the support of other parties for such a scheme, and, in particular, its inclusion within the Conservative amendment 2 is to be welcomed. However, we will not be supporting that amendment today as it seeks to remove the proposal to reduce class sizes from our motion. A system of individual pupil monitoring recognises children as individuals and that, while we might never achieve equality of outcomes, we can certainly aim to achieve equality of opportunity. So, the crux of this is about putting in place a system that enables every pupil to reach their full potential. We need to set up schemes in each school to assess how well pupils are doing compared to how they should be.

The new school categorisation system is, in many ways, a more sophisticated model than school banding. However, it unfortunately still lacks a focus on individual pupil tracking. All schools have a mix of pupil ability. That's a fact of life. Simply categorising the school is, in our view, a flawed proposition. In 2011, Dr Stevie Upton's work, 'Making a difference at Key Stage 3: Learning from five successful schools' shows that, with the appropriate use of internal evaluation and monitoring, standards can be raised in schools on an individual basis. The report concludes that, and I quote:

'Each of the schools focuses on the trajectory of its pupils as much as on their absolute standard of attainment. Thus all pupils are helped to achieve to the highest standard of which they are capable.'

This is the basis of the system of individual pupil monitoring. For far too long, the Welsh Government has looked at school structures and then considered the impact of those structures upon the individual pupils. We should change that approach so that we concentrate on pupils and then make the system change to best fit them. The Welsh Liberal Democrats believe that this type of approach—individual assessment leading to individual support—is the way forward. Diolch yn fawr.

Dyna pam rydym wedi cynnwys yr argymhelliad hwn yn ein cynnig heddiw i leihau maint dosbarthiadau babanod i 25, gan gydnabod pwysigrwydd buddsoddi yn addysg y blynyddoedd cynnar, sy'n gallu gwneud gwahaniaeth mor allweddol i gyrhaeddiad plentyn unigol. Dyna pam, yn ystod y Llywodraeth glymblaid, yr aethom ati i sicrhau ffocws cryf ar y blynyddoedd cynnar. Ar adeg pan fo cyllid cyhoeddus yn arbennig o dynn, aethom ati i sicrhau buddsoddiad o £760 miliwn ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar am ddim i'r plant dwy oed mwyaf difreintiedig yn Lloegr. Aethom ati hefyd i gynyddu'r ddarpariaeth i 15 awr yr wythnos o addysg blynyddoedd cynnar am ddim i bob plentyn tair a phedair oed, a chomisynu adolygiad Nutbrown o gymwysterau a sgiliau yn y sector blynyddoedd cynnar. Mae gennym hanes o gyflawni a heddiw rydym yn cynnig camau gweithredu pellach i gefnogi disgyblion yn eu blynyddoedd cynnar mewn ysgolion ar hyd a lled Cymru.

O ran monitro disgyblion unigol, mae ein cynnig yn galw am system o'r fath er mwyn i athrawon allu canolbwyntio ar brofiadau, cyflawniadau a deilliannau disgyblion unigol. Rydym yn croesawu cefnogaeth y pleidiau eraill i gynllun o'r fath, ac yn benodol, mae ei gynnwys o fewn gwelliant 2 y Ceidwadwyr i'w groesawu. Fodd bynnag, ni fyddwn yn cefnogi'r gwelliant hwnnw heddiw gan ei fod yn ceisio dileu'r argymhelliad i leihau maint dosbarthiadau o'n cynnig. Mae system o fonitro disgyblion unigol yn cydnabod plant fel unigolion ac er na fyddwn byth efallai yn sicrhau cydraddoldeb o ran canlyniadau, gallwn yn sicr anelu at sicrhau cyfle cyfartal. Felly, yn y bôn, mae hyn yn ymwneud â rhoi system ar waith sy'n galluogi pob disgybl i gyrraedd ei botensial llawn. Mae angen i ni sefydlu cynlluniau ym mhob ysgol i asesu pa mor dda y mae disgyblion yn ei wneud o'i gymharu â sut y dylent fod yn gwneud.

Mewn sawl ffordd, mae'r system newydd ar gyfer categorieddio ysgolion yn fodel mwy soffistigedig na bandio ysgolion. Fodd bynnag, yn anffodus mae'n brin o ffocws ar olrhain disgyblion unigol o hyd. Disgyblion o allu cymysg sydd gan bob ysgol. Dyna un o ffeithiau bywyd. Yn ein barn ni, mae categorieddiad ysgol ohono'i hun yn syniad diffygiol. Yn 2011, dangosodd gwaith Dr Stevie Upton, 'Making a difference at Key Stage 3: Learning from five successful schools', y gellir codi safonau mewn ysgolion ar sail unigolion gyda'r defnydd priodol o werthuso a monitro mewnol. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad, ac rwy'n dyfynnu:

'Each of the schools focuses on the trajectory of its pupils as much as on their absolute standard of attainment. Thus all pupils are helped to achieve to the highest standard of which they are capable.'

Dyma yw sail y system o fonitro disgyblion unigol. Ers llawer gormod o amser, mae Llywodraeth Cymru wedi edrych ar strwythurau ysgol ac yna wedi ystyried effaith y strwythurau hynny ar y disgyblion unigol. Dylem newid yr ymagwedd honno fel ein bod yn canolbwyntio ar ddisgyblion ac yna'n gwneud i'r system newid yn y modd mwyaf addas ar eu cyfer. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn credu mai ymagwedd o'r fath—asesu unigolion yn arwain at gymorth i unigolion—yw'r ffordd ymlaen. Diolch yn fawr.

I would like to highlight the role of community-focused schools in driving up educational attainment in Wales. They work well in some parts of the country, Dirprwy Lywydd, but I believe we need a more comprehensive roll-out of community-focused schools right across our country. I believe it is very, very important to have that partnership with families and indeed communities if we are going to enable our pupils to achieve their potential. I think it's well known that children in fact spend quite a short period in school compared to the time out of school. So, if we're not able to get families on board to support the learning that takes place in schools—and, indeed, communities valuing education and facilitating it—then we will not make the progress that we would like to see. It's not an easy task, because I think we know that particularly families of children in more deprived circumstances are less likely to have good relations with the school; they're more likely to see the middle-class professionals in the schools as a barrier, perhaps given, sometimes, their own poor experiences of education. So, there are barriers to overcome and there is work to do.

I believe that twenty-first century schools are very important, because they are very good on the community-focused school front, but, of course, we have an existing number of schools where we need to make progress as well. I believe a community-focused school approach has many advantages—those I've just mentioned, but also in terms of the arts and sport. I think we all know that some pupils who are not engaged in school generally are very interested in sports and the arts, and, if they do achieve in either of those, then it very often enables them to achieve across the range of school subjects, because their confidence has been built and they have been encouraged to partake in school activities more generally.

So, if we can have a better arts offer and a better sports offer, I believe that would be very important in driving up general attainment, and, thankfully, we've got very good partnerships in place with the Arts Council of Wales, with Sport Wales and many others, which have seen good progress, but I believe there is much more to be done. I believe that the curriculum review will be very helpful in taking that wider approach to educational attainment. But having an extended school day around community-focused schools will be very, very important as well.

Again, Dirprwy Lywydd, I think we all know that some children do not get the mum's taxi experience; they're not taken around a range of activities, arts and sports once they leave school. But if there is an extended offer in school, at the school site, then, very often, it is possible to give them that wider experience. So, if we can have sports bodies and arts bodies coming into the schools to a greater extent around an extended school day, and, of course, get the children out to experience those activities, then that is very beneficial indeed.

Hoffwn dynnu sylw at rôl ysgolion bro yn codi cyrhaeddiad addysgol yng Nghymru. Maent yn gweithio'n dda mewn rhai rhannau o'r wlad, Ddirprwy Lywydd, ond rwy'n credu ein bod angen dull mwy cynhwysfawr o gyflwyno ysgolion bro ar draws ein gwlad. Rwy'n credu ei bod yn eithriadol o bwysig cael partneriaeth gyda theuluoedd, a chymunedau yn wir, os ydym am alluogi ein disgyblion i gyflawni eu potensial. Rwy'n credu ei bod yn hysbys iawn mai cyfnod eithaf byr mewn gwirionedd y bydd plant yn ei dreulio yn yr ysgol o'i gymharu â'r amser y tu allan i'r ysgol. Felly, os na allwn gael teuluoedd i ddod gyda ni i gefnogi'r dysgu sy'n digwydd yn yr ysgolion—ac yn wir, cael cymunedau i werthfawrogi a hwyluso addysg—yna ni fyddwn yn gwneud y cynnydd yr hoffem ei weld. Nid yw'n dasg hawdd, oherwydd credaf ein bod yn gwybod bod teuluoedd plant mewn amgylchiadau mwy difreintiedig yn arbennig yn llai tebygol o fod â pherthynas dda â'r ysgol; maent yn fwy tebygol o weld y gweithwyr proffesiynol dosbarth canol yn yr ysgolion fel rhwystr, o ystyried weithiau, efallai, eu profiadau gwael eu hunain o fydd addysg. Felly, mae yna rwystrau i'w goresgyn ac mae gwaith i'w wneud.

Credaf fod ysgolion yr unfed ganrif ar hugain yn bwysig iawn, am eu bod yn dda iawn fel ysgolion bro, ond wrth gwrs, mae gennym nifer o ysgolion yn barod lle y mae angen i ni wneud cynnydd hefyd. Rwy'n credu bod llawer o fanteision i'r dull ysgolion bro—y rhai rwyf newydd eu crybwyll, ond hefyd o ran y celfyddydau a chwaraeon. Rwy'n meddwl ein bod i gyd yn gwybod bod gan rai disgyblion nad ydynt yn cymryd rhan yn yr ysgol yn gyffredinol ddi-ddordeb mawr mewn chwaraeon a'r celfyddydau, ac os ydynt yn cyflawni yn y naill neu'r llall o'r rheini, yna mae'n aml iawn yn eu galluogi i gyflawni ar draws yr ystod o bynciau ysgol, am eu bod wedi magu hyder a chânt eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol yn fwy cyffredinol.

Felly, os gallwn gael gwell cynnig o ran y celfyddydau ac o ran chwaraeon, rwy'n credu y byddai hynny'n bwysig iawn wrth fynd ati i godi cyrhaeddiad yn gyffredinol, a diolch byth, mae gennym bartneriaethau da iawn ar waith gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, gyda Chwaraeon Cymru a llawer o gyrff eraill, sydd wedi gweld cynnydd da, ond rwy'n credu bod llawer mwy i'w wneud. Credaf y bydd adolygu'r cwricwlwm yn ddefnyddiol iawn ar gyfer mabwysiadu'r ymagwedd ehangach hon tuag at gyrhaeddiad addysgol. Ond bydd ymestyn y diwrnod ysgol mewn ysgolion bro yn eithriadol o bwysig hefyd.

Unwaith eto, Ddirprwy Lywydd, rwy'n meddwl ein bod i gyd yn gwybod nad yw rhai plant yn cael profiad o darsi mam; ni chânt eu cludo i amrywiaeth o weithgareddau, y celfyddydau a chwaraeon, ar ôl iddynt ddod o'r ysgol. Ond os oes cynnig estynedig yn yr ysgol, ar safle'r ysgol, yna, ni aml iawn, mae'n bosibl rhoi'r profiad ehangach iddynt. Felly, os gallwn gael cyrff chwaraeon a chy'rff celfyddydol i ddod i mewn i'r ysgol i raddau mwy gyda diwrnod ysgol estynedig, a chael y plant allan i brofi'r gweithgareddau hynny wrth gwrs, yna mae hynny'n fuddiol iawn yn wir.

A further advantage of community-focused schools, I think, is around childcare, which is obviously very, very important to all of our working families here in Wales and there is much that can be done with wrap-around childcare, which, again, can engage families and communities for the general good in terms of supporting the work that our schools do.

There are barriers, of course, Dirprwy Lywydd, and I know many Members will be familiar with them. Sometimes, it's something as basic, in a way, as an extra payment for a caretaker after school, sometimes it's the headteacher and perhaps the governing body not giving sufficient priority or importance to having a community focus. Sometimes they see it as not part of their core activity, but I believe it is, very much so, for the reasons that I've mentioned. What I would like to see developed now is a Welsh Government mechanism, some way of ensuring consistency right across Wales, so that we could be confident that all of our schools will have this community focus. If that mechanism is put in place in the future, Dirprwy Lywydd, then I believe that will be very, very beneficial in terms of driving up outcomes and attaining the sort of standards that all Members here would like to see.

Mantais arall ysgolion bro, rwy'n credu, yw gofal plant, sy'n amlwg iawn yn bwysig iawn i bob un o'n teuluoedd sy'n gweithio yma yng Nghymru ac mae llawer y gellir ei wneud gyda gofal cofleidiol i blant, sydd, unwaith eto, yn gallu sicrhau ymgysylltiad â theuluoedd a chymunedau er budd cyffredinol o ran cefnogi'r gwaith y mae ein hysgolion yn ei wneud.

Ceir rhwystrau, wrth gwrs, Ddirprwy Lywydd, ac rwy'n gwybod y bydd llawer o'r Aelodau'n gyfarwydd â hwy. Weithiau, mae'n rhywbeth mor sylfaenol, mewn ffordd, â thal ychwanegol am ofalwr ar ôl ysgol, weithiau mae'n ymwneud â'r pennaeth ac efallai nad yw'r corff llywodraethu yn rhoi digon o flaenoriaeth neu bwyslais ar gael ffocws cymunedol. Weithiau nid ydynt yn ei weld fel rhan o'u gweithgarwch craidd, ond rwy'n credu ei fod, ac i raddau helaeth felly, am y rhesymau rwyf wedi crybwyll. Yr hyn yr hoffwn ei weld yn cael ei ddatblygu yn awr yw mecanwaith gan Lywodraeth Cymru, rhyw fodd o sicrhau cysondeb ledled Cymru, er mwyn i ni allu bod yn hyderus y bydd y ffocws cymunedol hwn gan bob un o'n hysgolion. Pe bai mecanwaith o'r fath yn cael ei roi ar waith yn y dyfodol, Ddirprwy Lywydd, yna rwy'n credu y bydd yn fuddiol tu hwnt o ran gwella canlyniadau a chyrraedd y math o safonau y byddai pob Aelod yma yn hoffi eu gweld.

17:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis.

I call the Minister for Education and Skills, Huw Lewis.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:28 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Deputy Presiding Officer, can I thank Members for their contributions today? Any balanced contribution to this debate must begin by acknowledging that Welsh education has seen significant undeniable improvements in attainment in recent years. It does seem sometimes as if the Liberal Democrats, amongst others, stopped looking at the evidence of progress in 2012, because they didn't like what they saw. But it's there in terms of progress in the foundation phase, it's there at key stage 2, it's there most emphatically at key stage 3, and it's there at key stage 4 in the level 2 results at GCSE—57.9 per cent of young people obtained five good GCSEs including English and/or Welsh and maths this year. That's 2.5 percentage points higher than the year before. It's 13.6 percentage points higher than when we began counting in this way in 2007.

Ddirprwy Lywydd, a gaf fi ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau heddiw? Rhaid i unrhyw gyfraniad cytbwys i'r ddatl hon ddechrau drwy gydnabod bod gwelliannau sylweddol diymwad wedi bod mewn cyrhaeddiad addysgol yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'n ymddangos weithiau fel pe bai'r Democratiaid Rhyddfrydol, ymhlith eraill, wedi rhoi'r gorau i edrych ar y dystiolaeth o gynnydd yn 2012, am nad oeddent yn hoffi'r hyn a welsant. Ond mae yno o ran cynnydd yn y cyfnod sylfaen, mae yno yng nghyfnod allweddol 2, mae yno'n bendant iawn yng nghyfnod allweddol 3, ac mae yno yng nghyfnod allweddol 4 yn y canlyniadau lefel 2 TGAU—cafodd 57.9 y cant o bobl ifanc bump TGAU da gan gynnwys Cymraeg a/neu Saesneg a mathemateg eleni. Mae'n 2.5 pwynt canran yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Mae'n 13.6 pwynt canran yn uwch na phan ddechreuasom gyfrif yn y ffordd hon yn 2007.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The performance of our poorest pupils is rising even faster. Although it is still too low a figure by far, 31.6 per cent of pupils eligible for free school meals this year achieved that level 2 inclusive score at GCSE, including English and/or Welsh and maths. That's 3.9 percentage points higher than it was the year before. Performance rising for all; the gap closing for the poorest. The attainment gap between our poorest learners and their peers is narrowing at every key stage of education: foundation phase, key stage 2, key stage 3 and GCSE. Near to three quarters of our Schools Challenge Cymru schools this summer saw improvements in their level 2 inclusive scores, with some showing record attainment across the board. The analysis of the performance of free school meals pupils benefiting from the PDG showed that their improvement has more than doubled, from an improvement rate of 1.1 percentage points before the introduction of the PDG to 2.76 percentage points afterwards.

Of course, there is more improvement that we need to see, and a good deal of it. I've myself talked about our desire, of course, to see an uplift in our PISA scores. But I've been busy seeing to it, seeing that this is done, and not endlessly dissecting the last set of PISA scores, which are now near to four years old. I am saddened that the motion before us today has singularly failed to congratulate or even to acknowledge the progress of our schools, of our young people and our teachers since 2012.

Of course, it's only right that today's debate has touched on the support available for professionals, as we enter what will be a very ambitious period of change. I agree with those elements of the motion, and those Members who have spoken today, about the importance of effective professional development. Members should know, incidentally, that teachers already have an allocation of protected time to undertake quality CPD. It's part of their terms and conditions. There is already a statutory requirement for schools to ensure that all staff have access to advice, training and development opportunities appropriate to their needs through their school development plan. But I want to build on this, and that's why I've tasked our new deal pioneer schools with strengthening the professional development landscape for practitioners in Wales.

I agree also, of course, with those who have spoken about the importance of leadership, and that's why we have put in place the lead and emerging practitioner school programme and, in the new year, I will be publishing our new leadership strategy for consultation. It's also why we've begun the most fundamental reform ever to initial teacher education and training in Wales, to ensure that the leaders and practitioners of tomorrow have the training they need to deliver the new curriculum.

Mae perfformiad ein disgyblion tlotaf yn gwella hyd yn oed yn gynt. Er ei fod yn dal i fod yn ffigur rhy isel o lawer, cyflawnodd 31.6 y cant o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim sgôr gynwysedig lefel 2 yn y TGAU eleni, gan gynnwys Cymraeg a/neu Saesneg a mathemateg. Dyna 3.9 pwynt canran yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Mae perfformiad yn gwella i bawb; mae'r bwlch yn cau i'r plant tlotaf. Mae'r bwlch cyrhaeddiad rhwng ein dysgwyr tlotaf a'u cyfoedion yn culhau ym mhob un o gyfnodau allweddol addysg: y cyfnod sylfaen, cyfnod allweddol 2, cyfnod allweddol 3 a TGAU. Gwelodd bron i dri chwarter ein hysgolion Her Ysgolion Cymru welliannau yn eu sgôr gynwysedig lefel 2 yr haf hwn, gyda rhai yn dangos cyrhaeddiad cyffredinol na welwyd o'r blaen. Dangosodd dadansoddiad o berfformiad disgyblion prydau ysgol am ddim sy'n elwa o'r Grant Amddifadedd Disgyblion fod eu gwelliant wedi mwy na dyblu, o gyfradd wella o 1.1 pwynt canran cyn cyflwyno'r Grant Amddifadedd Disgyblion i 2.76 pwynt canran ar ôl hynny.

Wrth gwrs, mae angen i ni weld mwy o welliant, llawer iawn ohono. Rwyf wedi siarad am ein dymuniad, wrth gwrs, i weld ein sgoriau PISA yn codi. Ond rwyf wedi bod yn brysur yn sicrhau hynny, yn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud, yn hytrach na dadansoddi'n ddiddiwedd y set olaf o sgoriau PISA, sydd bellach bron yn bedair oed. Rwy'n drist fod y cynnig ger ein bron heddiw wedi methu'n llwyr â llongyfarch neu hyd yn oed gydnabod cynnydd ein hysgolion, ein pobl ifanc a'n hathrawon ers 2012.

Wrth gwrs, nid yw ond yn deg i'r ddadl heddiw gyfeirio at y cymorth sydd ar gael i weithwyr proffesiynol, wrth i ni gychwyn ar gyfnod uchelgeisiol iawn o newid. Cytunaf â'r elfennau hynny o'r cynnig, a'r Aelodau sydd wedi siarad heddiw am bwysigrwydd datblygiad proffesiynol effeithiol. Dylai'r Aelodau wybod, gyda llaw, fod amser wedi'i neilltuo i athrawon eisoes ar gyfer ymgymryd â DPP o ansawdd. Mae'n rhan o'u telerau a'u hamodau. Mae gofyniad statudol eisoes i ysgolion sicrhau bod yr holl staff yn cael mynediad at gyfleoedd cyngor, hyfforddi a datblygu sy'n briodol i'w hanghenion drwy eu cynllun datblygu ysgol. Ond rwy'n awyddus i adeiladu ar hyn, a dyna pam rwyf wedi galw ar ysgolion arloesi y fargen newydd i gryfhau'r dirwedd datblygiad proffesiynol ar gyfer addysgwyr yng Nghymru.

Rwy'n cytuno hefyd, wrth gwrs, â'r rhai sydd wedi siarad am bwysigrwydd arweinyddiaeth, a dyna pam ein bod wedi cyflwyno'r rhaglen ysgolion sy'n ymarferwyr arweiniol a datblygol ac yn y flwyddyn newydd, byddaf yn cyhoeddi ein strategaeth arweinyddiaeth newydd ar gyfer ymgynghori yn ei chylch. Dyna pam ein bod hefyd wedi dechrau ar y diwygiad mwyaf sylfaenol erioed i addysg a hyfforddiant cychwynol athrawon yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod arweinwyr ac ymarferwyr y dyfodol yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i gyflwyno'r cwricwlwm newydd.



As was signalled yesterday through our budget commitment to continue with Schools Challenge Cymru and to increase funding for schools at 1 per cent above the money we receive from Westminster, we want to turn Welsh education, even in bad times, from a good system into a great system. However, we need to invest in those areas where we know the impact is greatest, and that's why I cannot support the Liberal Democrat motion today, which includes an unfunded, evidence-light commitment to reducing infant-age classes to 25. I agree that there is evidence, plenty of it, to suggest that our very youngest children make better progress if taught in groups of fewer than 20. It's why we invested £0.5 billion in our flagship foundation phase programme. There is, however, scant evidence to support the proposition that further reducing the class size for older age primary school children will, in itself, ensure that they do better.

I echo what Simon Thomas contributed earlier in that smaller classes, in themselves, will not necessarily deliver better outcomes for these children. It's the quality of the adult in the room that matters much, much more. So, such a pledge not only lacks an evidential base, but it would, of course, also be extremely costly. This issue's been looked at before, more than once, and some estimates suggest that a pledge of this kind—and I don't know if the Liberal Democrats are heading towards this being on their leaflets in the next Assembly elections, but here we go, let them be honest about it if they do—some estimates suggest that a pledge of this kind would cost upwards of £50 million—between £50 million and £60 million. Such a major commitment would have a significant set of implications for the funding of other areas in Welsh education, and for our schools. So, those who support this move must explain where they would cut £50 million from the education budget and be honest about people as they set about proposing this reform. Because this would put at risk the wider support programmes that the Liberal Democrats and others have called for as we move forward with the Donaldson changes, amongst other things.

Deputy Presiding Officer, I want Welsh education to be the very best. I want a world-class, self-improving system that can stand beside the best school systems in the world, but the thinking to get there has to be clearer, the investments have to be sharper, and the strategy has to be more focused than the one that the opposition parties have offered up to us today.

Fel y dynodwyd ddoe drwy ein hymrwymiad cyllideb i barhau â Her Ysgolion Cymru ac i gynyddu cyllid ar gyfer ysgolion 1 y cant yn uwch na'r arian a gawn gan San Steffan, rydym am droi addysg Cymru, hyd yn oed mewn adegau anodd, o fod yn system dda i fod yn system wych. Fodd bynnag, mae angen i ni fuddsoddi yn y meysydd hynny lle y gwyddom y ceir yr effaith fwyaf, a dyna pam na allaf gefnogi cynnig y Democratiaid Rhyddfrydol heddiw, sy'n cynnwys ymrwymiad heb ei ariannu, a heb lawer o dystiolaeth, i dorri maint dosbarthiadau babanod i 25. Rwy'n cytuno bod yna dystiolaeth, digon ohono, i awgrymu bod ein plant ieuengaf yn gwneud cynnydd gwell os cânt eu haddysgu mewn grwpiau o lai nag 20. Dyna pam ein bod wedi buddsoddi £0.5 biliwn yn ein rhaglen flaenllaw ar gyfer y cyfnod sylfaen. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth i gefnogi'r gosodiad fod lleihau maint dosbarthiadau ymhellach i blant cynradd hŷn, ynddo'i hun, yn sicrhau eu bod yn gwneud yn well.

Ategaf yr hyn a gyfrannodd Simon Thomas yn gynharach, sef na fydd dosbarthiadau llai, ynddynt eu hunain, o reidrydd yn cyflawni gwell canlyniadau i'r plant hyn. Mae ansawdd yr oedolyn yn yr ystafell yn llawer iawn pwysicach. Felly, nid yn unig y mae addewid o'r fath yn brin o sylfaen dystiolaeth, ond byddai hefyd yn hynod o gostus wrth gwrs. Edrychwyd ar y mater hwn o'r blaen, fwy nag unwaith, ac mae rhai amcangyfrifon yn awgrymu y byddai addewid o'r fath—ac nid wyf yn gwybod a yw'r Democratiaid Rhyddfrydol yn anelu at gynnwys y mater hwn ar eu taflenni yn etholiadau nesaf y Cynulliad, ond dyma ni, gadewch iddynt fod yn onest am y peth os ydynt yn gwneud hynny—mae rhai amcangyfrifon yn awgrymu y byddai addewid o'r fath yn costio £50 miliwn fan lleiaf—rhwng £50 miliwn a £60 miliwn. Byddai set sylweddol o oblygiadau i ymrwymiad mawr o'r fath o ran cyllido meysydd eraill mewn addysg yng Nghymru, ac o ran ein hysgolion. Felly, rhaid i'r rhai sy'n cefnogi'r newid hwn egluro lle y byddent yn torri £50 miliwn oddi ar y gyllideb addysg a bod yn onest wrth bobl wrth iddynt fynd ati i gynnig diwygio o'r fath. Oherwydd byddai hyn yn perglu'r rhaglenni cymorth ehangach y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol ac eraill wedi galw amdanynt wrth i ni symud ymlaen gyda newidiadau Donaldson, ymhlith pethau eraill.

Ddirprwy Lywydd, rwyf am i addysg yng Nghymru fod o'r safon uchaf un. Rwyf am system o safon fyd-eang, system sy'n gwella'i hun a all sefyll ochr yn ochr â'r systemau ysgol gorau yn y byd, ond rhaid i'r meddylfryd ar gyfer cyrraedd yno fod yn gliriach, rhaid i'r buddsoddiadau fod yn fwy pendant, a rhaid cael mwy o ffocws i'r strategaeth na'r hyn y mae'r gwrthbleidiau wedi ei gynnig i ni heddiw.

17:36

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Kirsty Williams i ymateb i'r ddadl.

I call on Kirsty Williams to respond to the debate.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. Could I begin by thanking colleagues around the Chamber for their contributions to the debate this afternoon? Aled Roberts opened the debate by referring to the impact of the pupil deprivation grant on outcomes for our poorest children. Nothing makes me prouder than to read the Government's own evaluation report into the impact of that Government spend; although I should like to remind Huw Lewis, who seemed to forget that, actually, we had to persuade the then education Minister and the First Minister of the merits of that investment. But I'm very glad to say that yesterday, we saw further investment in the education of our most deprived children, and I know that the pupil deprivation grant will go on to give those children the skills and the educational opportunities that they need to succeed in this world, and to begin to break down the link between what your parents have and what you can achieve in school.

He went on to talk about another element of how we believe we can improve attainment for all our children, and that is to reduce class sizes. There is evidence, if the Minister would care to read it, to demonstrate that a reduction of class sizes in infant school can lead to significant gains for children.

Simon, can I thank you for your supportive comments about the importance of early years education? We agree that those formative years of a young person's life gives them the bedrock on which their whole educational experience will be based, and getting that right gives them the opportunity to access the curriculum, as they grow older, to allow them to fulfil their potential. We agree that training for teachers is crucial. That's why we included in our motion—and elaborated by my colleague, Eluned Parrott, in her contribution—the importance of good training for headteachers, but also protected continuing professional development for classroom teachers. But the issue is around the issue of numbers, which you questioned, that somewhere between 25 and 30 is the optimum level. The reality is that there are now 7,835 Welsh children being taught in classes of over 30—246 classes over 30, which goes beyond what you yourself admitted is the optimum for teaching.

Angela talked about workforce planning. Of course, all this is for naught if we don't have people to do the job. What we do know, from many studies and surveys, is that people leave the profession, often because they feel that they cannot do the job that they were trained for adequately. Often, that's around being asked simply to do too much. To be in a classroom of over 30 very lively, very young people, being asked to deliver that curriculum, is a huge, huge professional strain to put on an individual. We believe that, by dropping class sizes, we can retain, and hopefully attract back into the profession, those people who felt they had no other choice but to leave.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi dechrau drwy ddiolch i fy nghyd-Aelodau o amgylch y Siambr am eu cyfraniadau at y ddadl y prynhawn yma? Agorodd Aled Roberts y ddadl drwy gyfeirio at effaith y grant amddifadedd disgyblion ar ganlyniadau ein plant tlotaf. Nid oes dim yn fy ngwneud yn falchach na darllen adroddiad gwerthuso y Llywodraeth ei hun ar effaith y gwariant hwn gan y Llywodraeth; ond hoffwn atgoffa Huw Lewis, a oedd i'w weld wedi anghofio, y bu'n rhaid i ni berswadio'r Gweinidog addysg ar y pryd a'r Prif Weinidog ynghylch rhinweddau'r buddsoddiad hwnnw. Ond rwy'n falch iawn o ddweud ein bod wedi gweld buddsoddi pellach ddoe yn addysg ein plant mwyaf difreintiedig, a gwn y bydd y grant amddifadedd disgyblion yn mynd ymlaen i roi i'r plant hynny y sgiliau a'r cyfleoedd addysgol sydd eu hangen arnynt i lwyddo yn y byd hwn, a dechrau chwalu'r cyswllt rhwng yr hyn sydd gan eich rhieni a'r hyn y gallwch ei gyflawni yn yr ysgol.

Aeth ymlaen i sôn am elfen arall o sut y credwn y gallwn wella cyrhaeddiad ar gyfer ein holl blant, sef lleihau maint dosbarthiadau. Ceir tystiolaeth, pe bai'r Gweinidog yn ei ddarllen, sy'n dangos y gall lleihau maint dosbarthiadau babanod arwain at fanteision sylweddol i blant.

Simon, a gaf fi diolch i chi am eich sylwadau cefnogol ynglŷn â phwysigrwydd addysg y blynyddoedd cynnar? Rydym yn cytuno bod y blynyddoedd ffurfiannol hyn ym mywyd person ifanc yn rhoi sylfaen i'w holl brofiad addysgol, ac mae cael hynny'n iawn yn rhoi cyfle iddynt gael mynediad at y cwricwlwm, wrth iddynt dyfu'n hŷn, i'w caniatáu i gyrraedd eu potensial. Rydym yn cytuno bod hyfforddiant ar gyfer athrawon yn hanfodol. Dyna pam rydym wedi cynnwys yn ein cynnig—ac ymhelathodd fy nghyd-Aelod, Eluned Parrott, ar hyn yn ei chyfraniad—y pwyslais ar hyfforddiant da i benaethiaid, ond datblygiad proffesiynol parhaus wedi'i ddiogelu ar gyfer athrawon dosbarth hefyd. Ond mae'r ddadl yn ymwneud â niferoedd, ac fe gwestiynoch chi hyn, mai rywle rhwng 25 a 30 yw'r lefel orau posibl. Y realiti yw bod yna bellach 7,835 o blant Cymru yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o fwy na 30—246 o ddosbarthiadau dros 30, sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn rydych chi eich hun wedi cyfaddef yw'r nifer gorau posibl ar gyfer addysgu.

Soniodd Angela am gynllunio gweithlu. Wrth gwrs, ni ddaw dim o hyn os nad oes gennym bobl i wneud y gwaith. Yr hyn a wyddom, o nifer o astudiaethau ac arolygon, yw bod pobl yn gadael y proffesiwn, yn aml oherwydd eu bod yn teimlo na allant wneud y swydd y cawsant eu hyfforddi i'w gwneud yn ddigon da. Yn aml, mae hynny'n ymwneud yn syml â'r galw sydd arnynt i wneud gormod. Mae bod mewn ystafell ddosbarth o dros 30 o bobl ifanc iawn hynod o fywiog, a galw arnynt i gyflawni'r cwricwlwm hwnnw, yn strae'n proffesiynol eithriadol o enfawr i'w roi ar unigolyn. Drwy leihau maint dosbarthiadau, credwn y gallwn gadw'r bobl hyn sy'n teimlo nad oes ganddynt unrhyw ddewis arall ond gadael, a'u denu yn ôl i'r proffesiwn, gobeithio.

Eluned talked about the leadership element of raising standards. That leadership does indeed come from the top, but that leadership also has to be reinforced by well-trained, well-motivated teaching staff throughout the organisation. A head cannot do it on their own, and that's why we put a great emphasis in our motion on continuing professional development as well as new programmes to develop school leaders.

Now, Jeff Cuthbert in his contribution casually dismissed the issue of class sizes as if they were unimportant. Well, Jeff, it's important to the teaching profession; but it's also important to parents. Last year in Wales, we saw a 4.7 per cent increase in parents choosing to send their children to private schools. The Independent Schools Council cites smaller class sizes as one of the main motivating factors in why parents make that choice. Of course, parents are perfectly entitled to make that choice, but what about the children of parents who can't—who do not have the resources to do so? I want decent-sized classes for all our children, not just those of parents who can afford to make other choices for them. Jeff.

Soniodd Eluned am yr elfen arweinyddiaeth sydd ynghlwm wrth godi safonau. Daw'r arweinyddiaeth honno, yn wir, o'r brig, ond mae'n rhaid atgyfnerthu arweinyddiaeth o'r fath â staff addysgu llawn cymhelliad wedi'u hyfforddi'n dda yn y sefydliad drwyddo draw. Ni all penaethiaid ei wneud ar eu pen eu hunain, a dyna pam rydym yn rhoi pwyslais mawr yn ein cynnig ar ddatblygiad proffesiynol parhaus yn ogystal â rhaglenni newydd i ddatblygu arweinwyr ysgolion.

Nawr, aeth Jeff Cuthbert ati yn ei gyfraniad i wfftio maint dosbarthiadau fel pe bai'n ddibwys. Wel, Jeff, mae'n bwysig i'r proffesiwn addysgu; ond mae hefyd yn bwysig i rieni. Y llynedd yng Nghymru, gwelsom gynnydd o 4.7 y cant yn nifer y rhieni sy'n dewis anfon eu plant i ysgolion preifat. Mae'r Cyngor Ysgolion Annibynnol yn dweud mai dosbarthiadau llai yw un o'r prif ffactorau sy'n cymell rhieni i wneud y dewis hwnnw. Wrth gwrs, mae gan rieni berffaith hawl i wneud y dewis hwnnw, ond beth am blant rhieni sy'n methu—rhieni heb yr adnoddau i wneud hynny? Rwyf am ddsbarthiadau o faint gweddus i'n holl blant, nid yn unig plant rhai sy'n gallu fforddio gwneud dewisiadau eraill ar eu cyfer. Jeff.

17:41 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm grateful to you for giving way. I don't think I dismissed the whole issue out of hand. But I made it clear, or was trying to make it clear, that it was not the panacea that you were proposing. The contribution made by the Minister, when he referred to it being an evidence-light proposal, is something that I would identify myself with.

Rwy'n ddiolchgar i chi am ildio. Nid wyf yn credu fy mod wedi wfftio'r mater. Ond roeddwn yn egluro, neu'n ceisio egluro, nad dyna'r ateb i bob dim roeddech yn ei argymhell. Mae cyfraniad y Gweinidog, pan gyfeiriodd ato fel cynnig heb lawer o dystiolaeth drosto, yn rhywbeth y byddwn yn ei gydnabod fy hun.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:41 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That's why the motion, Jeff, if you read it, talks about class sizes, it talks about school leadership, it talks about continuing professional development and it talks about individual pupil monitoring systems. Of course, class sizes on their own are not going to be the difference, but what we do know for teachers and for parents, and through international evidence, is that class size is part of what makes up a successful, high-achieving system.

Dyna pam y mae'r cynnig, Jeff, os darllenwch ef, yn sôn am faint dosbarthiadau, mae'n sôn am arweinyddiaeth ysgolion, mae'n sôn am ddatblygiad proffesiynol parhaus ac mae'n sôn am systemau monitro disgyblion unigol. Wrth gwrs, nid maint dosbarthiadau ar ei ben ei hun sy'n mynd i wneud gwahaniaeth, ond yr hyn rydym yn ei wybod, i athrawon ac i rieni, a thrwy dystiolaeth ryngwladol, yw bod maint dosbarth yn rhan o'r hyn sy'n creu system lwyddiannus sy'n cyflawni'n dda.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

William covered our points on the importance of individual pupil monitoring, as well as reiterating the importance of early years education. John Griffiths talked about the role of schools in raising aspiration in an entire community, and I identify very strongly, John, with what you said about how these issues can be intergenerational. If your parents had a poor educational experience, it can be very difficult to engage, then, positively in their own child's education. I would count my own husband in that, who had a torrid time at school and has never forgiven me for missing a parents evening and school meeting because I was here, and making him go. He said the moment he sat on that miniscule, tiny chair, all the horror came back to him and he literally broke out into a sweat. Those can be very difficult attitudes to challenge, and that's why I'm so glad that the pupil deprivation grant in some of our schools has been used precisely to work not just with an individual pupil, but to actually work with the entire family, so that they can get those children into school on a regular basis and we can challenge those attitudes and make education a positive experience not only for the child, but for the entire family. I agree with you: schools are not just about 9 a.m. to 3.30 p.m. They can be about so much more than that, especially in our deprived communities.

Now, Huw Lewis, the Minister, began by saying that performance is rising. It is rising, and I would congratulate all those students and all those who have helped those students achieve their good grades. But, Minister, our children do not exist and live in a Welsh bubble. They don't. They will be forced to compete in a global economy, and we are still behind our nearest neighbours, despite boasts by yourself that we would overtake England. We did not. We are competing against other nations across the globe, and our issues around PISA are well known and well documented; so much so that the Government has dropped its targets about what it wants to achieve.

There is a reason why the Welsh word for 'ladder' and 'school' is the same word. It is the ladder out of poverty, it is the ladder for success and that's why we will have no apologies for holding this debate again today.

Trafododd William ein pwyntiau ynghylch pwysigrwydd monitro disgyblion unigol, yn ogystal ag ailadrodd pwysigrwydd addysg y blynyddoedd cynnar. Siarodd John Griffiths am rôl ysgolion yn codi dyheadau mewn cymuned gyfan, ac rwy'n uniaethu'n gryf iawn, John, â'r hyn a ddywedoch ynglŷn â sut y gall y materion hyn bontio'r cenedlaethau. Os cafodd eich rhieni brofiad addysgol gwael, gall fod yn anodd iawn ymgysylltu'n gadarnhaol wedyn yn addysg eich plant eich hun. Byddwn yn cyfrif fy ngŵr fy hun yn hynny. Cafodd amser caled yn yr ysgol ac nid yw erioed wedi maddau i mi am gollu noson rieni a chyfarfod ysgol oherwydd fy mod yn y fan hon, a gwneud iddo ef fynd. O'r eiliad yr eisteddai ar y gadair fach honno, dô'r holl arswyd yn ôl iddo a byddai'n llythrennol yn chwysu. Gall y rheini fod yn agweddau anodd iawn i'w herio, a dyna pam rwyf mor falch fod y grant amddifadedd disgyblion yn rhai o'n hysgolion wedi cael ei ddefnyddio yn union felly, i weithio nid yn unig gyda disgybl unigol, ond gyda'r teulu cyfan mewn gwirionedd, fel y gallant gael y plant hynny i'r ysgol yn rheolaidd ac er mwyn i ni allu herio'r agweddau hynny a gwneud addysg yn brofiad cadarnhaol, nid yn unig ar gyfer y plentyn, ond ar gyfer y teulu cyfan. Rwy'n cytuno â chi: nid ydynt yn ymwneud yn unig â'r oriau rhwng 9 a 3:30. Gallant ymwneud â chymaint mwy na hynny, yn enwedig yn ein cymunedau difreintiedig.

Nawr, dechreuodd Huw Lewis, y Gweinidog, drwy ddweud bod perfformiad yn gwella. Mae'n gwella, a byddwn yn llongyfarch yr holl fyfyrwyr a phawb sydd wedi helpu'r myfyrwyr hynny i gael eu graddau da. Ond Weinidog, nid yw ein plant yn byw ac yn bod mewn swigen yng Nghymru. Nac ydynt yn wir. Byddant yn cael eu gorfodi i gystadlu mewn economi fyd-eang, ac rydym yn dal ar ei hôl hi o gymharu â'n cymdogion agosaf, er gwaethaf yr ymffrost gennych chi y byddem yn goddiweddyd Lloegr. Ni wnaethom hynny. Rydym yn cystadlu yn erbyn gwledydd eraill ar draws y byd, ac mae ein problemau mewn perthynas â PISA yn gyfarwydd ac wedi'u cofnodi'n dda; cymaint felly fel bod y Llywodraeth wedi gostwng ei thargedau o ran yr hyn y mae am ei gyflawni.

Mae yna reswm pam mai'r un gair sydd gennym yn y Gymraeg am 'ladder' a 'school'. Dyna'r ysgol allan o dlodi, mae'n ysgol i lwyddiant a dyna pam nad ydym yn ymddiheuro dim am gynnal y ddadl hon unwaith eto heddiw.

17:44

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I defer the vote on this item until voting time.

*Voting deferred until voting time.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:44

## 7. Cyfnod Pleidleisio

## 7. Voting Time

Y Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Voting time now follows. Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not. We will vote first on the Plaid Cymru debate on S4C. I call for a vote on the motion tabled in the name of Elin Jones. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 48, no votes against. Therefore, the motion is agreed without amendment.

Mae'r cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes. Pleidleiswn yn gyntaf ar ddatl Plaid Cymru ar S4C. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Os na dderbynnir y cynnig, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 48 o blaid, ni chafwyd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 48, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 48, Against 0, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5904](#)

[Result of the vote on motion NDM5904](#)

17:45

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

A vote on the Plaid Cymru debate on the sugary drinks levy—I call for a vote on the motion tabled in the name of Elin Jones. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendment tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 38, 10 votes against. Therefore, the motion is agreed without amendment.

Pleidleiswn ar ddatl Plaid Cymru ar yr ardol ar ddiodydd llawn siwgr—galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Os na dderbynnir y cynnig, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliant a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 38 o blaid, a phleidleisiodd 10 yn erbyn. Felly, derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 38, Yn erbyn 10, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 38, Against 10, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5905](#)

[Result of the vote on motion NDM5905](#)

17:45

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

We'll now vote on the Welsh Liberal Democrat debate on education in schools. I call for a vote on the motion tabled in the name of Aled Roberts. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 5, there voted against 43. Therefore, the motion without amendment is not agreed, and we'll now vote on the amendments.

Pleidleiswn yn awr ar ddatl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar addysg mewn ysgolion. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Os na dderbynnir y cynnig, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 5 o blaid, pleidleisiodd 43 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio, a byddwn yn awr yn pleidleisio ar y gwelliannau.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 5, Yn erbyn 43, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 5, Against 43, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5906](#)

[Result of the vote on motion NDM5906](#)

17:46

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I call for a vote on amendment 1 tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 38, no votes against, there were 10 abstentions. Therefore, amendment 1 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 1 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 38 o blaid, ni chafwyd unrhyw bleidleisiau yn erbyn, ac roedd 10 yn ymatal. Felly, derbyniwyd gwelliant 1.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 38, Yn erbyn 0, Ymatal 10.*

*Amendment agreed: For 38, Against 0, Abstain 10.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5906](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5906](#)

17:46

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

If amendment 2 is agreed, amendments 3 and 4 will be deselected. I call for a vote on amendment 2 tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 10, there voted against 38. Therefore, amendment 2 is not agreed.

Os derbynir gwelliant 2, bydd gwelliannau 3 a 4 yn cael eu dad-ddethol. Galwaf am bleidlais ar welliant 2 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 10 o blaid, pleidleisiodd 38 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 2.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 10, Yn erbyn 38, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 10, Against 38, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5906](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5906](#)

17:47

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 3 tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 33, there voted against 15. Therefore, amendment 3 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 3 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 33 o blaid, pleidleisiodd 15 yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 3.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 33, Yn erbyn 15, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 33, Against 15, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnis NDM5906](#)

[Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5906](#)

17:47

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 4 tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 24, there voted against 24. As required under Standing Order 6.20, I exercise my casting vote against the amendment, which consequently falls.

Galwaf am bleidlais ar welliant 4 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 24 o blaid, pleidleisiodd 24 yn erbyn. Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, rwy'n defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn y gwelliant, sy'n cael ei wrthod.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 24, Yn erbyn 24, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 24, Against 24, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnis NDM5906](#)

[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5906](#)

17:47

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 5 tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 24, there voted against 23. Therefore, amendment 5 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 5 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 24 o blaid, pleidleisiodd 23 yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 5.

We are in the remarkable situation— My panel does read the vote as I have just read it, but the clerk's panel reads a different result. [Assembly Members: 'Oh.'] So, I will annul that vote, and I will call amendment 5 again. So, I call for a vote on amendment 5 tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 24, there voted against 24. I cast my vote against the amendment, which consequently falls.

Rydym mewn sefyllfa ryfedd—. Mae fy mhanel yn dangos y bleidlais fel rwyf newydd ei darllen, ond mae panel y clerwr yn dangos canlyniad gwahanol. [Aelodau'r Cynulliad: 'O.'] Felly, rwy'n dirymu'r bleidlais honno, a galwaf welliant 5 eto. Felly, rwy'n galw am bleidlais ar welliant 5 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 24 o blaid, pleidleisiodd 24 yn erbyn. Rwy'n defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn y gwelliant, sy'n cael ei wrthod.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 24, Yn erbyn 24, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 24, Against 24, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM5906](#)

[Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5906](#)

17:49

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I now call for a vote on the motion as amended. Open the vote.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd. Agorwch y bleidlais.

Cynnig NDM5906 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5906 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn gresynu at y ffaith bod Cymru yn llusgo ar ôl gweddi ll y DU o ran canlyniadau addysgol, yn enwedig ym meysydd allweddol darllen, mathemateg a gwyddoniaeth;

1. Regrets that Wales lags behind the rest of the UK in educational outcomes, particularly in key areas of reading, mathematics and science.

2. Yn credu mai buddsoddi mewn addysg gynnar yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gynyddu cyrhaeddiad addysgol.

2. Believes that investing in early education is the most effective way of raising educational attainment.

3. Yn credu y dylai polisiâu addysgol helpu i feithrin arweinyddiaeth a llywodraethiant cryf, addysgu rhagorol, dyheadau uchel a chyfleoedd i arloesi;

3. Believes that educational policies should help foster strong leadership and governance, excellent teaching, high aspirations and opportunities to innovate.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i rymuso athrawon ac arweinwyr ysgolion sydd wedi dangos gallu ac arloesedd â'r rhyddid i ragori drwy:

4. Calls on the Welsh Government to empower teachers and school leaders who have shown capacity and innovation with the freedom to excel, by:

a) cyflwyno rhaglen penaethiaid dawnus i annog arweinwyr i ddefnyddio eu harbenigedd i gefnogi ysgolion sy'n tanberfformio;

a) introducing a talented headteachers programme to encourage top leaders to use their expertise to support underperforming schools;

b) sicrhau bod athrawon yn cael amser wedi'i ddiogelu i ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus;

b) ensuring that teachers are given protected time to undertake continuous professional development;

c) cyflwyno cynrychiolaeth etholedig o gyfoedion o'r proffesiwn addysgu i'r Cyngor Gweithlu Addysg i sicrhau atebolrwydd gwirioneddol; a

c) introducing elected representation of peers from the teaching profession to the Education Workforce Council to ensure proper accountability; and

d) cyflwyno system o fonitro disgyblion unigol, fel y gall athrawon ganolbwyntio ar brofiadau, cyflawniadau a deilliannau disgyblion unigol.

d) introducing a system of individual pupil monitoring, so that teachers can focus on the experiences, achievements and outcomes for individual pupils.

17:49

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Close the vote. There voted in favour 24, there voted against 24. I cast my vote against the motion, which falls.

Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 24 o blaid, pleidleisiodd 24 yn erbyn. Rwy'n defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn y cynnig, sy'n cael ei wrthod.

*Gwrthodwyd cynnig NDM5906 fel y'i diwygiwyd: O blaid 24, Yn erbyn 24, Ymatal 0.*

*Motion NDM5906 as amended not agreed: For 24, Against 24, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5906 fel y'i diwygiwyd](#)

[Result of the vote on motion NDM5906 as amended](#)

17:50 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Will those leaving the Chamber please do so quickly and quietly? A wnaiff y rhai sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel os gwelwch yn dda?

17:50 **8. Dadl Fer: Cynllun Dychwelyd Blaendal ar gyfer Cynwysyddion Diodydd: Mae'n Amser i Ystyried y Syniad Hwn Unwaith Eto** Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
**8. Short Debate: A Deposit-return Scheme for Drinks Containers: An Idea Whose Time Has Come... Again**  
**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Item 8 is the short debate, and I call on William Powell to speak on the motion he has chosen. Eitem 8 yw'r ddadl fer, a galwaf ar William Powell i siarad ar y cynnig y mae wedi ei ddewis.

17:50 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Diolch, Ddirprwy Lywydd. We've had a few opportunities in recent weeks to discuss the merits of introducing a deposit-return scheme here in Wales, and I'm very pleased to have this opportunity to sponsor the debate this afternoon to discuss the issue in some more detail. I also look forward to contributions from Julie Morgan and Llyr Huws Gruffydd later in the debate. Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rydym wedi cael ambell gyfle yn ystod yr wythnosau diwethaf i drafod rhinweddau cyflwyno cynllun dychwelyd blaendal yma yng Nghymru, ac rwy'n falch iawn o'r cyfle hwn i gyflwyno'r ddadl y prynhawn yma i drafod y mater mewn ychydig mwy o fanylder. Rwyf hefyd yn edrych ymlaen at gyfraniadau gan Julie Morgan a Llyr Huws Gruffydd yn nes ymlaen yn y ddadl.

I know that there are some potential barriers and resistance here, and I hope also to discuss some of these later in the context of a potential pilot scheme. For the record, I think it would be useful just to say that deposit-return schemes, which used to operate in Wales until the 1980s, and which are in operation in many other countries, are systems that see customers pay a small cash deposit when they buy a drink in a can or a bottle, or in single-use cups and drinks cartons, and get the money back when they return the item to a collection point. Also helpful is the Organisation for Economic Co-operation and Development definition of a deposit-return scheme, which is, and I quote:

'the surcharge on the price of potentially polluting products. When pollution is avoided by returning the products or their residuals, a refund of the surcharge is granted'.

I was actually hoping to bring in a 1970s Corona bottle to invoke a little bit of nostalgia in the Minister and others present, but unfortunately it seems that these are now a rare collectors' artefact, which command a commensurate price on eBay, so I failed in that regard.

Gwn fod rhai rhwystrau posibl a gwrthwynebiad yma, ac rwyf hefyd yn gobeithio trafod rhai o'r rhain yn nes ymlaen yng nghyd-destun cynllun peilot posibl. Ar gyfer y cofnod, rwy'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol dweud bod cynlluniau dychwelyd blaendal, a arferai fod yn weithredol yng Nghymru tan y 1980au, ac sydd ar waith mewn llawer o wledydd eraill, yn systemau sy'n galw ar gwsmeriaid i dalu blaendal bach mewn arian parod pan fyddant yn prynu diod mewn can neu botel, neu mewn cwpanau untro a chartonau diod, a chael yr arian yn ôl pan fyddant yn dychwelyd yr eitem i'r pwynt casglu. Mae diffiniad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd o gynllun dychwelyd blaendal yn ddefnyddiol hefyd, ac rwy'n dyfynnu:

'the surcharge on the price of potentially polluting products. When pollution is avoided by returning the products or their residuals, a refund of the surcharge is granted'.

Mewn gwirionedd roeddwn yn gobeithio dod â photel Corona o'r 1970au i mewn i gymell ychydig bach o hiraeth yn y Gweinidog ac eraill sy'n bresennol, ond yn anffodus mae'n ymddangos bod y rhain bellach yn arteffactau casgliadau pethau prin, sy'n denu prisiau cymesur â'u prinder ar eBay, felly fe fethais yn hynny o beth.



I believe that the case for introducing a deposit-return scheme in Wales is a strong one, and there are a number of reasons for this, one of the main ones being that there is a widespread evidence base that legislating for deposit-return schemes, or DRS, leads to an increase in recycling rates and reduces litter. Twenty per cent of the litter found on Welsh beaches is made up of drinks bottles and containers, and studies suggest that DRS could dramatically reduce this. Litter is unsightly, causes risks to the health and safety of communities, and harms our environment. Any approaches towards tackling the issue are worth serious consideration. Countries with advanced economies, such as Germany, the United States of America and southern Australia are amongst those that have introduced DRS, seeing measurable reductions in litter, including marine litter.

None of us is in any doubt that recycling rates in Wales are at an all-time high, and Welsh Government and local authorities deserve the credit that's associated with that. They must continue to improve. However, litter remains a persistent issue in our communities, and I am sure that all Members in this Chamber will have dealt with litter-related casework in recent times. A survey conducted as part of research commissioned by Keep Wales Tidy looked into the perceived impact and extent of litter problems amongst the Welsh public, and they found that cans and bottles were identified by up to 68 per cent of respondents as key contributors to litter problems here in Wales. This was second only to fast food-related litter, which included single-use cups. Furthermore, the Have we got the bottle? campaign conducted a cost-benefit analysis and a logistics model of a potential UK-wide deposit scheme, which concluded that, and I quote:

'even with the additional costs incurred in the running of the DRS, there is a high likelihood of a significant net benefit to society. The influence of the reduction in disamenity associated with litter appears to be particularly strong'.

There are lobby groups from the drinks industry, including the Industry Council for Research on Packaging and the Environment, or INCPEN for short, which argue that deposit-return schemes divert material from kerbside collections and prove costly for local authorities, thereby having a detrimental effect on recycling rates. However, environmental groups, many of them here in Wales, have argued that this view does not consider the increasing problem of litter generated from food and drink on the go, and that it's also something that fails to recognise that, in other countries, such as Germany, deposit-return schemes actually complement existing kerbside recycling operations.

Also, representatives of the steel industry urge us not to rush headlong into a DRS scheme without giving full consideration to potential unintended impacts on their own sector. This is important, too. All the more reason, I would argue, for a properly resourced pilot scheme to bottom out these important issues and concerns.

Credaf fod yr achos dros gyflwyno cynllun dychwelyd blaendal yng Nghymru yn un cryf. Mae yna nifer o resymau am hyn, ac un o'r prif rai yw bod yna sylfaen dystiolaeth eang fod deddfu ar gynlluniau dychwelyd blaendal (DRS) yn arwain at gynnydd yn y cyfraddau ailgylchu ac yn lleihau sbwriel. Mae 20 y cant o'r sbwriel a ganfuwyd ar draethau Cymru yn cynnwys poteli a chynwysyddion diod, ac mae astudiaethau yn awgrymu y gallai cynllun dychwelyd blaendal leihau hyn yn sylweddol. Mae sbwriel yn hyll, yn achosi risgiau i iechyd a diogelwch cymunedau, ac yn niweidio ein hamgylchedd. Mae'n werth rhoi ystyriaeth ddifrifol i unrhyw ddulliau i fynd i'r afael â'r broblem. Mae gwledydd gydag economïau datblygedig, megis yr Almaen, Unol Daleithiau America a de Awstralia ymhlith y rhai sydd wedi cyflwyno cynlluniau dychwelyd blaendal, gan arwain at leihad y gellir ei fesur mewn sbwriel, gan gynnwys sbwriel morol.

Nid oes yr un ohonom yn amau fod cyfraddau ailgylchu yng Nghymru yn uwch nag erioed, ac mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn haeddu'r clod sy'n gysylltiedig â hynny. Mae'n rhaid iddynt barhau i wella. Fodd bynnag, mae sbwriel yn parhau i fod yn broblem gyson yn ein cymunedau, ac rwy'n siŵr y bydd pob Aelod yn y Siambr hon wedi ymdrin ag achosion sy'n gysylltiedig â sbwriel yn y cyfnod diweddar. Edrychodd arolwg a gynhaliwyd yn rhan o ymchwil a gomisiynwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus ar effaith dybiedig a graddau'r problemau sbwriel ymysg y cyhoedd yng Nghymru, a gwelsant fod hyd at 68 y cant o'r ymatebwyr wedi nodi bod caniau a photeli yn cyfrannu'n allweddol i broblemau sbwriel yma yng Nghymru, yn ail yn unig i sbwriel sy'n gysylltiedig â bwyd brys, a oedd yn cynnwys cwpanau untro. Ar ben hynny, cynhaliodd yr ymgyrch Have we got the bottle? ddadansoddiad cost a budd a model logisteg o gynllun blaendal posibl ar draws y DU, a daeth i'r casgliad, ac rwy'n dyfynnu:

'even with the additional costs incurred in the running of the DRS, there is a high likelihood of a significant net benefit to society. The influence of the reduction in disamenity associated with litter appears to be particularly strong'.

Mae yna grwpiau lobio o'r diwydiant diodydd, gan gynnwys Cyngor y Diwydiant ar gyfer Ymchwil ar Becynnu a'r Amgylchedd, neu INCPEN yn fyr, sy'n dadlau bod cynlluniau dychwelyd blaendal yn dargyfeirio deunydd o gasgliadau gwastraff o ddrws i ddrws ac yn gostus i awdurdodau lleol, a thrwy hynny'n cael effaith andwyol ar gyfraddau ailgylchu. Fodd bynnag, mae grwpiau amgylcheddol, a llawer ohonynt yma yng Nghymru, wedi dadlau nad yw'r farn hon yn ystyried y broblem gynyddol o sbwriel a gynhyrchir o fwyd a diod brys, a'i fod hefyd yn rhywbeth sy'n methu â chydabod bod cynlluniau blaendal mewn gwledydd eraill, megis yr Almaen, mewn gwirionedd yn ategu gweithgaredd ailgylchu o ddrws i ddrws sydd eisoes yn bodoli.

Hefyd, mae cynrychiolwyr y diwydiant dur yn ein hannog i beidio â rhuthro nerth ein pennau i gynllun dychwelyd blaendal heb roi ystyriaeth lawn i effeithiau anfwriadol posibl ar eu sector eu hunain. Mae hyn yn bwysig, hefyd. Byddwn yn dadlau ei fod yn fwy o reswm byth dros gael cynllun peilot gyda'r adnoddau priodol i fynd i wraidd y materion a'r pryderon pwysig hyn.

Turning to the circular economy, the deposit-return scheme also fits well into the European Commission's circular economy strategy, which has seen the launching of 'Closing the loop', an EU action plan for the circular economy, which aims to transform Europe into a more resource-efficient economy. I'm in no doubt that we're going to see a growing prominence in narratives across Europe about the benefits of moving to such an economy.

The Ellen MacArthur Foundation, which was established with the aim of accelerating the transition to a circular economy, describes such an economy in the following way: that it

'is restorative and regenerative by design, and...aims to keep products, components and materials at their highest utility and value at all times, distinguishing between technical and biological cycles.'

The Marine Conservation Society argues that litter signifies our failure to achieve a circular economy, and maintains that there should be an emphasis on reducing waste, cradle-to-cradle design, including designing for repair and reuse, and a reduction in single-use packaging. They further argue that if no action is taken, the environmental, social and economic impacts of the increasing amounts of litter will continue relentlessly to increase.

Given the work currently being done at an EU level, it seems appropriate for Wales to state its intention to follow this route, which not only has the potential to reduce impacts on the environment, but also to save resources and to create green jobs.

Turning now to behavioural change, DRS also provides the opportunity for real and lasting behavioural change towards waste and single-use packaging. Just as the charges for carrier bags have seen in Wales a changing attitude towards single-use carrier bags and changes in behaviour in terms of a shift towards using bags for life, and thus reducing litter, so, too, could the introduction of the DRS shift attitudes to single-use drink containers.

In the same way, it's my belief that there are strong arguments in favour of directing proceeds for plastic bag charges towards environmental causes as a way of reinforcing the link between reducing plastic bag litter on the one hand, and benefiting the environment on the other. I also think the same link could be achieved through a DRS system. Moreover, by placing a monetary value on something, it follows that it's less likely to end up on the ground or in landfill. I don't know if any of you have been to a festival recently where there is a deposit scheme on plastic pint cups, but people are often very happy indeed to spend their afternoon litter-picking when there's a financial reward at stake. I know that's the model adopted in the Green Man Festival at Crickhowell that was name-checked earlier today.

Gan droi at yr economi gylchol, mae'r cynllun dychwelyd blaendal hefyd yn cydweddu'n dda â strategaeth economi gylchol y Comisiwn Ewropeaidd, sydd wedi arwain at lansio 'Cau'r ddolen', cynllun gweithredu'r UE ar gyfer yr economi gylchol, sy'n anelu at drawsnewid Ewrop yn economi fwy effeithlon o ran ei defnydd o adnoddau. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth ein bod yn mynd i weld amlygrwydd cynyddol yn y naratif ledled Ewrop i fanteision symud i economi o'r fath.

Mae Sefydliad Ellen MacArthur, a sefydlwyd gyda'r bwriad o gyflymu'r newid i economi gylchol, yn disgrifio economi o'r fath yn y ffordd ganlynol:

'[it] is restorative and regenerative by design, and...aims to keep products, components and materials at their highest utility and value at all times, distinguishing between technical and biological cycles.'

Mae'r Gymdeithas Cadwraeth Forol yn dadlau bod sbwriel yn arwydd o'n methiant i sicrhau economi gylchol, ac mae'n honni y dylai fod pwyslais ar leihau gwastraff, dylunio o'r crud i'r crud, gan gynnwys dylunio ar gyfer atgyweirio ac aildefnyddio, a gostyngiad mewn pecynnu untro. Maent yn dadlau ymhellach, os na roddir unrhyw gamau ar waith, bydd effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y graddau cynyddol o sbwriel yn parhau i gynyddu'n ddi-baid.

O ystyried y gwaith a wneir ar hyn o bryd ar lefel yr UE, mae'n ymddangos yn briodol i Gymru ddatgan ei bwriad i ddilyn y llwybr hwn, sydd â'r potensial nid yn unig i leihau effeithiau ar yr amgylchedd, ond hefyd i arbed adnoddau a chreu swyddi gwyrdd.

Gan droi yn awr at newid ymddygiad, mae cynllun dychwelyd blaendal hefyd yn rhoi cyfle i newid ymddygiad gwirioneddol a pharhaol mewn perthynas â gwastraff a pheynnau untro. Yn union fel y mae'r taliadau am fagiau siopa wedi arwain at newid agweddau yng Nghymru tuag at fagiau siopa untro a newid ymddygiad o ran newid i ddefnyddio bagiau am oes, gan leihau sbwriel, felly hefyd gallai cyflwyno'r cynllun dychwelyd blaendal newid agweddau tuag at gynwysyddion diod untro.

Yn yr un modd, credaf fod dadleuon cryf o blaid cyfeirio enillion o daliadau bagiau plastig tuag at achosion amgylcheddol fel ffordd o atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng lleihau sbwriel bagiau plastig ar y naill law, a chreu budd i'r amgylchedd ar y llaw arall. Rwyf hefyd yn credu y gellid cyflawni'r un ddolen drwy system dychwelyd blaendal. Ar ben hynny, drwy osod gwerth ariannol ar rywbeth, mae'n dilyn ei fod yn llai tebygol o gael ei adael ar lawr neu fynd i safleoedd tirlenwi. Nid wyf yn gwybod a oes unrhyw un ohonoch wedi bod mewn gŵyl yn ddiweddar lle y ceir cynllun dychwelyd blaendal ar wydrau peint plastig, ond mae pobl yn aml yn hapus iawn i dreulio'r prynhawn yn casglu sbwriel pan fo gwobr ariannol yn y fantol. Rwy'n gwybod mai dyna'r model a fabwysiadwyd yng Ngŵyl y Dyn Gwyrdd yng Nghrucywel a gafodd sylw yn gynharach heddiw.

Keep Wales Tidy quite rightly states that the idea of recyclable waste as something of value is important and necessary to achieve cultural change, so as to reduce waste and to address current wasteful behaviours.

In a similar way to not seeing tackling climate change merely as an obligation, but also as an opportunity, I feel that tackling litter and investing in DRS can be interpreted as an opportunity to foster and grow the green economy, to which I've just referred. A report from Zero Waste Scotland refers to the aggregation centre in Adelaide, Australia for their deposit return scheme, which has been in place since the 1970s. Bales of the highest quality plastic bottles are collected and stored, and having witnessed this at first hand, it was felt that an established system for collecting high quality materials in this way would strengthen the business case for plastics reprocessing facilities, bringing investment and jobs, as well as quality materials recycled back into production. Equally, a report from Spain on a proposed deposit scheme suggests that as many as 14,000 jobs could be created in that country. I think it's certainly worth consideration as to what a deposit-return scheme could bring to Wales in terms of employment, and the new technological innovation that would also be employed.

Finally, in conclusion, I tabled this debate fully aware that there are a number of groups who have concerns, and there are, potentially, obstacles. As many of you know, I brought forward an amendment at Stage 2 of the Environment (Wales) Bill on behalf of my group to insert provision for DRS into this piece of legislation. And during the discussions that we had, I'm pleased to say that, in the Environment and Sustainability Committee debate, I was heartened to hear our Minister for Natural Resources say, and I quote him from the Record:

'It's something that I'm not opposed to in terms of a scheme, but it has to be a practical process and we have to understand how it would work.'

But it's precisely for that reason, Minister, that I look forward to your response today. It would be good to hear from you how you propose to take this matter forward. I know that the ongoing work in Scotland is currently being monitored, and I hope that we can have an update on that this afternoon in your response. I would also like to see a more proactive approach here in Wales. I therefore ask the Minister if he will commit to commissioning a limited pilot scheme and feasibility study so that we can look realistically at how this might work in practice. There is a strong lobbying arm within the drinks industry, and I feel it's important for us to remain open-minded on this matter and for detailed, independent research to be carried out. There may be some barriers to the initial implementation of a scheme, but the potential benefits of having a deposit return scheme up and running are too great and far-reaching for the Welsh Government to ignore. It is indeed an idea whose time has come again. Diolch yn fawr.

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn datgan yn gwbl briodol fod y syniad o wastraff ailgylchadwy fel rhywbeth o werth yn bwysig ac yn angenrheidiol i gyflawni newid diwylliannol, er mwyn lleihau gwastraff a mynd i'r afael ag ymddygiad gwastraffus ar hyn o bryd.

Mewn ffordd sy'n debyg i beidio â gweld gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd fel rhwymedigaeth yn unig, ond hefyd fel cyfle, rwy'n teimlo y gellid dehongli mynd i'r afael â sbwriel a buddsoddi mewn cynllun dychwelyd blaendal fel cyfle i feithrin a thyfu'r economi werdd rwyf newydd gyfeirio ati. Mae adroddiad gan Zero Waste Scotland yn cyfeirio at y ganolfan cydgasglu yn Adelaide, Awstralia a'u cynllun dychwelyd blaendal, sydd wedi bod ar waith ers y 1970au. Caiff mydylau o boteli plastig o'r ansawdd gorau eu casglu a'u storio, ac ar ôl tystio'n uniongyrchol i hyn, y teimlad oedd y byddai sefydlu system ar gyfer casglu deunyddiau o'r ansawdd gorau yn y ffordd hon yn cryfhau'r achos busnes dros gael cyfleusterau ailbroseu plastig, gan ddenu buddsoddiad a chreu swyddi, yn ogystal ag ailgylchu deunyddiau o ansawdd yn ôl i gynhyrchiant. Yn yr un modd, mae adroddiad o Sbaen ar gynllun dychwelyd blaendal arfaethedig yn awgrymu y gellid creu cymaint â 14,000 o swyddi yn y wlad honno. Rwy'n credu ei bod yn sicr yn werth ystyried yr hyn y gallai cynllun dychwelyd blaendal ei gynni i Gymru o ran cyflogaeth, a'r arloesedd technolegol newydd a fyddai'n cael ei ddefnyddio hefyd.

Yn olaf, i gloi, cyflwynais y ddadl hon yn gwbl ymwybodol fod yna nifer o grwpiau sydd â phryderon, a rhwystrau o bosibl. Fel y gwyr llawer ohonoch, cyflwynais welliant yng Nghyfnod 2 o Fil yr Amgylchedd (Cymru) ar ran fy ngrŵp i fewnosod darpariaeth ar gyfer cynllun dychwelyd blaendal yn y ddeddfwriaeth hon. Ac yn ystod y trafodaethau a gawsom, rwy'n falch o ddweud, yn nhrafodaeth y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, cefais fy nghalonogi o glywed ein Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn dweud, ac rwy'n ei ddyfynnu o'r Cofnod:

'It's something that I'm not opposed to in terms of a scheme, but it has to be a practical process and we have to understand how it would work.'

Ond am yr union reswm hwnnw, Weinidog, rwy'n edrych ymlaen at eich ymateb heddiw. Byddai'n dda clywed gennych sut y bwriadwch symud ymlaen ar y mater hwn. Gwn fod y gwaith parhaus yn yr Alban yn cael ei fonitro ar hyn o bryd, ac rwy'n gobeithio y gallwn gael y wybodaeth ddiweddaraf am hynny y prynhawn yma yn eich ymateb. Hoffwn hefyd weld ymagwedd fwy rhagweithiol yma yng Nghymru. Felly, gofynnaf i'r Gweinidog a wnaiff ymrwymo i gomisiynu cynllun peilot cyfyngedig ac astudiaeth ddichonoldeb er mwyn i ni allu edrych yn realistig ar sut y gallai hyn weithio'n ymarferol. Ceir elfen lobio gref o fewn y diwydiant diodydd, ac rwy'n teimlo ei bod yn bwysig i ni gadw meddwl agored ar y mater hwn a sicrhau bod ymchwil annibynnol manwl yn cael ei wneud. Efallai y bydd rhai rhwystrau i weithrediad cychwynnol cynllun, ond mae'r manteision posibl o gael cynllun dychwelyd blaendal ar waith yn rhy fawr a phellgyrhaeddol i Lywodraeth Cymru eu hanwybyddu. Mae'n wir yn syniad y mae ei amser wedi dod unwaith eto. Diolch yn fawr.

18:01

**Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I congratulate William Powell on bringing forward this short debate. Thank you for giving me a minute to make a few points. I want to register my support for taking this proposal forward. I know there are concerns. There are concerns about the expense, and I've been written to by different bodies who have got concerns, but, equally, environmental bodies are very strongly in support. I think that the Assembly—the Government—should set up a working party or a commission or something to look at all the evidence there is, particularly looking at international schemes that have been very successful, such as in Canada and Finland, and see if there is something that we could do in Wales to take this forward. I would support the idea of a pilot scheme to see if we could achieve that. Ultimately, I think it is more important to reuse than to recycle, but I do know that the evidence shows that if you do reuse, you also recycle more. Thank you.

Rwy'n llongyfarch William Powell ar gyflwyno'r ddatl fer hon. Diolch i chi am roi munud i mi wneud ychydig o bwntiau. Rwyf eisiau nodi fy nghefnogaeth i ddatblygu'r cynnig hwn. Rwy'n gwybod bod yna bryderon. Mae yna bryderon ynghylch y gost, ac mae gwahanol gyrrff sy'n pryderu wedi bod yn ysgrifennu ataf, ond yn yr un modd, mae cyrff amgylcheddol yn gryf iawn o'i blaid. Credaf y dylai'r Cynulliad—y Llywodraeth—sefydlu gweithgor neu gomisiwn neu rywbeth i edrych ar yr holl dystiolaeth sydd ar gael, gan edrych yn arbennig ar gynlluniau rhyngwladol sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn, megis yng Nghanaada a'r Ffindir, a gweld a oes rhywbeth y gallem ei wneud yng Nghymru i ddatblygu hyn. Byddwn yn cefnogi'r syniad o gynllun peilot i weld a allem gyflawni hynny. Yn y pen draw, rwy'n credu ei bod yn bwysicach aildefnyddio nag ailgylchu, ond rwy'n gwybod bod y dystiolaeth yn dangos, os ydych yn aildefnyddio, fe fyddwch hefyd yn ailgylchu mwy. Diolch.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

18:02

**Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Er cystal mae Cymru yn ei wneud pan mae'n dod i ailgylchu, mae'n rhaid inni gofio nad yw 50 y cant o'r poteli plastig sy'n cael eu defnyddio yng Nghymru yn cael eu hailgylchu yma, a dim ond 30 y cant o jariau a photeli gwydr ar lefel y Deyrnas Unedig sydd yn cael eu hailgylchu. Felly, mae'n glir bod yna ffordd bell gennym i fynd, ac rwy'n gweld cynllun o'r fath yn gwneud cyfraniad mawr i'r perwyl hwnnw. Mae'r adroddiad diweddar gan Ddyfodol Diwastraff yr Alban wedi dangos, o'r 27,000 o dunelli o wastraff sy'n cael eu cynhyrchu yn yr Alban bob blwyddyn, mi fyddai tua 5,000 tunnell o hwnnw yn gallu dod o dan gynllun o'r fath, a fyddai'n golygu bod yna botensial i hyd at 90 y cant o hwnnw i gael ei ailgylchu. Felly, er ein bod ni i gyd, rwy'n siŵr, yn awyddus i weld Cymru yn symud i'r lefel nesaf, o safbwynt mynd i'r afael â chryfhau'r ffigurau ailgylchu, nid oes gennyf amheuaeth fod cynllun dychweled blaendal o'r fath yn gallu bod yn rhan o'r ateb hwnnw. Fe fyddwn i hefyd eisiau diolch i'r Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru am ddod â'r ddatl yma i'r Cynulliad y prynhawn yma, ond rwyf hefyd yn awyddus i glywed yn glir gan y Llywodraeth eu bod nhw hefyd yn derbyn bod yr amser wedi dod nawr inni symud ar hyn.

Despite Wales's positive performance in recycling, we must bear in mind that 50 per cent of the plastic bottles that are used in Wales are not recycled, and only 30 per cent of jars and glass bottles at a UK level are recycled. Therefore, it is clear that there is a long way to go, and I see a scheme such as this one making a very positive contribution to that end. A recent report by Zero Waste Scotland shows that, of the 27,000 tonnes of waste produced in Scotland annually, some 5,000 tonnes of that could be captured under such a scheme, which would mean that there's a potential for up to 90 per cent of that to be recycled. Therefore, while we are all eager to see Wales move to the next level, in terms of getting to grips with and strengthening our recycling figures, I have no doubt that a deposit-return scheme such as this one could be part of that solution. I would also like to thank the Member for Mid and West Wales for bringing this debate forward in the Assembly today, but I am also eager to hear clearly from the Government that they also accept that the time has now come for us to move on this.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

18:03

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

And the Minister for Natural Resources to reply, Carl Sargeant.

A'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol i ateb, Carl Sargeant.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

18:03

**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I thank the Members for their contributions. I welcome this short debate on the DRS as it gives me the opportunity to share with you the results on how far Wales has come, and how well it is performing in terms of the local environmental quality of recycling.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau. Rwy'n croesawu'r ddatl fer hon ar y cynllun dychwelyd blaendal gan ei bod yn rhoi cyfle i mi rannu canlyniadau ar ba mor bell y mae Cymru wedi dod, a pha mor dda y mae'n perfformio o ran ansawdd amgylcheddol ailgylchu lleol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Many of you are probably aware already that, in Wales, we are leading the way in the highest reuse, recycling and composting rate in the UK home nations, and we're the fourth highest amongst European member states. There may be a few amongst us here who today can recall the recycling landscape back in 2001, when less than 10 per cent of waste collected by local authorities was recycled. That's increased to just over 56 per cent this year. I believe, and I hope that you'll agree, that these are impressive results that are largely due to the success of Wales's evidence-based waste strategy towards zero waste and supporting sector plans. It's also down to the hard work and determination of our local authorities, which provide comprehensive recycling and composting services for our communities, and we must not forget that the success is also down to the people of Wales who do their bit and participate in recycling.

We have as Ministers a duty to practice good stewardship of public money, and to this end we must both be prudent and mindful so as not to duplicate the efforts of others to gather evidence on DRS. That's why I've made a commitment for my officials to engage with their counterparts in Scotland, and we must examine carefully the evidence as it emerges, so we can find ways in which Wales may seek innovative approaches to decreasing litter and increasing recycling.

Whilst I appreciate there are some issues in some of our communities, we must also remember that there have been many improvements, too. A good example can be found in this year's Keep Wales Tidy report into the local environment quality in Wales. The 2014 management report in particular makes reference to an initiative undertaken by local authorities to reduce litter, which has resulted in 96.5 per cent of Wales's streets having reached an acceptable level of cleanliness, compared with 95 per cent in 2012-13. We are certainly moving in the right direction.

It's important to note that these efforts most certainly deliver results that align to the goals set out in the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, and, more specifically, 'a prosperous Wales' and 'a Wales of cohesive communities'. When considering the impacts of litter—more specifically, drinks containers—it's tempting to hark back to the days of our youth when we got sixpence back on our bottles of pop, Bill, but life has moved on. It's also tempting to say—[Interruption.] It's also tempting to say that where DRS works in other countries that it would—[Interruption.] Maybe I should say a half a shilling; I'm not quite sure, Presiding Officer, what the right term was at that time, Bill.

Yn ôl pob tebyg, bydd llawer ohonoch yn gwybod eisoes ein bod, yng Nghymru, yn arwain y ffordd gyda'r gyfradd uchaf o aildddefnyddio, ailgylchu a chompostio ymhlith y gwledydd cartref yn y DU, ac rydym yn bedwerydd uchaf ymysg aelod-wladwriaethau Ewrop. Efallai mai ychydig yn ein plith yma heddiw sy'n cofio'r dirwedd ailgylchu yn ôl yn 2001, pan oedd llai na 10 y cant o'r gwastraff a gesglid gan awdurdodau lleol yn cael ei ailgylchu. Mae hynny wedi codi i ychydig dros 56 y cant eleni. Rwy'n credu, ac rwy'n gobeithio y byddwch yn cytuno, fod y rhain yn ganlyniadau trawiadol sy'n deillio'n bennaf o lwyddiant strategaeth wastraff Cymru sy'n seiliedig ar dystiolaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff a chynlluniau sector i'w chefnogi. Mae'n deillio hefyd o waith caled a phenderfyniad ein hawdurdodau lleol, sy'n darparu gwasanaethau ailgylchu a chompostio cynhwysfawr ar ran ein cymunedau, a rhaid i ni beidio ag anghofio bod y llwyddiant hefyd i'w briodoli i bobl Cymru sy'n gwneud eu rhan ac yn bwrw iddi i ailgylchu.

Fel Gweinidogion mae'n ddyletswydd arnom i arfer stiwardiaeth dda ar arian cyhoeddus, ac i'r perwyl hwn mae'n rhaid i ni fod yn ddarvoudus ac yn wylidwrus nad ydym yn dyblygu ymdrechion gan eraill i gasglu tystiolaeth ar y cynllun dychwelyd blaendal. Dyna pam rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod fy swyddogion yn ymgysylltu â'u cymheiriaid yn yr Alban, a rhaid i ni edrych yn ofalus ar y dystiolaeth wrth iddi ymddangos, er mwyn i ni ddod o hyd i ffyrdd y gall Cymru edrych ar ddulliau arloesol o leihau sbwriel a chynyddu cyfraddau ailgylchu.

Er fy mod yn gwerthfawrogi fod problemau yn rhai o'n cymunedau, rhaid i ni gofio hefyd y bu llawer o welliannau hefyd. Un enghraifft dda yw adroddiad Cadwch Gymru'n Daclus eleni ar ansawdd yr amgylchedd lleol yng Nghymru. Mae adroddiad rheoli 2014 yn arbennig yn cyfeirio at fenter gan awdurdodau lleol i leihau sbwriel sydd wedi arwain at sicrhau bod 96.5 y cant o strydoedd Cymru wedi cyrraedd lefel dderbyniol o lanweithdra, o'i gymharu â 95 y cant yn 2012-13. Rydym yn sicr yn anelu i'r cyfeiriad cywir.

Mae'n bwysig nodi bod yr ymdrechion hyn yn bendant yn sicrhau canlyniadau sy'n cyd-fynd â'r nodau a amlinellir yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac yn fwy penodol, â'r nod o sicrhau 'Cymru lewyrchus' a 'Chymru o gymunedau cydynol'. Wrth ystyried effeithiau sbwriel—yn fwy penodol, cynwysyddion diodydd—mae'n demtasiwn i fynd yn ôl i ddyddiau ein hieuenctid pan oeddem yn cael chwe cheiniog yn ôl ar ein poteli pop, Bill, ond mae bywyd wedi symud yn ei flaen. Mae hefyd yn demtasiwn i ddweud—[Torri ar draws.] Mae hefyd yn demtasiwn i ddweud lle y mae'r cynllun dychwelyd blaendal yn gweithio mewn gwledydd eraill y byddai'n—[Torri ar draws.] Efallai y dylwn ddweud hanner swllt; nid wyf yn hollol siŵr, Lywydd, beth oedd y term cywir ar yr adeg honno, Bill.

It's also tempting to say about DRS working in other countries and that it would work here in Wales, but we have to find and work out a solution that best suits our business needs, our consumers and our communities, and we will need to work together to understand these issues. We'll need to work together to understand the pros and cons of the proposed interventions, and ensure that no unintended consequences result in changes or a shift in recycling and reuse, as opposed to additionality.

The whole issue for me, and the Member was right to raise that, in committee, I did say that I'm not opposed to the scheme in principle. There are many reasons why there are positive effects that we believe could add value, but as I said, I'm very keen to understand the full impacts of such a scheme and what that may look like working with our partners moving forward.

I have asked my team to look at some more evaluation programmes to see whether there are opportunities to introduce pilot schemes in Wales, but I will keep Members informed as I know that this forms a regular debate in this Chamber. I'm very grateful for the opportunity just to highlight the successes that we are still achieving, and I'll continue to keep Members informed. Thank you.

Mae hefyd yn demtasiwn i ddweud am gynlluniau dychwelyd blaendal sy'n gweithio mewn gwledydd eraill, y byddai'n gweithio yma yng Nghymru, ond mae'n rhaid dod o hyd i ateb sy'n gweddu orau i'n hanghenion busnes, ein defnyddwyr a'n cymunedau, a bydd angen i ni weithio gyda'n gilydd i ddeall y materion hyn. Bydd angen i ni weithio gyda'n gilydd i ddeall manteision ac anfanteision yr ymyriadau arfaethedig, a sicrhau nad oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn arwain at newid yn y patrymau ailgylchu ac aildefnyddio, yn hytrach nag ychwanegu atynt.

Mae'r holl fater i mi, ac roedd yr Aelod yn iawn i grybwyll fy mod wedi dweud yn y pwyllgor nad wyf yn gwrthwynebu'r cynllun mewn egwyddor. Mae yna nifer o resymau pam y mae yna effeithiau cadarnhaol y credwn y gallent ychwanegu gwerth, ond fel y dywedais, rwy'n awyddus iawn i ddeall effeithiau llawn cynllun o'r fath a sut beth fyddai wrth weithio gyda'n partneriaid yn y dyfodol.

Rwyf wedi gofyn i fy nhîm edrych ar fwy o'r rhaglenni gwerthuso i weld a geir cyfleoedd i gyflwyno cynlluniau peilot yng Nghymru, ond byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau gan fy mod yn gwybod bod hon yn ddadl reolaidd yn y Siambr hon. Rwy'n ddiolchgar iawn am y cyfle i dynnu sylw at y llwyddiannau rydym yn dal i'w cyflawni, a byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau. Diolch.

18:08

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Minister. That bring today's proceedings to a close. Thank you.

Diolch yn fawr iawn, Weinidog. Dyna ddiwedd y trafodion am heddiw. Diolch.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:08.*

*The meeting ended at 18:08.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)